To linger, *or* loiter, *v a.* Aros, ymaros; cyngydio, llercian, sefyllian, diogi, godechial, didach, bod yn hwyrfrydig, *Gen.* xix. 16. bod yn segur, 2 *Pedr* ii. 3. bod ar gyngyd (ei gyngor.)

To linger in [of] *a distemper*, Nychu o (gan) glefyd; hîr-nychu, bod yn hir-glaf.

To linger after. See to Hanker after.

Lingerer, *s.* Cyngydiwr, sefyllwr, didachwr, godechwr, llercwr, llercyn, diogyn, oedwr, gohiriwr.

Lingering, *part.* Yn (gan, dan) oedi, ¶ afrys. ¶ *A lingering distemper* or *disease*, Nych, hir-nych, nychdod, hîr glefyd. *A lingering death*, Angau nychlyd (hîr-boenus, an-nyfrys, hwyrfrydig;) nŷch-ddihenydd.

To die a lingering death, Marw o hîr-nych (o nychdod.) *To put one to a lingering death*, Nŷch-ddihenyddu.

A lingering. *See* a Delaying.

Lingeringly, *ad.* Yn gyngydiol, dan sefyllian (lercian, ddiogi, &c.) yn hwyrfrydig, yn afrys, chwŷn na chwŷn.

Linget, *s.* [a bird so called] Penloyn, y benloyn, y lleian, aderyn pen-ddu, gwallt-ddu.

Lingot, *or* linguet. *See* Ingot.

Lingo, *s.* [a cant word for *language*.] *See* Language *and* Gibberish.

Linguist, *s.* [one skilled in languages] Ieithydd, un hyddysg (hyfedr) mewn ieithoedd.

Ling-wort [rather lung-wort.] *See* Angelica.

Liniment, *s.* [ointment] Ennaint, iraid, eli, *vulgo* wylment.

Lining, *s.* [of a garment] Dwbl, y dwbl, tenllif, tenlli, gwrth-lain, gwrth-we.

Link, *s.* [a torch made of pitch and hards] Canwyll bŷg, mâth ar ganwyll a wneir o bŷg a charth.

Link-boy, *or* link-man, *s.* Dygiawdr canwyll bŷg (golew-râff;) golewnwr, goleuydd.

Link, *or* chitterling, *s.* [a sort of sausage] Selsigen o hych-gig.

Link of a chain, Torch (dolen, rhwy) cadwyn *neu* fŷg.

To link, *or* link together, *v. a.* Cydio (cyssylltu) dolen yn-nolen *neu* dorch yn-nhorch, rhwyo

Digitized by Google

ynghyd, cyd-rwyo; ¶ cyssylltu ynghŷd, cŷdgyssylltu, *&c.*

To link, *or* be linked, together, *v. n.* Bod ddolen yn-nolen (dorch yn-nhorch, dorch yndorch, *vulgò* dorch un-dorch, ¶ gengl ynghengl: ¶ bod ynghysswllt (ynghwpl, ynghwplws, ynghyfrwym.)

To link together in friendship, in affinity, *&c.*] Cyssylltu (ymgyssylltu) mewn cyfeillach, mewn cyfathrach.

Linked together, Cydiedig (cyssylltiedig) ddolen yn-nolen, *neu* dorch yn-nhorch, cyd-rwyedig.

A linking. *See* Conjunction, *and* Connexion.

Linnet, *s.* [a bird so called] Llinos (*i. e.* (llinëos,) llinosen, aderyn y llin, melynog.

Linseed, *s.* Llinhad, hâd llin. ***Linseed oil,*** Olew, llinhad.

Linsy-woolsy, *or* **linsey-woolsey,** *s.* [a sort of mongrel-stuff made of linen and wool] Tenlli, gwe o lin a gwlân, cymmysg-we: ¶ cymmysgllyd.

Linstock *or rather* **lintstock,** *s.* [for firing cannon] Tân-ffon, *sef* ffon, wrth ben yr hon y rhwymir y cordyn tanllyd, *neu* 'r etewyn, â pha un y tenir gwnn rhyfel.

Lint, *s.* [for dressing of wounds] Nâdd (*pl.* naddion) lliain, lliain nâdd, lliein-rhwd, ¶ nâdd.

Lintel of a door, &c. [the head-piece over a door] Capan (cappan, cap, y trawst uch ben) drws, *Amos* ix. 1. hiniog (rhiniog) uchaf drws, gwarddrws, cap-ddarn (gwar-ddarn, *vulgo* llintarn) drws *neu* ffenestr.

¶ **Lintel,** *s.* [to fire great guns with] Cordyn (rheffyn) a thân yn ei ben i danu gynnau rhyfel.

Lint-stock. *See* Linstock.

Lion, *s.* Llew. ¶ ***The lion is not half so fierce as he is painted*** [Prov.] Nid cymmaint Bleddyn â'i drwst.

Lioncel, lionel, lionnel, a young lion, *or* a lion's whelp, Llew ieuangc, cenaw (cenaw) llew, llewyn.

Lioness, *or* a she-lion, *s.* Llewes.

Lion-hearted, *a.* Ag iddo (a'r y mae iddo, a chanddo) galon llew: ¶ dewr, gwŷch, &c.

Lionish, *a.* Llewaidd. *See* Leonine.

Lion-like, *a.* Llew-eilun, llew-eilyn, llewelyn. ¶ ***He slew two lion-like men of Moab,*** Efe a laddodd ddau o gedyrn Moab, 2 *Sam.* xxiii. 20.

Lip, *s.* Gwefus, gwëus, min; gwefl (a *blubber-lip.*) ¶ ***A little-lip,*** Minws. ***The beard on the upper lip,*** Trawsawch, trawsych.

The lip of a beast, Gwefl (*pl.* gweflau,) *Esay* xxxvii. 29.

Lip-salve, *s.* Eli gwefusau.

A dash on the lips or ***chaps,*** ¶ Gweflod.

To dash one on the lips or ***chaps,*** Rhoi gweflod i un, gweflodio un.

To hang the lip, Llaesu gwefl.

Hanging [that hangs] ***the lip,*** or ***that has a hanging lip,*** Gwefl lippa, gwefl-laes, llaes ei wefl.

Hare-lip, *s.* Gwefus (gwefl) adwyog.

Lip-labour, *s.* Gwefus-boen, llafur y gwefusau.

Large-lipped, gréat-lipped, blúbber-lipped, *or* having large [great, &c.] lips, Gweflog, gwefl-fawr, gwefl-dew, gwefl-lippa, gwefusog, gwefusfawr, ¶ cyrriog: ymylog.

Lips, *s.* Gwefusau; gweflau. ¶ ***The lips of a wound,*** Ymylau (gweflau) gweli *neu* archoll.

¶ ***To move the lips in imitation of speaking*** or ***as if one did speak,*** Minial.

Without [void of] ***lips,*** Di-wefus, di-wëus, di-wefl; di-ymyl; heb wefusau iddo.

Lipóthymous, *a.* [fainting, swooning] Llewygus, llesmeiriol. *See* Fainting.

Lipóthymy, *s.* [a swooning away] Llewyg, llesmair, gloes, bâs.

Lippitude. *See* Blear-eyedness.

Lip-wisdom, *s.* [i. e. wisdom consisting in words only, without a corresponding practice] Doethineb gwefusau, *sef yw hynny,* doethineb yn y genau *neu* 'r ymadrodd yn unig heb fuchedd ac ymarweddiad cyfattebol.

Liquation. *See* Liquefaction.

To liquate, *v. n.* [melt, *or* turn into liquor] Toddi, ymdoddi.

Liquefaction, *s.* [a melting, *&c.*] Toddiad.

Liquefiable, *a.* [that may be melted] Toddadwy; hydawdd, hawdd (a ellir) ei doddi.

To liquefy, *v. a.* [melt, *or* make liquid,] Toddi, dattod, dadmer, dadlaith.

To liquefy, *v. a.* melt, *or* become liquid] Toddi, ymdoddi, dattod, dadlaith, *&c.* *See* to Dissolve, *or* be dissolved.

Liquefied, *a. part.* Toddedig, a doddwyd *neu* a doddodd, wedi toddi *neu* wedi ei doddi.

Liquefency. *See* Liquefaction, *&c.*

Liquid, *a.* [applied to substances *or* bodies that are in a dissolved, fluid, *or* melted state] Llynnawl, llynnol, llynnaidd, gwlŷb, teneuwlŷb; toddedig, tawdd, toddaid; hylaib; llaith: têr: pûr, gloyw, teneu-glaer; hylif.

Liquid, *a.* [applied to *sound,* soft, not harsh] Tawdd-ber, llyfn-ber, claer-ber, croyw-ber, ¶ lleddy (*quære.*)

To grow liquid, Llynneiddio, myned yn llynnaidd; toddi, ymdoddi.

To make liquid. *See* to Liquefy.

Liquid, *s.* [any fluid body] Llynn, ¶ gwlŷb, peth hylif (hylaib.)

To liquidate, *or* make liquid, *v. a.* Toddi, peri llynneiddio, peri (gwneuthur) yn deneu-wlyb *neu* 'n hylif. ¶ ***To liquidate*** [clear away, *or* pay off] *a debt,* Toddi (talu) dyled; lleihâu dyled (dylèd,) dlêd. ***To liquidate*** a bill, &c. [in *Commerce,* make current *or* payable] Peri (gwneuthur) yn gymmeradwy *neu* 'n dderbyniol, peri yn ddyladwy, cymmeradwyo.

Liquidness, *or* liquidity, *s.* Llynnolrwydd, llynneiddrwydd.

Liquids, *s.* [drinkables, *or* things to drink] Llynnoedd, lleithion, pethau hylaib (hylif.)

¶ **Liquids,** *s.* [in *Grammar,* the consonants *l, m, n, r,* and *s,* according to some] Toddiaid (*sing.* toddiad,) toddyddion, llythyrennau tawdd (toddedig,) tawdd-lythyrennau, tawdd-lythyr, toddedigion.

To liquify. *See* to Liquefy.

Liquor, *s.* [any thing liquid; but *more particularly* applied to some liquid of an inebriating quality] Llynn, llyn; ¶ lleithder, *Can. Sal.* vii. 2. merolaeth, gwlŷb, gwlybwr, meddwlyn. ¶ mèdd, gwin, cwrw, dïod, gwirod, gwirawd-lyn. ¶ ***Thou shalt not delay to offer the first—of thy liquors,*** Nac oeda dalu'r cyntaf—o'th bethau gwlybion, *Ecc.* xx. 29.

¶ **Liquor,** *or* broth. *See* Broth.

Digitized by Google

Full of liquor. *See* Drunk : *and* Juicy.
Without liquor, Di-lynn.
¶ Tanner's [currier's] liquor, *s.* Cyffaith.
Good liquor, *s.* ¶ Cwrw da, diod dda.
To liquor, *v. a.* [moisten with, *or* steep in, liquor] Gwlychu, rhoi yngwlŷch, sicclo, gwlybhâu, mwydo, trochi, &c. iro, seimio, cyffeithio (barcio) crwyn.
Liquored, *a.* Gwlychedig : cyffeithiedig.
Liquorice, *s.* Pêr-wraidd, &c. *See* Licorish.
Liricon-fancy, *s.* [the lily of the vallies] Lili 'r dyffrynnoedd.
To lisp, *v. n.* Dywedyd yn floesg. ¶ *She lisps*, Mae bloesgi arni. *She lisps a little*, Mae peth bloesgi arni ; *neu*, Mae arni beth bloesgi.
A lisp. *See* a Lisping.
Lisper, *or* a lisping person, *s.* Un (dyn) bloesg, bloesgyn.
Lisping, *part.* [that lisps] Bloesg, â bloesgi arno.
¶ *To grow lisping*, Bloesgi, myned yn floesg.
A lisping, *s.* Bloesgedd, bloesgi, bloesgni.
Lispingly, *ad.* Yn floesg ; dan floesgi. *To speak lispingly*, Dywedyd yn floesg : bloesgi.
List, *s.* [of cloth] Eirionyn, ymyl ; llain.
List, *or* catalogue. *See* Catalogue.
List, *s.* [will *or* desire] Ewyllys, chwant, dymuniad, dihewyd, &c. ¶ mynn, mynnu.
¶ List, *s. pl.* lists, [an enclosed plot of ground, where tilts are run, combats fought, &c.] Ymdrechfa, ymorchestfa ; ymornestfa, cadfa, midlan, ymladdle : ¶ argae, chwareule. *To enter the lists with* [against] *one*, Myned i'r ymdrechfa gyd ag (yn erbyn) un ; ymgystadlu ag un, &c. ¶ *From the lists to the goal*, O'r gyehwynfa i ben yr yrfa ; *neu*, ¶ O'r dechreu i'r diwedd.
To list, [will, be disposed *or* inclined] Mynnu, *Mat.* xvii. 12. ewyllysio, chwennychu. *The wind bloweth where it listeth*, Y mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno, *Jo.* iii. 8.
To list *or* enlist, *v. a.* [enter persons into the list of] soldiers, Cof-restru (llythyru) milwŷr, ysgrifennu enwau rhai (rhoi enwau rhai i lawr) ynghôf-restr y milwŷr ; ¶ codi (cwnnu) gwŷr.
To list one's self among, [into the Society of] Rhoi (ysgrifennu) ei enw ym mhlith, gosod (cyfrif, bwrw) ei hun ym mhlith, myned yn un o, cymdeithasu â, &c.
To list, *or* listen, *v. a.* Gwrandaw, *Esay* xlix. 1. gwrando.
List ! *interj. See* Hark !
¶ Listed, *a.* [striped, *or* streaky] Rhengog.
¶ Listener [in the night.] *See* Eaves-dropper.
Listener, *s.* Gwrandäwr, &c.
Listening, *part.* Yn gwrando, gan (dan) wrando ; gwrandawgar.
A listening, *s.* Gwrandawiad, &c.
Listless, *a.* Anhawntus, dihawnt, di-awch, &c.
Listlessly, *ad.* Yn anhawntus, yn ddihawnt.
Listlessness, *s.* Anhawnt, dihawntrwydd.
Litany, *s.* [a general supplication *or* prayer] Ymbiliau cyffredinol, cyhoedd erfyniou yn addoliad Duw, *vulgo* Litani, y Litani.
Literal, *a.* [according to the letter, letter for letter] Llythyrennol, llythyren am lythyren ; ¶ gair am gair. *The literal sense of an expression*, Ystyr llythyrennol (llythyrennol ystyr) gair *neu* ymadrodd.
Literally, *or* in a literal sense, Yn llythyrennol, mewn ystyr llythyrennol ; air (gair) am air ; yn ol y llythyren.
Literary, *a.* [belonging to letters *or* learning] Llëenawl, perthynol (a berthyn) i lên *neu* ddysgeidiaeth. ¶ *A person of literary fame*, Gŵr hynod (a gair mawr iddo) am ddysg a gwybodaeth.
Literate. *See* ¶ Learned.
Literáti, *s.* Y dysgedigion.
Literature. *See* Learning, *s. and* ¶ Leters.
A person [man] *of literature* or *letters*, ¶ Gŵr llên (dysgedig.)
Litharge, *s.* [the scum *or* spume of lead, in purifying] Ewyn (gorferw) arian, &c.
Lithe, Ystwyth, &c.
Lither. *See* Limber, *and* Lazy.
¶ Lither, *a.* [applied to the *air*, the *sky*, &c. permeable, thin *or* not dense, yielding, &c.] Hydraidd, hydrum ; tenau ; di-wrthrym, an-wrthrynol.
Lithontríptic, *a.* [applied to *Medicines* that are supposed to have the quality of dissolving the stone in the bladder] Tor-maenawl, da i dorri (i dreulio) y maen *neu*'r garreg yn y corph.
Lithótomist, *s.* [a cutter for the stone in the human body] Maen-drychydd, llaw-feddyg a dorro (a drycho) y maen allan o gorph dyn.
Lithótomy, *s.* [a cutting for the stone] Maen-drychiad, maen-drwch, torriad (trychiad) y maen *neu*'r garreg allan o gorph dyn.
Lithótomy, *s.* [stone-cutting ; the art of stone-cutting : a stone-cutter's work-house ; a quarry] Naddiad (torriad, ysgythriad) cerrig ; celfyddyd naddu corrig : gweithdŷ naddwr cerrig, naddle cerrig ; cleddiwig, cloddfa gerrig.
Litigant, *s.* [one engaged in a law-suit] Un a fo mewn cyfraith, *neu* yn ymgyfreithio, ynghylch rhyw beth ; ymgyfreithydd.
To litigate, *v. a.* [dispute, *or* contend for, at law] Ymgyfreithio ynghylch peth ; profi dadl mewn cyfraith (trwy gyfraith ;) ¶ dwyn i'r hawl *neu*'r holiad.
Litigation, *s.* [a contest at law] Ymgyfreithiad, ymgyfraith, prawf dadl (ymbrawf) mewn cyfraith, ymddadl : hawl, dadl.
Litigious, *a.* [fond of going to law ; quarrelsome] Cyfreithgar, chwannog i'r gyfraith, yn caru (a garo) ymgyfreithio ; tringar, ymrysongar.
A litigious person, Un (dyn) cyfreithgar ; ceccryn, cynnhennwr, dyn ymrysongar.
Litigiousness, *s.* Cyfreithgarwch ; tringarwch, ymrysongarwch.
Litter, *s.* [a carriage so called.] *See* Horse-litter.
Litter, *s.* [straw, &c. laid under beasts] Sarn, gwasarn, llaesodr, llaesod, llassodr.
Litter, *s.* [a breed of pigs, *or* of puppies] Torr-llwyth.
¶ The first litter, [of a sow] Yr ael gynta, *i. e.* y perchyll cynta i hŵch. *The last and the least pig of the litter*, Y cordydwyn, y corbedwyn.
To litter, *v. a.* [bring forth young, as *a sow*, and *a bitch*] Dwyn (bwrw) torllwyth, bwrw (dwyn) perchyll, dyfod â pherchyll ; bwrw (dwyn) cŵn, dyfod â chŵn (â chenawon.)
To litter [lay litter under] cattle, Rhoi sarn

Digitized by Google

(gwasarn) dan anfeiliaid, dodi (gosod) sarn dan, sarnu (gwasarnu) dan.

Litter, *s.* [disorder in a room] Annhrefn, annibendod, anghymmendod, anghrynodeb, sarn, &c.

To litter, *or* make a litter in, [a room, &c.] Annhrefnu, annibennu, anghymmoni, sarnu, ¶ distarnu (di-ysdarnu.) ¶ *What a litter is made about nothing!* Pa annhrefn *neu* gynnwrf a wneir (pa derfysg a gyfodir) am ddim!

Little, *a.* [small in size, not great *or* large; small in dignity] Bach, bychan (*fem.* bechan,) *Ecclus.* xi. 3. ¶ mân. *My little finger*, Fy mys bach, 1 *Bren.* xii. 10. *There is little Benjamin*, Yno y mae Benjamin fychan, *Salm* lxviii. 27. *Is it* [i. e. the city] *not a little one?* Onid bechan yw hi? *Gen.* xix. 20. *A little member*, Aelod bychan, *Iago* iii. 5. *Little of stature*, Bychan o gorpholaeth, *Luc* xix. 3. *If the household be too little for the lamb*, Os y teulu fydd ry fychan i'r oen, *Ecs.* xii. 4. *Little birds*, Adar bach (mân.) *A little seed*, Grain-enyn bychan, *Doeth.* vii. 9. *When thou wast little in thine own sight*, Pan oeddit fychan yn dy olwg dy hun, 1 *Sam.* xv. 17. *No little kindness*, Mwynelidd-dra nid bychan, *Act.* xxviii. 2. *All sacrifice is too little* [in value] *for a sweet savour unto thee*, Yr holl aberthau sydd ry fychan yn arogl peraidd i ti, *Judeth* xvi. 16. ¶ *Let not all the trouble seem little before thee that hath come upon us*, Na fydded bychan o'th fineu di yr holl flinder a ddigwyddodd i ni, *Neh.* ix. 32. ¶ *A little hill*, Bryncyn. *Little rivers*, Ffrydiau, *Ezec.* xxxi. 4.——N. B. *Little*, used to express *Diminutiveness*, is often rendered in Welsh by prefixing the particles—*go-*, *cor-*, &c. to the Substantive; *or* by subjoining the terminations—*yn*, *an*, *ig*, to the same: as, *A little valley*, Go-bant. *A little hill*, Gofron. *A little horse*, Cor-farch. *A little town* [a village] Cordref. *A little man*, Dynyn, ¶ gwr mân. *A little drop*, Defnyn. *A little woman*, Dynan; gwreigan. *A little dish*, Dysgian. *A little ship*, Llongig. *A little girl*, Genethig, genethan. ¶ *A little door*, Gorddor. *A little box*, Gorlwch (*i. e.* gor-flwch,) blychyn, blwchyn. *A very little female* or *woman*, Benbanigen, ¶ dynan fechan fach.

¶ Little, *s.* [small in quantity; not much] Ychydig, *Gen.* xxx. 30. ychwerig. *A little water*, Ychydig ddwfr, *Gen.* xviii. 4. *A little honey*, Ychydig fêl (o fêl,) *Gen.* xliii. 11. 1 *Sam.* xiv. 43. *He, that gathered a little, had no lack*, Nid oedd eisiau ar yr hwn a gasglasai ychydig, *Ecs.* xvi. 18. ¶ *Little said is soon amended*, Ni ddaeth drwg erioed o dewi.

A little, *s.* Ychydig, bychod; tippyn, tachwedd, rhynnawd, ticcyn, ¶ gronyn; peth. *A little or nothing is his rest*, Ychydig neu beth heb ddim (neu ddim) yw ei esmwythdra ef, *Eccles.* xl. 6. *Better is a purse* [poke] *with a little, than with nothing therein*, Gwell bychod ynghôd nâ chôd wâg. *Many a little maketh a mickle* [Prov.] Ychydig yn aml a wna lawer. *Give me a little of it*, Dyro i mi dippyn (dachwedd) o hono. *A little matter serveth my turn*, Ychydig beth (ychydig) a'm gwasanaetha i. *Stay a little*, Aros ronyn.

¶ *To be little*, or *but little worth*, Bod heb dalu nemmawr (ond ychydig.) *The heart of the wicked is little worth*, Calon y drygionus ni thâl ond ychydig, *Diar.* x. 20. *He counts himself little worth*, Ni thâl efe nemmawr (nid yw efe ond gwael) yn ei dŷb *neu* gyfrif ei hun.

¶ A little [*adverbially* used] Ychydig. *Having been a little chastised, they shall be greatly rewarded*, Lle y ceryddwyd hwy ychydig, hwy â gant lawer o fudd (wobr;) *Doeth.* iii. 5.

¶ A little [somewhat] Taran, t'ran, cryn, lled-, go-. *He is a little fearful*, Y mae efe yn d'ran ofnus (yn gryn ofnus, yn lled-ofnus, &c.) *neu*, ¶ Y mae arno ef gryn ofn (led-ofn; *neu*, Y mae efe yn lled-ofni. *These things are a little troublesome to me*, Y mae y pethau hyn yn o-flinderus (yn o-drallodus) i mi, *neu* yn peri i mi beth blinder.

A [by a] little, Ychydig, o ychydig. *Thou hast made him a little lower than the angels*, Gwnaethost ef ychydig is (yn is) nâ'r angylion, *Salm* viii. 5. ac *Heb.* ii. 9. *He is not a little wiser*, Y mae efe yn gallach nid o ychydig; *neu*, ¶ Y mae efe yn gallach o lawer. *He is a little too much given to the world*, Y mae efe ychydig yn rhy fydol; *neu*, Y mae efe yn rhoi ychydig ormodd o'i fwriad ar y byd. *He drinketh a little too much*, Y mae efe yn yfed ychydig fwy nag a ddylai (ychydig fwy nâ digon.)

A little one. *See* Child [an infant, &c.]

Very little [in quantity] Ychydig iawn, *Ecclus.* xxxi. 19. ychydig bach, ychydigyn, bychydig; ¶ llai nâ llawer, syrnyn. *As if that were a very little thing*, Megis pettai hynny ychydig bâch (beth bychan,) *Ezec.* xvi. 47.

Very little [in size] Bâch (bychan) iawn *neu* dros ben, bachigyn, bychanigyn, bychan (pittw) bâch, pittw, tra-bychan, sebach (ys bach.) ¶ *Because thou hast been faithful in a very little*, Am i ti fod yn ffyddlon yn y lleiaf, *Luc* xix. 17. *He taketh up the isles as a very little thing*, Fel brycheuyn y cymmer efe'r ynysoedd i fynu, *Esay* xl. 15.

Ever so little, Y tippyn (gronyn, mymryn, peth, maint, dim) lleiaf, yr ychydig lleiaf; ¶ er lleied. *If he go awry ever so little*, Os efe a wyra y tippyn lleiaf. *Be it* [though it be] *ever so little*, Er lleied fyddo (fo.)

A little [respecting *time*,] *or* a little while, Ychydig, ychydig ennyd (amser,) *Jo.* xvi. 16. ac 2 *Mac.* 6. 25. ychydig bachigyn, *Heb.* x. 37. ennyd fâch (fechan,) rhynnawd (enεyd) o amser. *They are exalted for a little*, Hwy a dyrchafwyd dros ychydig, *Job* xxiv. 24. *A little before*, Ychydig o'r blaen, *Doeth.* xiv. 20. *It is a vapour that appeareth for a little time*, Tarth ydyw, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos, *Iago* iv. 14. *It was said unto them, that they should rest yet for a little season*, Dywedwyd wrthynt ar iddynt orphwys etto ychydig amser, *Dadg.* vi. 11. *A* [for a] *little season*, Dros ychydig amser, *Dadg.* xx. 3. a 1 *Mac.* vii. 50. *A* [for a] *little space*. Dros ennyd fechan, *Act.* v. 34. ac *Ezra* ix. 8. ¶ *A* [for a] *little while*, Dros ennyd, 2 *Mac.* vii. 33. ¶ *A little time* [or *place*,] ¶ Hettys.

By little and little, O fesur ychydig ac ychydig, *Ecs.* xxiii. 30. bob ychydig, &c.

How little, Pa gyn lleied, pa faint leiaf, pa mor fychan; mor fychan! gyn leied! *How little*

Digitized by Google

is it? Pa gyn leied ydyw? *But how little a portion is heard of him!* Ond mor fychan ydyw'r peth yr ydym ni yn ei glywed am dano ef! *Job* xxvi. 14. ¶ *How little it is!* Leied yw! *For how little?* Er pa gyn leied? *How little soever*, Pa gyn leied (mor fychan) bynnag.

So little, Cyn lleied, mor fychan.

A little way, or *a little*, Ychydig ffordd (o ffordd,) encyd o ffordd, 2 *Bren.* v. 19. ¶ *It was but a little that I passed from them*, Nid aethwn i nepell (neppell) oddi wrthynt, *Can. Salom.* iii. 4.

Lacking but [within a] *little*, O fewn ychydig, heb nemmawr yn eisiau (yn niffyg.) rhy fach ond o ychydig, agos i ddigon, &c. ¶ *He lacked but* [he was within] *a little of being killed*, Prin braidd na laddwyd ef; *neu*, Ni bu ond ychydig (y dim lleiaf) rhyngddo a chael ei ladd.

Little and pretty. *See* Dapper.

The little [young] *ones of some beasts*, ¶ Llydnod (*sing.* llwdn:) cenawon, &c.

The little ones of birds, Cywion (*sing.* cyw.)

The little ones of the human species, Plant, rhai bach (bychain, ieuainge.)

¶ *Little of heart*, &c. Gwan ei galon, &c. *He that is little of heart will be little of hope*, A fo gwan ei galon fydd gwan ei obaith.

To make little, Eiddilo; bychanu, &c.

A little number [of.] *See* Few.

Little, *a.* [slender, puny] Main, eiddil. ¶ *Little men*, Gwyr mân.

Littleness, *s.* Bychander, bychanedd; ychydigrwydd; eiddilwch.

Liturgy, *s.* [a form of prayers used in public worship] Ffurf-weddiau a arfeiir ynghyhoedd wasanaeth *neu* addoliad Duw. ¶ *The liturgy*, Y gwasanaeth (gweddïau) cyffredin, y weddi gyffredin.

Live, *or* alive, *a.* Byw, â bywyd ynddo. *The live ox*, Yr ŷch byw, *Ecs.* xxi. 35. ¶ *A live coal*, Marworyn, *Esay* vi. 6.

To live, *v. n.* Byw, bod yn fyw. *He hath but a while to live*, Nid oes iddo ond ychydig amser i fyw. ¶ *Remember how short a time thou hast to live*, Cofia fyrred yw dy amser. *As* [so] *long as I live*, Tra fyddwyf byw (fyw,) ¶ tra fyddwyf, tra byddwyf (bwyf,) dros fy nyddiau, *Salm* cvi. 2. tra bo bywyd (chwyth, anadl) ynof, yn fy myw (mywyd.) *As long as* [all the days that] *ye live*, Yr holl ddyddiau y byddoch fyw, *Deut.* xxxi. 13. *Whiles* [while] *he lived*, Yn ei fywyd, *Salm* xlix. 18. *How long have I to live?* Pa faint yw dyddiau blynyddoedd fy einioes i? 2 *Sam.* xix. 34. *While I live*, Yn fy mywyd, *Salm* lxiii. 4. *He shall surely live*, Gan fyw y bydd efe (efe a fydd) byw, *Ezec.* iii. 21. *God send he live*, Rhodded Duw iddo einioes. *Would I might never live, if*--, Na bo einioes i mi, os--; *neu*, Trengi a wnelwyf, os—. *As good a man as liveth*, Cystal gŵr ac a aned; *neu*, Nid oes gwell gwr yn fyw. *Two the veriest villains that ever lived*, Dau ddihiryn o'r pennaf a'r (ag) a anwyd. *Never* [not] *while he liveth*, Nid tra fyddo (byddo) ei ddau lygad ef yn agored.

To live, *v. n.* [pass one's life with regard to conduct, &c.] Byw, *Heb.* xiii. 18. bucheddu, dwyn ei fyd, *Eccles.* ix. 9. bucheddoccâu, dwyn bywyd (ei fywyd,) bod, 2 *Pedr* ii. 6. oesi. *To live deliciously*, Bod mewn moethau, *Dadg.* xviii. 7. byw, yn foethus, *Dadg.* xviii. 9. ¶ *I have lived in all good conscience before God*, Mi a wasanaethais Dduw mewn pob cydwybod dda, *Act.* xxiii. 1.

To live, *v. n.* [in a place] Byw, aros, trigo, preswylio, &c.

To live a country-life, Byw yn wledig (yn wladaidd, fel taeog,) byw bywyd gwledig.

To live delicately, ¶ Arfer moethau, *Luc* vii. 25. byw yn foethus.

As I live, [a kind of asseveration] Fel yr wyf yn fyw, fel yr wy'i'n fyw, fel mae byw fi, *Ezec.* xxxiii. 11.—os byw wyf, od oes bywyd ynof.

To live in exile or *an outlaw*, Herwa, bod ar herw (yn wr dëol, yn fflemawr, &c.)

To live from hand to mouth, Byw o braidd, byw wrth fîn y gyllell (o'r llaw i'r genau,) cael ei lawn waith i fyw.

To live or *feed high.* *See* to feed High, *under* H.

To live by one's labour, Byw wrth ei lafur (ei waith a'i orchwyl, ¶ ei ddeg ewin, ei ddeng ewin.)

To live of [on, *or* by] Byw ar (wrth, 1 *Cor.* ix. 14.) ¶ *To live of the things of the temple*, Bwytta o'r cyssegr, 1 *Cor.* ix. 13. *See*

To live on or *upon* [subsist, be supported by, &c.] Byw ar, ymgynnal wrth, cael ei gynhaliaeth oddi wrth: ymborthi (ymbesgi) ar. ¶ *To live at rack and manger*, Cael (bod â'i) ymborth c'uwch â'i ên, cael ei wala wen.

To live together, Byw ynghyd, cyd-fyw, cyd-oesi, cyd-fucheddu, cyttal, &c.

To live [dwell] *with a person*, Cyd-fyw (cyttal, cyttŷa, bod yn gytty, &c.) ag un.

Well to live [rich, in good circumstances] Cyfoethog, ¶ clŷd, cynnes yn y byd, da ei ansawdd. ¶ *He is well to live*, Y mae efe yn wr cynnes (yn byw mewn amledd, â byd da arno.)

To live well, Byw yn dda; byw mewn amledd (digonedd;) byw yn helaethwych, bod â byd da (â byd gwr) arno.

To live up to one's income, [estate, &c.] Byw c'uwch a'i (hyd eithaf ei) foddion *neu* feddiannau.

To live up to one's profession, Byw at (yn ôl) ei broffes, byw yn ol manylaf rëolau ei broffes, cŷdymffurfio (cyd-ymagweddu) â'i broffes.

To live well [on good terms] *with one*, Cydfod (cyttuno, byw yn gyttûn *neu* 'n heddychol) ag un.

To live at what rate one list, Byw y (yn y) modd *neu* fal y mynno un ei hun, byw wrth ei ewyllys (ei feddwl, ei fympwy) ei hun.

To over-live or *out-live, one*, Byw ar ol (yn hwy nag) un, bod ar ol yn y byd.

Lóng-lived, *a.* Hir-oesog, hir-hoedlog, oesog.

Shórt-lived, *a.* Oes-fyr, byrr ei oes; di-bara.

Livelihood, *s.* [support of life: maintenance, sustenance] Bywiolaeth, bywioliaeth; cynhaliaeth, cynheiliaeth; ymborth, ¶ trwydded.

Liveliness, *s.* Bywiowgrwydd, bywiogrwydd, hawnt.

Livelong, *a.* [tedious; lasting] Maith, hir faith: hir-barhaus, &c.

Live-long, [in Botany] Orpin.

Digitized by Google

Lively, *a.* Bywiog, *Ecs.* i. 19. eidiog, &c. bywiol, *Act.* vii. 38. a 1 *Pedr* ii. 5. *A lively hope*, Gobaith bywiol, 1 *Pedr* i. 3. ¶ *Mine enemies are lively*, Y mae fy ngelynion yn fyw, *Salm* xxxviii. 19.—*A lively* [fresh] *colour*, Lliw gwrennig.

¶ *To represent in lively colours*, Darlunio i'r bywyd (yn hoyw-wych, yn glaer-wych, yn flodeuog, mewn lliwiau gwyrennig a bywiol;) gosod allan yn fywiog ac yn eglur-lawn; dwfn-baentio, dyfn-ddarlunio.

To be lively, Bod yn fywiog (yn fywiol, yn eidiog,) bod yn wrygiannus (yn wyrennig;) gwrygio.

To grow lively, Myned yn fywiog (yn eidiog; yn wyrennig,) gwrygio, gwrygiannu, ymfywhäu.

To make lively. See to Enliven.

Lively, *a.* [applied to *courage*] Gwresog-lym.

Lively, *or rather*, livelily, *ad.* Yn fywiog.

Liver, *s.* [one that liveth; a living person] Un a fo'n byw *neu*'n bucheddu, bucheddwr; dyn byw.

A bad liver, Un (dyn) drwg ei fuchedd, un drwg-fucheddol, bucheddwr drwg, drwg-fucheddwr, anfadwr, drygddyn, dihiryn, oferwr, ofer-ddyn.

A good liver, Un (dyn) da ei fuchedd *neu* fywyd, un yn arwain buchedd dda (bywyd da,) bucheddwr da, un glan-fucheddol.

The longest liver, Yr hwyaf ei einioes, a fo byw ar ol arall *neu* eraill, a fo byw hwyaf, yr hwyaf *neu*'r olaf a fo byw. *Which of them should be the longest liver*, Pa un o honynt a fyddai byw hwyaf.

¶ Liver, *s.* [a part of the body so called] Afu, au. *The liver*, Yr afu, yr au. ¶ *Worms found* sometimes *in the liver of sheep* [liver-worms] Euod.

The liver disease, [in *children*, when they are said to be *liver-clung*] Llêch, y llêch, (*pl.* llechau.)

Liver-clung *or* liver-grown, *a.* [as an ill-nursed child sometimes is] Clâf o'r llêch *neu*'r llechau, â'r llêch (llechau) arno, clâf o'r afu.

¶ *White-livered. See* Cowardly.

Livering, *s.* [a liver-pudding] Pwdingen afu.

Liver-wort, *s.* [in Botany] Llysiau'r afu, cynghlennydd (llinwydd) yr afon, y llyfanog, yr afnad, clust yr assen (asen.)

Wild liver-wort, *s.* [agrimony] Drydon, y drydon, troed (crimp) y dryw, llysiau'r dryw, cwlyn (blaen y conyn ar) y mêl, cychwlyn, y felysig, llysiau'r fuddau, tryw.

Livery, *s.* [worn by servants as a badge of servitude: clothes *or* clothing] Lifrai, gosgorddwisg, dillad gwasanaeth (ammraint,) ammraint-wisg: dillad, trwsiad, gwisg, gwisgad, dillad-wisg.

The livery [of London, &c.] *See* Livery-men, *below.*

Livery and seisin, [in the conveyance of land] Goresgyn (ar dir,) ysdyn.

To give livery and seisin. See ¶ to Invest one in, *or* with an estate (*under* I.)

A giving livery and seisin. See Investiture.

To receive livery, &c. See to Enter on *or* upon an estate.

Livery-stable, *s.* [a public stable where horses are kept at a certain rate, let out to hire when called for, &c.] March-dŷ llôg, cyflogdŷ (cyflogfa) meirch; ¶ gogowr-dŷ.

To stand at livery, [be kept at a public stable, applied to *horses*] Bod ar eu gogawr (mewn march-dŷ llôg.)

To keep horses at livery, Cadw meirch ar ei gogawr; ¶ cadw gogowrdŷ (gogorfa.)

Livery-man, *or* a livery-servant, *s.* Lifrei-wr (*pl.* lifrei-wŷr,) gŵr (gwas) lifrai *neu* mewn lifrai, gwisgedydd (un yn gwisgo) lifrai, lifrei-was.

¶ Livery-men of London, [citizens who attend in their gowns on public occasions, have the privilege of voting at the election of members to represent the city in parliament, &c.] Gynogion (breiniolion) Llundain, lifrei-wŷr.

Lives, [*s. pl.* of *life*] Bywydau; bucheddau.

Livid. *See* Black and blue.

Living, *part.* [that lives *or* is alive] Byw, yn byw, â byw (bywyd) ynddo, *Dadg.* viii. 9. bywiol. *The living* [not the dead] Y byw, y rhai byw. *See* Alive.

A living creature. See an Animal.

A little living creature, [an animalcule] Milyn.

Any man living, Neb (un dyn) byw.

A person's living, [maintenance, substance, &c.] Bywiolaeth, bywioliaeth, &c. bywyd, *Luc* viii. 43. a xv. 12. da, &c.

¶ *A living*, [i. e. a church-living] Bywioliaeth eglwysig.

A living together, Cyd-fywiolaeth, cyd-fywyd, cyd-fuchedd, cyd-ymborth, cytty, cyttŷaeth, cydteuluedd.

Livingly, *ad.* Yn fywiol.

Livre, *s.* [the French pound in money] Punt Ffrainge.

Lixivium. *See* Lie, *or rather* lye [to wash with,] and the article next to it.

Lizard, *s.* [a small creeping creature of a green colour, having four legs, and not unlike in shape to an evet *or* crocodile] Genau goeg, *neu*'n *hytrach*, prŷf bychan pedwar-troediog tebyg i'r genau goeg a mannau serennog ar ei gefn, gwedrifif, lysard, ethrychwil, bydrychwil.

Lo! *interj.* Wele, &c. ¶ *Lo here*, Wel dyma (wele dyma,) llyma. *Lo there*, Weldyna, llyna, weldaccw (wele d'accw.) *Lo above*, Weld'ucho. *Lo below*, Weld'iso.

Loach, *s.* [a small fresh water fish so called] Math ar wyniad barfog.

Load, *s.* Llwyth, baich, pwnn, &c.

To load. *See* to Burden (in its several Acceptations,) *and* to Charge [load, &c.]

To load heavily, Llwytho yn drwm, trymlwytho; ¶ gorthrymmu, &c.

To load a gun. See to Charge a gun.

To load together, Llwytho ynghyd, cyd-lwytho.

¶ Load, *or* drain. *See* Drain.

Loaded, *or* loaden. *See* Laded, &c.

Loader, *s.* Llwythwr, llwythydd.

Loadsman. *See* Guide; *and* Pilot.

Load-star, *or rather* lode-star, [the pole-star, so called from its *leading* or guiding mariners.]

Load-stone, *or* more properly lode-stone, *s.* [so called from its *leading* or guiding mariners by the needle, which, being touched with it, points towards the north] Maen ehed, ched-faen, maen tynnu, tywys-faen.

A loading, *s.* Llwyth.

Loaf, [of bread, &c.] Torth. ¶ *Half a loaf is better than no bread* [Prov.] Gwell bychod

Digitized by Google

ynghôd nâ chôd wâg.—*Loaves*, ¶ Bara, 1. *Bren* xiv. 3. *A brown* [household-] *loaf*, Torth o fara gwenith trwyddo. *A sugar-loaf*, Torth o suwgr.—*A little* [small] *loaf*, Torthan, torthig.

¶ Lóaf-sugar, *s.* Suwgr torth.

Loam, *s.* [a species of soil so called] Marl-dir, marl-bridd, pridd-glai, tywod-glai, tir cymmysg o glai a thywod: clai.

To loam, *v. a.* Cleio, rhoi clai ar.

Lóamy, *a.* Pridd-gleiog, marlaidd.

Loan, *s.* [that which is lent, *&c.*] Benthyg, echwyn.

To put out to loan, Benthygio rhoi ym menthyg.

Loath. *See* Loth.

To loath, *v. n.* [nauseate, reject with disgust] Ffieiddio, *Job* vii. 16. ac *Ezec.* xvi. 45. bod yn ffiaidd gan, *Num.* xxi. 5. alaru ('laru) ar, *Zec.* xi. 8. diflasu ar, bod yn ddiflas gan, ffinnioni, bod yn ffinion gan un beth, bod yn gas (yn atgas) gan un beth, blino ar, bod yn flin gan, *Ecs.* vii. 18. ymwrthod â pheth o wir gâs arno, *neu* gasineb atto, casau, ¶ gwrthneu.

To loath one's self, Ffieiddio ei hun, ymffieiddio, bod yn ffiaidd gan un ei hun *neu* hunan, *Ezec.* xxvi. 31. alaru ar un (arno) ei hun, *Ezec.* xx. 43.

Loathed, *a. part.* Ffieiddiedig, a ffieiddiwyd, wedi ei ffieiddio: ffiaidd, câs, atgas.

Loather, *s.* Ffieiddiwr, ffieiddydd, un a ffieiddio (a alaro ar) beth, casäwr, cashäwr,

Lóathing, *part.* [that loaths] Yn ffieiddio, yn alaru ar, yn gwrthneu (megis y gwna cylla gorllawn *neu* anhoenus) gwrthneugar, alarllyd.

A loathing, *s.* Ffieiddiad, alariad ar. ¶ *Thou wast cast out in the open field, to the loathing of thy person, in the day that thou wast born*, Ar wyneb y maes y'th daflwyd, i ffieiddio dy einioes, ar y dydd y'th aned, *Ezec.* xvi. 5.

¶ A loathing *or* nausea, [in the stomach] Tuedd (chwant) cylla i ymgyfogi *neu* i chwydu, gwrthwyneb cylla, gorwyd, gorchwyd, alar, gloesyndod, gloesyctod, ¶ gwrthneu, gwrthwynebrwydd, gwrthwyneb. *I have a loathing*, Mae gwrthneu (gorwyd, gwrthwyneb, &c.) arnaf. *It begets* [creates] *a loathing in me*, Y mae 'n peri gorwyd (gwrthwyneb, &c.) arnaf.

Lóathingly, *ad.* Yn wrthneugar, yn alarllyd.

Lóathsome, *a.* Ffiaidd, *Job* vii. 5. cas, atgas, ffieidd-gas, a bair gwrthwyneb atto. *Until it* [i. e. what you eat] *come out of your nostrils, and it be loathsome unto you*, Hyd oni ddêl allan o'ch ffroenau, a'i fod yn ffiaidd gennych, *Num.* xi. 20. *A loathsome disease*, Ffieiddglwyf, *Salm* xxxviii. 7.

Lóathsomely, *ad.* Yn ffiaidd.

Lóathsomeness, *or* loathsomness, *s.* Ffieidd-dra, ffieidd-dod, ffieiddrwydd, atgasrwydd, &c.

Lóbby, *s.* [a kind of porch *or* passage-room] Cyntedd.

Lobe, *s.* [of the lungs, of the liver &c.] Dalen (un o ddalennau) yr ysgyfaint *neu*'r afu. *The lobes of the lungs*, Dalennau yr ysgyfaint.

The lobe [tip] *of the ear*, Tippyn y glust, cwrr isa'r glust.

Lób-like, *a.* Fel burthgen.

¶ *Lob's pond*, *s.* [a prison; the stocks, &c.] Carchar; y cyffion; ¶ y ffald.

Lóbster, *s.* [a well-known shell-fish so called] Cimmwch, llamhidydd, llegest, locust y môr.

Lób-worm, *s.* [a sort of worm used as a bait in trout fishing] Amwydyn (abwydyn) y brithyll.

Lócal, *a.* [relating to place, &c.] Lëawl, perthynol i le: cyflëol; ¶ sefydlog, diymmod.

Locálity, *s.* Lëolrwydd, llëolder, llëoldeb; llëawl gynnyrcholder; llëawl hanfod.

Lócally, *ad.* [with respect to place] Yn llëawl; mewn perthynas i le; o ran lle.

Locátion, *s.* [the act of placing; *also*, the state of being placed] Llehad, llëad, cyflëad, gosodiad (mewn lle,) sefydliad; sefyllfa.

¶ Location, *s.* [a letting out to hire] Llogiad, rhoddiad (gosodiad) yn llôg, gosodiad allan.

Loch, *or* lake. *See* Lake.

Loch, loche, *or* lohoch, *s.* [in *medicine*, a composition used in diseases of the lungs] Cyflaith, meddyginiaeth hylaib.

Lock, *s.* [for a door, drawers, *&c.*] Clo. *A little lock*, Cloïg, cloïgyn. *To be under lock and key*, Bod dan glo (dan glo ac allwydd.)

To lock *v. a.* [a door, *&c.*] Cloi. *To lock in*, Cloi i mewn. *To lock out*, Cloi allan. *To lock up*, Cloi ar, cloi i mewn, rhoi (dodi) dan glo.

To lock one out of doors, Cloi un allan.

To lock in one's arms. See to Embrace, *&c.*

To lock, *or* grasp. *See* to Grasp.

¶ *To lock up*, [close, *&c.*] Cloi; pengloi.

A pád-lock, *s.* Clo egwyd, clo cramp, clo dibyn.

A pick-lock, *s.* [false key] Gau-agoriad, gau-allwydd, ffals-agoriad.

Lóck-smith, *s.* Gof cloion.

Lock, *s.* [in a river] Argae; dyfr-ddiart.

A lock of hair, of wool, &c. Cudyn o wallt, o wlân, *&c.*—dylofyn o wlân.

The lock of a gun, Clo dryll (gwnn saethu.)

Lócked, *a. part.* Cloiedig, *Barn.* iii. 24. clöedig, wedi ei gloi; ynghlo.

Lócker, *s.* [for locking up any thing in] Cloer, llogawd, llogell.

Lockers for pigeons, [a sort of pigeon-holes] Tyllau colomennod.

Lócket, *s.* Cae, mynygl-dlws, *&c.*

Lóckram, *s.* [a sort of course linen-cloth] Math ar liain garw, brasliain.

Lócust, *s.* [an insect so called] Locust, lindys yr ŷd, pry'r gwellt, ¶ celliog rhedyn, *Joel* i. 4.

Loco-motion, *s.* [the power, *also* the action, of changing place] Gallu i ymsymmud o le i le: ymsymmudiad o le i le.

Lóco-motive, *a.* [changing place: having the power of moving from one place to another] A newidio (a fo'n newid) ei le, ¶ a fo rhyw iddo newid ei le; a ddichon (a eill, ag idd o *neu* â chanddo allu i) ymsymmud o le i le.

Lóde-manage, *s.* [a pilot's salary] Cyflog llywydd llong.

Lóde-ship, *s.* [a sort of fishing-vessel] Math ar long bysgotta.

Lódes-man, *s.* [a pilot] Llywydd llong, tywysydd llong i'r porthladd.

Lodge, *s.* [a house in a park *or* forest belonging to the keeper] Parc-dy, fforest-dy, tŷ (hetty) parcwr *neu* fforestwr.

¶ Lodge, *s.* [any small house *or* habitation] Lluest, hetty, *Esay*, i. 8. lluesty, hafodty, tŷ ynghanol gwlad. ¶ *A porter's lodge*, Porth-or-dy, tŷ'r porth, ¶ cynnhor-dy.

The lodge of a stag, &c. Gorweddfa (gorweddle, gwâl) carw.

To lodge, *v. a.* [abide for a night, &c. *or* take up one's lodging, in a place] Llettŷa, *Gen.*

Digitized by Google

xxiv. 23. llettŷu, *Eccles.* xlv. 24. llettyfu, llettéu, lletteua, *Ecclus.* xxix. 21. cymmeryd lletty (ei letty,) trigo, *Barn.* xix. 9. aros tros nôs, 2 *Sam.* xvii. 8. aros, *Ecclus.* xiv. 26. ¶ cysgu, 1 *Mac.* xi. 6. nythu, 1 *Mat.* xiii. 32.

To lodge, *v. n.* [give lodging to, *or* supply with lodgings] Llettŷa, *Act.* xxviii. 7. a'r x. 23. llettŷu, &c. rhoi lletty i, derbyn i dŷ (i letty, i lettŷa.)

To lodge, *v. n.* [as an army] Gwersyllu, llwestu, pebylliaw, ¶ eistedd i lawr, eistedd.

¶ To lodge [as a stag, &c.] *See* ¶ to Harbour.

To lodge with a person, Llettŷa gŷd ag un, *Tobit.* vi. 10. gwneuthur (cymmeryd) ei letty gŷd ag un.

To lodge one's self, Ymlettŷa, gwneuthur ei letty (ei sefyllfa:) ymsefydlu, ymlynu.

To lodge, *v. n.* [as a stick in a tree] Glynu (yn,) aros, trigo, gorphwys, nidro; llorio.

To lodge corn, &c. *See* to Lay along, *and* to Lay the corn [as the winds and the rain do,] *both under* L.

To lodge [any thing] *in the hands of one, in some place to be kept.* *See* to Deposit, in its 2*nd.* 3*rd.* and 5*th.* Acceptations.

Lódged, *a. part.* Llettŷedig, a lettŷwyd, wedi ei lettŷa: a roddwyd (wedi ei roddi) ynghadw. ¶ *If she have lodged strangers*, Os bu letteugar, 1 *Tim.* v. 10.

To be lodged [vested] *in one*, Bod ym meddiant (yn nwylaw, yn aros gŷd ag) un. ¶ *The supreme power is lodged in the king*, Y brenhin biau'r uchafiaeth *neu*'r oruch-lywodraeth.

¶ *To be lodged in* or *with one*, [be in one's power] Bod yngallu (ar law) un.

¶ *Well lodged*, Mewn lletty da. *Ill lodged*, Mewn lletty drwg.

Lódgement, *or* lodgment, *s.* [where things lodge, stick, settle, &c.] Sefydliad; lle y glŷn (ysaif, yr erys, y trîg, y gorphwys, y casgl, yr ymgasgl) pethau; casgliad, casgl, ymgasgl.

Lodgement, *s.* [a place to stand gained at a siege] Gorsaf, sefyllfa, lle i sefyll.

Lodgement, *or* encampment. *See* Encampment.

Lódger, *s.* [that lives in lodgings] Llettŷwr, gwestai. *A woman lodger*, Llettŷ-wraig, gwestai.

A lodging, *s.* [a place to lodge in] Llettŷ, *Eccles.* xiv. 25. llettyfa, gwest, gwestfa; gwestle, gwelyfan. ¶ *Lodgings*, Lletty (*pl.* llettai, letteiau,) gwesti, gwestlëoedd.

A lodging *or* dwelling. *See* a Dwelling, dwelling-house, &c.

Lódging-house, *s.* Llettyfa, gwest-dŷ, gwest.

Lodging-place, *s.* Lletty, *Jer.* ix. 2. llettyfa.

A night's lodging, Lle (lletty) noswaith, lle (lletty) dros nôs.

A common lodging-place. *See* Inn.

To take one to lodging, Cymmeryd (derbyn) un i lettŷa, *Barn.* ix. 15.

To take up one's lodging, Llettŷa, *Esay* x. 29.

Lódging-room. *See* bed-Chamber, *under* C.

Lodgings, *s.* Lletty, 2 *Bren.* xix. 23. *See under* a Lodging, *above.*

Wanting [without, *or* that hath no] *lodgings*, Di-letty.

Loft, *s.* [an upper floor of a building] Llofft, *Act.* xx. 9. buttr; taflod; 'stafell, 1 *Bren.* xvii 19 ystafell.

Cock-loft, *and* Corn-loft. *See under* C. *See also* Garret; *and* Granary.

Háy-loft. *See under* H.

To loft. *See* to Board [floor, &c.]

Lóftily, *ad.* Yn uchel, &c. (*See* Lofty.)—*To speak loftily*, Dywedyd yn uchel, *Salm* lxx. 8. *To carry it loftily* or *with a high hand.* *See under* C.

Lóftiness, *s.* Uchder, *Jer.* xl. 29. uchelder, *Esay* ii. 17. uchedd; balchder, &c. *See* Height, Highness, Haughtiness, &c.

Lófty, *a.* [high] Uchel, bann, bannog: dyrchafedig.

Lofty, *a.* [prond, &c.] Balch, uchel, pen-uchel. ¶ *He has a lofty mind*, Y mae efe yn uchel ei fryd (ei feddwl.) *The lofty looks of man shall be humbled*, Uchel-drem dyn a iseli, *Esay* ii. 11.

Lofty, *a.* [pompous, stately] Mawr-wŷch, mawreddus, mawreddog, mawryddig, uchel, uchelwŷch: ¶ chŵyddedig. *Lofty words*, Geiriau mawryddig (uchel-wŷch: ¶ chŵyddedig, trahaus-falch.) ¶ *A lofty style* [in writing, *or* speaking] Uchel-iaith, dull mawr-eiriog (uchel-wŷch) ar ymadrodd: dull chwyddedig ar ymadrodd. *A lofty expression*, Mawr-air, uchel-air.

¶ *The high and lofty one*, Y Goruchel a'r dyrchafedig, *Esay* lvii. 15.

Lófty-minded. *See* High-minded.

To grow lofty, Myned yn uchel (yn falch, yn uchel-falch,) balchïo, ymfalchïo, ymddyrchafu.

Log, *s.* [of wood] Cŷff, boncyff, pill, cippyll; cyffyn, ysgyren.

Log, *s.* [a measure of capacity among the Hebrews, containing somewhat above a pint] Log, *Lef.* xiv. 10.

Log, *s.* [in *Navigation*, a small triangular piece of wood to which the *log*-line is fastened] Pill (cyfrif bill) y mor-wr *neu* 'r llongwr.

Lóg-line, *s.* [the line fastened to the *log*, and distinguished by knots at the distance of about 42 feet from each other, whereby the Navigator makes an estimate of the ship's way] Llinyn y cyfrif-bill.

Lógarithms, *s.* [a series of numbers in arithmetical progression that correspond to others proceeding in geometrical progression, whereby tedious *multiplications* and *divisions* are expeditiously performed by *addition* and *substraction*] Rhifedd (rhifedi) dirprwyawl; dirprwy-rifyddiaeth.—¶ *Logarithmetic*, or *logarithmetical* [of, *or* belonging to, the *Logarithms*] Perthynol (yn perthyn, a berthyn) i Ddirprwy-rifyddeg. ¶ *Logarithmetical Arithmetic*, Rhifyddeg ddirprwyawl, dirprwy-rifyddeg.

Lóggerhead, *s.* Hurthgen. ¶ *To fall* [go] *to loggerheads*, Myned ben-ben. *To be at logger-heads with one*, Bod ben-ynghâd ag un.

Lógger-headed. *See* Block-headed.

Lógic, *s.* [the art of reasoning] Rhesymmeg, rhesymmegyddiaeth, dadlyddiaeth.—*To chop logic.* *See under* C.

Logical, *s.* Rhesymmegawl, rhesymmegaidd.

Lógically, *ad.* [according to the rules of *Logic*] Yn rhesymmegawl, yn rhesymmegaidd, yn ol rhëolau Rhesymmeg.

Logician, *s.* [one skilled in *Logic*] Rhesymmegwr, rhesymmegydd, un hyfedr (hyddysg,

Digitized by Google

cynail, celfydd) mewn Rhesymmegyddiaeth *neu* mewn dadlyddiaeth; ¶ rhesymmwr, rhesymmydd, ymresymmydd.

Lógist. *See* Arithmetician; Computer, *and* Accomptant.

Logistics, *or* logistical arithmetic, *s.* [the Arithmetic of sexagesimal fractions, &c.] Rhifyddeg (tonn-rifyddeg) dri-ugeiniol *neu* dri'geiniol.

Lóg-wood, *s.* [a sort of wood imported from the Bay of Campeachy in the West-Indies, used in dying *purple*, *blue*, and *black*] Math ar bren a arferir gan y lliwyddion i liwio porffor-llw.

Loin, *s.* Llwyn, lwyn. *Loins*, Llwynau, lwynau, llwyfennau, llyfennau, llyfenau, llefenau; ¶ arennau, *Ezec.* xxix. 7.

To lóiter. *See* to Linger *or* loiter.

A lóiterer, *or* loitering fellow. *See* Lagger, Lingerer, &c.

Lóitering. *See* Lingering.

A loitering. *See* Delay, a Delaying, a Lagging behind, &c.

To loll, *v. n.* [lean listlessly *or* lazily against any thing] Lled-orwedd gan anhawnt *neu* ddiogi, ymddiboeni o ddiogi, ymddiogi; bwrw ei led-bwys ar, dïog-orwedd ar, bwrw ei hŷd ar. ¶ *To loll upon*, or *in*, *one's bed*, Tordain (ymdordain) ar, *neu* yn, ei wely.

To loll [hang] *out the tongue*, Ystyn (crogi) ei dafod allan.

Lóllards, *s.* [a religious sect so called from one *Lollard*, the leader of a sect in Germany in the 13*th* Century; which name was also given, by way of derision, to *Wickliffe* and his followers, in the reign of K. *Edward* III. and the succeeding reigns] Lòlardiaid.

Lóllardy, *or* Lóllery, *s.* [the doctrine of *Wickliffe* so called in derision, being accounted *heresy* in those days] Athrawiaeth *Wickliff* a alwyd felly o ddirmyg a dïystyrwch; Lolardiaeth.

London, *s.* [the Metropolis of Great Britain, the boast of the British dominions, the favourite mart of Europe, and the rendezvous of the mercantile world: sufficiently ancient to excite the curiosity, and engage the attention of the Antiquary; being a place of great opulence, famous for the resort of merchants from all parts in *Nero's* time, as appears from *Tacitus's* Annals, and, if the British History deserve any credit, long before.] Llundain, Caer Llundain.—N. B. London has long exercised the skill of the antiquarian Critics to find its etymology; and it must hurt the competent judge in these studies, to observe how many a learned person has been racking his invention, and lavishing talents, to find out the etymon and derivation of the word; while, through want of proper advertence to the British original, or want of acquaintance with the genius of the ancient British language, ingenuity serves only for the foundation of air-built castles or legendary fictions. Among the multiplicity of derivations that have been given, the most plausible seem to be these; viz. *Llong-ddin* (according to *Camden*) i. e. The city of ships; from *Llong*---a ship, and *Din*---a city; implying it to be---a maritime and commercial city.—*Llwyn-ddin* (according to Dr. *Gale*) i. e. A city in a grove; from *Llwyn*---a grove, and *Din*---a city; implying it to have been originally surrounded with woods, as the cities or towns of the Ancient Britons generally were, and as history informs us London in particular was even in later times.—*Llan Ddïan* (according to *Selden*,) i. e. The temple of Diana; from *Llan*) *metonymically* used for)---a temple; and *Dian*---the goddess Diana, the tutelary deity of the place; for that Diana had a temple, and was peculiarly worshipped here, is a point wherein the Antiquaries of our days seem to be universally agreed; and the cogent arguments that have produced this concurrence in opinion, may be seen in *Gibson's* 2nd edition of *Camden's Britannia*, in *Gale's* edition of *Antonine's Itinerary*, *&c.*---*Llawnddyn* (according to *Somner*,) i. e. full of men; from *Llawn*---full, and *Dyn* a man; implying that the place, when it received the name, was well peopled. These etymologies appeared so unsatisfactory to the no less ingenious than industrious author of the *New History of London*, that he adopted none of them; and despairing of any better success in the investigation, he dismissed the subject with this remark---that "original appellations are seldom transmitted down from rude ages, without being so much corrupted, as to render their etymology very uncertain, if not totally inexplicable."—Having thus (I hope, candidly represented the opinions and conjectures of others, I beg leave to submit to the consideration of such as are properly qualified to judge in these matters, what I have long conceived to be the true derivation of the term London, as being deduced without any violence or distortion from the original, and still unaltered, word in British; i. e. *Llundain*, or *Caer Llundain* (according to the historian *Nennius* in his Catalogue of ancient British cities,) which is, being translated, *The city of* [under the influence and tutelage of, *or* devoted to] *Diana*.—In order to explain this, I must observe, that *Llun-ed* was one of the names of Diana among the ancient Britons, the root of which is *Llûn* (in Latin *Luna*) the moon, still in use among us, as may be observed in *Dydd Llûn* (Monday;) and it is well known that *Luna* and *Diana* were one and the same Divinity, according to the Mythology of the ancient Heathens. And what proves (to me, at least,) that *Llun-ed* was the Diana of the ancient Britons, is—that our Bards both ancient and modern, when they would extol a woman for her chastity, style their heroine—*Ail* [a second] *Luned*. Of the numberless instances that might be produced to this purpose, take the following specimen, extracted out of an Elegy written several centuries since, upon the death of a lady of celebrated virtue:

"*Och o'r golled am ail Luned cm oleuni.*"

Rendered in *English*, somewhat paraphrastically:

Our second *Dian's* orb is set,
Alas! to shine no more.

I shall, in the next place, make a few remarks upon the adjective termination—*ain*, in order to shew its force and importance in

Digitized by Google

At one's own motion, O bono ei hun, heb neb yn ei gymmell, o'i naturioeth ei hun.
At another's motion or *instigation*, Drwy annogaeth (annogiad, &c.) un arall.
The motion [march] *of an army*, Teithiau (symmudiadau) byddin.
To [make a] motion, [in Parliament] *v. a.* Gosod peth ger bron (cynnyg peth) i'w ystyried, gwneuthur gosod (cynnyg.) *I have a motion to make to you*, Mae gennyf beth i'w osod ger eich bron (i'w gynnyg i'ch ystyriaeth.)
Mótioner, *s.* Gosodydd ger bron, cynnygydd.
Mótionless, *a.* Digyffro, disymmud, &c.
Mótive, *a.* [that causes motion; &c.] Cynnhyrfgar, cynnhyrfedigol, a bair symmud neu gyffro; a symmudo; a gynnhyrfo.
Motive, *s.* [that which incites to action, the reason that induces one to do a thing, &c.] Cyffroad, cynnhyrfiad, &c. cymmhelliad; gyrrydd, ymmedydd; ¶ egwyddor. ¶ *What was your motive for doing so?* Beth a'ch cyffredd (a'ch cynnhyrfodd) i wneuthur felly? *He had no other motives for this enterprise, than those of humanity*, Nid oedd ganddo i'w annog i ymosod ar hyn o orchwyl namyn hynawsedd a natur dda.
Motley, *a.* [of various, *or* mixt, colours] Amliw (aml-liw,) amryliw, cymmysgliw, mwtlai.
Motto, *s.* [an allusive sentence added to a device, *or* prefixed to any writing] Arwydd-air, arwydd-wers, testun-air, cyfeir-air, cyfeirwers.
To move, *v. a.* [put out of one place into another] Symmud, symmudo, mudo, ymmod.
To move, *v. n.* [put in motion, stir, shake] Cyffroi, cynnhyrfu; ysgwyd, ysgydwyd; siglo, symlo.
To move, *or* disturb, *v. a.* Aflonyddu, &c.
To move, *or* instigate, *v. a.* Annog, *Jos.* xv. 18. a *Job* ii. 3.
To move, [stir up, rouse: &c.] *See* to Excite.
To move to anger, Cyffroi (cynnhyrfu) i ddigofaint, ennyn llid (dig, &c.) un.
To move [affect] *one. See* to Affect [touch, move, &c.] one.
To move the affections. See under Affections.
To move one's compassion, Cyffroi tosturi un, cyffroi peri tosturi yn un.
To move [one] *to pity*, Annog i drugaredd, peri trugarhau (tosturio) wrth un. *See* the preceding Article.
To move [to] *sedition*, Codi (cyfodi, peri) terfysg.
To move, *or* cause. *See* to Cause [incite, &c.]
To move one to jealousy, Gyrru eiddigedd ar un, *Deut.* xxxii. 21.
To move, *v. a.* [one's tongue, one's lips, &c.] Symmud, *Jos.* x. 21. a *Diar.* xvi. 30.
To move, *v. a.* [put into commotion] Cyffroi, *Ruth* i. 19. cynnhyrfu, *Mat.* xxi. 10. terfysgu,
¶ *To move often* [very fast] *up and down* or *to and fro*, Gwringhellu, gwringellu. *Move* [play] *not thy fingers in talking*, Na wringhella dy fysedd wrth ymddiddan.
To move [one's self, or itself,] *or* be moved, Symmudo, symmud, ymysgwyd, *Jer.* iv. 24. —sylfyd, sylfyd, ysgogi.
To move, *v. a.* [be moving, in motion, *or* not at rest] Chwyfio (*vulgò* chwimio, *mewn rhai mannau* chwimlo,) chwyfan, cychwyfan.
To move, *or* be moved, [be put into motion *or* commotion] Cyffroi, ymgyffroi, cynnhyrfu, ymgynnhyrfu, *Diar.* xxiii. 31.—terfysgu.
To move, *v. a.* [go from one place to another, change places] Symmud, symmudo, mudo.
¶ *Move forward*, Dos yn mlaen (rhagot.)
To move house, [remove, *or* change one's abode] Mudo, symmud.
To move to, Symmud (mudo) at, gosod wrth,
¶ gosod yn, *Deut.* xxiii. 25.
To move, *v. n.* [propose, &c.] Gosod ger bron, cynnyg i'w ystyried, &c.
Móveable, *a.* Symmudadwy, a ellir (aller) ei symmud, hyfud, hydreigl; symmudawl *Moveable-feasts*, Gwylian symmudol.
Moveable goods, *or* moveables, Dâ cyffro (cyfodedyn.)
Móveableness, *s.* Ansawdd symmudadwy peth, hyfudedd, hydreigledd, symmudolrwydd.
Móved, *a.* Symmudedig, a symmudwyd, wedi ei symmud: cyffröedig.
To be moved to pity or *compassion*, [with pity *or* compassion] Tosturio, 2 *Mac.* iv. 37.
To be moved with indignation, anger, choler, &c. [be moved *or* provoked to anger] Sorri, *Mat.* xx. 24. digio, bod yn ddig, bod wedi ei gyffröi (yn gyffröedig) gan ddigofaint, ¶ bod yn chwerw, *Dan.* viii. 7.
Easily, [easy to be] *moved to anger*, Hyddig.
Not to be moved. See Immoveable.
Móvement, *s.* Symmudiad; cyffröad, &c.
Movements of a watch, &c. Tröell-waith (troellau, chwyf-rannau) oriawr neu orllais.
A movement-maker, *s.* Tröellwr, tröellydd.
Móver, *s.* Symmudwr, symmudydd; ymsymmudwr, ymsymmudydd: cyffröwr, cyffröydd.
¶ *We have found this man a pestilent fellow, and a mover of sedition*—, Ni a gawsom y gwr hwn yn bla, ac yn cyfodi terfysg—, *Act.* xxiv. 1.
Móving, *part.* Yn (gan, dan) symmud; yn ymsymmud.
¶ Moving, [pathetic.] *See* Affecting.
A moving thing or *creature*, Ymsymmudydd, *Gen.* ix. 3. ¶ ymsymmudiad (*pl.* ymsymmudiaid.

Digitized by Google

A moving reason, Rheswm bywiog (deffröus, cyffröus.)

A móving, *s.* Symmudiad, *Doeth.* ii. 2. ymsymmudiad, &c.—cyffröad, cynnhyrfiad.

Mould, *s.* Pridd.

Mould, *s.* [a form wherein any thing is cast] Mold, cynllun.

¶ *Mould of the head*, Iâd; cysswllt y iâd.

To mould, *v. a.* Moldio cynllunio; llunio, &c.

To mould bread, [make dough into the shape of a loaf] Moldio (*vulgo* boldio) bara, moldio torth, tylino (tylunio *neu* dylunio) bara, dylunio torth (torthau,) tylino (llunio ffurfio) ar wedd torth *neu* deisen; hel (hela, gyrru) bara *neu* dorthau.

Mould, *or* mouldiness, *s.* [of stale bread] Llwydedd, llwydni, egrwydd.

To mould, *v. n.* [grow mouldy] Llwydo, myned yn llwyd, egru.

Moúldable, *a.* Hyfold, a ellir (aller) ei foldio.

Moúlded, *a. part.* Moldiedig, a foldiwyd, wedi ei foldio.

To móulder away [turn to dust, &c.] Troi (myned) yn llŵch *neu*'n bridd, darfod, myned yn lludw; treulio ymaith, malurio.

Móuldering, *part.* Yn troi yn llwch, yn darfod, &c.—briwsionllyd, hyfriw.

Móuldiness, *s.* [of stale bread, &c.] Llwydedd, llwydni, egrwydd.

Móuldings, *s.* [in architecture] Addurn-rigolau, addurn-geuoedd; ¶ addurn-geuedd; addurn-daleithiau; addurn-gerfiadau.

Mouldy, *a.* [as stale bread] Llwyd, brithlwyd, *Jos.* ix. 5. mŵs, egr.

To moult, *or* moulter, *v. n.* [shed the feathers, as birds do once a year] Bwrw (colli) ei blu.

Mound, *s.* [a bank of earth] Clawdd, gwarr clawdd; moel-glawdd.

To mound. *See* to Cast up a bank (*under* C.) to Enclose [—: fence in:] *and* to Fortify, in its latter Acceptation.

Mount, *or* mountain, *s.* Mynydd.

Mount, *s.* [an artificial hill in a garden, &c.] Esgynfa; disgwylfa.

Mount, *or* horse-block. *See* Horse-block.

Mount, *or* mound, *s.* Clawdd, *Ezec.* xvii. 17.

To mount up [go, *or* get up] Esgyn, *&c.*

To mount up, [as a building, &c.] Codi, ymgodi, cyfodi, cwnnu, cwynnu, cywynnu; esgyn: ¶ tyfu, cynnyddu.

To mount [jump *or* spring] up, Neidio (llamu) i fynu; ysbongcio (darwein) i fynu.

To mount a horse. *See* to Get on horse-back,

To mount, *or* amount. *See* to Amount.

To mount, *v. a.* [place upon] Rhoi (gosod, dodi) ar. *To mount cannon*, Rhoi gynnau-rhyfel ar eu ceir.

To mount guard, Esgyn (myned i fynu) i'r wylfa. ¶ *He is to mount guard to day*, Y mae efe i fod ar y wylfa heddyw.

To mount a breach, Esgyn i'r adwy.

To mount, *v. a.* [raise on high.] *See* to Elevate; *and to* Lift, *or* lift up.

To mount one [place one on horse-back.] *See* to Horse one.

Mountain, *s.* Mynydd, &c.—*A high mountain*, Mynydd ban (uchel,) ban fynydd. ¶ *To make a mountain of a mole-hill*, Gwneuthur moel (mynydd) o'r malur.

A little mountain, Mynyddyn, mynydd bychan (bach.)

Mountain-[in *Composition*, of *or* belonging to a mountain] Mynyddig; mynyddawl; eiddo'r mynydd.

Mountainéer, *s.* [an inhabitant of the mountains, &c.] Dyn mynyddig (blaeneuig,) un o wyr y blaenau.

Mountainet, *s.* [a little mountain] Mynyddyn.

Mountainous, *or* mountany, *a.* [abounding in mountains, hilly, &c.] Mynyddog, mynyddig, llawn mynyddau (mynyddoedd,) brynniog; blaeneuig, ¶ fel mynydd o faint.

A mountainous country, Gwlad fynyddig (flaeneuig,) mynydd-dir, blaeneu-dir, blaenau.

Móuntebank, *s.* [a quack-doctor] Meddyg pen twyn, meddyg ûn clawdd (bôn perth,) meddyg crwydrad, crach-feddyg.

Mounted, *a. part.* A esgynnodd, wedi esgyn, &c.—ar gefn ei geffyl. ¶ *Well-mounted*, Ar wiw-farch, â cheffyl da dano. *Ill-mounted*, Ar sal-farch (gor-farch,) â cheffyl gwael (llawd) dano.

Mounted [as a horse] A gwr (ag un) ar ei gefn.

Móunter, *s.* Esgynnwr, esgynnydd, &c. dwyrëawr.

A mounting up, Esgyniad, &c.

To mourn, *v. a.* Galaru. *See* to Bewail, to Bemoan, to Deplore, to Lament, &c.

To mourn, *v. n.* [be in mourning] Bod mewn galar; bod mewn galarwisg (mewn dillad afar, *neu* yn gwisgo dillad afar.) ¶ *She mourns*, Mae hi mewn trymder (alaeth, galar, &c.) *neu*, Mae hi yn dwyn tristwch (tristyd.)

To mourn a long time, Hir-alaru, hir-gwyno, hir-gwynfan; hir-wylo.

To mourn no more, [cease to mourn] Peidio â galaru, gadael cwynfan (ei gwynfan, *fem.* ei chwynfan.)

To mourn [lament] *the death of one*, ¶ Cwyno marwolaeth un.

To mourn for one, [dead] ¶ Arwylo un, *Gen.* i. 3. *See* to Bewail.

To mourn together, Cŷdgwyno, cyd-alaru.

Mourned for. *See* Bewailed, Bemoaned, &c.

Mourner, *s.* Galarwr, galarydd, galerydd, &c. *fem.* galar-wraig. *A chief-mourner*, Pen-alerydd, pen-alarwr.

A mourner in black, Un yn gwisgo galarwisg, un mewn trwsiad afar, galarwr gwisgddu.

Móurnful, *a.* [affected with sorrow for the loss of a friend, &c.] Galarus, alaethus, wylofus, cwynfanus, griddfanus, trymdrist, trwm, trist, brwyn.

Móurnfully, *ad.* Yn alarus, &c.

Móurning, *part.* [that mourns, &c.] Yn galaru, gan (dan) alaru, galarus.

Móurning, *s.* Galariad; galarnad; galar, &c. afar, brŵn, &c.

Mourning [sorrow] *for the dead*, Galar, *Gen.* xxvii. 41. a l. 10, 11. arwyl, *Gen.* l. 4.

Móurning, *or* mourning-appárel, *s.* Galarwisg, dillad (trwsiad, gwisg) afar, arwylwisg, dillad (gwisg) arwyl, ¶ gwrwnddde.

In [clad in] *mourning*. *See* Clothed [clad] in mourning, *under* C.

To go into [put on] *mourning*, Ymwisgo mewn galarwisg (mewn arwylwisg,) rhoi dillad galar (trwsiad afar) am dano, ymwisgo â (mewn) du. *A mourning song*. *See* Dirge, in its latter Acceptation.

Mouse, *s.* Llygoden (*pl.* llygod.)

Digitized by Google

Dor-mouse, Field-mouse, Flitter-mouse, &c. *See under* D. F. &c.

A shrew-mouse, *s.* Llygoden gôch, llŷg, chwistlen, chwisti.

Mountain-mouse, *s.* Twrlla, *fem.* twrlläes.

Mouse-colour, Lliw llygoden, llyg-liw (*quære.*)

Mouse-ear, *s.* [in Botany] Y flewynnog, clust y llygoden.

Mouse-hole, *s.* Twll llygoden, *pl.* tyllau llygod.

Mouse-tail, *s.* [in Botany] Cynffon y llygoden.

To mouse, *v. n.* [catch mice] Llygotta, dâl (dala) llygod; hela (hely) llygod.

Mouser, *s.* [that catches mice] Llygottai, *vulgo* llygot-wraig, llygod-wraig: *masc.* llygottwr. *A good mouser*, Llygottai (*vulgo* llygot-wraig) dda.

Mouth, *s.* [the human, &c.] Genau, ¶ pen; safn (*sometimes by way of* contempt, dislike,) *The mouth of man*, Genau dyn. *The mouth of the Lord hath spoken it*, Genau'r Arglwydd a'i llefarodd.

Mouth, *or* jaws, *s.* [of a beast, &c.] Safn, genau; ¶ pen, *Iago* iii. 3.

¶ Mouth, *s.* [of an inanimate thing, *i. e.* of an *oven*, a *cave*, a *well*, a *sack* or *bag*, &c.] Genau. *And a great stone was upon the well's mouth*, A charreg fawr oedd ar enau'r pydew, *Gen.* xxix. 2. ¶ *And let not the pit shut her* [its] *mouth upon me*, Na chaued y pydew chwaith ei safn arnaf, *Salm* lxix. 15. *And the woman took, and spread, a covering over the well's mouth*, A'r wraig a gymmerth, ac a ledodd, glawr ar wyneb y pydew, 2 *Sam.* xvii. 19.

¶ *The mouth* [bill] *of a bird*, Gylfin, *Gen.* viii. 11.

The mouth [outlet] *of a river*, Aber afon, ¶ genau.

Mouth to mouth, Genau yngenau; wyneb yn wyneb, *Num.* xii. 8.

To live from hand to mouth, ¶ Byw wrth fin y gyllell. *See under* L.

By word of mouth, Drwy (mewn) ymadrodd, â'i enau (â'i dafod) ei hun.

¶ *The mouth of a cup, &c.* Wyneb; genau.

The mouth of the stomach, Genau'r cylla; sefnig, y sefnig.

¶ *A foul mouth*, [an abusive tongue] Tafod drwg, drwg-dafod, dryg-iaith, genau (tafod) enllibus. ¶ *A person of a foul mouth*, Un drwg-dafodiog (drwg-eiriog, mall-eirfog, &c.) *A wide-mouth*, Genau (safn) rhŵth. ¶ *Having* [that hath] *a wide mouth*, Safn-rhwth, safnog, geneu-rwth.

To make a wide mouth, [open the mouth wide, *or* gape with the mouth] Safn-rhythu, egori safn.

A wry mouth, Min cam (ar gam, gŵyr-gam,) min â thro ynddo.

To make a wry mouth, or *make mouths*. *See* to Distort the mouth (*under* D.) *and* to make Grimaces (*under* G.) ¶ *Having* [that hath] *a wry mouth*, Min gam, â'i fin ar dro *neu* ar gam, geneu gam; gen-gam: *pl.* min-geimiaid, rhai mingeimion.

To mouth, *v. a.* [turn and twist in the mouth; chew, &c.] Troi yn ol ac ym mlaen yn y genau; safnu, dysafnu; cnoi, dygnoi, mallgnoi. *To mouth one's words*, Dygnoi (mallgnoi, safnu) ei eiriau.

To mouth, *v. a.* [seize in, *or* with, the mouth] Cymmeryd yn ei safn, ymaflyd â'i safn yn mheth.

To mouth, wry the mouth, make a wry mouth, or *make mouths, at one*, Mingamnu (gŵyro min, troi ei fin, gwneuthur gylfant, ystyn gwefl) ar un; gwatwor un.

With open mouth, Yn safn-egored, â'i safn yn agored.

To pouch, or *prim up, the mouth*, Min-grynnu, crynoi (crynhâu) ei fin; min-grychu.

Mouthed, [having a mouth] Ag iddo (a chanddo) enau.

Black-mouthed, *or* foul-mouthed. *See* Foul-mouthed, *under* F.

Hard-mouthed. *See under* H.

Meal-mouthed, *See under* Meal.

Wide-mouthed, *a.* Safn-rhwth, safnog, geneurwth, â safn (genau) rhwth iddo.

Wry-mouthed, *a.* Min-gam, &c. *See* ¶ having [that hath] a wry Mouth, *above.*

Mouthful, *s.* Geneuaid, safnaid, tammaid.

A mouthing, *s.* [a surly manner of speaking with the mouth wryed *or* pushed out] Dywediad (llefariad) taeogaidd dan fingammu *neu* ystyn gwefl.

A mouthing fellow, Dyn sarrug mingamllyd (min-grychlyd.)

Mouthless, *a.* Di-enau, disafn, heb enau (safn) iddo.

¶ *In all men's mouths*, or *in every body's mouth*, Cyhoedd, rhugl, yng'enau pawb, ¶ ar (wedi myned ar) gyrn a phibau, yn (wedi myned yn) gorn cân. *It is in every body's mouth*, Mae e'n gorn cân; *neu*, Mae e wedi myned ar gyrn a phibau.

To mow hay *or* corn, *v. a.* [cut down with a sithe] Lladd gwair *neu* ŷd.

Mow, *s.* [a heap of hay *or* corn] Ysgafn (beisgawn, meisgawn, misgawn) o wair *neu* ŷd; dâs (daswrn, bera) o wair *neu* ŷd.

To mow, *v. a.* [make, *also* to put in, a mow] Ysgafnu, beisgawnu, &c.—deisio, dasyrnu, dasylu; gwneuthur ysgafn (bera, &c.)

Mowed, *a. part.* [as hay, &c.] Lladdedig (â phladur,) a laddwyd, wedi ei ladd, &c.

Mower, *s.* [that mows with a sithe] Lladdwr gwair *neu* ŷd, pladurwr.

Mower, *or* maker of mows, *s.* Bera-wr, ysgafnwr, deisiwr.

Mowing, *part.* [the act of cutting down with a sithe] Lladdiad gwair *neu* ŷd (a phladur.)

Hay-mowing season, or *mowing-season*, Amser lladd gwair, amser lladd.

Mown, *a. part.* Lladdedig, &c. *New-mown hay*, Gwair newydd-laddedig (newydd ladd, newydd ei ladd,) ¶ îr-wair.

Much, *a.* [large, in *quantity;* long in *time;* many in *number*] Llawer (o,) mawr, ¶ aml; hir, maith, hir-faith: lliosawg, lliosog, aml, llawer, ¶ lliaws, llios. *I have bought much corn*, Mi a brynais lawer o ŷd *neu* ŷd lawer. *Return with much riches unto your tents, and with very much cattle, &c.* Dychwelwch â chyfoeth mawr i'ch pebyll, ag anifeiliaid lawer iawn, &c. *Jos.* xxii. 8. *He hath much money*, Y mae efe yn aml ei arian. ¶ *Much* [a depth of] *earth*, Dyfnder daear, *Marc* iv. 5. *Much coin much care*, Cyfoeth a bair gofal.—*He spent much time there*, Efe a dreuliodd yno amser hîr (lawer o amser *neu* amser lawer.)—*Much* [many, *or* a multitude of] *peo-*

Digitized by Google

ple resorted thither, Llawn (llawer) o bobl a gyrchasant yno. ¶ *Much good may it do you*, Mawr-lles (y mawr-lles, y mowr-dda) i chwi o bono; *new*, Mawr-lles a wnel i chwi. N. B. *Much*—may, in all cases, be properly rendered in Welsh by—*Llawer*, provided it be judiciously handled.

Much, *s.* Llawer, &c. *A little with righteousness is better than much with unrighteousness*, Gwell yw ychydig gyd â chyfiawnder, nâ llawer gyd ag anghyfiawnder, *Tobit* xii. 8.

Much ado, &c. *See under* Ado.—*See also* Difficulty.

Not much, Nemmawr, ychydig, llai nâ llawer. *Hereafter I will not talk much with you*, Nid ymddiddanaf â chwi nemmawr bellach, *Jo.* xiv. 30.

As [so] *much as*. *See under* As.

As much again, Y cymmaint arall.

As much as may be, Hyd y gellir, *As much as one can*, Fwyaf ag y gallo un, *Eccles.* xliii. 3d. *As much as might be*, Hyd y gellid.

By much, O lawer, o beth mawr.

Much, *ad.* Llawer (lawer,) 2 *Bren.* x. 18. yn fawr, &c.

Exceeding [very] *much*, Mawr iawn, 1 *Bren.* iv. 29.

How much, &c. *See under* H.

By how much, and *By so much*. *See under* By.

For as much as: *For how much?* and *For so much*. *See under* F.

Inasmuch as, and *Insomuch that*. *See* in their alphabetical places, *under* I.

Ever so much, Er cymmaint, &c. *Be it ever so much*, Er cymmaint fyddo; *new*, Bydded gymmaint ag y byddo (ag a fynno;) *new*, Pa gymmaint bynnag fyddo.

Just so much, Cymmaint â hyny a dim (ac nid dim) yn ychwaneg.

Much less. *See under* Less.

Much, *a.* [very, &c.] Tra, iawn. *Much like*, Tra-thebyg, tra-chyffelyb, tebyg (cyffelyb) iawn, ¶ tebyg ddigon. *Much unlike*, Tra-annhebyg, tra-anghyffelyb, annhebyg (anghyffelyb) iawn.

Much the same, Yr un tu fewn i ddim, yr un agos, heb nemmawr o wahaniaeth rhyngddynt, &c. *It is much the same thing*, Yr un peth agos ydyw.

¶ *It is much*, [strange] Mae'n rhyfedd.

So much for this time, Cymmaint â hyn (gwasanaethed hyn) dros hyn o dro neu bryd.

Thus much, Cymmaint â hyn.

Too much, or *over-much*, Gormodd, gormod, gormodedd, &c. (*See* Excess.) *Too much of one thing is good for nothing*, Nid da rhy o ddim. ¶ *Too much familiarity breeds contempt*, [Prov.] Ni byddd rhybarch rhy gynnefin.

Twice, thrice, four times, &c. *as much*, Y dau cymmaint, y tri chymmaint, y pedwar cymmaint, &c.

Much more or *rather*, Mwy (yn fwy, yn hytrach) o lawer.

To make much of. *See under* to Make, &c.—*See also* to Improve, *in its 1st Acception*.

To run much upon a thing. *See to* Dwtll [insist, &c.] on or upon.

To think much of a thing, [do it unwillingly] Gwneuthur peth yn anewyllysgar (yn erbyn ei ewyllys;) tybied yn ormodd i wneuthur peth.

Múcid, *a.* [mouldy; musty; slimy] Llwyd, wedi llwydo; mŵs; llysog.

Múcidness, *s.* Llwydedd, llwydni; mysni; llysogrwydd.

Múcilage, *s.* [a slimy substance of a lubricating quality] Sylwedd llysog (llithrig,) llysiau, llithriglyn.

Mucilâginous, *a.* Llysiynnaidd; ¶ llysog; llithrig: llysnafeddog; chwydreddog.

Muck, *s.* Tail, tom. *See* Dung.

Múck-fork, &c. *See* ¶ Dung-fork, &c.

Múck-hill, *s.* Tommen dail. *See* Dunghill.

Múckiness, *s.* [the being mucky *or* dirty] Tomlydrwydd.

Muckle. *See* Mickle.

Múck-worm, *s.* Amwydyn; pryf (pryfyn, pryfedyn amwydyn) y dommen: ¶ cybydd anghawr, meb y crinwas.

To muck, *v. a.* Teilo. *See* to Dung [manure the ground.]

Múcky. *See* Dungy; Dirty; *and* Filthy.

Múcous, *a.* [slimy, *or* snivelly] Llysog, llysnafeddog.

Múcousness, *or* mucósity, *s.* Llysogrwydd.

Múcus, *s.* [a slimy substance so called] Llys y cern pori, &c. llysnafedd.

Mud, *s.* [the slimy dirt at the bottom of water] Llaid, llacca, plwcca, &c.

To [dash *or* spatter with] mud, *v. a.* Lleidio, dibio.

To mud *or* múddy [trouble] *the water*, Cyffroi (cynnhyrfu, cythryblio, *vulgo* trybliu) y dŵr, troi (gwneuthur) dŵr yn blwcca, cyffroi'r llaid ynghwaelod y dŵr.

Múdded, [troubled with mud.] *See* Muddy.

Muddily, *ad.* Yn lleidiyd, &c.

Múddiness, *s.* Lleidlydrwydd, &c.—afloywder.

To múddle. *See* to Dabble in the dirt, *and* to Mud *or* muddy, &c. *above*.

¶ To muddle, *v. a.* [make half-drunk, &c.] Lled-feddwi, gwneuthur yn lled-feddw (yn hart, yn syfrdan, yn ben-syfrdan: hartio, syfrdanu; cymmylu.

Múddled, *a.* [with drinking, &c.] Lled-feddw; pen-feddw: ¶ hart, syfrdan, penesyfrdan; cymmylog.

Múddy, *a.* [foul with mud, &c.] Lleidiog; lleidlyd, llacceilyd; plwcca, yn blwcca, *vulgo* trwbl. *Muddy-water*, Dŵr plwcca.

To múddy. *See* to Mud *or* muddy, *above*.

¶ Muddy [applied to the *understanding*, *look*, *countenance*, &c.] *See* Clouded, Cloudy, Dark, Dull, &c.

A muddy place, *s.* Lleidle, lleidfa; trallwng.

Múd-wall, *s.* [i. e. made of mud *or* dirt] Gwal bridd, pared pridd.

¶ Mud-wall, [a bird so called.] *See* Bee-eater.

Muff, *s.* [a case of fur to put the hands in] Clydwain, dyrn wain, dyrn-dorch, *sef* torch o groen pân i gadw'r dwylo'n glŷd yn y gauaf oerddu; dyrnfol

Múffin, *s.* Math ar deisen ysgafn a thyllog fel ysbwng.

To múffle, *or* muffle up, *v. a.* [wrap the mouth, face, &c. in a covering] Troi mewn gorchudd, rhoi gorchudd ar, mwgydu, misyrnu, *vulgo* mwffio, bwbachu: ¶ cuddio, gorchuddio, anhuddo.

To muffle one's self in one's cloke, Ymdroi yn ei gochl, crynhoi ei gochl am dano, ymfwbachu yn ei gochl.

¶ To múffle, *or* maffle, *v. n.* [famble, *or* speak

unintelligible] Dywedyd yn dew-fleesg (yn dew, dan ei ddannedd; baldordd, &c. *See* to Falter.

Müffler, *s.* [a cover for the face] Cadach (lliain, garchaedd) wyneb, wyneb-wisg, meiled, *Esay* iii. 19.—meiswrn.

Müfti, *s.* [the high-priest of the Mahometans whose residence is at Constantinople] Archoffeiriad y Tyrciaid neu'r Mahometaniaid.

Mug, *s.* Math ar ddiowdlestr, gwnn, cwppan, mwg.

¶ *A mug* [mugful] *of ale,* Mygguid (gynnaid, cwppanaid) o gwrw.

Müggy, *a.* [applied to the *weather,* moist, close, and warm, causing mouldiness] Llaith (ynwst) a mwygl, llaith-fwygl, tawelyd, a bair lwydedd a melini.

Mug-wort, *s.* [in Botany] Bydiawg (y fydiawg, y feidiog, y ganwraidd) lwyd, llysiau Ieuan, llysiau llwyd.

Mulátto, *s.* [one that has a black and a white for his parents] Un (dŷn) melyn-ddu, un y bo naill ai ei dâd ai ei fam yn ddu, ¶ melynog.

Mülberry, *pl.* mulberries, *s.* Ffrwyth (aeron) y Forwyddon.

Mulberry-tree, *s.* Morwydden, *pl.* morwydd.

Mulct. *See* Fine [in *Law,* mulct, &c.]

To mulct. *See* to Amerce.

Mule, *s.* [a mongrel-beast so called] Mûl, *pl.* mulod.

A she-mule, *s.* Mules, 1 *Bren.* i. 44.

Muletéer, *or* mûle-driver, *s.* Gyrrwr (gyrriedydd) mulod, mulwr.

Mullebrity, *s.* [womanhood] Gwreicdra, gwreigeiddrwydd.

To mull [warm, heat, *or* boil] *wine,* Brydio (brydiaw, berwi, ¶ llosgi) gwin; ¶ cyffeithio gwin.

Müllar, mullet, *vulgò* **mullet,** *s.* [with which colours are ground] Darn o faen mynor â'r hwn y malurir ac y cymmysgir llïwiau'r paentiwr; llawfaen malurio.

Mulled [mull'd] *wine,* Gwin brŵd (berw, ¶ llosg.) bryd-win; ¶ cyffeith-win.

Müllein, [in Botany.] *See* Higlaper.

Müllet, *s.* [a sea-fish so called] Barf-bysg, penfras, min-grwnn, barfog.

¶ **Mullet,** *s.* [in *Heraldry,* a star of five points, the mark which distinguishes the 4th son of a house] Serennig bum-baladr, gwahan-nod y pedwerydd fab yn Arfau bonedd neu Arwydd-farddoniaeth.

Müligrubs, *s.* [the twisting of the guts: ill-humour] Pryfigedd, ymguo'r coluddion: ¶ drygwŷn, drwg-anwyd.

Mulse, *s.* [a liquor made of *wine,* &c. and *honey* boiled together] Mel-win.

Multángular, *a.* [having many angles] Amlgonglog, ag aml gonglau iddo, amry-gongl.

Multicápsular, *a.* [that hath many cells *or* capsules] Aml-gellog.

Multifárious, *a.* [various, of divers *or* sundry sorts] Amryw, amryfath, amlsyw, o amryw fath (genedl, *neu* rywogaeth.)

Múltifid, *or* **multifidous,** *a.* [cleft into many branches, *or* having many partitions] Wedi ei rannu (ei hollti) yn amryw rannau; amryholltt, â llawer o holltau yndde.

Múltiform, *s.* [of many forms *or* shapes] Amryddull, am'ddull,) aml-ddull, aml-wedd, amrylun, â llawer dull (llûn neu ffurf) arno.

Multilateral, *a.* [having many sides] Aml-ochrog, ag aml-ochrau (ystlysau) iddo.

Multinómial, *or* **multinóminal,** *a.* [having many names] Aml-enwog, ag aml enwau iddo, lliosenw.

Multíparous, *a.* [bringing many at a birth] A ddygo lawer i'r byd ar unwaith, lliosddwyn; llos-hil.

Multipártite, *a.* [divided into many parts] Aml-rannog, lliawsrannog, wedi ei rannu yn llawer o rannau.

Múltiple. *See* Manifold.

Multipliable, *or* **multiplicable,** *a.* [capable of being multiplied] Lliosadwy, lliosogadwy, a ellir (aller) ei liosogi, &c.

Multiplicand, *s.* [in Arithmetic the number to be multiplied] Y nifer i'w lliosogi.

Multiplicátion, *s.* [a multiplying, &c.] Lliosiad, lliosogiad, lliosddyblygiad, amlhâd; mwyedigaeth.

Multiplicátion, *s.* [the Rule so called, in *Arithmetic*] Lliosogyddiaeth, rhëol lliosogi.

Multiplicátor, *or* múltiplier, *s.* [in *Arithmetic,* the number by which we multiply] Y nifer lliosogyddol; y lliosogydd.

Multiplicity, *s.* [a great number of various sorts] Lliaws amryfath; lliaws, lliosogrwydd, amlder, amledd.

Multiplicity of business, Lliaws a negesau neû orchwylion.

Múltiplied, *a. part.* Lliosedig, lliosogedig, a lliosogwyd, wedi ei liosogi, &c. Sec. V.—mwyedig.

Múltiplier, *s.* [that multiplies] Lliosogwr, Lliosogydd.

To múltiply, *v. a.* [increase in number by the production of more of the same kind; work a sum in multiplication] Amlhâu, lliosi, Lliosogi, lliosddyblygu, dyfwyo; mwyhâu.

To multiply words, Amlhâu (¶ pentyrru) geiriau.

To multiply, *or* be multiplied, *v. n.* Amlhâu, mwyhâu, cynnydda (mewn rhifedi,) ymlliosogi.

Multiplying, *part.* Yn amlhâu, gan (dan) amlhâu, yn lliosogi, &c. Sec. V.

A múltiplying, *s.* Amlhâad, amlhâd, lliosogiad.

Multipotent, *a.* [having a manifold power, &c.] Aml-alluog, ag aml allu iddo, aml-nerthog, amry-nerth.

Múltitude, *s.* [a great number] Lliaws, lliosowgrwydd; torf, &c. cadfa (*pl.* cadfeydd,) 2 *Mac.* xiv. 23. amlder, amlesni.

¶ ***The multitude.*** *See* the Mob [rabble.]

Multitúdinous, *a.* [consisting of a great number] Lliosog.

Mum! [an *interj.* commanding *silence*] Nac yngan air, ust, &c. *See* Hist! *and* Hush!

Mum, *s.* [a sort of liquor imported from Brunswick in Germany] Math ar lyn[illegible]'r eaw, a wneir o wenith, a cheirch, a blawd ffa yn gymmysgedig, meddart.

To mámble, *v. n.* [speak inwardly, *or* to one's self, so as not to be understood] Llefaru yn ei geudod, dywedyd dan ei ddannedd, mwngial, myngial, dywedyd yn fyngus (dan fwngial.)

To mumble, *or* mutter, Gorfansen.

To mumble, *v. a.* [chew awkwardly for want of

teeth, *or* with the lips closed] Cnoi yn fantachlyd, mantachu ar beth, mall-gnoi mallfwytta à'i wefusedd ynghŷd (â'i enau ynghaead.).

¶ To mumble one, [beat soundly] Dygaboli.

Múmbler, *s.* Mwngialwr; mantachwr.

Múmblingly, *ad.* Dan fwngial, yn fwngialus, yn fyngus: yn fantachlyd, dan fantachu.

To mumm, *v. n.* Ymarfer o hud a lledrith.

Múmmer, *s.* [a masker, *or* person in disguise] Un yn gwisgo gau wyneb, un lledrithiog, ysgodog.

Múmmery, *s* Húd a lledrith, chwarae mwgwd; eiliw, &c.

Múmmy, *s.* [an embalmed corpse] Corph marw pêraroglediq. *See Gen.* l. 2. 26.

¶ *To beat to mummy*, Curo (pwyo) yn delchyn; curo (pwyo) yn ddu ac yn lâs; curo un hyd na byddo asgwrn cyfan yn ei gorph; dygaboli.

To mump, *v. a.* [chew very fast with the mouth shut, &c.] Cnoi yn heinif heinif (yn dra heinif) dan gau y genau, chwyl-gnoi (*vulgo* chwilgnoi,) cildroi bwyd yn y genau, bwytta (cnoi) yn heinif dan chwyddo bochau.

To mump, *v. a.* [talk low in a surly tone of voice] Selgyngian, dywedyd yn dew-ddig (yn iseldew) dan chwyddo ei fochau.

To mump, *or* go a mumping, [beg, *or* go a begging] Myned o dŷ i dŷ dan gardotta, hela (erlid) ei fwyd o dŷ i dŷ.

¶ *To mump a dinner*, [flatter and fawn for a meal's meat] Bolera, erlid ei fwyd (ei ginio) trwy druth a gweniaith.

Mumper, *s.* [a beggar] Un yn byw wrth (ar) gerdded o bob-tu, un yn erlid *neu*'n hela ei fwyd o dŷ i dŷ; ¶ bolerwr.

Mumps, the mumps, [a sort of squinancy] Y bensach, yr esgyrn (esogryn) math ar hychgrug, chwydd yn y cernau a'r bochau.—¶ *To be in the mumps*, [be sullenly silent, as one powting] Bod yn ddig (yn orddig) dawedog, bod yn wedwst (yn ddywedwst,) bod yn y ddywedwst (*quære an* y dawed-wst;) bod yn teru *neu* ar y *tér*.

Mumps, *or* flouts, *s.* Gwawd-eiriau, croesan-eiriau.

To munch, *v. a.* Cnoi, dy-gnoi.

Múncher, *s.* [one that eats greedily, &c.] Dyn bwytteig (a fo'n cnoi yn ddiorphwys *neu* ¶ fyth a hefyd,) dygnöwr, dygnöydd.

Múndane, *a.* [worldly, *or* belonging to the world] Bydol, bydawl.

Múndatory, *a.* [of a cleansing quality] O natur (ag ynddo rinwedd) i lanhau *neu* lanweithio, puredigaethol.

Múndic, *s.* [a stony substance found in tinmines] Rhyw sylwedd carregaidd, a geir mewn mwyn gloddiau plwm gwynu *neu* ystaen.

Mundification. *See* a Cleansing.

Mundificative. *See* Mundatory.

To mundify. *See* to Clean or make clean.

Municipal. [belonging to a town corporate, &c.] Perthynol, a (berthyn yn perthyn) i dref fraint; breiniol; a berthyn i fwrgeisiaid trêf, *neu* fraint trêf freiniol. ¶ *Municipal laws*, Cyfreithiau breiniol.

Munificence, *s.* Haeledd, haelder, haelioni.

Munificent. *See* Bounteous, Liberal, &c.

Múniment. *See* Fortress.

Munition. *See* Fortification (in its 2nd and 3rd Acceptation.)—*See also* Ammunition.

Mur, murr, *or* murrh, [the pose, a great cold in the head] Gormwyth. *See* Catarrh.

Múral, *a.* [of, *or* belonging to, a wall, &c.] Muriawl, perthynol (a berthyn) i fûr *neu* i furiau; caerawl. ¶ *Mural crown* [an honorary reward bestowed by the ancient Romans on the person who first ascended the walls of an enemy's city] Coron gaerog.

Múrder, *s.* [a wilful felonious killing a person] Llofruddiaeth, lladdfa, *vulgo* mwrdd-dra. ¶ *A secret* [hidden] *murder*, Murn, murndwrn, cyfrsang cûdd.—¶ *Murder will out*, Nid hir y celir cliwg; *neu*, Galanas nid hir gelir.

Murder of one's brother, father, mother, &c. See Fratricide, Parricide, Matricide, &c.

To múrder, *or* commit murder, *v. a.* Llofruddio, gwnenthur llofruddiaeth, lladd dyn.

¶ *To murder privately*, Myrnio

¶ *To murder a thing*, [mar, *or* rain it in the doing *or* management] Anurddo, difwyno, anafu, anffurfio, &c. gwneuthur peth yn anghreftwraidd.

Múrdered, *a. part.* Llofruddiedig, lladdedig.

Múrderer, *s.* Llofrudd, *vulgo* mwrddwr.

A self-murderer, *s.* Hunan-leiddiad, hun-leiddiad.

A múrderess, *or* she-murderer, *s.* Llofruddes.

Murderer [killer] *of one's brother, father, mother, &c.* See Killer, &c.

Múrdering, *or* múrderous, *a.* Llofruddiog, llofruddaidd.

A múrdering, *s.* Llofruddiad.

A múrdering-piece, *s.* [a piece of battering-cannon] Math ar wn rhyfel i guro muriau, caerau, *neu* gestyll i lawr.

Múrderous. *See* Murdering, *above*

Múrderously, *ad.* Yn llofruddiog; yn waedlyd.

To mure [wall] *up*, Murio (gwalio, gwalo) i fynu.

Múrengers, *s.* [officers whose business it is to see that the walls of a city are in proper repair] Golygwŷr y caerau.

Murk. *See* the Husk of corn, *under* H.

Múrky. *See* Darksome, *and* Dusky.

Múrmur, *s.* [a complaint mumblingly expressed] Achwyn grwgnachlyd (mansonllyd, tuchanllyd;) grwgnach, manson, murmur, tuchan, grem.

Murmur, *s.* [a whispering noise *or* sound, such as *that* of water running among pebbles, of a mob uttering half-stifled emotions] Trwst dŵr yn rhedeg rhwng cerrigos *neu*'r cyffelyb; araf-son; trydar, godwrf, godwrdd, go-ruad, husting, hustyng, si, sibrwd, siffrwd, selgyngian, sisyfwl.

To múrmur, *v. n.* [express discontent in a muttering tone of voice] Grwgnach, grwgach, manson, &c. ymrwgnach, ymfanson, &c.

To murmur, *v. n.* [make a low, whispering, humming, &c. sound] Husting, hustyng, dywedyd dan ddannedd, sibrwd, siffrwd, selgyngian, sisyfwl; godyrddain, dadyrddain; trystio (godrystio) fel dŵr yn cerdded rhwng cerrigos.

Múrmurer. *See* Grumbler.

Múrmuring. *See* Grumbling.

A múrmuring. *See* a Grumbling, *and* Murmur (in both its Acceptations.)

Murmuring consent or *approbation*, Adlais tyrfa yn dangos eu cyttundeb (eu cymmodlonedd.)

Digitized by Google

A [little] *murmuring noise*, Husting, hustyng, si, sisial, sibrwd, siffrwd, manson; sŵn (trwst, go-drwst) afon yn cerdded; trwst coed gan wynt; trydar, &c.

Without murmuring, Heb rwgnach, yn ddirwgnach, yn ddi-rwyth, &c.

Múrmuringly, *ad.* Dan rwgnach, yn rwgnachlyd dan rymial, yn rymialus.

Múrrain, *s.* [the rot *or* plague among cattle] Haint llŷn (yr haint *neu*'r pla) ar anifeiliaid, cowyn, chwarren, cornwyd, y cornwyd.

Múrry, *or* **múrrey**, *a.* [applied to *colour*, dark-brown] Arddufrych, gwineu-ddu; gwineu-lwyd, gwrm, gwrwm.

Múscadel, *or* **muscadine**, wine, *s.* [a sort of sweet wine made of the muscadine grape] Math ar win melusber (aroglber,) gwin mwscadel.

Múscle, *s.* [a fleshy, fibrous part of the body of an animal, which is discovered to be the organ *or* instrument of voluntary motion] Cyhyryn (*pl.* cyhyr,) cyhyr-glwm, llyweth o gyhyr (o gyhyr-gig, o gig cyhyrog,) caledgig llywethog: gewyn.

Muscle, *s.* [a shell-fish so called] Misglen (*pl.* misgl.)

Múscular, *a.* [belonging to, *or* performed by means of, the muscles] Cyhyrawl, perthynol (a berthyn) i'r cyhyr, a gyflewnir gan (drwy gynnorth) y cyhyr.

Músculous, *a.* [abounding in muscles] Cyhyrog, llawn cyhyr: gewynog.

Muse, *s.* [a fit of intent thinking] Myfyrdod, dwys-fyfyrdod, synn-fyfyrdod, dwys-feddwl.

In a deep muse, Mewn syn-fyfyrdod, mewn dwys feddwl.

¶ **Muse**, *s.* [one of the nine female divinities feigned by the ancient Greeks and Romans to preside over learning, *especially* music and poetry] Un o naw duwies dysg; ¶ awen; cerdd, cân, y gân.

The muse, Yr awen. *The muses*, ¶ Duwiesau'r (llywyddesau'r) Gerdd *neu*'r Ddysg.

To muse, &c. *See* to Meditate, &c.

¶ *Muse of a hare*, [the hole in a hedge through which a hare passes] Twll ysgyfarnog.

Múseful. *See* Meditative, &c.

Múser. *See* Contemplator.

Musæum. *See* Library.

¶ **Museum**, *s.* [a repository of curiosities] Cronfa (trysorfa, trysorgell) pob cywreinbeth, cronfa cywreindeb (cywreinrwydd.)

Múshroom, *s.* Bwyd y barcut (y boda.)

Stinking mushroom, *s.* Cingroen, gingroen, y gingroen.

Músic, *s.* [the science so called] Cerddwriaeth, cerddoriaeth, cerdd, *Ecclus.* xxii. *vulgo* miwsig; cywyddoliaeth. *Music vocal and instrumental*, Cerdd dafod a thannau.

Music, *or* melody, *s.* Cynghanedd, *Luc* xv. 25.

A doctor of Music, [M. D.] Pen-cerdd.

Music-room, *s.* Cerddfa.

Músic-meeting, *s.* Cerdd-gyfarfod; cerdd-ymbrawf.

Músical, *a.* Cerddgar; cynghaneddol, &c.—¶ *Musical instruments*, Offercerdd.

Músically, *ad.* Yn gerddgar; yn gynghaneddol.

Músicalness, *s.* Cerddgarwch; cynghaneddogrwydd.

Musician, *s.* Cerddwr, cerddor, gwr wrth gerdd. ¶ *A chief musician*, Pen-cerdd. *An itinerant musician*, Clerwr, clermwnt; celfiad. *Musicians*, Clér. *The meaner sort of musicians*, Cler y dom.

To go their rounds as musicians, Clera.

Músing, *or* given to musing. *See* Meditative.

Deeply musing, Syn-fyfyriol, yn syn-fyfyrio, yn dwys-feddylio, mewn dwys-feddwl (synnfeddwl.)

¶ *Musing on mischief*, A'i fryd ar ddrygioni.

A músing. *See meditation.*

Musk, *s.* [a sort of perfume so called] Mwsg.

Músk-ball, *s.* Pelen fwsg (bêr.)

Musk-cat. *See* Civet-cat.

Músket, *s.* Gwnn llaw, mwsged.

Músket-ball, *s.* Pelen fwsged.

Músket proof, *a.* [impenetrable by a musket-ball] Anhydraidd gan belen fwsged.

Musketéer, *s.* Mwsgedwr, un yn dwyn mwsged.

Musketóon, *s.* Mwsged byrr llydan.

Músky, *a.* Mwsgaidd.

Múslin, *s.* [a fine sort of cloth so called] Math ar we gottymmaidd, dêg iawn fynychaf, a drosglwyddir o'r India ddwyreiniol, ac a wisgir mewn arffedogau, &c. *vulgo* mwslin.

A muslin apron, Arffedog fwslin.

Músrol, *s.* [the nose-band of a horse's bridle] Trwyn-ffrwyn.

Mússulman, *s* [a strict observer of the laws and religion of Mahomet so called, signifying—a true believer] Un o ffyddloniaid Mahomed, *sef*, y neb a gwbl-gredo ac a ganlyno ei grefydd ef.

Must, *s.* [new wine] Gwin newydd: ¶ dïod newydd (yn yr îl.)

To must, *v. n.* [grow musty] Llwydo (megis baril *neu*'r cyffelyb,) myned yn llwyd *neu*'n fŵs; ¶ drewi.

Must, [Verb imperf.] Rhaid (rheidiol, dîr, angenrhaid) yw, mae'n rhaid (rheidiol, angenrhaid.) *I must*, Rhaid i (yw i) mi, mae'n rhaid (rheidiol, &c.) i mi, gorfydd i mi, yr wyf fi'n rhwymedig i. *I must go thither*, Rhaid i (yw i) mi fyned yno. *I must write*, Rhaid i mi ysgrifennu. *He must*, Rhaid iddo (yw iddo) ef, &c. ¶ *I must not*, Nid rhydd (nid oes le) i mi. *What must be done?* Beth sydd raid ei wneuthur? *neu*, Beth a wneir?

Mustáches, the mustaches, *s.* [whiskers, *or* hair growing on the upper lip] Trawswch, trawsych, y trawswch.

Mustard, *s.* [in Botany] Mwstard, mwstart.

Country-mustard, *s.* [in Botany] Llwyn mwstard.

Wild [hedge] mustard, *s.* Berwr y fâm (y fâmmog, y torlannau,) berwr Caersalem, berwr gauaf.

Muster [a flock] *of peacocks*, Llu o beunod.

Múster, *s.* [a review of military forces for the purpose of taking an account of their numbers, condition, arms, and accoutrements] Prawf (profiad) byddin, byddin-brawf, diwyg-brawf lluyddiaid, prawf-olygiad milwŷr (lluyddwŷr, byddin;) rhifiad (cyfrifiad) gwŷr i ryfel; galwad enwau gwŷr byddinog drostynt; galwad byddin wasgaredig ynghyd: ¶ cofrestr o wŷr byddin-brofedig.

To múster, *v. a.* [review forces to know whether they are complete as to numbers, condition, arms, &c.] Profi (prawf-olygu) byddin; rhifo (cyfrif, cofrestru) gwŷr i ryfel; galw enwau gwŷr byddinog drostynt; galw byddin wasgaredig ynghyd, ¶ byddino, *Jer.* lii. 25.

Digitized by Google

The Lord of hosts mustereth, the host of the battle, Argiwydd y llnoedd sydd yn cyfrif llu y rhyfel, *Esay* xiii. 4. *He mustered the chosen men for the battle*, Efe a gyfrifodd y gwŷr etholedig i ryfel, *Judeth* ii. 15.

To muster, *or* muster up, *v. a.* Cynnull, casglu, dwyn (galw) ynghyd, &c. rhifo, cyfrif, &c.

To muster up anew, Ail gynnull, ail gasglu, eilddwyn (ail alw) ynghyd: adrifo, ailgyfrif.

To muster, *v. n. See* to Assemble [Neut.]

To make a muster. See to Muster.

To make false musters, Cam-rifo (camgyfrif) milwŷr; cam-gofrestru.

¶ *To pass muster* or *examination* [be admitted, &c.] Cael ei dderbyn, bod yn gymmeradwy.

Múster-book, *s.* [wherein the names of soldiers are registered] Llyfr enwau llnyddwŷr, ¶ enw-lyfr.

Múster-master, *s.* [the super-intendant of the musters] Golygwr (golygydd) byddin-brawf; rhifydd (cyfrifydd) y fyddin *neu'r* llu.

Múster-roll, *s.* Cof-restr y llu *neu'r* fyddin.

Mústered, *a.* Profedig (megis byddin,) rhifedig.

A mústering, *a.* Profiad (rhifiad) byddin, &c. Sec. V.

Mústering-place. *See* Diribitory.

Mústiness, *s.* Llwydedd, llwydni; mysni. *See*

Músty, *a.* [mouldy; ill-scented, stale, having a stale smell *or* scent] Llwyd; mŵll (*fem.* moll) mŵs, a gwynt llwyd (mŵs, henaidd) iddo *neu* ganddo; drewllyd, drwg-sawrus.

¶ Musty [hum drum, &c.] *See* Dull, Heavy [slow, &c.] &c.

To grow musty, Llwydo, egru.

Grown músty, Wedi llwydo.

Mútable, &c. *See* Changeable, &c.

Mutability. *See* Changeableness.

Mutátion, *s.* [a changing] Newidiad, cyfnewidiad.

Mute. *See* Dumb.

To mute, *v. n.* [dung as a bird] Tommi ystlommi; ysgothi, ystiffio; bwrw tail, *Tobit* ii. 10.

¶ Mutes, *or* mute letters, in Grammar [eleven of the consonants in the English alphabet so called, as yielding no sound of themselves without vowels; viz. *b, c, d, f, g, j, k, p, q, t, v.*] Mud-seiniaid, llythyrennau mud-sain, cysseiniaid mudion, *sef*, yn yr egwyddor Gymraeg, *b, c, ch, d, dd, f, ff, g, ng, p, ph, t, th.*

To mútilate, *v. a.* [deprive of some part *or* limb] Cymmeryd (torri, trychu) ymaith ryw ran *neu* aelod i beth, anafu, &c. *See* to Maim, *and* to Mangle.

Mutilátion, *s.* Anafiad, cymmeriad (torriad, trychiad) ymaith ryw ran *neu* aelod i beth.

Mutinéer, *s.* [a person that causes, *or* is engaged in, an insurrection] Terfysgwr, terfysgydd, dŷn terfysgus (terfysglyd;) gwrthgodwr; gwrthryfelwr.

Mútinous, *a.* [seditious, apt to revolt *or* mutiny] Terfysgus, terfysglyd; parod i ymgodi yn erbyn llywodraeth; gwrthryfelgar.

Mútinousness, *s.* Terfysglydrwydd; tuedd i ymgodi yn erbyn llywodraeth; gwrthryfelgarwch.

Mútiny. *See* Insurrection, &c.

To mutiny, make *or* raise a mutiny, [cause, *or* move, sedition] Terfysgu, peri (codi, cyfodi) terfysg.

To mutiny against, [rise against persons in authority] Ymgodi yn erbyn llywodraethwyr (llywodraeth.)

To mútter, *v. n.* Mwngial, husting, manson, &c. ¶ *Your tongue hath muttered perverseness*, Eich tafod a fyfyriodd anwiredd, *Esay* lix. 3.

Mútterer, *s.* Mwngialwr, hustyngwr, mansonwr, &c.

Múttering, *a.* Myngus, myngialus, &c.

A mútteríng, *or* mutter, *s.* Husting, hustyng, mwngial.

Mútteringly. *See* Mumblingly, *and* Murmuringly.

Mútton, *s.* [the flesh of sheep] Cig llwdn dafad (man-llwdn,) cig maharen, *vulgò* cig gweddar.

Mútual, *a.* [reciprocal; alike on both sides; interchangeable, &c.] Eu gilydd; y naill gan (oddiwrth) y llall; y naill (oddiwrth y naill) i'r, *neu* at y, llall; yn gystal y naill blaid â'r llall; y naill ar ôl y llall, pob un yn ei dro, bob yn ail, ôl yn ol; cyd-gyfrannawl; cyd-gyfnewidiol, ar gyfnewid; ¶ cŷd-, &c. *Mutual* [our mutual] *faith*, Ffydd ein gilydd, *Rhuf.* i. 12. *Mutual society*, Cyd-gymdeithas.—*N. B.* Examine the words, compounded with *Inter*, such as *Interchange, Intercommunity*, &c.

With mutual consent. See with Joint [mutual] consent, *under J.*

Mútually. *See* Interchangeably, &c.

Múzzle, *or* mouth, *s.* [of a gun, &c.] Safn, genau, &c.

¶ Muzzle, *or* muzrol, *s.* [a fastening of leathern thongs, &c. used for preventing a dog, *or* any other animal, from biting] Pemfar, penwar, pennawr, pennor, penrhwym.

To múzzle, *v. a.* [bind the jaws with a muzzle] Cau safn, *Deut.* xxv. 4. pennori, rhoi (gosod) pennor ar, rhwymo safn: penffrwyno.

¶ To muzzle, *v. n.* [put the mouth *or* snout to a thing] Trwyno, rhoi ei drwyn (safn) wrth.

Múzzled, *a. part.* Pennoredig, â phennor arno (am ei drwyn *neu* safn.)

A múzzling, *s.* Pennoriad, &c.

My, *pron.* Fy, eiddof, &c. *My book*, Fy llyfr; *neu*, Fy llyfr i. *See* Mine *or* mine own.

My'riad, *s.* [ten thousand] Myrdd, myrddiwn, deng mil.

Myrrh, *s.* [a sort of strong-scented gum of a bitter and acrid taste, the produce of Ethiopia, much used in Medicine as an antiseptic] Myrr, *Gen.* xxxvii. 25. ¶ *Wine mingled with myrrh*, Gwin myrllyd (cymmysgedig â myrr,) *Marc* xv. 23.

Myrtle, *s.* [a fragrant ever-green shrub so called] Myrtwŷdd (*sing.* myrtwŷdden.) *Neh.* viii. 15. *Myrtle-trees*, Myrtwŷdd, coed myrt, *Zech.* i. 10, 11.

Wild *or* Dutch myrtle. *See* sweet Gale, under G.

My-self, *s.* Mi (myfi) fy hun.

Mystérious, *a.* [secret, *or* full of mystery] Dirgel, dirgeledig, cuddiedig, anhawdd ei ddëall, tywyll, llawn dirgeledd (dirgelion;) dammegol: cyfrinachol.

Mystériousness, *s.* Dirgeledd, dirgeledigrwydd.

My'stery, *s.* [something hidden *or* concealed, as some doctrine obscurely delivered, &c.] Dirgeledigaeth, dirgelwch, dirgeledd, peth (pwngc) annatguddiedig; rhin. *Mysteries*, Dirgeledigaethau, ¶ dirgelion. ¶ *It is a mystery to me*, Mae e'n guddiedig i mi (oddiwrthyf fi;) *neu*, Dirgelwch yw i mi.

Digitized by Google

¶ **Mystery**, *s.* [an art, a trade] Celfyddyd, creefft, rhin creefft.

My'stic, *or* mystical, *a.* [belonging to mysteries, &c.] Perthynol (a berthyn, yn penthyn) i ddirgelion neu i ddirgeledigaethau; dirgel, dirgelaidd.

My'stically, *ad.* Un ddirgelaidd, &c. ¶ *To speak mystically*, Dywedyd dammhegion, lleferau ar ddammhegion.

Mythólogist, *s.* [an expounder of the fables of the ancient Heathens, &c.] Dëongliydd cûdd-chwedlau a thywyll ddychymmygion yr hên Genhedloedd.

To mythólogize, *v. n.* [expound the fables and poetical fictions of the ancient Heathens, so as to extract a system of divinity out of them] Deongli chwedlau, a dychymmygion, y Beirdd Cenhedlig gynt yn y cyfryw fodd, ag a baro iddynt edrych yn gysson, yn olygus, ac yn athrawaidd; yspysu chwedlau dirgel; dëongli dammhegion.

Mythólogy, *s.* [the fabled system of heathen divinity: the exposition of pöetic fables supposed to contain this system] Athrawiaeth y Cenhedloedd ynghylch eu duwiau, megis y dirgel-gynnhwysir yn chwedlau a dychymmygion eu Beirdd; dirgel ddifeinyddiaeth: dëongliad chwedlau y Beirdd cenhedlig ynghylch y duwiau, yspysiad y cyfryw chwedlau dirgel, deongliad dammhegion.

N.

To NAB one, [surprize, catch at unawares, *or* take one napping] Dal un heb wybod iddo, dyfod ar un yn ddisymmwth *neu* yn ddïarwybod iddo.

Nádir, *s.* in Astronomy [that point in the firmament diametrically opposite to one's feet, which point is the *Zenith* of a person standing with his feet to his on the contrary side of the globe] Y pwngc o'r ffurfafen a fo'n union gyfeiryd â thraed un pa le bynnag y bo'r sefyll, y nadir

Nag, *s.* [a small, *or* young, horse] Cryn-farch, cor-farch, ceffylyn, cryn geffyl, ceffyl ieuangc: ¶ ceffyl.

Náiades, *s. pl.* [the Nymphs *or* female divinities of the rivers and fountains] Duwiesau'r afonydd a'r ffynhonnau, yn ol ffregod y Beirdd cenhedlig.

¶ **Naif**. *See* Natural.

Nail, *s.* [a well known sort of pin *of* iron, brass, &c.] Hoel, cethr, cethyr, cethren, hoelen. ¶ *On the nail*, i. e. immediately [implying present payment] Ar law, *or* ben bord.

Nail, [of a finger *or* toe, &c.] Ewin (*pl.* ewinedd.)

Nail, *s.* in long Measure [the sixteenth part of a Yard] Ewinfedd, *quære*.

To nail, *v. a.* [fasten with nails] Hoelio, cethru, &c.

Náiled, *a.* [fastened with nails] Hoeliedig, a hoeliwyd, wedi ei hoelio; cethredig.

Náiler, *or* nail-smith, *s.* Hoeliwr, gof hoelion, cethrwr, cethrydd.

Náked, *a.* Noeth, &c. (*See* Bare.)—¶ *Stark-naked*, Noeth-lymmyn. *Naked on every side*, Amnoeth. *The naked truth*, Y gwîr dïorchudd (dïargel.)

To make [strip] naked, Dynoethi, *vulgo* dinoethi; dïosg yn noeth-lymmyn, *Hos.* ii. 3.

To make [strip] *one's self naked*, Ymnoethi.

Somewhat [half] *naked*, Llednoeth.

Nákedness, *s.* Noethni, noethder, noethdra.

Name, *s.* Enw, henw, &c.

A proper [first, *or* christian] name, *s.* Rhag-enw, priod-enw, enw bedydd.

A sir-name, *or more properly* sur-name, *s.* Cyf-enw.

A nick-name, *s.* Llysenw.

Of the same name, Un-enw, o'r un enw.

Having [that hath] *two names*, Dau-enw, dau-enwawl, dau-enwol.

To name, *v. a.* Enwi, henwi; rhoi enw ar: galw erbyn ei enw; galw; crybwyll.

By name, Wrth (dan, erbyn) ei enw.

To name again, Ail-enwi, ad-enwi.

To call [one] *names*, Difenwi, difrïo.

To [give a] surname, *v. a.* Cyfenwi.

Námed, *a. part.* Enwedig, a enwyd, wedi ei enwi.

Námeless, *a.* Dïenw; heb ei enwi.

Námely, namedly, *or* by name, *ad.* Erbyn (wrth, dan) ei enw; yn enwedigol.

Námely, *ad.* [to wit] Sef, ys ef, sef yw hynny.

Námer, *s.* En'wr, enw-wr, enwydd.

Náme-sake, one's name-sake, *s.* Cyfenw (cyd-enw) nu.

Nántwich, *s.* [a town in Cheshire so called] Yr Heledd wen.

Nap, *s.* [of sleep] Hûn; amrant-hun: dargwsg. darhun. ¶ *A short* [little] *nap*, Hunyn.

To take a nap, Cysgu (cymmeryd) hûn; amrant hûno.

Nap, *s.* [of cloth] Ceden, cnap-geden; casnach.

To nap, *v. n.* [sleep] Huno; cysgu (cymmeryd) hûn, amrant-huno: dargysgu, dar-huno.

To nap cloth, *v. n.* Cedenu (cnap-gedenu) brethyn; cotïceden (cnap-geden) ar frethyn.

Nape, [the nape] of the neck, Gwarr, y warr; gwegil; tyll-gorn (pillgorn) y gwegil; cymmal y warr.

Nápery, *s.* [table-linen] Lliciniau bwyd (byrddau,) bwrdd-lieniau.

Náphew, *s.* [a rape *or* wild turnip] Meipen yd, erfinen wyllt, llysiau'r ddïdol.

Náptha, *s.* [a sort of mineral fluid so called] Rhyw lynu mwnaidd melyn-lliw, a lysg yn fiam, os cyffwrdd â than.

Nápkin, *s.* Napcyn, *Luc* xix. 20. lliain, llaw-liain.

Nápless, *a.* Digeden, anghedenog, digasnach: ¶ llyfn.

Napiness, *a.* [the quality of having a nap] Cedenogrwydd, cnap-gedenogrwydd.

Napping, *part.* [sleeping, *or* asleep] Yn huno, yn amrant-huno, yn cysgu; ynghwsg, yn ei gwsg. ¶ *To take one napping*. *See* to Nab one.

Nappy, *or* nápped, *a.* [as cloth] Cedennog, cnap-gedennog, casnachog.

¶ **Nappy**, *a.* [applied to *ale*, strong, &c.] Crŷf,

Digitized by Google

cadarn-gryf: gwreichionllyd; pereidd-gryf; rhial-gryf. ¶ *Nappy ale*, Diod gref rial, cwrw rhïal-gryf.

Narcíssus, *s.* [in Botany] Math ar flodenyn o rywogaeth yr elestr.

Narcótic, *a.* [causing sleep, numbness, *or* insensibility] A bair cysgu (merwino,) cwsg-bair: a bair marweidd-dra *neu* annheimlad. — *Narcotics* [stupifying medicines] Merwinfeddyginiaethau, *sef* y cyfryw a'r a barant i'r corph gysgu *neu* ferwino fel na synnio ddim a wneler iddo.

Nard, *s.* [a sweet-scented shrub so called] Rhyw lysieu-lwyn *neu* brysg-wydden arogl-ber yn yr India ac yn Syria a elwir *'Spic-nard.*

Nard, *s.* [a fragrant ointment, called also *Spikenard*] Ennaint arogl-ber o'r enw, nard, *Marc* xiv. 3. ysgpicnard.

Nárrable, *a.* [that may be told *or* related] Hydraeth, traethadwy, adroddadwy, a aller (ellir) ei draethu *neu* adrodd.

To nárrate *or* nárrify, *v. a.* [tell *or* relate] Adrodd, traethu, mynegi.

Narrátion, *s.* [a relation of any transaction] Adroddiad, traethiad, mynegiad; mynag; traethawd.

Nárrative, *s.* [a relation *or* recital of a fact; a tale, &c.] Adroddiad, &c. chwedl, a-chwedl, cychwedl, chweddl, achweddl; hanes.

Nárrative, *a.* [given to narrate *or* relate, &c.] Adroddgar, a gâr (yn caru) adrodd; adroddawl.

Nárratively, *ad.* [by way of narrative] Yn adroddawl, ar wêdd adroddiad.

Narrátor, *s.* [one that narrates] Adroddwr, adroddydd, traethwr, ¶ edrydd, mynegai.

Nárrow, *a.* [not broad *or* wide; strait; close; strict, &c.] Cùl, achul, di-led; ing (*anciently* yng,) cyfyng, echyng, an-ehang; caeth; tynn; ¶ manol, manawl. ¶ *A narrow-place*, Cyfyng-le. *In the narrowest part of it*, Yn y man culaf arno.

¶ Narrow [applied to the *Disposition; Mind, Sentiments*, &c.] *See* Close-fisted; Illiberal.

To [make] narrow, *v. a.* Culhâu, cyfyngu.

Nárrowed *or* made narrow, A gullhäwyd, wedi ei gulhâu; cyfyngedig, a gyfyngwyd, wedi ei gyfyngu.

A nárrowing, *s.* Culhäad, culhâd, cyfyngiad.

Nárrowly, *ad.* Yn gûl, yn gyfyng; yn gaeth: yn gràff, *Esay* xiv. 16. yn ddyfal. ¶ *Thou lookest narrowly unto all my paths*, Yr ydwyt yn gwilied ar fy holl lwybrau, *Job* xiii. 27.

¶ Narrowly, *a.* [scarcely, &c.] Braidd, o'r braidd, o fraidd, prin, trwy fawr-boen (fawr-waith, &c.)

Nárrowness, *s.* Culedd, culder, culdra, culni; cyfyngder.

Nástily, *ad.* Yn fudr, yn frwnt, yn aflan, yn ffiaidd.

Nástiness, *s.* Budredd, budreddi.

Násty, *a.* Budr, brwnt, aflan, llyfi, swga; ffiaidd.

Nátal, *a.* [of, *or* belonging to, one's birth; native] Genedigol, anianol. ¶ *One's natal day*, Dydd genedigaeth un.

Natátion *or* swimming, *s.* Nawf, nofiad.

Nátion, *s.* Cenedl, ciwdawd; cenhedlaeth. *One of the English nation*, Un o genedl y Saeson.

Nátional, *a.* [of, *or* belonging to, a nation in general] Cenhedlawl, cenhedlig, perthynol (a perthyn, yn perthyn) i'r genedl yn gyfan *neu* i gyd; ciw-dodawl; cenhedlaethol.

Nátive, *a.* [produced by birth *or* nature, &c.] Genedigol; anianol.—¶ *One's native country*, Y wlad y ganwyd un ynddi; gwlad genedigaeth (enedigol) un, *Jer.* xxii. 10. *One's native language*, Tafod-iaith gartrefol (iaith anedigol, priod-iaith) un, ¶ iaith ei fam. *A native English-man*, Sais ener.

¶ Native, *a.* [primitive, original] Dechreuol; gwreiddiol; ¶ hanfodol. ¶ *I shall return to my native dust*, I'm cyn-lwch (prif-lwch) y dychwelaf.

Nátive, *s.* [one born in a place] Brodyr (*pl.* brodorion,) ¶ prïodor, ciwdawdwr.

Natívity, *s.* [birth] Genedigaeth: ¶ cychwyniad. ¶ *The land of their nativity*, Tîr eu genedigaeth, *Ezec.* xxiii. 15. *The day of one's nativity*, [natal day] Dydd (gwyl) genedigaeth un, *vulgo* nadolig (dydd nadolig) un. ¶ *In the land of thy nativity*, Yn nhîr dy gynnefin, *Ezec.* xxi. 30.

Nátural, *a.* Naturiol, anianol, a fo (y sydd) wrth naturiaeth; cynhenid, cynhwynol, greddfol, genedigol. *Natural parts* [talents *or* endowments] Doniau naturiol. *A natural mark* [mole] Man cynenid (cynhenid.) ¶ *A natural quality*, Cynneddf, cynneddyf. ¶ *Natural towardliness* or *disposition*, Athrylith. *It is natural to him to*—, Rhyw (gnawd) yw iddo i—.

A natural child. *See* Bastard.

Nátural, *s.* [one that has not the use of reason.] *See* Idiot.

Natural right, Anianolder, dylyed anianawl.

Natural philosophy, Anianyddiaeth, celfyddyd a gwybodaeth naturiaeth.

Náturalist, *or* a natural philosopher, *s.* [a contemplator of the works of Nature, versed in their properties, symmetry, and history] Anianydd, un hyddysg yngweithredoedd natur, olrheinydd Natur yn ei dirgelfeydd.

¶ *Without natural affection*, Angharedig, 2 *Tim.* iii. 3. anhygaredd, heb gariad (serch) naturiol.

Naturalizátion, *s.* [the admission of aliens into the privileges of natural subjects and natives] Trwy-ddedogaeth; breiniolaeth.

To náturalize, *v. a.* [admit an alien into the privileges of natural subjects, by an act of parliament] Trwyddedogi; breinioli, breiniogi.

To naturalize, *v. a.* [make easy as if taught by nature] Gwneuthur (peri) yn hawdd ac yn naturiol, naturioli.

Náturalized, *a. part.* ¶ Twyddedog.

Náturally, *ad.* Yn naturiol, yn anianol; wrth (o) natur *neu* anian; o hono ei hun, o'i waith (naturiaeth) ei hun; heb na dir na chymmell. ¶ *Who will naturally care for your state*, Yr hwn a wir ofala (yn naturiol a ofala) am y pethau a berthynant i chwi, *Phil.* ii. 20.

Náturalness, *or* naturality, *s.* Naturiolrwydd, naturiolder, cyflwr (ansodd) naturiol *neu* anianol.

Náture, *s.* [the power whence all other powers are derived; *or* the principle diffused throughout the creation, which pervades, moves and acts in, all bodies, giving them

Digitized by Google

their several properties; which powerful Agent, if we would speak properly, is no other than God himself: tho' the ancients thought this a power distinct from the Deity] Natur, naturiaeth. *The law of Nature*, Cyfraith (deddf) Natur. *The course of Nature*, Tröell (chwyl) Naturiaeth, *Iago* iii. 6.

Nature, *s.* [the world *or* universe] Y byd, y grëadigaeth, yr holl greadigaeth, natur, naturiaeth. *The most beautiful things in nature*, Y pethau harddaf (prydferthaf) yn y byd neu yn natur.

Nature, *s.* [a distinct species *or* kind of being] Natur, naturiaeth, *Heb.* ii. 16. *Human nature*, Natur dyn, y natur ddynol.

¶ Nature, *s.* [disposition, temper, inherent quality, &c.] Natur, naturiaeth, *Deeth.* xix. 20. anian, anwyd, naws, greddf, cynneddf. *The divine nature*, Y duwiol anian, 2 *Pedr* i. 4. *By nature*, Wrth natur (naturiaeth,) o naturiaeth, *Deeth.* xiii. 1.

¶ Nature, *s.* [sort, *or* species] Rhyw, rhywogaeth, *Deeth.* xix. 21. màth, natur. *A dispute of this nature*, Dadl o'r fath hyn.

Good nature, *and* Ill nature. *See under* G. *and* I.

Of the same nature, Un-rhyw, un-fath; unnaws, &c. o'r un natur.

Good-natured, *and* Ill-natured. *See under* G. *and* I.

Nával, *a.* [belonging to, *or* consisting of, ships] Llongawl, perthynol (a berthyn) i longau. ¶ *A naval fight*, Llong-gad; ymladd llongau.

Nave of a wheel, Bôth olwyn; bogail.

Nave [body] *of a church*, Corph egluys. *In the nave* [of the church] Yngborph yr eglwys.

Nável, *s.* Bogail, *Met.* canol y peth a fyuner. *Navel-string*, Llinyn y bogail.

Nável-burst, Wedi torri ei len-gig; borsog.

Nável-wort, *s.* [in Botany] Dail y gron, bogail y forwyn, y gron doddaid. ¶ *The small navelwort*, Dail y gron leiaf, llysiau 'r geiniog.

Návew *See* Naphew.

Naught, *a.* Drwg, *Diar.* xx. 14. mall, &c.

Naught [bad] *for* or *hurtful to*, Drwg (niweidiol) i.

Náughtily, *ad.* Yn ddrwg, yn ddyrras.

Náughtiness, *s.* Drygedd, drygioni, 1 *Sam.* xvii. 28. dyrrasedd, dyrraswch, dihirwch, direidi, &c. *see.* Adj.—¶ malais, *Iago* i. 21. ¶ *The bewitching of naughtiness*, Hudoliaeth oferedd, *Deeth.* iv. 12.

Náughty, *a.* [applied to *persons*, bad, &c.] Drwg, drygionus, *Deeth.* xii. 10. diras, dyrras, diriaid, dihir, anfad, barus, ysgeler, &c. ¶ *A naughty person*, [fellow) Drygddyn, anfadwr, dihiryn, ¶ dyn i'r fall, *Diar.* vi. 12.——coegyn, coegddyn. *A naughty woman*, Dihiren, dihirog; coegen.

Naughty, *a.* [applied to *things*, bad, not sound] Drwg; afiach. *The other basket had very naughty figs*, Y cawell arall oedd o ffigys drwg iawn, *Jer.* xxiv. 2. *A liar giveth ear to a naughty tongue*, Y celwyddog a rydd glust i dafod drwg. *Diar.* xvii. 4.

Navigable, *a.* [capable of being sailed over] Mordwyawl, a aller (ellir) ei fordwyo, y galler (gellir) hwylio neu ymdaith arno, llongwriawl, hylong.—¶ 2 *Mac.* v. 21.

To návigate, *v. n.* [sail] Hwylio, morio, ymdaith ar fôr, mordwyo, llongwrio.

To navigate [steer] *a ship*, Hwylio (gweithio) llong.

Navigátion, *s.* [sailing, *or* the act of passing by water in a vessel] Hwyliad, moriad, mordwyad; ymdaith môr (ar fôr,) môr-ymdaith, mordwyaeth, ¶ llongwriaeth.

Navigátion, *s.* [the art of sailing] Llongwriaeth, celfyddyd hwylio llong, morwriaeth.

¶ *Navigation* [steerage] *of a vessel*, Hwyliad (llywiad) llong ar fôr.

Navigátor, *s.* [sailor] Moriwr, morwr.

Navigator, *s.* [a steersman, *or* one that steers a ship] Hwyliwr (hwylydd, llywydd) llong.

Náulage. *See* Freight; *and* Fare.

To náuseate. *See* to Loath.

Náuseous, *a.* Gwrthwyneblyd, ffiaidd.

Náuseously, *ad.* Yn wrthwyneblyd, yn ffiaidd.

Náuseousness, *s.* Gwrthwyneblydrwydd, ffieidd-dra.

Náutic *or* náutical, *a.* [belonging to ships *or* mariners] Perthynol i long (longau) neu forwŷr. *The nautic* [mariner's] *compass*, Campod y morwŷr.

Návy, *s.* [a collection of ships of war] Llynges, llu môr, mintai (llu) o longau rhyfel; ¶ llongau, 2 *Mac.* xiv. 1. ¶ *A little navy*, Llyngesan, llynges fechan.

Návy-office, *s.* [where the affairs of the navy are transacted] Llynges-dy, llyngesfa, gorchwylfa (gorseddfa, llŷs) y llynges.

Nay, *ad.* [an emphatic kind of negative, *no*, &c.] Nag è, *Mat.* v. 37. ac 2 *Sam.* xiii. 25. nag é ddim; na ddo, na ddo ddim; na, nac, nid, &c. *I tell you nay*, Nag è, meddaf i chwi, *Luc* xii. 51. *Nay verily*, Nid felly, *Act.* xvi. 37. ¶ *But he said, Nay*, Ac efe a ddywedodd, Na fynnaf, *Mat.* xiii. 29. *I tell you Nay*, Nac oeddynt, meddaf i chwi, *Luc* xiii. 5. *N. B.* In these two last, and other similar, examples, the Verb, expressed or implied in the preceding question, is repeated after the negative particle in the answer.

¶ Nay, *ad.* [implying a *denial* or *refusal*] Nâg, pall, &c. *I will have no Nay*, [said me,] Ni fynnaf Nâg (ball, ommedd, &c.) *Give me no Nay*, Na ddyro i mi ommedd (nâg, ball.) ¶ *He that will not when he may, when he will* [would] *he shall have nay*, [Prov.] Ni fynn pan gaffo, ni chaiff pan fynno.

To say [one] nay, Naccâu, pallu, gommedd, &c. *Say me not nay*, Na ommedd fi, 1 *Bren.* ii. 20. na naccâ (phall) i mi, na ddyro i mi nâg.

To be said nay, Cael nâg (pall, &c.)

¶ Nay, *or* nay rather [an amplificative, *also* a corrective, particle: *q. d.* rather, but rather, yea, rather, &c.] Yn hytrach, *Rhuf.* ix. 20. ïe (ond) yn hytrach, echrè, achrè.

Náy-word, *s.* [a refusal] Nâg, &c.

Nay-word, *s.* [proverb, &c.] Diareb, dihareb.

Nay-word, *s.* [watch-word] Gair amnaid, arwydd-air.

To neal. *See* to Anneal.

Neap, *a.* [applied to the tide *or* tides, and nothing else; *low; decreasing*] Isel; treiawl. ¶ *Neap tides*, Trei-lifoedd y môr, adlifoedd; ¶ iselfor.—¶ *Beneapt* [deserted by the tide] Wedi ei adaw (*fem.* ei gadaw) gan y môr, yn gorwedd ar lawr o eisiau (ddiffyg) dŵr.

Near, *a.* Agos; cyfagos, &c. gerllaw, ¶ wng,

Digitized by Google

eiddwng, wngc, ymwngc. *They are near neighbours*, Gymmydogion agos ydynt. ¶ *His near friends*, Ei anwyl gyfeillion, *Act.* x. 24.

Near, *ad.* Yn agos, &c.

Near, *prep.* or *near to*, Yn agos i *neu* at, yn ymyl, &c.—¶ *Very near noon*, [&c.] Ar lygad (ûn) hanner dydd. ¶ *They that are near the king's person*, Gweision pennaf y brenhin, *Jer.* lii. 25. *Near before him*, Ger ei fron, *Dan.* vii. 13.

Somewhat near, Lled agos, go-agos.

Near at hand. *See under* H.

Near being, Ar (agos i) fod, ar (agos i) gael, ym mron bod (cael,) heb fod nemmawr rhwng, &c.

Near coming, Ar ddyfod, gerllaw dyfod.

Near, *or* almost. *See* Almost, in its several Acceptations.

To draw near, Tynnu yn agos,—¶ *Draw* [thou] *near*, Tyred yma (yn nês,) dere'n nês, debre.

To come near together, Cŷd-nesâu, *Esay* xiv. 1.

Near, *or* stingy. *See* Hard [near, stingy, &c.]

Near a-kin. *See* near of Kin, *under* K.

Néarer, *a.* Nês; agosach; agosaf (nesaf) o ddau. *This way is nearer than the other*, Y mae'r ffordd hon yn nès na'r llall. *This is considerably the nearer way*, Dyma'r ffordd nesaf o lawer (nid o ychydig.) ¶ *The nearer the church, the farther from God*, [Prov.] A fo nesaf i'r eglwys, fydd pellaf oddiwrth baradwys. *Near is my shirt, but nearer is my skin*, [Prov.] Nês i mi fy nghrys nâ'm pais. *You will be never the nearer for this*, Ni byddi nês (haws, ronyn haws) er hyn.

Néarest, *a.* Nesaf, agosaf.

Néarly, *ad.* Yn agos.

Nearly, *ad.* [stingily] Yn gyrrith, yn grintach, yn anhael, yn llaw-gaead, &c.

To look nearly [narrowly, &c.] *to*, Edrych yn fanol (ofalus, &c.) at beth.

Nearness, *s.* Nesder, agosrwydd.

Nearness of kin by blood, Cyfnesafrwydd, trâs, carrennydd.

Nearness of kin by marriage, Cyfathrach.

Nearness, *s.* [niggardliness, *or* stinginess] Criutachrwydd, crinder, &c.

Neat, *ad.* Tlws, dillyn, destlus, destl, propr.

Neat, *a.* [used collectively for black cattle, *i. e.* oxen, cows, steers, heifers, &c.] Eidionnau (*sing.* eidion,) dâ duon. *A neat's tongue*, Tafod eidion. *Neat's feet*, Traed eidion. *Neat's leather*, or *neat-leather*, Croen (lledr o groen) eidion.

Néat-handed, *a.* Llaw-dlws, llaw-ddestl, tlŵs (destl, cywair, cywrain, celfydd, cynnil) ei law ar waith.

Néat-handedness, *s.* Llaw-dlysni, llaw-ddestledd, cywreindeb llaw ar waith.

Néat-herd, *s.* Bugail dâ duon, bugail gwartheg.

Neat, rather *net* [applied to *weight*, &c.] *See* Net.

Neat, *a.* [unadulterated, &c.] Pûr digymmysg.

Neath, *s.* [a river in Glamorganshire, in South Wales, so called] Nŷdd, *vulgo* Nédd,—*N. B.* This river seems to derive its name from its winding, flexuous *or* serpentine, course. For the natural signification of *Nŷdd* is—a winding *or* meander, whence the Verb *nyddu* (in Greek *néthein*)—to meander, *or* wind about, as rivers do.—There are two other rivers of this name in Britain (though somewhat disguised by the variation of orthography, and the corruptions of time;] i. e. the *Nid*, which runs by Knaresborough, in the West Riding of Yorkshire; and another *Nid*, that runs through *Nid'sdale* or *Nith's'edale* in Scotland.

Neath, *s.* [an ancient town of Glamorganshire, situated on the banks of the river of the same name, rendered venerable by the ruins of a castle of great antiquity, the *Nidum* of Antonine's Itinerary] Castell Nêdd (*vulgo* Casnedd,) i. e. *Castrum (castellum) Nidi*—*Neath Castle*, or *the Castle* or *Fortress on the river Neath.*

Néat-herd, *s.* Bugail dâ duon; bugail (heusor) gwartheg.

Néatly, *ad.* Yn dlŵs, yn ddillyn, &c.

Néatness, *s.* Tlysni, dillynedd, destlusrwydd, destledd, *&c.*

Nébulous. *See* Cloudy *and* Misty.

Nécessaries, *s.* Rheidiau, cyfreidiau, angenrheidiau; anhepgoran, pethau anhepgor.

To furnish [supply] *with necessaries*, ¶ Diangenu.

Nécessarily, *ad.* Yn rheidiol, yn angenrheidiol, yn rhaid, yn angenrhaid, *&c.* Sec. Adj.—o raid, o angenrhaid.

Nécessariness, *s.* Rheidiolrwydd; anhepgoredd.

Nécessary, *a.* Rhaid, angenrhaid, rheidiol, angenrheidiol, cyfreidiol; dir, rheidwy; anhepgor, anhepgorol, dihepgor, cyfraid: ¶ anocheladwy. ¶ *Necessary uses*, Angenrheidiau, *Tit.* iii. 14. *Necessary work*, Rheid-waith; gwaith anhepgor.

It is necessary, Rhaid (dir) yw, mae'n rhaid, mae'n angenrhaid, &c.

Not necessary, Afraid, afreidiol.

A nécessary *or* necessary house. *See* Bog-house.

To necéssitate, *v. a.* Dirio. *See* to Compel.

Necéssitous. *See* Indigent.

Necéssity, *s.* [an urging, *or* impelling, cause, constraint, *&c.*] Dîr, rheidrwydd, angenrheidrwydd, *&c.* dir-achos. ¶ *Necessity is laid upon me*, Angenrhaid a osodwyd arnaf, 1 *Cor.* ix. 16. *The present necessity*, Yr angenrhaid presennol, 1 *Cor.* vii. 16. *Having no necessity*, Yn afraid iddo, 1 *Cor.* vii. 17.

Necessity, *s.* [i. e. such as is invincible, and inconsistent with liberty of choice *or* of action] Angenrheidrwydd; ¶ angen, 2 *Esdr.* iv. 42. rhaid. *Of necessity, not of choice*, O raid, nid o ddewis. *He endureth that necessity which could not be avoided*, Efe a ddioddefai yr angen ni's gellid ei ochelyd, *Doeth.* xvii. 17. *See* Fate.

Necessity, *s.* [need, occasion, *&c.*] Rhaid, rheidwy, angen, (*pl.* anghenion.) cyfraid, (*pl.* cyfreidiau,) *Act.* xx. 34. a *Rhuf.* xii. 13. ¶ *Thou knowest my necessity*, Ti a wyddost beth sydd raid i mi, *Esth.* (Apocr.) xiv. 16. *In my necessity*, Wrth fy rhaid (fy angenrhaid. *Ye sent once and again unto my necessity*, Chwi a anfonasoch i mi un-waith ac eil-waith wrth fy angenrhaid, *Phil.* iv. 16. ¶ *Proper for thy necessity*, Priod (addas) i'th achosion.

Necessity, necessitousness, *or* necéssitude, *s.* [need, poverty, want, *&c.*] Angen (*pl.* anghenion,) 2 *Esdr.* xiii. 19. angenoctid. ¶ *The days of necessity*, Dydd yr angenrhaid, *Tobit* iv. 9.

Digitized by Google

Of necessity, O raid *neu* angenrheidrwydd; ¶ trwy gymmell, *2 Cor.* ix. 7. *Of necessity he must release one*, Yr ydoedd yn rhaid iddo ollwng un yn rhydd, *Luc* xxiii. 17.

¶ *To make a virtue of necessity*, Cymmeryd cynghor gan angen; troi rhaid yn rheswm; troi ei gyfeilliorni (ei gamsyniad, ei gamgymmeriad) yn gyfarwyddyd.

¶ *Necessity hath no law*, [Prov.] *See under* Law.

Neck, *s.* Gwddf, (*pl.* gyddfau,) gwddlwg, gwddw, mwnwgl. ¶ *A little neck*, Gyddfan. *One mischief on* [in] *the neck of another*, Y mill ddrwg (anffawd) ar warthaf y llall; *neu*, Drwg ar ddrwg, *&c. neu*, Oddi y drwg a ddaw wrtho ei hun. *In* [on] *the neck of these mischiefs cometh this also*, Ar warthaf (am ben, ynghynffon) y rhai'n y daw yr aflwydd hwn hefyd. *One war in the neck of another*, Y naill ryfel ar warthaf (yng nghynffon' wrth sawdl) y llall; *neu*, ¶ Rhyfel ar ryfel.

To break the neck of, Tor-fynygin, *Ecc.* xiii. 13.

To wring off the neck, Troi ei ben yn ei wegil: di-yddfu.

To clasp one about the neck, Myned ddwylo 'mwnwgl ar un.

¶ *To get*, or *slip, one's neck out of the collar*, disengage one's self from a troublesome business] Ymddirwyddo o ryw neges *neu* orchwyl trafferthus; ¶ tynnu (dwyn) ei ben o'r cebystr.

Neck of land. *See* Isthmus.

¶ *Neck or nothing*, [Prov.] Naill ai gwr, ai dim; *neu*, Gwr nea ddim.

Néck-band, *s.* Mwnygl-dorch.

Neck-cloth, *s.* Lliain, (pilyn) gwddf, *&c.*

Néck-kerchief, *or* neckatée, *s.* Mwnygl-wisg; ¶ toryn gwddf.

Néck-lace, *s.* Mwnygl-dlws, torch mwnwgl; cae, ceinion mwnwgl. *See under Lace.*

Neck-piece. *See* Gorget, [neck-armour.]

¶ Neck-weed. *See* Hemp.

Neck of mutton, Gwarr-ddryll (gwarrog, gwddfddryll, gyddfog) o gig mollt.

Nécked, *a.* [having a neck] Y (a'r y) mae iddo wddf, a gwddf iddo; gyddfog. ¶ *Stiff-necked*, Gwar-galed, gwar-syth, gwegil-syth. *Stiff-neckedness*, Gwar-galedrwydd. *Wry-necked*, Gyddfgam, a'i wddf ar dro.

Nécromancer, *s.* [one that pretends to reveal future things by means of his conversation with the dead] Dewin a alwo ar y meirw, ymofynnydd (un a ymofynno) â'r meirw, hudol a gynnner arno ddarogan a rhagddywedyd pethau trwy ymddiddan â'r meirw; swynwr, gorcheiniad.

Nécromancy, *s.* [a pretended divination, *or* foretelling events, by calling up the spirits of the dead, *&c.*] Dewiniaeth (dewindabaeth) drwy alw i fynu y meirw, ac ymddiddan â hwynt; megis y paral'r hudolion gynt i'r weirinos ben-welnion gredu y gwnaent; pan (Daw a ŵyr!) y gallent eyn gynted, a chyn hawsed, ddisgyn yr haul o entrych y ffurfafen, a dwyn yn ôl gymmaint ag un o'r rhai a ymadawsent â'r byd hwn, ac a aethent i fyd yr ysprydoedd; ymofyniad â'r meirw; *vulgò* nigromawns.

Néctar, *s.* [feigned by the Greek and Latin poets to be the liquor of the gods] Diod y dduwiau, yr hon (meddant) pwy bynnag a yfai o honi, ni byddai marw yn dragywydd. Gwae fi gan ofer-siaradach a choeg-ddychymmygion yr hen feirdd cenhedlig!

Nectárean, néctarine, nectáreous, *or* néctarous, *a.* [as sweet as nectar] Melysber fel y nectar, hyfryd-flas, pereidd-flas.

Néctarine, *s.* [a delicious fruit so called] Cneuen (eirinen) pëatus.

Need, *s.* [want, poverty, *&c.*] Angen, angenoctid, rhaid, eisiau, *&c.*

Need, *s.* [occasion, *&c.*] Achos, rhaid, *&c.* ¶ *In their need*, Pan oedd eisiau arnynt, *Doeth.* xi. 5. *Defer not to give to him that is in need*, Na wna i'r anghenog hir ddiagwylam ei rodd, *Ecclus.* iv. 3. *As need requires* [shall require] Fel y byddo rhaid, *Ecclus.* viii. 9. (ar ymyl y ddalen.) *Lend to thy neighbour in his need*, Dod echwyn i'th gymmydog yr amser y byddo rhaid iddo, *Ecclus.* xxix. 2. *That we may—find grace to help in time of need*, Fel —y caffom ras yn gymmorth cyfamserol, *Heb.* iv. 16.

No [have, *or* stand in] need, *v. n.* Bod yn rhaid i un wrth beth, bod mewn eisiau *neu* angen, *&c. He hath no need of any counsellor*, Nid rhaid iddo ef wrth gyngor neb, *Ecclus.* xlii. 21. *He needed not that any should testify of man*, Nid oedd raid iddo dystiolaethu o neb iddo am ddyn, *Jo.* ii. 25. *Thou, who hast need of nothing*, Tydi, yr hwn nid oes arnat eisiau dim, *2 Mac.* xiv 35. ¶ *A workman that needeth not to be ashamed*, Yn weithiwr difefl, *2 Tim.* ii. 15. *According to the desire of them that need*, Wrth ewyllys y rhai anghenus, *Doeth.* xvi. 25.

¶ *Must needs.* Ex. *I must needs*, Rhaid (rhaid yw, maen rhaid, dir yw) i mi; gorfydd arnaf, gorfydd i mi. *There must needs be*, Ni all na bo. *It must needs be*, Dir yw. *Thou wouldst needs be gone*, Ti a fynnit fyned ymaith, *Gen.* xxxi. 30. *The multitude must needs come together*, Nid oes fodd na ddêl (angenrhaid yw dyfod) y lliaws ynghyd, *Act.* xxi. 22.

Néedful, *a.* Angenrheidiol.

Néedfulness, *s.* Angenrheidioldrwydd.

Néediness, *s.* Rheidusrwydd, rheidusni, anghenusrwydd, tlodi.

Néedle, *s.* Nodwydd, nodwydd ddûr.

Shepherd's needle, *s.* [in Botany] Nodwydd y bugail.

Néedle-fish, *s.* Cornbig, môr-nodwydd.

A knitting-needle. *See under* K.

The mariner's needle, Nodwydd ogledd-gyfeiriol) y compod *neu* y morwr.

Néedle-maker, *s.* Nodwyddwr, gwnenthurwr nodwyddau.

Néedle-work, *s.* Gwaith nodwydd (edau a nodwydd,) gwniadwaith: brodiad, brwyd-waith.

To work needle-work, Gweithio gwaith edau a nodwydd; brodio.

A needle-ful of thread, Nodwyddaid o edau.

Néedless, *a.* Afreidiol, afraid, ni (a'r ni) bo rhaid wrtho.

Néeds, *s.* Angenrheidiau.

¶ *Do no more than needs must*, Na wna ond yr hyn a fyddo yn anhepgor.

Néedy, *a.* Anghenus, *&c.* ¶ *Needy persons*, Rheidusion.

Ne'er. *See* Never.

To neese, *or* neeze, Trewi, taro untrew, tisian.

Digitized by Google

Nefárious, *a.* [abominably wicked] Ysgymmun, ysgeler, echryslawn, &c.
Negátion. *See* Denial, *and* a Denying.
Négative, *a* [of a denying quality, opposed to *affirmative*] Naccäol, naccäus, gomeddol, negyfawl, negyddawl, gwadawl; yn naccau, yn gommedd; a naccäo, &c. ¶ *In the negative*, or *negatively*, Trwy nag (wàd, omedd;) yn naccäol. *See*
Négative. *See* Denial, *and* Denier
Négatively, *ad.* [by denying, *&c.*] Trwy nag (wad, ommedd;) trwy (gan) naccau; yn naccäol.
Négatory, *a.* A berthyn i naccau.
Neglect, *s.* Esgeulusder, esgeulusdra, esgeulusdod, esgeulusrwydd, gwall, *&c.* dibrisdod, dïystyrwch.
Neglect, *s.* [want of looking after] Gwall edrych at beth, eisiau gofal am beth. *It perished through neglect*, Efe a gollwyd o wall edrych atto.
To neglect, *v. a.* Bod yn esgeulus (yn wallus) am; esgeuluso, *&c.* *Neglect not to give alms.* Nac esgeulusa wneuthur elusen, *Ecclus.* vii. 10. ¶ *Neglect not his burial*, Na ddïystyria ei gladdediaeth ef, *Ecclus.* xxxviii. 16. *If he neglect to hear them*, Os efe ni wrendy arnynt hwy, *Mat.* xviii. 17.
Néglected, *a.* Esgeulusedig, a esgeuluswyd, wedi ei esgeuluso.
Neglécter, *s.* Esgeuluswr, esgeulusydd.
Neglectful, *a.* Llawn esgeulusdod (diofalwch, *&c.*) dïofal, esgeulus.
A neglecting, *s.* Esgeulusad, esgeulusiad.
Négligence, *s.* Esgeulusder, esgeulusdra, esgeulusrwydd, esgeulusdod, gwallusder, gwallusdra, gwallusrwydd, diofalwch; dibrisrwydd.
Negligence, *s.* [in *or* of dress] Anghrynodeb, annestledd, annillynedd, annhacclusrwydd.
Négligent, *a.* Dïofal, gwallus, esgeulus, *&c.*
Négligent, *a.* [in dress] Annestlus, annestl, annillyn, annhacclus, anghryno, anghyfrdo.
Négligently, *ad.* Yn ddïofal, yn wallus, yn esgeulus.
To negótiate, *v. n.* [transact some business for another; carry on the trade of a merchant, *&c.*] Trin gorchwyl *neu* neges dros arall; gwneuthur marchnadoedd dros arall. marchnatta dros arall; gorchwylio (negeseua) dros arall.
To negotiate, *v. n.* [traffick] Negeseua, marchnatta, porthmonna. *&c.*
To negotiate [enter into treaty with a foreign State in order to bring about a peace, Cylafareddu (cynnatla) am heddwch; ¶ cylafareddu.
To negotiate a bill of exchange, Dwyn cyfnewidlythyr (llythyr cyfnewid) trwy'r newidfa; ¶ troi llythyr cyfnewid yn arian.
Negotiation, *or* a negotiating, *s.* Triniad (triniaeth) gorchwyl *neu* neges; gwneuthuriad marchnad.
Negotiation, *s.* [a treaty of business, management *or* transaction of an affair, &c.] Triniad (triniaeth) gorchwyl *neu* neges.
Negotiation, *s.* [a trafficking, traffic, *&c.*] Masnach, cyd-fasnach, *&c.*
Negotiation, *s.* [a treaty with a foreign state about peace, *&c.*] Cylafaredd, cynnadledd; herodraeth, negeswriaeth.
To enter into [commence] *a negotiation*, Myned mewn (dechreu, cychwyn) cylafaredd, myned mewn (dechreu) cynnadl; cymmeryd neges mewn llaw, rhoi neges ar droedyn. ¶ *He will shortly enter into negotiations of peace*, Hwy a osodant ar fyrder hèdd-gylafaredd ar droedyn; *neu*, Hwy a ddechreuant ar fyrr gylafareddu am heddwch.
Negotiátor, Trinydd gorchwyl (neges;) gwneuthurydd marchnadoedd dros arall; masnachwr, porthmon; negesenwr; herod; cylafareddwr, cynnadlwr, cynnedlydd.
Negro, *s.* [a black *or* black-moor] Dyn du, blowmon, blewmon, Ethiopiad. *Negroes*, Ethiopiaid, dynion duon.
To neigh, [as a horse] Gweryru, gweryrad.—*To neigh to one another*, Ymweryru, gweryru ar en gilydd.—*To neigh after*, Gweryru ar, *Jer.* v. 8.
A néighing, *s.* Gweryriad, *Jer.* xiii. 27.
Néighbour, *s.* Cymmydog.
A wóman-neighbour, *s.* Cymmydoges.
Néighbourhood, *s.* Cymmydogaeth.
Néighbouring, *a.* [of, *or* in, the neighbourhood] O'r (yn y) gymmydogaeth; cyfagos. *A neighbouring people*, Pobl o'r gymmydogaeth. *A neighbouring town*, Tref yn y gymmydogaeth.
Néighbour, *s.* [like a neighbour, *or* like that of a neighbour] Cymmydogaidd; cymmydogawl.
Neighbourly, *ad.* Yn gymmydogaidd, fel cymmydog.
Néither, *ad.* [not either; not one nor the other; not this nor that] Nid un (yr un) o honynt *neu* o'r ddau, nid y naill, na'r llall, na'r naill na'r llall; nid hyn (na hyn) na hynny. *He would have neither of them*, Ni fynnai, *neu* ni's mynnai, efe yr un (na'r naill na'r llall) o honynt.
Neither, *conj.* [not either] Na, nac, chwaith, ychwaith. *Fight neither with small nor great, save only with the king of Israel*, Nac ymleddwch â bychan nac â mawr, ond â brenhin Israel yn unig, 1 *Bren.* xxii. 31. *Ye shall not eat of it, neither shall ye touch it*, Na fwytewch o hono, ac na chyffyrddwch ag ef (chwaith,) *Gen.* iii. 3. *Not she, nor you neither*, Na hithau, na chwithau chwaith. *Neither hath this man sinned, nor his parents*, [It is not this man that hath sinned, neither is it his parents that have sinned] Nid hwn a bechodd, na'i rïeni chwaith; *Io.* ix. 3. ¶ *Neither tell I you by what authority I do these things*, Nid wyf finnau yn dywedyd i chwi trwy ba awdurdod yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn, *Mat.* xxi. 27. *Nor then neither*, Na phryd hynny chwaith. *What not yet neither?* Beth, ai nid etto chwaith?
Neither way, Nid yr un o'r ddwy-ffordd.
That takes neither part. See Neuter.
Nem. con. i. e. *nemine contradicente*, [no one gain-saying] Heb neb yn gwrth-ddywedyd, ¶ heb lûdd heb wahardd.
Néophyte, *s.* Newydd-blan. *See* Novice.
Neotéric. *See Modern, and* Late, *in its* 2nd *Acceptation.*
Néphew, *s.* [a brother's *or* sister's son] Nai, *pl.* neiaint.
Nephritic, *a.* [of, *or* belonging to, the kidneys: troubled with the stone in the kidneys: good against the stone and gravel in the kidneys] Perthynol (a berthyn, yn berthyn) i'r aren-

Digitized by Google

nau, eiddo'r arennau: claf o'r maen tostedd neu'r grulan yn ei arennau: da rhag (yn erbyn) clefyd yr arennau.

Népotism, *s.* [fondness for nephews] Nai-gareedd, nai-garwch.

Nerve, *s.* [a sinew: *Met.* strength, &c.] Gewyn, gieuyn: ¶ grym, nerth, cryfder, cadernid.

Nérveless, *a.* [void of sinews, *or* ¶ of strength] Di-ïau: ¶ dirym, dinerth; llesg, eiddil, gwan, egwan.

Nérvous, *a.* [abounding in nerves, *or* in strength] Gewynog, gïeuog, llawn gïau: *Met.* cryf, cadarn, grymmus, nerthol, nerthog.

¶ Nervous, *a.* [of, *or* belonging to, the nerves; affecting, *or* having its seat in, the nerves] Perthynol (a berthyn, yn perthyn) i'r gïau, gïeuol, gïeulyd, yn blino (yn gormeillo) y gïau, yn y gïan.

¶ *Nervous disorders*, Clefydion (clefydon) y gïau.

Ness, nese, nase, *vulgo* nash, *s.* [a point of land running into the sea] Rhŷn, pen-rhyn.

Nest, *s.* Nŷth. ¶ *A little Nest*, Nythan, nythyn. *A nest* or *nestful*, Nythaid, nythaiwyth.

To [build, *or* make, a] nest, *v. n.* Nythu, gwneuthur nŷth.

Nést-cock, *s.* Nyth-fab, un na bu erioed oddicartref gan anwes ei rïeni.

Nést-egg. *See under* egg.

To néstle, *v. n.* [make one's nest, &c.] Gwneuthur ei nŷth; ymsefydlu; ymguddio megis aderyn yn ei nŷth; ¶ cuddio ei ben (ymguddio) ym mynwes un.

To nestle about, [as a hen when her laying time approaches] Rhag-nythu, *vulgo* rhygnythu, gwneuthur (cyweirio) ei nŷth yma ac accw.

To nestle, *v. a.* [as a bird does her young ones in the nest] Adeinio, cuddio dan ei hadenydd; ¶ cuddio (llochi) yn ei mynwes.

Néstler, *s.* Rhagnythwr, rhygnythwr.

A nestling, *s.* [a bird that hath but just quitted the nest] Nyth-gyw.

Net, *s.* [a meshy texture so called] Rhwyd: ¶ magl, *Esay* li. 20. ¶ *A little net*, Rhwydan, rhwyden. *A hoop-net*, Rhwyd gibliad.

Nét-like, *or* made like a net, Rhwydtyllog, rhwyd-dyllog.

A nét-maker, *s.* Rhwydwr, rhwyd-wëydd.

Nét-man, *s.* Rhwydwr, bwriwr rhwyd.

Net-wise, *ad.* Ar wèdd rhwyd.

Nét-work *or* nétting, *s.* Rhwyd-waith, gwaith rhwyd.

To take [catch] in a net, Rhwydo, dàl mewn rhwyd.

¶ Net *or* neat, in Trade, &c. [pure, cleared of its dross *or* refuse] Glân, pûr, purlan, wedi ei buro, disothach, digymmysg; coeth, têr, *Net weight*, Glân-bwys, pwysau glân (têr, ¶ digoll, digolled.) *The net produce of a thing*, Cyllid (cynnyrch) cyfan, cyllid didwn.

Néther, *a.* [opposed to *upper*] Is (ïs;) ¶ isod.

Néthermost. *See* Lowermost.

Néttle, *s.* [in Botany] Danadlen (*pl.* danadl) danhadlen, dynadlen (*pl.* dynadl,) dynaden (*pl.* dynad,) *Blind* or *dead nettle*, Danhadlen ddàll (farw.)

To néttle. *See* to Irritate, &c.

Net-work, &c. *See above under* Net.

Full of [abounding with] *nettles*, Dynadlog, dynadog, llawn dynad.

Néver, *ad.* [at no time *past*] Erioed ni, ni—(nid—, ni's—, &c.) erioed *neu* un amser: ¶ ni, *Deut.* xv. 11. nid, ni's; na, *Lef.* vi. 13. *There never was his like* [any like him] Erioed ni bu (ni bu erioed) mo'l fâth. *I never knew you*, Ni's adnabûm chwi erioed, *Mat.* vii. 23.

Never, *ad.* [at no time *to come*] Byth ni, ni—(nid—, ni's—, &c.) byth *neu* yn dragywydd. *It will never be*, Byth ni bydd. *It will never cease*, Ni phaid byth. *He shall never suffer the righteous to be moved*, Ni âd i'r cyfiawn ysgogi byth, *Salm* lv. 22. *He that doeth these things shall never be moved*, A wnelo hyn nid ysgogir yn dragywydd, *Salm* xv. 5. ¶ *That thou mayest—never open thy mouth any more, because of thy shame*, Fel—na byddo it' mwy agoryd safn gan dy w'radwydd, *Ezec.* xvi. 63. *Now or never*, Bellach *neu* byth.

Never, *ad.* [at no time *indefinitely*] Nid—un amser, ¶ nid—erioed, 2 *Cron.* xviii. 7. ¶ *Ever learning, and never able to come to the knowledge of the truth*, Yn dysgu bob amser, ac heb allu dyfod un amser i wybodaeth y gwirionedd, 2 *Tim.* iii. 7.

Never a, [no, none, *or* not any] Ni, nid—, na; neb, nebun; dim. *He said never a word*, Nid ynganodd (ni ddywedodd) efe air *neu* un gair. *There is never* [ne'er] *a one here*, Nid oes yma mo'r un. *There is ne'er a one come yet*, Ni ddaeth mo'r un etto (hyd yn hyn.) *He answered him to never a word*, Nid attebodd efe iddo i un gair, *Mat.* xxvii. 14. *So that there was never a son left him*, Fel na adawyd mab iddo, 2 *Cron.* xxi. 17. *Is there never a woman among the daughters of thy brethren, or among all my People?* Onid oes ym mysg merched dy frodyr, nac ym mysg fy holl bobl, wraig? *Barn.* xiv. 3. ¶ *I understood never a word*, Ni ddyellais i gymmaint â gair. ¶ *Never a barrel the better herring* [Prov.] Nid oes o honynt mo'r un da.

¶ *Never at all*, Nid oll; nid un amser; nid erioed; nid byth.

Never a whit, Nid—un gronyn *neu* un tippyn.

Never-ceasing. *See under* Ceasing.

Never-dying. *See* Ever-living *under* E.

Never-ending. *See* Endless, *and* Eternal.

Never-failing, *a.* Diball, difeth, dibaid, diddarfod.

Never so, [better perhaps] *ever so*, ¶ Er, &c. *Never* [ever] *so big or great*, Er maint, er cymmaint. *Never* [ever] *so high*, Er c'uwch (cyfuwch.) *Charming never so wisely* [be the charmer never so cunning] Er cyfarwydded fyddo'r swynwr, *Salm* lviii. 5.

Be it never [ever] *so good*, Er daëd (cystled) fyddo. *Never* [ever] *so many* or *numerous*, Er lïosocced, er amled. ¶ *Any never so small a matter*, Y dim lleiaf.

Never [ever] *so great. See* how Great soever, *under* G.

Never [ever] *so little. See* ever so Little, *under* L.

Never the, [before an Adjective of the comparative degree] Dippyn, o dippyn, ronyn, o ronyn, fymryn, o fymryn, ddim, o ddim. *He came never the sooner for that*, Ni ddaeth efe dippyn gynt (yn gynt) oblegid hynny. *I am never the nearer* or *better*, Nid wyf ron-

Digitized by Google

yn 'nês (haws;) *neu*, Nid wyf i' nes (haws) o ronyn; *neu*, Nid wyf i ddim yn nês (yn nês o ddim;) &c.

Nevertheless, *ad.* Erhyn (hynny) i gyd, er hyn (hynny) oll, er hyn (hynny,) nid anllai (yn llai,) etto, eisoes, eisioes.

Néuter *or* néutral, *a.* [of neither side *or* party] A'r nid yw o'r naill blaid na'r llall, a'r nid yw o neb blaid (o un o'r ddwy-blaid *neu'r* ddwy-lyw,) annhueddol (diduedd) at yr un o'r ddwyblaid, yn sefyll ar ei ben ei hun *neu* yn y canol (rhwng dwyblaid;) ammhleidiol, yn sefyll yn gymmwys (gyd-bwys) rhwng y ddau, a'r nid yw o un ochr (tu, blaid) mwy na'i gilydd; a'r ni pherthyn i'r un o'r ddau, *vulgo* neodr. ¶ *He stands neuter*, Y mae efe yn sefyll yn y canol (ar ei ben ei hun.)

Neuter gender, in Grammar, [of neither sex] Y ganol-ryw, ¶ y neodr.

Neuter, *s.* [one not engaged in any party] Ammhleidydd, ammhleidwr, ¶ gŵr (dyn) ammhlaid.

Néutral. *See* Neuter.

Neutrálity, *s.* [the state *or* quality of being on neither side, &c.] Ammhleidioldrwydd, ¶ ammhlaid: annhuedd; canol-safiad.

New, *a.* Newydd.—Bran-*new* [brand-*new*] or span-*new*, Newydd tanlliw.

A new beginner, Un newydd-ddechreu; newyddiad.

New born, *a.* Newydd-eni, i *Pedr* ii. 2. newyddenedig.

New-coined. *See under* C.

Néw-come, Newydd-ddyfod.—*A new comer*, Un newydd-ddyfod, ¶ newydd-ddyfodog.

New- [in Composition, *newly.*] Ex. *New-healed*, Newydd-wella, newydd ei wella. *New-made*, Newydd-wneuthur: a wnaed o newydd. *New-married*, Newydd-briodi, ¶ newydd-weddog.

New-fangled. *See* Fangled, &c.

A new man, Dyn newydd. *See* a Fresh-man; *and* Upstart.

To make new, Gwneuthur yn newydd; newyddu, adnewyddu.

To make new again, Adnewyddu, ail-newyddu: lluganu.

To new-make, [make a-new] Gwneuthur o newydd.

To new-mould, Ffurfio (moldio) o newydd.

To new-vamp. *See* to Dress anew.

To grow [become] new, Ymadnewyddu, mynedyn newydd.

Néw-year's day, *s.* Dydd calan.

New-year's gift, *s.* Calennig.

A-new, O newydd. *See under* A.

Néwing. *See* Barm.

Néwly, *ad.* Yn newydd, o newydd; ddiweddar.

Néwness, *s.* Newydd-deb, newydd-der; newydd-rwydd.

News, *s.* Newyddion: *sing.* newydd. *What news?* Pa newydd sydd? *Good news*, Newydd (newyddion) da; ¶ llawen-chwedl; coelfain (*quære.*) *Bad* [ill] *news*, Newydd (newyddion) drŵg; ¶ oer-chwedl.

Néwsmonger, *s.* [a dealer in news] Masnachwr (masnechydd; helwr, helywr) newyddion; ¶ arweiniwr (helywr) chwedlau.

Néwspaper, *s.* Papur newyddion; ¶ newyddgrawn.

Next, *a.* Nesaf. *See* Nearest.

Next, *ad.* Yn nesaf. ¶ *What comes next?* Beth a ddaw nesaf (yn nesaf?) *Next to* [after] *the bishop is the dean*, Ar ol (yn nesaf at) yr esgob y mae'r dëon.

Nib [of a bird.] *See* Beak.

Nib [the point] *of a pen*, Blaen (diflaen, pig) pin ysgrifennu.

Nibbed, *a.* [having a nib] Ag iddo big.

To nibble, *v. a.* [bite by little and little, &c.] Deintio, go-ddeintio, gognoi, dargnoi, mallgnoi; cnofain: *vulgo* mansiach.

To nibble at a bait, [as a fish does] Cnithio.

¶ To nibble [carp] at, Gofeio. *See* to Carp at.

Nibbled, *a.* Deintiedig, dargnöedig.

Nibbler, *s.* Deintiwr, deintydd, dargnöwr, dargnöydd.

Nibbling, *part.* Yn deintio, gan (dan) ddeintio, yn dargnol, gan (dan) ddargnoi.

Nice, [dainty.] *See* Dainty, *and* Delicate, *in their several Acceptations.*

Nice, *or* exact. *See* Exact, *and* Curious *in its* 2nd, 3rd, *and* 4th *Acceptation.*

Nice, *a.* [ticklish, &c.] Anturus, peryglus; ¶ yn neupen y dafol, mantol a mantol, breiddbwys, prin-bwys; wrth fin y gyllell; ar ben y pin.

Nice, *or* finical. *See under* F.

¶ *More nice than wise*, Destlach nag a fo da iddo (nag a fo da er ei lês,) rhy ddestl.

Nicely, *ad.* Yn fwythus: yn ddestlus.

Niceness. *See* Daintiness, Delicateness: Curiosity (*in its* 2nd *and* 3rd *Acceptation,*) Exactness, &c.

Nicetiea, [in eating.] *See* Dainty dishes, &c.

Niceties [elegancies] *of speech*, Dillynion (diehllynion, ceinion) ymadrodd.

Nicety. *See* Exactness; Elegance, &c. *See also* Niceness, &c.

Niche, *s.* [a hollow in a wall wherein a statue may be placed] Ceuedd mewn magwyr i osod delw *neu* eilun ynddo; eilun-fedd, eilunfa.

Nick, *or* notch. *See* Notch.

¶ *In the nick of time*, Ar yr unig funud, ar y funud brydlawn, ar y iawn bryd, (iown-bryd) mewn pryd ac amser, ar yr adeg.

Tó nick *or* notch, *v. a.* Rhygnu, rhygn-dorri, torri rhygnau ymmheth, rhintachu.

To nick, *or* hit. *See* to Hit, *in its* 1st *Acceptation.*

To nick, [touch by good luck, &c.] Cyffwrdd â pheth (taro wrth beth) o wir ffawd *neu* ar awr dda; ¶ taro'r hoel ar ei phen.

To nick a business, [do it in the very nick of time, *i. e.* at the point of time which is most proper and convenient] Gwneuthur gorchwyl ar yr iawn bryd, cyffwrdd â'r amser *neu'r* adeg ar orchwyl. ¶ *He nicked the matter to a nicety*, Efe a gafodd allan yr unig amser (bryd) i gyflawni hyn o orchwyl.

To nick a watch, Tynhâu (*hefyd* llaesu) tynlefnyn oriawr, fel y cerddo yn gynt *neu* ynte yn hwyrach.

¶ *To nick a person*, [defeat, *or* disappoint by some trick] Siommi.

Nicked, *a.* Rhygnog, rhygnedig: siommedig.

Nick-name, *s.* Llysenw.

To nickname, *v. a.* Llysenwi, rhoi llysenw ar un.

Nide, *or* nest, *s.* [of pheasants] Nythaid, nythlwyth.

Digitized by Google

Nidification, *s.* [nest-building] Nythiad, gwneuthuriad (adeiliad) nyth.
Nidulation, *s.* [the time of keeping the nest] Nyth-drigiant.
Niece, *s.* [the daughter of a brother or sister] Nith.
Niggard, *or* niggardly. *See* Niggardly.
Niggard. *See* Churl [a niggard, &c.] Hunks.
Niggardish, *a.* [somewhat inclined to avarice] Crinwasaidd, cybyddlyd, go-gybyddlyd.
Niggardliness. *See* Avarice [niggardliness] Closeness [niggardliness.]
Niggardly, *a. See* Avaricious [niggardly,] Close-fisted, Covetous [avaricious;]—*Miserable* [niggardly] &c.
A niggardly person. *See* Churl [a niggard, &c.] Hunks, &c.
Niggardly, *ad.* Yn anhael, yn gyrrith, yn grintach, yn llaw-gnead, yn grinwasaidd, yn gybyddlyd.
Nigh, *a.* Agos, &c.
Nigh to, Agos (yn agos) at, yn ymyl, yn (ar ael, yn min) ger llaw, &c.
Nigher, Highest, *and* Nighness. *See* Nearer, Nearest, *and* Nearness.
Night, *s.* [opposed to *day*] Nôs.
A night, or *a night's time*, Noswaith, noson, *Gen.* xxxii. 13. nôs. *A night's lodging*, Llettŷ noswaith. *For a night*, Dros nôs, ¶ dros bryd nhawn, *Salm* xxx. 5.
All [the] *night*, Yr holl nôs: trwy'r nôs; dros (y) nos, *Barn.* xix. 6.—*All* [for the whole] *night long*, Trwy gorph (gydol, gorph cydol) y nôs; yn hŷd (ar hŷd) y nôs.
To bid, or *wish*, *one a good night's rest*, Erchi (dymuno) noswaith dda i un.
To lodge [stay] *all night*, Aros (trigo, lletteua) dros nôs.
¶ *To make* [stay till] *night*, Aros nes ei myned yn nôs neu'n hwyr.
To grow towards [grow *or* wax] *night*, Nosi, hwyrhâu, myned yn nôs neu'n hwyr. *It grows* [towards] *night*, Mae'n nosi.
At night, Y (yn y) nôs. ¶ Yr (yn yr) hwyr, *Gen.* xlix. 27.
Late at [late *or* far in the] *night*, Ar (am) lawer o'r nôs; yn hwyr yn y nôs; ynghefnaint nôs.
By night, Y (yn y) nôs, ar (o) hŷd nôs, liw (wrth liw) nôs. *By night and by day*, Ar hŷd nôs ac ar hŷd dydd.
Night by night, *every night*, or *night after night*, Bob nôs, beunos, beunoeth, peunoeth, nôs yn ei nôs, o nôs i nôs, o nôs bwygilydd, bob nôs ar ôl ei gilydd.
To night, or *this night*, Y nôs hon, heno, *anciently* henoeth.
Last night, or *yester-night*, Neithiwyr.
The night before last [night] Echnos, ¶ ymannos.
To study by night. *See* to Lucubrate.
A dark night, Noswaith dywyll (an-oleu.)
A moon-light night, Nôs oleu-leuad, &c. ¶ *The three light* [moon-light] *nights*, Y teir-nôs oleu.
A star-light night, Nôs (noswaith) seriog neu serog.
The still of the night, Dyfnder (y) nôs, ¶ dewient.
The space of 2, 3, 4, *nights*, Dwy-nos, teir-nos, pedeir-nos; yspaid dwy-nos, &c.
Night-cap, *s.* Cap (liu) nôs.
Night-crow *or* raven, *s.* Brân (y) nôs.
Night-gown, *s.* Hûg (twyg) nôs.
Nightingale, *s.* Eos, ëawe. ¶ *A little* [young] *nightingale*, Eosig.
Nightly, *ad.* [in the night; by night; every night] Y (yn y) nôs; ar hŷd nôs; bob nôs, beunos.
Nightly, *ad.* [done in the night; that comes in the night *or* every night] Nosawl; beunosawl; a wneir (a ddêl, a ddigwydd) yn y nôs neu beunos.
Night-man, *s.* Carthwr geudai.
Night-mare, *s.* Hunllef, yr hunllef, *vulgo* yr benllig.
Night-rail, *s.* [a loose sort of garment worn in the night over the dress to keep it clean] Toryn nôs, toryn; ysgubiar.
Night-shade, [in Botany.] *See* Bane-wort, *and* Horse-tail.
Woody night-shade, *s.* [in Botany] Manylog, y fanyglog.
Night-thief, *s.* Gwilliad, gwill.
Night-walker, *s.* [one who roves in the night upon ill designs, such as *a thief*, *a prostitute*, &c.] Nôs-gerddedydd: gwilliad, gwill: puttain i'r neb a'i mynno.
Night-wanderer, *s.* Nôs-grwydrydd, un nôs-grwydr, gwibiad y nôs.
Night-ward, *a.* [approaching towards night] Yn tynnu tu a'r nôs.
Night-watch, *s.* [a portion of the night distinguished by a change of the watch] Gwylfa (gwilliadwriaeth) nôs. *Night-watches*, Gwilliadwriaethau 'r nôs, *Salm* cxix. 148.
Nigrescent, *a.* [growing dark *or* black] Yn tywyllu, yn myned yn dywyll, yn dub, &c.
Nihility, *s.* [nothingness, *or* the quality of being nothing] Diddymrwydd.
Nill, *s.* [the sparkles, ashes, *or* cinders that come from brass tried in the furnace] Ulw a gwreichion prês wrth ei brofi neu ei goethi.
To nill, *v. a.* [be unwilling, refuse, &c.] Bod heb fynnu, bod yn anewyllysgar i wneuthur peth, gwrthod (pallu) gwneuthur peth.
To nim, *v. a.* [in the cant language of thieves, *to steal*] Lladratta; chwiw-ladratta.
Nimble. *See* Active, [nimble] Agile, Flippant [nimble;—] Light [nimble, &c.] Fleet.
Nimbleness. *See* Activity, *and* Lightness [nimbleness.]
Nimbly, *ad.* Yn slongc, yn chwimwth.
Nine, *s.* Naw, ¶ namyn un deg. ¶ *Made of nine sorts*, Naw-rhyw. *Nine times*, Nawwaith, naw'aith, nawgwaith. *Nine days*, Naw niau, naw diwrnod.
Ninefold, *s.* Naw dyblyg, naw-plyg. *See* ¶ Fold.
Nine-pins. *See* Kettle-pins.
Nine and twenty, *or* twenty nine, Naw ar hugain.
Nine and twentieth, Nawfed (nawed) ar hugain.
Nine and thirty, Namyn un deugain, pedwar ar bymtheg ar hugain.
Nine times so much, Y naw cymmaint.
Nine times so many, Y naw cynnifer.
Nineteen, *a.* Pedwar ar bymtheg, namyn (amyn, onid) un ugain.
Nineteenth, *a.* Y pedwaredd (*fem.* bedwaredd) ar bymtheg, ¶ y namyn unfed ugain.
Ninetieth, *a.* Y degfed (*fem.* ddegfed) a phedwar ugain.

Digitized by Google

Ninety, *a.* Pedwar ugain a dèg, dèg a phedwar ugain. ¶ *Ninety and nine*, Namyn (amyn, onid) un cant, namyn (amyn, onid) un pum ugain. *Ninety times*, Dengwaith a phedwar ugain. *Ninety and nine years old*, Onid un mlwydd cant, *Gen.* xvii. 1. pedwar ugain mlynedd a deg oed, deng-mlwydd a phedwar-ugain oed.

Ninny, *or* ninny-hammer. *See* Fool, *&c.*

Ninth, *a.* Nawfed, nawed?

Nip, *s.* [a pinch with the teeth *or* nails] Craff (*dim* creffyn, gafael yn) â dannedd neu ewinedd; gwasg (gwasgfa) dannedd neu ewinedd; ôl dant neu ewin; tymmhygiad: tammigad.

Nip, *s.* [a little cut *or* incision] Trychyn.

Nip, *or* blast, *s.* Daif, deifiad.

To nip, *v. a.* [pinch off with the nails; bite off, *&c.*] Trychu ag ewinedd (rhwng dau ewin; trychu a dannedd (rhwng deu-ddant,) cnoi ymaith; trychu ymaith.

To nip, *or* twitch, *v. a.* Tymmhigo, 'sbongc-dynnu, tynnu o'r gwraidd â gefeilan. ¶ *Nip it off*, Tynn (torr, trŷch) ef ymaith.

To nip, *or* blast, *v. a.* Deifio; Peri gwywo (difannu.)

To nip in the bud. See under Bud.

¶ To nip, *or* bite. *See* to Bite.

Nippers *or* a pair of nippers, [small pincers, *or* tweezers] Gefeilan, gefail feichan; tynniedydd blew *neu*'r cyffelyb.

Nipping, *or* biting. *See* Keen [applied to *expressions*, *&c.*]

Nipping, *or* blasting, *a.* Deifiol; yn deifio, gan (dan)ddeifio. ¶ *Nipping cold weather*, Tywydd du-oer (rhynllyd, fferllyd.)

Nippingly. *See* Bitingly.

Nipple, *s.* [the teat of a woman's breast] Pennig (pen) bron, diden, titten, tethan; têth.

Nit, *s.* [the egg of a little insect, of a louse *say some*] Nédden, *pl.* nedd.

Nitency. *See* Lustre: *and* Endeavour.

Nitid. *See* Bright.

Nitre, *s.* [a sort of salt, *or* substance resembling salt, so called] Rhyw halen neu sylwedd tebyg i halen, nitr.

Nitrous *or* nitry, *a.* [impregnated with, *or* consisting of, nitre] A nitr (naws nitr) ynddo, cymmysgedig â nitr, llawn nitr.

Nitty, *or* full of nits, *a.* Neddog, llawn nêdd.

Niveous, *a.* [snowy] Gwynn fel eiry; eirŷog, llawn eiry; eirŷaidd, eirŷawl.

No, *a.* [not any *person*] Nèb, nid (ni's, nad, nac, na's na)—nèb neu un, nebun, nebawd, nebdyn. *Who can do this? no one*, Pwy a ddichyn wneuthur hyn? neb; *i. e.* ni's dichyn neb. *No one* [no man, no body, none] *ever said so, that I have heard*, Ni ddywedodd neb erioed felly, er a glywais i. *Let no man go out of this place*, Nac aed un o'i le, *Ecs.* xvi. 29. ¶ *There shall no man be able to stand before thee*, Ni saif gwr yn dy wyneb di, *Deut.* vii. 24. *Shall no man make thee ashamed?* Oni bydd a'th waradwyddo? *Job* xi. 3.

No, *a.* [not any *thing*, *&c.*] Dim, nid (ni)—dim, neb-rhyw, nid (ni, ni's,) neb-rhyw, nid (ni,) —un; ¶ ni, *Io.* ix. 41. nid, ni's, na, nac, nad, na's. *What will you give me? nothing*, Beth (pa beth) a roddwch i mi? dim. *Thou shalt do no* [manner of] *work*, Na wnâ ddim gwaith. *No work shall be done*, Ni wneir dim gwaith; *neu*, Dim gwaith ni wneir (nis gwneir.) *And do no work at all*, A dim gwaith ni's gwnewch, *Lef.* xvi. 29. *I saw no* [manner of] *creature there*, Ni welais i yno neb-rhyw (neb ryw) grëadur. *That there should no burden be brought in on the sabbath day*, Fel na ddelai baich i mewn ar ddydd y sabboth, *Neh.* xiii. 19. *For no such thing ought to* [shall] *be done in Israel*, Canys ni wneir fel hyn yn Israel, 2 *Sam.* xiii. 12. *There is no justice in it*, Nid oes cyfiawnder ynddo. ¶ *No pains, no gains*, Ni lwyddodd, ond a dramgwyddodd (a lafuriodd.) *No cross, no crown*, Heb groes, heb goron. *I make no question* [doubt,] *but you heard the news*, Nid wyf yn ammau, na's clywsoch y newydd. *I have no time now*, Nid oes mo'r amser (odfa) gennyf ar hyn o brŷd.

No, [before an *Adjective*] Dim, ddim, o ddim, nid dim, nid o ddim; ¶ nid, ni's, ni, *&c.* *He is no better than a thief*, Nid yw efe ddim (ronyn, fymryn, dippyn) gwell nâ lleidr. *Are you no better?* A ydych chwi ddim gwell (yn well?) *He put them in no small fear*, Efe a barodd ynddynt ofn nid bychan. *A babbler is no better*, Nid gwell yw dyn siaradus, *Eccles.* x. 11. *No hard matter*, Nid peth anhawdd; *neu*, Peth nid anhawdd. *It is no hard matter*, Nid anhawdd mo hono. *It was no easy matter to them*, Ni bu hawdd iddynt. *With no less eloquence than freedom* [boldness] Mewn iaith (ymadrodd) nid llai cymmen nag ëofn; *neu*, Heb lai cymmendod (ffraethineb) nag ëondra.

No, *ad.* Ni, nid, ni's, na, nac, nad, na's. *See* Not.

No, [responsive *or* responsory [opposed to *yes*] Nag, (nac, nad, nid) ê, *&c.* *Art thou that prophet?* and he answered, *No* [not that prophet, but another person] Ai'r prophwyd wyt ti? *ac efe a attebodd*, Nag ê, *Io.* i. 21. *Is it to kill me that ye are come? No* [not to kill thee, but *&c.*] Ai i'm lladd y daethoch? Nag ê. *Is there any one here? No.* [there is not,] A oes neb yma? Nag oes. *Knowest thou not what these be? No* [I know not;] Oni wyddost beth yw y rhai yma? Na wn, *Zec.* iv. 5.—N. B. *No*, when it naturally refers to, and may be resolved by, the leading Verb in the question, must be rendered in Welsh by the said Verb with the Particle *Nag*, or *Na*, before it, as in the two latter Examples: but when it is more naturally resolvable by some subsequent Word in the question, then must it be rendered by *Nag ê*, as in the three former Examples.

¶ No, [when it is the answer to a question asked by a Verb transitive, a Verb of gesture, *&c.* in any of the preter tenses, it *may* be rendered in Welsh by] Na ddo, *Io.* viii. 11. *Hast thou seen him? No*, A welaist ti ef? Na ddo; *neu*, Na welais.

No, *a.* nor. Ex. *There is no man, nor woman, nor child*, Nid oes gwr (na gwr,) na gwraig, na phlentyn.

No, *ad.* nor. Ex. *No, I will not, nor am I able if I would*, Na wnaf (ni's gwnaf *neu* ni's mynnaf,) ac ni's gallaf pe mynnwn. ¶ *No, nor you* [nor you neither] Na chwithau chwaith. *No, nor yet Herod*, Na Herod chwaith, *Luc* xxiii. 15.

¶ *Never more will I fight for them,—no, let them fight for themselves*, Nid ymladdaf fi drostynt byth mwy—na wnaf, (na ymladdaf,) ymladdent drostynt eu hunain.

No, not [not even] Nid—(na—) hyd yn oed,

Digitized by Google

Marc ii. 2. nid cymmaint â *neu* ag, ¶ nac, *Mat.* xxiv. 36. na, *Marc* xiii. 32. na ddo, *Mat.* viii. 10. nac oes, *Rhyf.* iii. 10. *Hate no man, no not thine enemy,* Na chasà undyn, nid cymmaint â'th elyn. ¶ *No, not in the least,* Nid yn y mesur lleiaf.

At no hand, [on no account] Er dim.

By no means. See under M.

In no case [wise.] *See under* Case.

No [not any] *more. See* no More *or* not any more, *under* M.

No manner of. See under M.

By no manner of means, Nid *neu* ni—mewn modd (trwy fodd) yn y byd.

To no purpose, [in vain] Yn ofer, yn ddiles, yn ddifudd, yn ddiffrwyth.

No where, Nid—yn unman (yn unlle.)

Whether—or no, ¶ Ai, *Io.* ix. 25. ¶ *Is it—, or no?* Ai—, ai nid yw? *Luc* xx. 22.

No whither, Nid—i unman (i unlle,) nac yma na thraw (nac accw,) 2 *Bren.* v. 25.

To nobílitate. *See* to Ennoble.

Nobility, *or* nóbleness, *s.* [the dignity, rank, and quality of a noble personage *or* family] Dyledowgrwydd, pendefigeiddrwydd, boneddigeiddrwydd; boneddigrwydd; bonedd, *Doeth.* viii. 3. ac *Ecclus.* xxii. 10. uchel-fonedd; ¶ uchel-rywogaeth; uchel-waedogaeth, uchel-waedoliaeth; uchel-urddas.

Nobility, *or* nobleness, *s.* [grandeur, &c.] *See* Grandeur.

Nobility, nóblemen, nóbles, *or* nobless, *s.* [persons in a state, who, by birth *or* creation, are in rank and title superior to commoners] Pendefigion, dyledogion.

¶ *Lame nobility,* Crach-fonedd, lledryw.

Nóble, *a.* [of high rank by birth *or* creation; belonging to the nobility] Dyledog, dyledowgryw, pendefigaidd, pendefigol, urddasol, rhiaidd, rhieiddawg, boneddigaidd, bonheddig; uchel-ryw, breyrol, perthynol i'r dyledogion. ¶ *Noble birth,* Bonedd, 2 *Mac.* xiv. 42. *Truly noble,* Di-ledach, diledryw. *Not many noble are called,* Nid llawer o rai boneddigion a alwyd, 1 *Cor.* i. 26.

Of noble descent or *birth. See under* D.

Noble, *or* illustrious, *a.* [applied to *persons*] Arddêrchog, *Esth.* vi. 9. enwog, *Ezra* iv. 10. anrhydeddus, *Doeth.* xviii. 12. urddasol. *Most noble Festus,* O ardderchoccaf Ffestus, *Act.* xxvi. 25.

Noble, *a.* [*Met.* generous, *&c.*] Boneddigaidd, *Act.* xvii. 11. cleufryd, rhydd (anghaeth) ei feddwl *neu* yspryd.

Noble, *a.* [applied to *things,* splendid, stately] Gwŷch, mawr-wych, *&c.* ¶ diwael.

Noble, *a.* [sublime, *&c.*] Dyrchafedig, uchelwych, ardderchog.

¶ Noble, *a.* [rare, *&c.*] Godidog.

¶ Noble, *a.* [of the right sort *or* kind, not degenerate] Rhywiog, o'r iown-ryw, anniryw. ¶ *A noble vine,* Pêr-winwŷdden, *Jer.* ii. 21.

Noble [great] *acts,* Mawrion weithredoedd, *Ecclus.* xviii. 4. ¶ gŵrolaeth, 1 *Mac.* viii. 2.

Noble, *or* heroic, *a.* Arŵraidd.

¶ *Noble courage,* Calon ddihafarch, 2 *Mac.* vi. 31. mawrŵriaeth.

Noble, *s.* [pl. *nobles*] Pendefig. *See* Nobleman.

Noble, in Coinage [a piece of money valued at 6 shillings and 8 pence, when current] Nobl, nobl anr. ¶ *As yellow as the purest gold* Cyn felyned a'r nobl (*vulgo* nobol) aur.

A róse-noble, *s.* Dryll o aur bâth a llûn rhosyn arno, a gerddai gynt am *un swllt ar bymtheg ac ŵyth ceiniog.*

To make noble. *See* to Ennoble.

Nóbleman, *s.* [not a commoner] Pendefig, *Io.* iv. 46. dyledog, ¶ cyfurddawr, gŵr bonheddig, *Luc* xix. 12. ¶ *A young nobleman,* or rather *a nobleman's son,* Siaf, siaff.—*A noble-woman,* Pendefiges, dyledoges; gwraig fonheddig.

¶ *An upstart nobleman,* [i. e. of low extraction and late creation] Uchelwr pendodi.

Nóblemen, *s.* Pendefigion, dyledogion, &c. goreu-gwŷr.

Nóbleness, *s.* [of birth] Bonedd, dyledowgrwydd.

Nobleness, *s.* [grandeur; dignity, &c.] Mawrwychedd, ardderchowgrwydd, &c. urddasolrwydd.

Nobleness of mind. *See* Magnanimity.

Nóbles, *s.* Pendefigion, *Salm* cxlix. 8. dyledogion, ¶ pennaethiaid, *Num.* xxi. 18. llywodraethwŷr, 1 *Esdr.* i. 38. cedyrn, *Baruch* i. 4. rhaglawiaid, *Esth* i. 3. gwŷr nôd.

Noblêss. *See* Nobles.

¶ Nobless, *s.* [the collective body of nobility *or* noblemen in a state] Pendefigion gwlâd (pobl, teyrnas,) dyledogion (cyfurddorion) teyrnas, ¶ côr y pendefigion *neu* 'r dyledogion, y côr cyfurdd (dyledog.)

Nóbly, *ad.* Yn ardderchog; yn fawr-wŷch.

Nobly-descended, *or* of noble descent [of a noble stock] Dyledowg-ryw.

Nócent, *or* guilty, *a.* Euog.

Nó-body. *See* no Body, *under* B.

Nocent, *and* Nócive, *a.* Niweidiol.

Nóctuin, *s.* [an office of devotion performed in the night; a nocturnal prayer *or* service] Nosawl wasanaeth (weddi, offeren) eglwys Rufain.

Noctúrnal, *a.* [performed, used, &c. in the night; belonging to the night] Nosawl, a wneir (a arferir, &c.) yn y nôs; perthynol (a berthyn, yn perthyn) i'r nôs.

Nocturnal, *s.* [a mathematical instrument used by seamen for finding the hour of the night] Deial (deiol) nôs.

Nod, *s.* [a slight bow, a motion made with the head in token of assent, &c.] Amnaid (awgrym) pen, *neu* a wnel un â'i ben; amnaid awgrym, awgrim, munud; go-blyg pen.

Nod, *s.* [the downward motion of the head through drowsiness] Amnaid (munud) cwsg, go-blyg pen gan gysgu, hep-hun, hep.

To nod, *v. a.* [make a short *or* slight bow, give a sign by bending the head] Go-blygu pen, amneidio (munudio, awgrymmu) â phen; amneidio, &c. *He nodded assent to him,* Efe a oblygodd ei ben iddo (a amneidiodd â'i ben arno) yn arwydd cydsynniad.

To nod to, Amneidio (â phen, â'i ben) ar, goblygu pen ar.

To nod, *v. a.* [through drowsiness] Heppian, hep-huno, amneidio (munudio) gan gysgu, pentwyno, pendrymmu gan daeredd cwsg; ¶ cysgu ar (ei) ddyrnau.

Nóddle, *s.* [the hinder part of the head; ¶ the head *or* pate, used in contempt] Gwegil; ¶ penglog, cloppa, pen. *This can't enter*

Digitized by Google

your noddle [your noddle can't comprehend it] Nid â hyn i'oh pen (cloppa, penglog;) *neu*, Nid â (ni ellir pwyo) mo hyn yn eioh pen, &c.

Nóddy, *s.* Hurthgen.

Node, *or* knot, *s.* Cwlwm, cwlm, clwm; oddf; cwgn.

Nodes, in Astronomy, [the two points, wherein the orbit of the moon intersects the ecliptic, so called: that point, at which the moon passes over the ecliptic from southern into northern latitude, called the *ascending* node; and that, at which it passes from northern into southern latitude, called the *descending* node] Trawsglymmau, croesglymmau. *The ascending node*, Y trawsglwm esgynnawl, yr esgynglwm. *The descending node*, Y trawsglwm disgynnawl, y disgyn-glwm.

Nodósity. *See* Knottiness.

Nódous, *a.* Clymmog, &c.

Nódule, *s.* [a small knot] Clymmyn; cygnyn; oddfyn.

Nóggin, *s.* [a small measure, containing a quarter of a pint] Llestr'yn mesur yn cynnwys y bedwaredd ran i beint, *vulgo* nogyn: picyn.

Noise, *s.* [any kind of sound] Sŵn; twrf, godwrf, twrwf; dwrdd, dadwrdd, godwrdd, godorun; trwst, dyar, gorddyar; nâd, nawd; dwndr; llais, sain; ysgort; fi, &c.—N. B. *Sŵn* is of an extensive application and importance, being used to express any sort of *noise*, whether *loud* or *low*, *harsh* or *soft*, *hollow* or *shrill*, &c.—Ex. *The noise of war*, Sŵn rhyfel, *Ecs.* xxxii. 17. *The noise of people shouting*, Sŵn pobl yn bloeddio, *Ecs.* xxxii. 17. *The noise of persons that sing* [of singing] Sŵn canu, *Ecs.* xxxii. 18. *The noise* [of the people that shouted] *was heard afar off*, Y sŵn a glywid ym mhell, *Ezra* iii. 13. *The noise of a whip, and the noise of the rattling of* [the] *wheels, and of the prancing horses, and of the jumping chariots*, Sŵn y ffrewyll, a sŵn cynnwrf olwynion, a'r march (meirch) yn prangcio, a'r cerbyd yn neidio, *Nah.* iii. 2. *The noise of many waters*, Sŵn dyfroedd lawer, *Ezec.* xliii. 2. *The noise of water-spouts*, Sŵn pistylloedd, *Salm* xlii. 7. *The noise of wings*, Sŵn adenydd, *Ezec.* i. 24. *The noise of an host*, Sŵn llu, *Ezec.* i. 24. *The noise* [sound] *of a trumpet*, Sŵn (sain, llais) udgorn, &c. *See* the Articles next following.

The noise of a great stir or *bustle*, or *bustling* [tumultuous; trampling, &c.] *noise*, Twrf, *Job* xxxvi. 29. a *Salm* lxv. 7. godwrf, twrwf; dwrdd (twrdd,) dadwrdd, godwrdd, godorun; trwst, &c. *Wherefore is this noise of the city being in an uproar:* Pa ham y mae twrf y ddinas yn derfysgol? 1 *Bren.* xiv. 1. *When the horses heard the noise, they started*, Pan glybu'r meirch y dwrdd, ysgodigaw a wneynt. *The noise of men advancing*, Godorun gwŷr yn dyfod. *At the noise of the taking of Babylon the earth is moved*, Gan drwst goresgyniad Babilon y cynhyrfa'r ddaear, *Jer.* l. 46. ¶ *A tumultuous noise of the kingdoms of nations gathered together*, Sŵn twrf teyrnasoedd y cenhedloedd wedi ymgynnull, *Esay* xiii. 4. *At the noise of the tumult the people fled*, Wrth lais y twrf y gwibiodd y bobl, *Esay* xxxiii. 3. *At the noise of the stamping of the hoofs of his strong horses, &c.* Rhag sŵn twrf carnau ei feirch cryfion, *Jer.* xlvii. 3. *Noise and hurry do hinder study*, Twrf a darf yr Awen. *Noise of tumults*, Sain twrwf, *Esth.* (Apocr.) xi. 5. *Noise of a great tumult*, Trwst cynnwrf mawr, *Jer.* xi. 16.

A rumbling [rattling, roaring, great, &c.] *noise*, [such as that of *thunder*, of *coach-wheels*, of *high winds*, of *the waves of the sea*, &c.] Trwst, *Jer.* xlvi. 17. twrf, twrwf, dyar, gorddyar; rhuad. *The noise of thunder*, Trwst taran, *Dadg.* vi. 1. twrf taran, *Ecclus.* xliii. 17. *The noise of chariots*, &c. Trŵst cerbydau, &c. 2 *Bren.* vii. 6. *The noise of many waters*, Twrf dyfroedd lawer, *Salm* xciii. 4. *The noise of the seas*, &c. Twrf y moroedd, &c. *Salm* lxv. 7.

The noise [sound] *of a trumpet*, &c. Sain (sŵn, bloeddi, llais) udgorn neu'r cyffelyb.

Noise of birds, Sain (llais) adar, *Deeth.* xvii. 18.

Noise, *or* clamour. *See* Clamour.

Noise, *or* cry, *s.* Nâd, &c.

Noise of feet, &c. Trwst traed. *See* 2 *Bren.* xi. 13. 2 *Sam.* v. 24.

A whispering noise, Si, sibrwd, &c.

The noise of bees, Gwenyn-llais.

Noise of a gun discharged, &c. *See* Explosion, in *its* 2nd *Acceptation*.

Noise, *or* report. *See* Bruit.

A blustering noise, Dwndr. *See* a Bluster, *or* blustering.

A bouncing noise. *See* Bounce.

Noise, *or* clutter. *See* Clutter.

A cracking [bursting] noise. *See* Crack [a noise] &c.

A crashing noise. *See* Crash.

A chattering [jabbaring] noise, Trydar, &c.

To make a noise, Synio, swnio, seinio, trystio; lleisio; dadwrdd; nadu; bloeddio, &c.

To noise, *v. n.* [emit a noise *or* sound] Seinio, synio, trystio, lleisio; dadseinio, darstain.

To noise abroad. See to Bruit, to Declare abroad, *and* to Give out [report, &c.]

Noised abroad, Wedi myned allan *neu* ar lêd (megis y *gair* neu'r *sŵn* am un, &c.) ¶ *And it was noised that he was in the house*, A chlybuwyd ei fod efe yn tŷ, *Marc* ii. 1. *His fame was noised throughout all the country*, Aeth ei glôd ef trwy'r holl wlad, *Jos.* vi. 27.

Nóiseless, *a.* [void of noise] Di-drwst, di-swn, didwrf; distaw, tawedog.

Nóisily, *ad.* Yn ddadyrddus, &c. *See* Noisy.

Nóisiness, *s.* Dadyrddgarwch; trystfawredd.

Nóisome, *a.* [offensive] Ffiaidd, ffieiddgas, niweidiog, niweldiol, adwythig, gwenwynig, &c. echryslon: afiach, afiachus, gelynol i'r iechyd; blin *neu* anhyfryd i'r olwg (i'r arogl, &c.) drewllyd, drewedig, drwg-sawrus, trymsawrus. *From the* [a] *noisome pestilence*, Oddi wrth haint echryslon, *Salm* xci. 3. *A noisome and grievous sore*, Cornwyd drwg a blin, *Dadg.* xvi. 2.

Noisomeness, *s.* Ffieiddrwydd; echryslonedd.

Nóisy. *See* Clamorous, Blustering, *and* Boisterous.

A noisy fellow, Dwndrwr, dwndriwr, &c.

¶ *Nolens volens*, [will ye nill ye] O fodd *neu* o anfodd, na bodd nac anfodd ganddo, na (er na) mynnu na pheidio, heb ddiolch iddo,

Digitized by Google

bid gwiw bid anwiw (bid bodd bid anfodd) ganddo.

¶ *Noli me tangere*, i. e. touch me not [a polypus, *or* kind of cancer, in the nose, so called] Mâth ar grange anhydrin yn y trwyn; befyd mâth ar flodeuyn na oddef ei gyffwrdd heb ymgrynhoi.

Nolition, *s.* [the act of *not-willing* or *refusing*] Anfynniad, anfyn.

Nomenclátor, *s.* [a person of such extensive acquaintance with persons and things, as to be able to call them almost all by their names] Hwn a wypo enwau pethau ac a'u galwo erbyn eu henwau; geilwad (galwedydd) enwau; un a edwyn ac a eilw bob peth wrth ei enw (bawb wrth eu henwau;) enweilwad, enw-alwedydd.

Nomenclature, *s.* [a vocabulary, *or* collection of words *or* names] Geirlyfryn, rhês o enwau neu gyfenwau pethau.

¶ Nomenclature, *s.* [the act of reciting the names of persons *or* things] Galwad (adroddiad) enwau pethau neu hersonau, enw-alwad.

Nóminal, *a.* [referring *or* relating to names rather than things; not real; titular only] Enwawl, enwol, y sydd mewn (o ran) enw yn unig; galwedigol. *A nominal king*, Brenhin o ran enw yn unig.

Nóminally, *ad.* by name: with respect to name only] Erbyn (wrth) ei enw, yn enwedigol: yn enwawl, mewn (o ran) enw yn unig, mewn (o ran) enw, yn alwedigol.

To nóminate. *See* to Name; *and* to Appoint, *in its* 5th *and* 13th *Acceptation.*

Nóminated, *a.* Enwedig, a enwyd, wedi ei enwi.

Nomination *or* a nóminating, *s.* Enwad; appwyntiad.

Nóminative, *or* nóminatory, *a.* [that nominates *or* calls by the name] Enwedigol. *The nominative case*, in Grammar [the *right* case, not any of the *oblique* ones] Yr achos enwedigol, ¶ yr enwedigaethydd.

Non-ability. *See* Impotence, *and* Incapacity.

Nón-age. *See* Minority

Non-appearance. *See* Default of appearance, *under both* D. *and* A.

Non-compliance, *s.* Anghydsynniad.

¶ *Non compos mentis*, i. e. not of sound mind [a Law-term] Allan o'i bwyll.

Non-conformist, *s.* [one who refuses to conform to the established mode of divine worship] Anghydffurfydd, anghydymffurfydd: ymneilduwr.

Non-conformity, *s.* [a refusing to conform to the forms of worship used in the established church] Anghydffurfiad, anghydymffurfiad; ymneilduaeth: anghydsynniad.

None, *s.* [no *or not* one *person* or *thing*] Nêb, nid, ni, &c.—nêb (neb'un, nebawd,) nid—un (yr) un; dim, nid—dim, &c. *Whom did you see there? none;* Pwy a welsoch chwi yno? nêb (ni welais i nêb yno.) *Beware that none touch the young man*, Gwiliwch gyffwrdd o nêb â'r llangc, 2 *Sam.* xviii. 12. *There is none so discreet and wise as thou art*, Nid mor ddêalgar a doeth nêb a thydi, *Gen.* xli. 39. *None of you shall* [let none of you] *go out*,—Nac aed neb o honoch allan,— *Ecs.* xii. 22. *Of the people there was none with me*, O'r bobl nid oedd un gyd â mi, *Esay* lxiii. 3. *None of us liveth to himself*, Nid oes yr un o honom yn byw iddo ei hun, *Rhuf.* xiv. 7. *Gallio cared for none of these things*, Nid oedd Gâlio yn gofalu am ddim o'r pethau hynny, *Act.* xviii. 17. *If there be none of these things*,—Onid oes dim o'r pethau,—*Act.* xxv. 11. *He* [i. e. the Lord] *did let none of his words fall to the ground*, Nid adawodd i un o'i eiriau ef syrthio i'r ddaear, 1 *Sam.* iii. 19. *When as yet there was none of them*, Pan nad oedd yr (mo'r) un o honynt, *Salm* cxxxix. 16. ¶ *This is none other but the house of God*, Nid oes yma onid tŷ i Dduw, *Gen.* xxviii. 17. *There shall be none to bury her*, Ni bydd a'i claddo hi, 2 *Bren.* ix. 10. *Because it is none of his*, Am nad eiddo ef ydyw, *Job* xviii. 15. *They shall fall when none pursueth*, Syrthiant heb nêb yn eu herlid, *Lef.* xxvi. 36. *'Tis none other*, Nid yw amgen nâ hyn. *That there is none like him*,—Nad oes gyffelyb iddo,—*Job* i. 8. *Such as there was none like it*, Yr hwn ni bu ei (mo'i) fath, *Ecs.* ix. 24. *There shall be none*, Ni bydd efe, *Ecc.* xvi. 26. *Ye shall leave none of it*, Na weddilliwch o hono, *Lef.* xxii. 30. *Thou shalt have none other gods*,—Na fydded it' dduwiau eraill,—*Ecs.* xx. 3. *But none answered*, Ond nid oedd yn ateb, *Barn.* xix. 28. *They shall seek peace, and there shall be none*, Hwy a geisiant heddwch, ac ni's cânt, *Ezec.* vii. 25. *None gainsaying*, Heb wahardd heb erbyndywedyd. *They are none of our company*, Nid ydynt o'n cymdeithas ni.

Of none [no] effect, Ofer, yn ofer, &c.

Non-éntity. *See* Non-existence.

Nones, *s.* [the next days after the Calends in the ancient Roman Calendar, so called] Y dyddiau nesaf ar ôl y Calan yn mhob mis, y nowiau, y nonau.

Non-existence, *s.* [the quality of not existing] Dihanfodedd, anfod, anhanfod.

Nonjúring, [applied to those that refuse to swear allegiance to any of the present reigning family] A'r ni thyngo, (*pl.* thyngont) ufudd-dod (ffyddlondeb) i'r brenhin, ¶ annhwng.

Nonjurors, *s.* Annhyngwŷr, annhyngyddion. *See* Jacobites.

Nonparéil, *s.* i. e. matchless [a sort of apple, so called from its excellence] Yr afal digymmar (digystal.)

Nonparéil, in Printing [a small sort of type, so called] Math ar lythyren fechan dlôs dros ben, fawr ei chymmeriad ym mysg Argraphyddion.

Non-páyment, *s.* [default of payment] Gwall taledigaeth, meth-dâl.

Non-performance, *s.* [default of performance] Gwall cyflawniad, meth-gyflawniad.

Nónplus, *s.* [a state of perplexity wherein a person knows not what either to say or do more] Nidrnod, nôd y nidri, dyrysnod, dyrysfa, astrus (dyrys) eithafnod; astrusi anorfod, pan na's gwypo un beth (pa beth) i'w ddywedyd nac i'w wneuthur; ¶ y nôd anorfod.

To [put one to a] nonplus, Peri na's gwypo un beth i'w ddywedyd nac i'w wneuthur, ¶ taro un yn fâd, gyrru un i dewi, gyrru (peri) taw ar un, distewi (ystagu) un, dwyn un i'r ddyrysfa (i eithafnod ei synwyr neu at y nôd anorfod.)

Digitized by Google

Nónplused, *or* nonplust, Wedi ei ddwyn i eithafnod ei synwyr, fel na's gwypo beth i'w ddywedyd nac i'w wneuthur.

To be nonplust or *at a nonplus*, Bod heb wybod beth i'w ddywedyd nac i'w wneuthur ¶ bod wedi ei ddwyn i'r ddyrysfa (i eithafnod ei synwyr;) bod wedi ei daro yn fŵd, bod heb air i'w ddywedyd mwy, &c.

Non-résidence, *s.* [a clergyman's not residing on his living] Annhrigiant, anghyfanneddiad, diannedd iad person (periglor eglwys) yn ei blwyf *neu* bersoniaeth.

Nón-résident, *s.* [a clergyman that neglects to reside on his living *or* benefice] Annhrigiannol, annhrigiannydd.

Non-resistance, *s.* [the principle of not opposing the king in any case whatsoever] Anwrthryn, anymwrthryn, ufudd-dod dïwrthladd ym mhob achos pa bynnag, dïwrthrynedd.

Nónsense, *s.* Afreswm, disynwyredd, ansynwyr, gwall-synwyr, meth-synwyr, gair (geiriau) direswm, ymadrodd disynwyr, chweddl anghyfwlch (echwyrth, lledechwyrth,) coegiaith, gwag-eiriau, ffladredd, ffoledd, &c.

Nonsénsical, *a.* Direswm, afresymmol, anrhesymmol, disynwyr, ansynhwyrol, ffol, ffladr, ynfyd, echwyrch, lledechwyrth.

Nonsénsicalness, *s.* Diresymmedd, afresymmolrwydd, disynwyredd. *See* Nonsense.

Nonsuit, *s.* [the fall of a suit through the want of formality in the process, through the non-appearance of the prosecutor, &c.] Cwymp hawl, gadawiad hawl, cil mewn cwyn; an-hawl.

To nonsuit one, [set aside one's action at Law on account of the want of formality in the process] Bwrw heibio hawl un, bwrw hawl un heibio, llysu hawl un.

To be nonsuited, or *to suffer a nonsuit*, Cael o'i hawl ei bwrw heibio *neu* allan (ei gwrthod *neu* llysu;) colli ei gŵyn.

To suffer a nonsuit, or *suffer one's self to be nonsuited*, Cilio yn ei gŵyn, gado ei hawl (¶ y maes.)

Nóodle, *s.* Symlyn, cadafel, hurthgen.

Nook. *See* Corner.

Noon, noon-day, *or* noon-tide, *s.* Canol (hanner) dydd, canol-ddydd.

Fore-noon, *and* After-noon. *See under* F. *and* A.

Nóoning, *or* nóon-rest, *s.* Gorphwys (gorphwysfa) ganol dydd.

Noose, *s.* [a running knot] Byddag, tag fyddag (fagl,) clwm rhedegog; ¶ magl.

To run one's self into the noose, Dwyn ei hun (ei droed) i'r fagl.

To [catch in a] noose, *v. a.* Byddaglu, dal mewn byddag; maglu.

Nóosed, *part.* Wedi ei ddal yn y fagl, wedi ei fyddaglu.

Nor, *conj* Na, nac (nag.)

North, *s.* Gogledd. *The north*, Y gogledd.

North, north-, *or* northern, *a.* [of *or* belonging to the north] Gogleddol, gogleddig, ¶ y gogledd. *The north-star*, Seren y gogledd, y seren ogledd. *The north-pole*, Pegwn y gogledd, y pegwn gogleddig, colyn echel y ffurfafen yn y gogledd. *The north-wind*, Gwynt y gogledd, y gogledd-wynt. *The north-east wind*, Y gogledd-ddwyreinwynt. *The north-east*, Y gogledd-ddwyrain. *The north-north-east*, Y gogledd-ogledd-ddwyrain. *The north-west*, Y gogledd-orllewin. *The north-north-west*, Y gogledd-ogledd-orllewin. *The north-west wind*, Gwynt y gogledd-orllewin. *The north-country*, Y gogledd-dir, yr ogledd-wlad. *The north*, or *northern, hemisphere*, Hanner gogleddol y byd *neu*'r ddaear.

Nórtherly, *or* northern, *a.* Gogleddol, gogleddig, ¶ y (yn y) gogledd. *Northern men*, Gwyr y gogledd, gogledd-wŷr. *The northern storm*, Tymmestl y gogledd-wynt, *Ecclus.* xliii. 17. *The northern army*, Y gogledd-lu, *Joel* ii. 20.

Nórth-westerly, *a.* Gogledd-orllewinol.

Nórth-Wales, *s.* [the country so called] Gwynedd, ¶ Gwyn-dud, Gwendud, y Wen-wlad, Gogledd-dir Cymru, Gwyndawd, Gwyndodydd. *The people of North-Wales*, Pobl Wynedd (Gwyneld,) ¶ pobl Wyndodydd. *A North-Wales man*, Gwr o Wynedd, un o wŷr Gwynedd, ¶ Gwyndodyn. *A North-Wales woman*, Gwraig o Wynedd, un o wragedd gwynedd, ¶ Gwyndodes. *The North-Wales dialect*, [of the Welsh] Iaith Gwynedd, ¶ Gwyndodeg, y Wyndodeg. *North-Wales men*, Gwyneddigion, gwyr (trigolion) Gwynedd, ¶ Gwyndyd.

¶ North-Wales, *a.* [of, *or* belonging to, North-Wales] Gwyndodig.

Nórth-ward, *or* northwards, *ad.* [towards the north] Tu a'r gogledd.

Northwich, *s.* [in Cheshire] Yr heledd ddu.

Nórway, *s.* [the country so called] Llychlyn.

Nose, *s.* Trwyn; ¶ rhyn: ffroen.

To nose, *v. a.* [put the nose, *or* smell close, to a thing] Trwyno.

Having [that hath] *a great nose*, Trwynog, trwyn-fawr; trwyn hir.

The tip of the nose, or *nose-tip*, Trwynswch, blaen (pen) y trwyn.

A flat [saddle-backed] *nose*, Trwyn cefn-bant.

¶ *To thrust one's nose into other men's affairs*, Ymyrru â negesau (matterion) rhai eraill.

¶ *To thrust*, or *put, one's nose out of joint*, [supplant, *or* turn out of favour] Disodli un, bwrw (gwthio) un allan o barch *neu* ffafr.

Nose band of a bridle, Trwyn-ffrwyn.

Nóse-bleed [in Botany.] *See* Milfoil.

¶ *To tell*, or *count, noses*, Cyfrif pennau.

Bottle nosed; Crook-nosed, Flat nosed, [that hath a flat nose,] Hawk-nosed, &c. *See* under B. C. &c.

A turned [cocked] *up nose*, Trwyn picca. *Having* [that hath] *such a nose*, Trwyn-bicca, â thrwyn picca (pen-uchel) iddo.

Broken-nosed, *a.* [that hath a broken, flat, *or* saddle-backed, nose] Trwyn-dwn, *Lef.* xxi. 18.

Nósegay, *s.* [a posy, *or* bunch of flowers] Clwm (tusw) o flodau, blodeu-glwm, twff. *Where is thy nosegay?* P'le mae dy glwm blodau?

Nosel, or *nosle, of a pair of bellows*, Trwyn (pib, pibell) megin.

Nóseless, *a.* Didrwyn, heb drwyn iddo.

Nóstock, [a putrified matter supposed to be generated in the air, *or* to fall from the stars] Chwydredd y sêr, chwydr-awyr.

Nóstril, *s.* Ffroen (*pl.* ffroenau.) *Having* [that hath] *wide nostrils*, ¶ Pfroenfoll. *The nostrils*, ¶ Y ddwyffroen.

Not, *ad.* Ni, nid, ni's na, nâc, nad, na's. *They will not come*, Ni ddeuant, ni's deuant. *They went not* [did not go] Nid aethant. *He*

Digitized by Google

telleth not the truth, Ni ddywed (ni's dywed) mo'r gwir. *Go not* [do not go] *with him*, Na ddôs gyd ag ef. *Do not meddle with him*, Nac ymyrr ag ef. *He says thou* [that thou] *didst it not*, Dywed (efe a ddywed) na's gwnaethost.

Not, *a.* [interrogatively used] Oni, onid, oni's, poni, ponid, pon'd? *Wilt thou not tell me?* Oni ddywedi (oni's dywedi) wrthyf? *Did I not say so?* Oni ddywedais i felly? *Are you not ashamed?* Onid oes cywilydd arnoch? *Did I not know it?* Oni wyddwn (onl's gwyddwn) i hynny? *Didst thou not engage?* Poni roddaist di grêd? *Art thou not* [art not thou] *a monk?* Ponid (pon'd) mynach wyt ti? ¶ *Am not I?* Ponid ydd wyf fi? *Is it not?* Onid ê? onit te? ai nid ê? *Did he say so or not?* A ddywawd efe felly ai peidio (ai na ddo?)

Not any, or *not one*. *See* None. *See also* Any.

No not.—See under No.

Not at all, Nid, ni, nac, &c.—oll (ddim;) nid—ddim oll; nid—mewn un modd (mesur,) nid—yn y mesur lleiaf, nid ddim yn y mesur lleiaf: nag (nac) ê ddim: na ddo ddim. *I do not at all understand this*, Nid wyf i oll yn dêall hyn (mo hyn.) *It shall not be at all*, Ni bydd ddim, *Ezec.* xx. 32. *Are ye displeased at me for this? Not at all*, A ydych chwi yn anfoddlon wrthyf am hyn? Nac ydym ddim. *Is it this you intend? Not at all*, Ai hyn a fwriedwch? Nag ê ddim. *Have you said so then? Not at all*, A ddywedasoch chwi felly ynte? Na ddo ddim. ¶ *But his will was not at all to come at this time*, Eithr er dim nid oedd ei ewyllys ef i ddyfod yr awrhon, 1 *Cor.* xvi 12.

If not, *If—not*, &c. *See under I.*

Not long after, Ychydig wedy'n (ar ol hyn.)

Not one, ¶ Neb, *Iob* xiv. 4.

Not so, or *not—so*, Nid felly.

Not yet, or *not—yet*, Nid (ni, &c)—etto. *My hour is not yet come*, Ni ddaeth fy awr i etto, *Io.* ii. 4.

Not to matter, [care] Bod heb ofalu. ¶ *I do not matter*, Nl'm dawr i. *See under* M.

Nótable, *a.* [remarkable, &c.] Hynod, *Dan.* viii. 5, 8. nodol, enwog, nodedig, 2 *Mac.* vi. 28. honnaid, eglur. *A notable prisoner*, Carcharor hynod, *Mat.* xxvii. 16. *A notable miracle*, Arwydd hynod, *Act.* iv. 16. *A notable example*, Siampl nodedig, 2 *Mac.* vi. 28. *Two young men notable in strength*, Dau ŵr (wyr) ieuainge nodedig o nerth, 2 *Mac.* iii. 26. *The great and notable day of the Lord*, Dydd mawr ac eglur yr Arglwydd, *Act.* ii. 20. ¶ *A notable temple*, Temi odidog, 2 *Mac.* xiv. 33.

Nótableness, *s.* Hynodrwydd, nodolrwydd.

Nótably, *ad.* Yn hynod, &c. yn odidog, 2 *Mac.* xiv. 31.

¶ *Notably well*, Yn hynod o dda, yn dda hynod (rhagorol.)

Nótary, *s.* [a scrivener who takes notes of any particulars that concern the Public, draws contracts, &c.] Nodiadur, nodiedydd, ysgrifennedydd, ysgolhaig a wna ysgrifennadau ammodawl (a dynn ammodau,) ysgrifennydd cyfammodau, &c. ¶ *Notary public* [who publicly attests deeds in order to make them authentic in other nations, &c.] Nodiadur (nodiedydd) cyhoedd; ceidwad côf-lyfrau; ysgrifennydd (ysgrifennedydd) awduredig.

Notation, *s.* [a noting down, *or* describing by figures, &c.] Nodiad.

Notch. *See* Dent [a notch,] Iag, &c.

To notch. *See* to Dent, to Jag, to Indent, *and* to Nick *or* notch.

To notch hair, Toccio gwallt, bwlch-doccio.

Nótched. *See* Jagged, Indented, &c.

Note, *or* mark, *s.* Nôd, arwydd, &c.

Note [a bill in writing.] *See* Bill [a note, &c.]

A note of hand, [of demand] or *a promissory note*, Llaw-nôd, gofyn-nôd, ysgrifen (sgrifnôd; llythyryn, llythyr-nôd) addewid.

A note, *or* Billet. *See* Billet.

A note, *or* remark, *s.* Sulw, sylw, nôd sulw, nodiad, daliad (cymmeriad) sulw. ¶ *Notes* [remarks] Sulw-nodau.

A bánk-note, *s.* Sgrif-nod ariannydd

A note, *s.* [explanatory *or* expository] Eglurnod.

A note, *or* minute, *s.* [a short hint in writing for remembrance *or* recollection] Cof-nod; *pl.* cofnodau.

Note, *s.* [name, reputation, character, &c.] Enw, cymmeriad, &c. hynodrwydd, &c. *Of note*, Enwog, hynod, &c. cyfrifol, cyfrifus, o fri a chymmeriad. ¶ *A man* [person] *of note*, Gŵr nôd (enwog, hynod, &c. ardderchog.) *Of no* [little or no] *note*. Dinod, anenwog.

Of some note, Cryn (tran) enwog.

Of great note, *Of no note*, &c. *See* of great Account, &c. *under* Account [estimation.]

A person of little note, Un heb fawr sôn (heb nemmawr o sôn) am dano, un heb fawr air (heb nemmawr o air) iddo, &c. un heb nemmawr yn ei adnabod: un isel-waed.

A person of any note, Un â dim o enw (air, gymmeriad) iddo; un â dim o sôn am dano; un â dim o ŵr bonheddig yndo, un o ddim urddas, un a fai â dim o urddas iddo.

Note, *s.* [in Music] Tôn; accen; sain unig: ¶ oslef, gollef, llais, llafar. *A sweet note*, Pereidd dôn, pereidd-don. *A harsh note*, Garw dôn: dryglais, dybryd sain, gerwinllais. *A short note*, Byrr-don, byrr-sain. *A long note*, Hir-don; hir-sain. *A loud note*, Uchel dôn, uchel-sain. *The cuckoo's note is ever the same*, Yr un accen sy gan y gwcew.

A note, *or* character, *s.* [in written, *or* printed, Music] Nôd tôn neu sain. *A short note*, Nòd byrrdon (byrr-sain.) *A long note*, Nòd hirdon (hir-sain.)

A note of interrogation. *See* ¶ Interrogation.

To note, *or* mark, *v. a.* Nodi, &c. *See* to Mark; *and* to Denote.

To note, *v. a.* [observe, remark, take notice of] Dal (cymmeryd, gwneuthur) sylw neu sulw-nodi.

To note [set] *down in a book*, &c. 'Sgrifennu (ysgrifennu) mewn llyfr, rhoddi (dodi) ar lawr mewn llyfr.

To note, *v. a.* [give notice of, &c.] Hyspysu, *Dan.* v. 21. ac 2 *Thes.* iii. 14.

To note, *v. a.* in Music, [write down notes] Tôn-nodi; accenu.

Nóte-book, *s.* Nôd-lyfr.

Nóted, *a.* Nodedig, hynod, enwog. &c.

Noted, *or* observed, *part.* Y dallwyd (wedi dâl) sylw arno.

¶ Noted, [notorious in vice.] *See* Arrant.

Notes, *s.* Nodau; tonau, &c.

Digitized by Google

Notes, *or* annotations, *s.* Eglur-nodau.

To take [down] *in short notes,* Cymmeryd ystyr peth mewn byrr eiriau, tynnu byrr draethawd o beth; talgrynnu.

A nóting, *s.* Nodiad, daliad sylw, &c.

Nothing, *s.* Dim, diddym, dyddim, peth heb ddim, ddiddym ddefnydd. *Of nothing cometh nothing,* Ni cheir (ddaw) dim o ddim. *I know nothing by my self,* Ni wn i ddim arnaf fy hun, 1 *Cor.* iv. 4. *Doubting nothing,* Heb ammeu dim, *Act.* x. 20. *All the things that are seen were created out of nothing,* O ddiddym ddefnydd y gwnaed y pethau gweledig oll. ¶ *You have nothing to do with it,* Nid oes i chwi a wneloch (a fynnoch) ag ef. *It is nothing to me,* Ni'm dawr i; *neu,* Nid gwaeth (ni waeth, ni pherthyn) i mi. *He is nothing but skin and bones,* Nid yw efe amgen nâ chroen ac esgyrn. *I have nothing to accuse you of,* Nid oes gennyf beth i achwyn arnoch; *neu,* Nid oes gennyf yr hyn a achwynwyf arnoch o'i blegid. *They live upon nothing but honey,* Mêl yw eu hunig ymborth. *Nothing drieth up sooner than tears,* Nid oes a sych yn gynt nâ dagrau. *Thou shalt save alive nothing that breatheth,* Na chadw un enaid yn fyw, *Deut.* xx. 16. *Wherefore she told him nothing,* Am hynny nid ynganodd hi wrtho ef air, 1 *Sam.* xxv. 36. *If thou hast nothing to pay,* Oni bydd gennyt i dalu, *Diar.* xxii. 27. *Is it nothing to you, all ye that pass by?* Onid gwaeth gennych chwi, y ffforddolion oll? *Galar.* i. 12. *Have thou nothing to do with that just man,* Na fydded i ti a wnelych â'r cyfiawn hwnnw, *Mat.* xxvii. 19. *He is nothing the better for it,* Nid yw efe ronyn (fymryn, dippyn, ddim) gwell erddo. *Nothing venture, nothing have* [Prov.] Ni cheiff dda nid êl yn namwain.

Nothing but—. See But. [signifying *except*] and *But* [after a negative, such as *not, nothing, &c.*]

For nothing. See Gratis.

Nothing at all, [in the world] Dim oll (yn y byd,) ¶ dim o ddim, dim ag *neu* ar a ddimmwyd (ddimmiwyd.)

Nothing worth, Heb dalu dim, *Baruch* vi. 17.

To make nothing of. See under M.

¶ *To make nothing of,* [do with ease] Gwneuthur yn hawdd (yn ddïorchest, heb orchest yn y byd, cyn esmwythed â'r tes.)

To come [be brought] to *nothing. See* to Miscarry [as an undertaking, &c.]

Nótice, *s.* [taken of a person *or* thing] Sulw, sylw; daliad sylw, synniad.

Notice, *s.* [given to a person] Hysbysrwydd, hysbysiad gwybodaeth, copinod, rhybudd.

Notice, *or* knowledge. *See* Knowledge, *and* Cognisance.

Notice, *or* hint. *See* Hint.

¶ Notice, *s.* [given by a *nod, sign,* or *token*] Amnaid, awgrym, &c.

To give, or *send, notice,* [to a person of a thing] Hysbysu, anfon (rhoddi) gwybod; rhybuddio, rhoi rhybudd; arddangos; mynegi; peri gwybod.

¶ *To give notice,* [by a hint, &c.] *See* to Hint.

To have notice, or *be apprized, of a thing,* Cael gwybod peth. *See under* A.

To take notice, [of a thing, &c.] Dal sylw (ar,) &c. ¶ gwybod, 2 *Sam.* iii. 36.

To take notice of [in words *or* writing.] *See to* Mention.

To take notice of, or *give heed to. See* to Heed, &c.

¶ *To take notice of* [salute] *a person,* Cyfarch i un.

To take no notice of, [neglect; not to mention, &c.] Esgeuluso, &c. bod heb grybwyll (goffa, sonied, &c.) am; peidio a dal (bod heb ddal) sylw ar, &c. ¶ *There was no notice taken* [no mention made] *of this at that time,* Ni bu sôn (gair, coffa) am hyn ar hynny o bryd.

To take no notice [dissemble one's knowledge] *of,* Bod heb gymmeryd ar un wybod peth. *He took no notice of this,* Ni chymmerodd arno wybod hyn.

To take no notice of [not to salute] *a person,* Myned heibio i un heb gyfarch iddo.

¶ *To take particular notice of one. See* to Distinguish [honour *or* respect above others.]

Notificátion, [a making known] *or* nótifying, *s.* hysbysiad, yspysiad, gwneuthuriad yn hysbys, roddiad (anfoniad) gwybod, hysbysrwydd.

To nótify, *v. a.* [make known] Hysbysu, gwneuthur (peri) yn hysbys, &c. cyhoeddi, dangos (mynegi) ar gyhoedd.

Nótion, *or* knowledge, *s.* Gwybodaeth.

Notion, *or* conception. *See* Conception, Idea; *and* Imagination [thought, &c.]

Notion, *s.* [opinion, &c.] Tŷb, dychymmyg meddwl, &c. *See* Imagination [conceit, *or* fancy.]

The proper notion [signification] *of a word,* Priod ystyr (arwyddoccâd priodol) gair.

¶ *Under the notion of,* [form *or* appearance] Tan rith (gysgod, gyffelybrwydd.)

Nótional. *See* Ideal, Imaginary, &c.

Notorious. *See* openly Known *(under* K.) Manifest: Arrant, Egregious [in a bad sense] *and* Infamous.

Nótóriously, *ad.* Yn hysbys i bawb. ¶ *It is notoriously known,* Efe a aeth (y mae wedi myned) ar gyrn a phibau. *As is notoriously known,* Fel y gŵyr pawb.

Notóriousness, *or* notoriety, *s.* [the quality of being universally known for its villainy *or* infamy] Hyspysrwydd rhyw gyflafan *neu* ddyrraswch i bawb, hynodrwydd (honneidrwydd) rhyw ddihirwch *neu* ddireidi: rhempusrwydd; honneid-ddrygedd.

To nott, *v. a.* [poll, &c.] Toccio.

Nóttingham, *s.* [a town so called, the capital of the county of the same name] Din-obant, Tŷ Ogawg.

Notwithstánding, *conj.* [for all this *or* that, howbeit, however, &c.] Er hyn (hynny,) er hyn (hynny) oll, er hyn (hynny) i gŷd, etto, hagen, nid anllai, &c. *They are, notwithstanding, to know that they are still bound to observe the moral law,* Gwybyddant, er hyn oll, eu bod fyth yn rhwym (tan rwymau) i gadw y gyfraith foesawl.

Notwithstanding that, [though] Er, &c. *Notwithstanding this will weaken them,* Er y gwanhâ hyn hwynt.

Notwithstanding, *prep.* [for all, &c.] Er, &c. *Notwithstanding any thing that could be said to the contrary,* Er dim a ddywedid i'r (yn y) gwrthwyneb. *Any law* or *custom to the*

Digitized by Google

contrary in any wise notwithstanding, Er neb ryw gyfraith neu ddefod ar neb ryw fodd yn y gwrthwyneb.

Notwithstanding, *conj.* [non-obstante, without any hinderance, or obstruction] Heb na lludd na rhwystr, yn ddiwrthladd.

Nóvel *or* new, *a.* Newydd; diweddar.

Novel, *s.* [a lately invented species of moral romance, or history, so called] Newydd-chwedl dychymmyg, chwedl (ffug-chwedl, newydd, newydd-chwedl, ffŵg-draethawd, ystori-ddychymmyg (wneuthur,) newydd-draith, difyrdraith newydd-lun.

Nóvelist, *or* novel-writer, *s.* Ysgrifennydd (awdur, llunledydd) newydd-chwedlau, ystorïawr dychymmyg.

Novelist, *or* innovator. *See* Innovator.

Nóvelty, *s.* [a new, strange, *or* unusual, thing] Newydd-beth, peth newydd (dieithr, anarferol, a'r ni's gwelwyd mo'i fath o'r blaen.)

Novelty, *or* newness. *See* Newness.

Novémber, *s.* [the month so called] Tachwedd, mis Tachwedd.

¶ *The first day of November*, Calan (dydd calan) gaeaf.

Nought, *or* nothing, *s.* Dim. ¶ *Where nought is to be had, the king must lose his right*, [Prov.] Ni cheir gan y llwynog ond ei groen.

For nought, Am ddim, yn rhad, heb elw, *Salm* xliv. 12. yn ddiachos, *Job* i. 9.

To bring to nought or *nothing*. *See under* B.

To come to nought or *nothing*, Myned ar ddim, dyfod i ddim, darfod am dano, methu, &c.

To set at nought. *See* to Despise, *and* to Disrespect.

A thing of nought, Peth diddym, peth heb ddim, *Esay* xli. 12.

Nóvice, *s.* [a young beginner] Newyddian, 1 *Tim.* iii. 6. ¶ *He is a very novice*, Un llwyr (cwbl) anhyfedr neu anghyfarwydd ydyw; neu Nid yw efe, yn wir, ond dechreuwr (un sy'n dechreu.)

Noviciate, *or* nóviceship, *s.* [the state of a novice, a probationary state at a Convent, &c.] Newyddianaeth, creiddyniaeth, cyflwr (ansawdd) newyddian neu brawf-ddyn, prawf-gyflwr.

Noun, *s.* in Grammar [a word whereby any thing, quality, *or* accident, is expressed] Enw. *A noun substantive*, Enw cadarn. *A noun adjective*, Enw gwan. *A noun of no case*, Enw didreigl. *A noun of one case*, Gair (enw) undreigl.

To nóurish, *v. a.* Magu, maethu, meithrin, magwriaethu; cynnal, *Gen.* l. 21. porthi, &c.

Nóurishable, *a.* [easy to, *or* that may, be nourished] Hyfaeth, hyfag.

Nóurisher, *s.* Magwr, magai, megydd, megiddydd, maethydd, maethedydd, porthwr, porthydd; cynheilydd.

Nóurishing, *part.* [that nourisheth *or* is of a nourishing quality] Maethawl, magwriaethawl, ¶ magwy.

Nóurishment, *s.* Maeth, magwraeth, meithrinlaeth; ymborth, cynhaliaeth.

Of, or *belonging to, nourishment*. *See* Alimentary.

Now, *ad.* [at this present time] Yn awr, yr awron; y (ar y) pryd presennol neu hyn, yn bresennol, yn gynhyrchol, ¶ ychwinsa.

¶ *Now* [here] *followeth the*, &c. Yma y canlyn y, &c. *Now when Joab saw*, A phan ganfu Joab, &c. 1 *Cron.* xix. 10. *Now on this side, now on that*, Weithiau ar y tu yma, weithiau ar y tu arall.

Now, or *now at length*, [last] Bellach, weithian, weithion. *Now or never*, Bellach neu byth. *It is now high time to be going*, Mae'n llawn oed (bryd) i ymadaw weithian; neu, Mae weithian yn llawn bryd i ymadaw neu fyned ymaith. ¶ *Now then if God hath dealt so graciously by us, let us magnify his infinite mercy*, Wele ynte os gwnaeth Duw gyfryw bethau daionus erom, mawrygwn ninnau ei anfeidrol drugaredd ef. *Now faith is the substance*, [ground] &c. Ffydd yn wir yw sail, &c. *Heb.* xi. 1.

Nowadays, *ad.* Y dyddiau hyn, ¶ heddyw, y dydd heddwy, yr (yn yr) oes hon, y do hon, (y sydd.)

Now and then, Ambell (ymbell) waith, yn awr ac eilwaith (ac yn y man;) weithiau.

Before now. Cyn hyn (hyn o amser,) cyn yn awr.

Even now, or *just now*, Yn awr hyn, yn y man; y (yn y) funud hon.

How now! Pa fodd (p'odd) yn awr! beth yw hyn!

Until now, Hyd yn hyn (yn awr,) hyd y pryd hyn, hyd yma, *Num.* xiv. 19. hyd yr awrhon.

Well-now, Iddo yn awr.

Nówed, *a.* in Heraldry [knotted] Clymmog, clymmedig, ynghwlwm, wedi ei glymmu.

Nówhere, *ad.* Nid yn un-man (un-lle.)

No wise, *ad.* Nid mewn un-. dd. ¶ *Him that cometh to me I will in no wise cast out*, Yr hwn a ddêl attaf fi ni's bwrir (bwriaf) ef allan ddim, *Io.* vi. 27.

Nóxious, *a.* Niweidiog, niweidiol, adwythig, a wna ddrwg, &c.—afiach: euog, beius.

Nóxiousness, *s.* Niweidiogrwydd, niweidiolrwydd, adwythigrwydd.

Núbile. *See* Marriageable.

Núbilous *See* Cloudy.

To núddle along, [hie on with one's head hanging down] Brysio ym mlaen dan grogi ei ben (dan bendrymmu.)

Núdity. *See* Nakedness.

¶ **Nudity**, *s.* [in Limning [a picture representing a naked person] Llûn dyn noethlumyn.

Nuel, or *newel* [spindle, *or* centre-post] *of a winding stair-case*, Gwerthyd (canol-bost) grisiau tro.

¶ *Nuel*, or *newel, of a stair-case*, [the compass round which a stair-case is carried] Gwain (esgyn-wain, bêdd, cenfedd, esgynfedd, esgyn-lan, esgyngae) grisiau; talwrn grisiau.

Núgatory, *a.* [trifling, insignificant, impertinent] Ofer, gwâg, gorwag, ofer-wag, dibwys. ¶ *The nugatory art*, Chwydawiaeth. *A nugatory action*, [at Law] Arab-hawl.

Nuisance, *s.* [any thing pernicious and offensive] Un rhyw beth niweidiol a blin pa bynnag; niweid. ¶ *A public nuisance*, Pla (blinder, echrys) cyffredin; aflonyddwch gwlad; câs gan bawb.

Null [void] or *null and void*, Diddym, dirym, ofer.

Digitized by Google

Null, *or* nullo. *See* Nullo.
To [make] null, *or* nullify, *v. a.* Diddymmu.
Nullifidian, *s.* [one of no faith, &c.] Un diffydd (digred digresydd:) un diymddiried.
To nullify. *See* to Null, *above.*
Nullity. *See* Invalidity, *and* Nothingness.
Núllo, *or* nought, [in Arithmetic.] *See* Cipher, in its 1*st* and 2*nd* Acceptation.
Numb, *a.* [deprived, in a great measure, of feeling and the power of motion] A chysgfa ynddo *neu* ynddi, yn (wedi) cysgu, wedi merwino, marw, diffrwyth, marwaidd: hurt.
Númbness, *s.* Cysgfa fel na's gwypai oddiwrtho ei hun, marwder, marweidd-dra, diffrwythdra.
¶ Numbness, *s.* [in the fingers owing to the cold] Merwindod, merwin, ewin-rew ar fysedd.
Number, *s.* [a collection of units *or* small things, more than one, many together whether they be persons *or* things] Nifer (*pl.* niferi,) rhif (*pl.* rhifedd,) rhifed, rhifedi, cyfrif, eirif.
A good number, Rhynnawd o nifer, nefes (rhifedi) nid bychan.
A great number, Lliaws, &c.
In great number or *numbers*, Yn aml, ¶ yn drylau, yn heidiau, yn heigiau, yn finteloedd.
An even number, Cyfnifer, cynnifer. ¶ *Of* [consisting of] *an even number*, Cyfniferawg, cynniferawg, cynniferawl.
Evenness of number, Cyfniferedd, cyfniferwch, &c.—cyfartaledd rhifedi.
An uneven [odd] *number*, Amnifer, anghynnifer.
¶ *Of* [consisting of] *an uneven number*, Amniferawg, amniferawl, anghynniferawl.
Unevenness of number, Amniferedd, amniferwch, anghynniferedd, &c.
The singular number, Y rhif unig (unigol.)
The plural number, Y rhif liosog.
The golden number, [in Chronology] Y rhif euraid, y prif.
Past [passing, without, beyond] *number*, Aneirif, anhyrif, heb rif (gyfrif) arno.
A being past number, Afrifedi
Few in number, [a small number] Anaml, ychydig o rifedi, bychan rifedi. *And ye shall be left few in number*, Felly chwi a adewir yn ychydig bobl, *Deut.* xxviii. 62.
What number. See How many, *under* H.
Of what number, O ba nifer, pa un o gyfrif, pa sawl un.
What number soever, Pa nifer (sawl un) bynnag. *Of what number soever*, O ba nifer bynnag, pa un bynnag o gyfrif.
More in number, Amlach, lliosoccach, ychwaneg (mwy) o rifedi
By number, Wrth (tan) rif *neu* gyfrif.
¶ *To make one's self of the number of*--, Cystadlu ei hun (ymgystadlu) â—. *We dare not make ourselves of the number*, Nid ŷm ni yn beiddio ein cydstadlu, 2 *Cor.* x. 12.
To make few in number, Gwneuthur (peri) yn anaml, lleihau, *Lef.* xxvi. 22.
To number. *See* to Count.
To number again, Ail-rifo, adrifo, &c.
To number with one's self, Ymgyfrif, rhifo rhyngddo ag ef ei hun.
Numbered, *a.* Rhifedig, a rifwyd, wedi ei rifo; cyfrifedig, &c. ¶ *And all that were numbered of you*, A'ch holl rifedogion, *Num.* xiv. 29.
Not to be numbered. See Innumerable, *and* not Countable (*under* C.)

Númberer, *s.* Rhifwr, rhifydd, rhifedydd, cyfrifydd.
A numbering, *s.* Rhifiad, cyfrifiad.
Numberless. *See* Innumerable.
¶ Numbers, in Poetry [the measures of a verse] Mydr (*pl.* mydrau,) cynghaneddion, cynghaneddau; mesuron, mesurau.
Broken numbers, Twn-rifedd.
Numbness. *See above under* Numb.
Númerable, *a.* [that may be numbered] A aller (ellir) ei rifo.
Númeral, *a.* [of, consisting of, *or* belonging to, numbers] Rhifawl, cyfrifawl, cyfrifol, perthynol (a berthyn, yn perthyn) i rifedi *neu* gyfrif.
Númerally, *ad.* [according to number] Yn ôl rhifedi.
Numeration. *See* a Numbering, *above.*
¶ Numeration, *s.* [that part of *Arithmetic*, which teaches to read and write down any series of numbers] Rhif-lëad: rhif-nodiad: cyn-ran Rhifyddeg. ¶ *Numeration table*, Rhif-lech, rhif-res, rhif-lechres.
Numerátor. *See* Numberer.
Numérical, *or* numeral. *See* Numeral.
Numérical, *a.* [denoting number] Rhif-nodol, rhif-nodiadol, yn nodi rhif.
¶ Numerical, *a.* [answering in every respect even number for number] Yn atteb (yr un) rhif am rif: yn atteb (yr un) o ran rhyw a rhifedi.
Numérically, *ad.* [with respect to number] O ran rhif (rhifedi.) ¶ *Numerically the same*, Yr un rhif am rif (rhan am ran.)
Numerist, *s.* Rhifydd; ¶ rhif-goelydd, coelrifydd.
Numero, *or* [by abbreviation] *N°.* Rhif-ran, rhif.
Numerósity, *or* númerousness, *s.* [the quality of abounding in number] Lliosogrwydd, niferogrwydd; amledd, amlder, amldra.
¶ Numerosity, *or* harmoniousness, *s.* [applied to *Verse*] Cynghaneddolrwydd: cynghanedd.
Númerous, *a.* [abounding in number] Lliosog, niferog, aml (o rifedi;) llawer. *Ye are numerous*, Yr ydych chwi yn llawer. *For ye are numerous*, Canys llawer ydych chwi.
Numerousness. *See* Numerosity.
Númerously, *ad.* Yn lliosog.
Númmary, *or* númmular, *a.* [relating to money A berthyn i arian bathol (i arian.)
Nun, *s.* [a Female recluse] Lleian, manaches, monaches.
¶ Nun, *s.* [a little sort of bird so called] Penloyn, llygoden y derw, gwâs y dryw, y sywidw was y dryw, sywidw, yswidw, yswigw, y lleian (felly y gelwir o herwydd ei ben du,) cap y lleian, y péla glas bâch.
The life of nuns, Llelianaeth.
Núnchion, *s.* [an afternoon's repast] Prydnawnfwyd, *vulgò* pyrnawnfwyd, cinio echwydd.
Núnciature, *s.* [the office of a *nuncio*] Swydd cennad y Pâb: cennadwriaeth.
Núncio, *s.* [a messenger sent by the Pope to some Court *or* crowned Head] Cennad (prifgennad) y Pab; cennad.
Núncupative, *or* núncupatory, *a.* [verbal, *or* by word of mouth; publicly *or* solemnly declared] Ar dafod leferydd, ar air (ar eiriau, mewn geiriau) yn unig: cyhoedd-fynegedig, cyhoedd-fynegawl. *A nuncupative will*, Cymmynniad (llythyr cymmyn) ar dafod

Digitized by Google

leferydd ger bron tystion addwyn; gairgymmyn.

Núnnery, *s.* [a convent of *nuns*] Lleiandy, gwyryf-dŷ.

Núptial, *a.* [relative, *or* belonging, to marriage] Priodasol, neithiorol, perthynol (perthynasol, a berthyn, yn perthyn) i briodas *neu* neithior. ¶ *A nuptial feast*, Neithior, priodas-wledd, gwlêdd briodas. *A nuptial song*, Priodas-gerdd, cerdd briodas. *Nuptial bed*, Gwely priodas.

Núptials, *s.* [marriage] Priodas: neithior.

Nurse, *s.* Mam-maeth, maeth-wraig, magai, &c. *Out at nurse*, Tan law (gyd â) mam-maeth.

To nurse, *v. a.* Magu; maethu, meithrin.

A núrse-child. *See* Foster-child.

Núrsed, *a. part.* Magedig, a fagwyd, wedi ei fagu; maethedig.

Nursed [that were nursed] ***together***, Cyd-faethedig, ¶ cyd-faeth, un-faeth, cydlaeth, unfron.

Núrser. *See* Fosterer.

Núrsery, *s.* [an apartment for nursing children] Maethfa, magfa, meithrinfa; ystafell fagu; maeth-dŷ.

¶ **Nursery**, *s.* [a plantation of young trees to be transplanted] Cymmhlanfa, maethle (maethfa) planhigion, planhigfa.

Nursery [of learning.] *See* Academy; *and* Seminary.

¶ **Nursery**, *s.* [that which is the object of the nurse's care] Maethfa, magfa, meithrinfa.

Núrsing, *part.* [that nurseth] A fo'n magu; yn magu, yn maethu, &c. ¶ *A nursing-father*, Tad-maeth. *A nursing-mother*, Mam-maeth.

A núrsing, *s.* Magiad, maethiad.

Núrsling, *s.* [one that is brought up by a nurse] Un a fo tan law mam-maeth; maeth-fab, un a ddygir i fynu gyd â mam-maeth.

Núrture, *or* nourishment. *See* Nourishment.

Nurture, *or* institution, *s.* Addysg, *Ephes.* vi. 4. —dygiad i fynu. ¶ *Want of nurture*, Annoethineb, *Eccius.* xxii. 10.

To nurture, *v. a.* Addysgu, *Ecclus.* xviii. 13. meithrin, 2 *Esdr.* viii. 12. dwyn i fynu.

Núrtured, *a. part*, Addysgedig, a addysgwyd, wedi ei addysgu, &c.—*Well-nurtured*, A ddysgwyd yn dda, *Ecclus.* xl. 29. ¶ medrus, *Ecclus.* xxxi. 19. *Ill* [evil] *nurtured*, ¶ Diaddysg, *Ecclus.* xxii. 3.

To nústle, *or* nursle, *v. a.* Magu ym mynwes.

Nut, *s.* [the fruit of a nut-tree] Cneuen, *pl.* cnau. ¶ *A little nut*, Cneuennig. *It is nuts to him*, Mêl yw iddo (ganddo.)

A rotten [worm-eaten] *nut*, Cneuen goeg, ¶ coegen. *Rotten* [worm eaten] *nuts*, Cnau coegion.

The nut of a leg of mutton, Mesen (cneuen, cilchwerryn, cilchwyrnyn) morddwyd maharen.

The nut of a screw, Gwain (hosan, cneuen, gafael) cogwrn tro.

Nút-brown, *a.* [of the colour of a ripe nut] O liw'r gneuen wisgi. ¶ *The nut-brown maid*, Gwen lliw'r gneuen.

Nút-cracker, *s.* Gefail gnau.

Nút-gall, *s.* Rhyw gneuen *neu* afalyn, afal y derw.

Nút-hatch, nút-jobber, *or* **nút-pecker**, *s.* [a bird so called] Delor.

Nút-kernel, *s.* Cnewyllyn cneuen.

Nútmeg, *s.* Cneuen pen, cneuen bêr yr India, cneuen y màs.

Nuts, *s.* Cnau. ¶ *To gather nuts*, Cneua. *Earth-nuts*, Clôr, cylor, bywi, cnau'r ddaear. *To gather earth-nuts*, Clora.

Nútriment. *See* Nourishment.

Nutrition, *s.* [the act of nourishing] Maethiad; maeth.

Nutritious, nútritive, *and* **nutritiéntal**, *a.* [of a nourishing quality] Maethawl.

Nútriture, *s* [the power of nourishing] Maethlrwydd, rhinwedd faethawl (fagwy,) ¶ maethrin: maeth, magwraeth.

Nút-shell, *s.* Plisgyn (blisgyn, ballasgyn, masglyn) cneuen. *Nut-shells*, Ballasg (blisg, màgl) cnau.

Twin-nuts, *s.* Cnau conglog. *A twin-nut*, Cneuen gonglog, ¶ conglen.

Nút-tree, *s.* Pren cnau; collen.

Nútty, *a.* [abounding in nuts] Cneuog, llawn cnau.

To nuzzle, *v. n.* [hide the head, as an infant does in its mother's bosom] Ymguddio (cuddio ei ben *neu* drwyn, llechu, ymgynnhesu) ym mynwes, &c.

To nuzzle in the bed-clothes or *blankets*, Cynnhesu ei drwyn (ymgynnhesu) yn nillad y gwely.

To nuzzle in [the] *bed*, Ymguddio (cuddio ei ben *neu* drwyn, llechu, ymgynnhesu) yn y gwely.

¶ **To nuzzle**, *v.* [as a hog] Turio, tyrfu, cloddio â thrwyn: rhoi ei drwyn wrth beth, trwyno; cerdded â'i drwyn ar lawr (dan drwyno'r llawr.)

Nye *or* **eye** [a nest *or* brood] of pheasants, Nythaid (nythlwyth) o goed-ieir; llu (haid, mintai) o goed-ieir.

Nymph, *s.* [in the heathen *Mythology*, a kind of female divinity presiding over *woods*, *meadows*, *waters*, &c.] Math ar dduwiesan yn ôl ffregod yr hên feirdd cenhedlig. *The nymphs*, Duwiesau'r coedydd, y gweunydd, y dyfroedd, &c.

¶ **Nymph**, *s.* [in *poetic* language, a young lady] Gwyryf (rhiain) dlôs, tlos-wyrf, tlos-ferch, mirein-ferch. ¶ Gwen sirain, gwen-fun; mainir, meinir; duwies, angyles, &c.

Digitized by Google

O [*ad.* of calling] O, oh. *O Lord*, O Arglwydd.

O, [*interj.*] O, oh, oio, och, &c. (*See* Alas.)

O that they were wise,—! Oh na baent ddoethion,—! *Deut.* xxxii. 29. *O wretched man that I am*, Ys truan o ddyn wyf fi, *Rhuf.* vii. 24.

Oad. *See* Woad.

Oaf, *s.* [a stupid fellow, a fool.] *See* Auf, and Changeling [a fool, &c.]

Oáfish, *a.* [stupid, &c.] Hurthgennaidd, hurt, ffladr, disynwyr, synn, &c.

Oáfishness, *s.* Hurthgenneiddrwydd, hurtrwydd, ffladredd.

Oak, *s.* Derwen, dâr, mesbren. *Oaks*, Derw, deri. *Stunted* [shrubby] *oaks*, Cor-dderw.

Oak of Jerusalem, [herb] Derwen Gaersalem.

The scarlet oak, *s.* Prinwydden.

A stately oak, ¶ Caterwen *i. e.* cad-dderwen.

A young oak, ¶ Glâs dderwen, derwen ieuangc.

Oák-apple, *s.* Afal y derw. *See* Gall *or* gall-nut.

Oák-fern. *See under* Fern.

Oák-grove, *s.* Llwyn derw, derw-lwyn.

Oáken *or* oak, *a.* [of, *or* made of, oak] Derwin, o (o'r) dderwen, o (a wnaed, a wneler, *neu* wedi ei wneuthur, o) goed derw, ¶ derw, derwen. *An oaken stick* [plant,] *or an oak-stick*, Ffon dderwen (o bren derwen.) *Oaken plants*, Estyll derw (derwin.) *Oaken barrels*, Barilau derwin (y goed deri.)

Oákum, *s.* [for caulking ships, &c.] Carth, breisgion.

Oar, *s.* [to row with] Rhwyf, rhwyf-lath, rhodol, rhodl.

Oar-handle, *s.* [the handle of an oar] Gafael rhwyf.

¶ A pair of oars, [a two-oared boat] Bâd dwyrwyf.

Oat, *s.* [a grain of oats] Ceirchen.

Oat-, *or* oaten, *a.* [made of oats *or* of oatmeal: made of the stalk of oats] O (a wnaed o) geirch *neu* flawd ceirch, ¶ ceirch: o (a wnaed o) wellt *neu* welltyn ceirch, ¶ gwellt ceirch. *Oat-bread*, or *oaten bread*, Bara ceirch. *Oat-cake* or *an oaten-cake*, Teisen geirch. *Oat-meal*, Blawd ceirch. *Oatmeal-grout*, Rhynion blawd ceirch. *An oatmeal-man*, Trinwr (trinydd, cyweiriwr, cyweirydd; gwerthwr, gwerthydd) blawd ceirch.—*Oat-straw*, or *oaten-straw*, Gwellt ceirch. *Oat-helm*, or *oaten reeds*, [for thatching] Cloigion (belys) ceirch. *An oaten pipe* or *reed*, Pibell (chwibanogl) o welltyn ceirch. *Oaten pipes*, Pibau (pibellau) gwellt ceirch.

Oaten, *a.* [of, *or* belonging to, oats] Eiddo'r ceirch, perthynol (a berthyn) i'r ceirch, ¶ ceirch.

Oath, *s.* Llw (*pl.* llwon, llyau,) twng; llawgair; rhaith; ¶ cyngrair, *Deut.* xxix. 12.—14. ¶ *A great oath*, Mowrllw. *A solemn oath*, Llw cyhoedd (ar osteg.) *The oath of allegiance*, Llw ffyddlondeb (cywirdeb) i'r brenhin *neu* i'r llywodraeth. *A voluntary oath*, Llw gwellydd. *A contrary oath*, Gwrthdwng, gwrthllw. *A false oath*, Halawg-lw.

To swear an oath, Tyngu (rhoi) llw.—*To swear a great oath*, Tyngu (rhoi mowrllw, tyngu'r (rhoi'r) mowrllw.

¶ *To administer an oath of office to a judge*, Rhoddi dïofryd brawd (ar un.)

To make oath, Tyngu, tystio ar lw, *&c.*

To require [exact] *an oath of one*, Gofyn (mynnu) llw gan un; tyngu un.

To take an oath, Cymmeryd llw, myned tan lw, ymrwymo trwy lw, tyngu. *He took the military oath*, Efe a gymmerth lw milwr; *neu*, Efe a dyngodd ei hun yn filwr.

To take an oath of one, Cymmeryd llw un (gan un,) tyngu un, 1 *Bren.* xviii. 10. a *Neh.* v. 12. gwneuthur i un dyngu, 2 *Bren.* xi. 4.

¶ *To take the oath of office*, [i. e. of a judge] Cymmeryd dïofryd brawd.

To put one to his oath, Rhoi (gosod) un ar ei lw, peri (gwneuthur) i un gymmeryd ei lw; tynghedu un â llw. *See*

To tender an oath to one, [swear one] Rhoi ei lw i un, derbyn (cymmeryd) llw un, creirio (creirhâu) un, tyngu un.

A false oath, Anudon, llw celwyddog (anudon,) *Zec.* viii. 17.

To take a false oath, Tyngu (rhoi llw) anudon.

Upon oath, Ar (ei) lw; dandwng (i. e. dandwng,) *I am upon* [under an *oath*, Dandwng ydwyf.

To declare upon oath, [upon one's honour] ¶ Dywedyd ar ei lowgair (*sef* gan roi ei law ar ei ddwyfron.)

With an oath, Trwy lw, gan (dan) dyngu. ¶ *To renounce* [deny] *with an oath*, Dïofrydu.

With a great oath, Trwy fowrllw, gan roi'r (dyngu'r) mowrllw, gan roi (dyngu) mowrllw.

Oátish, *or* óaty, *a.* [somewhat resembling oats in taste] Ceirchaidd; ceirchlyd.

Oátmeal, *s.* Blawd ceirch.

Oats, [a well-known grain so called] Ceirch. *Wild oats*, Ceirch gwyllt, ffetter. ¶ *He hath not yet sown his wild oats*, Nid aeth nwyf (nwyfiant) ieuengctid heibio gyd ag ef etto; *neu*, Ni ddarfu nwyf ieuengctid (mo'i oferhela) gyd ag ef etto.

¶ *The small grains of oats growing at the roots of the larger*, Ceseil geirch.

To obdúce, *v. a.* [draw over as a covering] Gorchuddio, anhuddo, gwisgo â rhyw beth (â gorchudd,) tynnu gorchudd dros beth.

Obdúracy, *a.* [a state of hardness, *or* a hardened state] Caledrwydd, caledwch, pengaledrwydd, pen-galedwch; calon-galedrwydd; gwargaledrwydd; cyndynrwydd, anhyblygedd.

Obdúrate, *a.* [hardened] Caled, a galedwyd, wedi ei galedu, wedi ymgaledu; pengaled; calon-galed; gwar-galed; ¶ cyndyn, &c. anhyblyg.

Obdúrately, *ad.* [in a hardened, inflexible, manner] Yn wargaled, gan (dan) ymgaledu, yn gyndyn; yn anhyblyg.

Digitized by Google

Obdúrateness. *See* Obduracy.
Obdurátion, *s.* Ymgaledìad. *See* Induration.
Obédience, *s.* Ufudd-dod, ufuddhâd, ufuddgarwch; gostyngeiddrwydd.
Obedience, *or* subjection, *s.* Gwarrogaeth, darostyngedigaeth, ufudd-dod.
To bring [reduce] *a province, &c. to one's obedience,* Dwyn talaeth, &c. tan warrogaeth (lywodraeth *neu* awdurdod) un; *neu,* ¶ Darostwng talaeth i (tan law *neu* ddwylaw) un.
To be under obedience [subject] *to,* Bod yn ddarostyngedig i, 1 *Cor.* xiv. 22,—34.
Obédient, *a.* Ufudd, ufuddgar; gostyngedig, darostyngedig, *Tit.* ii. 5.
To be obedient, Bod yn ufudd (yn ddarostyngedig;) ufuddhâu.
Obediéntial, *a.* Ufuddawl, ufuddol; perthynol (yn perthyn) i ufudd-dod.
Obédiently, *or* in obedience to, Yn ufudd, mewn ufudd-dod i.
Obeisance. *See* Bow [a stooping of the head, &c.] *and* Conge *or* congee.
To do, *or* make, obeisance, Ymgrymmu, *Gen.* xxxvii. 7.—9. ymostwng, *Gen.* lxiii. 28. *See* to make a Bow to one *(under* B.) *and* to [makè a] Conge, *(under* C.)
O'belisk, *s.* [a pyramidal stone *or* building so called] Rhyw faen mawr *neu* adail pedrogl, bonbraff blaenfain.
Obelisk, *s.* [in *Printing* or *Writing,* a note of reference of this form—†, or inverted, of this form—‡, otherwise called a *Dagger*] Bêrnòd, nòd y bêr, ¶ bêr, y bêr; dagr, &c.
Oberrátion, *s.* [a wandering about] Crwydriad, crwydrad, crwydr, cylch-grwydr.
Obese. *See* Gross, Corpulent; Fat: Dull, *and* Fat-witted.
Obéseness, *or* obésity. *See* Corpulency; Fatness: Grossness; Dulness, *and* Blockishness.
To obéy, *v. a.* [give, *or* yield, obedience to, &c.] Ufuddhâu (i,) bod yn ufudd (i;) gwneuthur a fynno un; bod wrth orchymmyn (arch *neu* archiad) un, cadw (gwneuthur yn ôl) gorchymmyn un; bod tan lywodraeth un, ymostwng (ymddarostwng) i; ¶ gwrando ar, *Gen.* xxvii. 8.
Obéyed, *part.* Yr ufuddheir (ufuddhäwyd) iddo; y gwrandewir (gwrandawyd) arno. ¶ *He will be obeyed,* Efe a fynn (a bair) ufuddhâu iddo. *I ought to have been obeyed,* Dylesid ufuddhâu i mi (gwrando arnaf fi.)
O'bject, *s.* [any thing whatsoever, that either the senses, or the mental faculties, are employed about] Gwrthddrych, gwrthddrychiad, yr hyn a fo yngolwg (ger bron llygaid) un; ¶ amlygyn: tuedd-nod. ¶ *The main object,* Y prif-nod. *Exercise thy thoughts upon good objects,* [subjects] Arfer dy feddyliau (myfyria) ar bethau da.
To objéct, *v. a.* [oppose, lay against, make an objection to, &c.] Gosod (dodi, taflu, rhoddi, bwrw) yn erbyn; ¶ achwyn, *Act.* xxiv. 19. —gwrtheb; rhagu: llysu, gwrthneu, &c.
To object to one, [by way of reproach] Bwrw (taflu) yn nannedd un, bwrw ar un, lliwied (edliw, dannod) i un.
Objéction, *s.* [something, said, *or* written, in opposition to an argument, an assertion, a proposal, &c.] Gwrthddadl, gwrthair, gwrthreswm gwrth-osod gwrth-ddadleu, amman, *(pl.* ammheuon,) &c. ¶ *I have an objection* [exception] *to some of them,* Mae gennyf beth yn erbyn rhai o honynt.
¶ Objection, *s.* [exception to a thing; fault found with a thing, &c.] Nam, anach, rhwystr; bai a fwrir ar beth.
Objéctionable, *or* objectible. *See* Exceptionable.
Objéctive, *a.* [having the nature *or* quality of an objection] Gwrthebedigol.
Objéctive, *a.* [belonging to, *or* of the nature of, an object] Gwrthddrychol.
Objective, *a.* [that may be objected] Gwrthebadwy a aller (ellir) ei fwrw yn erbyn *neu* yn nannedd un.
Objectively, *ad.* Yn wrthrychol: yn wrthebadwy.
Objéctiveness, *s.* [the state of being an object] Gwrthddrycholdeb, gwrthddrycholrwydd.
Objéctor, *s.* Gwrthebwr, gwrthebydd, gwrthddadlwr, gwrthddedlydd, gwrthddadleuwr, gwrthddadleuydd.
O'bit. *See* Funeral ceremonies; *and* Funeral obsequies; *both under* F.
To objúrgate. *See* to Chide.
Objurgátion. *See* a Chiding.
Objúrgatory, *a.* [of a chiding nature *or* quality] Ceryddedigawl, ceryddawl ei ansawdd, dwrdiedigawl, &c.
Obláte, *a.* [flatted at the poles, as a spheroid] Lleth-grwn, goleth-grwn, lleth-begynnol.
Oblátion, *or* offering, *s.* Offrwm.
Oblectátion. *See* a Delighting: *and* Amusement.
To óbligate, *v. a.* [bind *or* engage by a kindness done one] Rhwymo (drwy gymmwynas *neu*'r cyffelyb,) peri (gwneuthur) yn rhwymedig i, rhoi (gosod) dan rwymediganeth *neu* dan rwymau cymmwynas.
Obligátion, *s.* Rhwymedigaeth; rhwym; ymrwym; cymmwynas.
To bind by obligation, [bond] Rhwymo â rhwymedigaeth, *Num.* xxx. 3. gosod (rhoddi) rhwymedigaeth ar.
O'bligatory, *a.* [having the quality *or* nature of an obligation] Rhwymedigawl; rhwymedigaethawl.
To oblíge, *v. a.* [bind by a kindness *or* courtesy done one, &c.] Rhwymo, *&c.*
To oblige, *or* compel. *See* to Force [oblige.]
Obliged, *a.* Rhwymedig, a rhwymwyd, wedi ei rwymo; tan rwym (rwymedigaeth, rwymau, ymrwym:) cymmhelledig, ¶ y gorfu (wedi gorfod) arno wneuthur peth, *&c.*
To be obliged [forced] *to do a thing,* Gorfod ar un wneuthur peth.
Obligée, *s.* [in Law the person to whom a bond is given] Derbynydd (derbyniedydd) 'sgrifrwym, 'sgrif-rwymedydd, ¶ y rhwymedydd.
Oblige-ór, *or* obligór, in Law [the person bound by a bond] Yr hwn a ymrwymodd tan 'sgrif-rwym, 'sgrif-ymrwymydd, ymrwymydd, yr ymrwymydd, y rhwymedig. *See*
Obliger, *s.* Rhwymwr, rhwymydd, rhwymedydd, yr hwn a esyd rwymau cymmwynas ar arall, yr hwn a wnêl (a bair) arall yn rhwymedig iddo
Obliging, *part.* [apt to do good-natured acts *or* offices] Cymmwynasgar, parod ei gymmwynas, cyweithas.
Obligingly, *ad.* Yn gymmwynasgar, yn gyweithas, yn dda ei natur.

Digitized by Google

Obligingness, *s.* Cymmwynasgarwch, parodrwydd i wneuthur cymmwynas, cyweithasrwydd.

Oblíque, *a.* [sloping, slanting, side-long; not in a direct line *or* perpendicular direction] Gŵyr, gŵyr-gam, ystŵyr-gam, agŵyr, ystlys-, *(in Composition)* ystlysol, ystlys gam, traws, gŵyrdraws, lledtraws, lledpai, lleddf, lleddyf, ar osgo, ar ohen.

To grow [also *to make*] *oblique*, Lleddfu.

Obliquely, *ad.* Ar ŵyr, yn ŵyr-gam, ar osgo, ar ohen, *&c.*

Obliquity, *or* obliqueness, *s.* Gŵyredd, gŵyrni, gŵyr-gemmi, traws-ŵyredd, gohen, gosgo, lledpeirwydd.

To obliterate. *See* to Blot out, *and* to Erase.

Oblívion, *s.* Anghof.

The act of oblivion. *See* Amnesty.

Oblívious. *See* Forgetful.

Oblong, *a.* [more long than broad] Hir-gul.

O'bloquy. *See* a Backbiting, Calumny, Defamation, *and* Detraction.

Obnoxious, *or* subject, Darostyngedig, rhwymedig; dan rwymau *neu* rwymedigaeth, hyrwym.

Obnoxious, *a.* [deserving *or* worthy of punishment] Yn haeddu cospedigaeth, a haeddo gospedigaeth, hygosp; beius, euog, cylus.

Obnoxious [subject *or* exposed] *to*. *See* Liable to; *and* Apt to.

Obnóxiousness, *s.* [the quality of being *obnoxious*] Darostyngedigaeth, hyrwymedd: hygospedd; euogrwydd, hygyledd.

To obnúbilate. *See* to Cloud [darken, *&c.*]

Obreption, *s.* [a creeping *or* stealing in, into, *or* upon] Ymlithrad, (ymlithr, ymlusgiad, ymlusg) i mewn i un, *neu* ar beth.

Obreptitious, *a.* [that creeps *or* steals in *or* upon] A ymlithro (a ymlusgo) i mewn i un *neu* ar beth.

Obscéne, *a.* [impure, immodest; smutty, ribaldrous, &c.] Budr, brwnt, coeg-frwnt; croesan, aflan, serth, anniwair, budr-eiriog, cras-eiriog, trythyll, anllad; ffiaidd; cywilyddus, gwaradwyddus.

¶ Obscene, *or* Inauspicious. *See* Inauspicious.

Obscenely, *ad.* Yn fudr-eiriog, yn aflan, yn anniwair.

Obscéneness, *or* obscénity. *See* Bawdry, Beastliness, Filthiness of communication, *&c.*

Obscurátion, *s.* Tywylliad, *&c.* caddug; anhndded.

Obscúre, *a.* Anghlaer, tywyll, *&c.*—¶ *In obscure darkness*, Yn y tywyllwch du, *Diar.* xx. 20.

¶ Obscure, *a.* [of no note] Dinod, anhynod, anenwog, anghysou. ¶ *Obscure* [mean] *persons*, Rhai isel-radd.

To [make] obscure, *v. a.* Tywyllu, *Doeth.* iv. 12.

Obscúrely, *ad.* Yn anghlaer, yn dywyll, *&c.*

Obscúreness, *or* obscurity, *s.* Anghlaerdeb, anghlaerder, tywyllwch, *Esay* lviii. 10. tywyllni, *&c.* ¶ niwl, *Esay* xxix. 18. ¶ *A day of darkness and obscurity*, Diwrnod tywyll a niwlog, *Esth. Apocr.* xi. 8.

¶ Obscureness, *or* obscurity, *s.* [the being of no note] Dinodedd, anhynodrwydd, anenwogrwydd.

Obsecrátion. *See* a Beseeching; *and* an earnest Beseeching, *both under* B.—*See also* Entreaty.

O'bsequies. *See* Exequies.

Obséquious, *a.* [ready to comply, *&c.*] Ufudd, ufuddgar, a wnêl (parod i wneuthur) y peth a fynner, gwasanaethgar, a wnêl gymmwynas a gwasanaeth yn ewyllysgar, parod i ganiattau yr hyn a erchir (a geisir) ganddo.

To be obsequious to one, Bod wrth archiad un.

Obséquiously, *ad.* Yn ufuddgar.

Obséquiousness, *s.* Ufuddgarwch, ufudd-dod, gwasanaethgarwch, parodrwydd i wneuthur y peth a fynner.

Obsérvable, *a.* Addas (gwiw) i ddal sylw arno, gwiwnod, hynod, nodadwy.

Obsérvance, *s.* [respect *or* regard] Parch.

Observance, *s.* [attention] Daliad (cymmeriad) sulw *neu* sylw; cyfarchwyl.

Observance [the keeping] *of commandments, of one's word*, &c. Cadwad (cadwraeth) gorchymmynion; cadwad (cyflawniad) ei air *neu* ei addewid; ymarferiad o ddyledswydd, *&c.*

¶ Observances, *s. pl.* [rules to be observed] Rhëolau i'w cadw, rhëolau, defodau, deddfau, trefnau.

Observant, *or* observing, *part.* [taking notice] Yn dal (yn cymmeryd) sulw *neu*, sylw, yn synniaw, yn synnied.

Observant, *a.* [watchful, *&c.*] Gwyliadwrus; gofalus; darbodus: cofus.

Observant, *or* attentive. *See* Attentive.

Observant, *or* obséquious. *See* Obsequious.

Observant of one's promise, ¶ Ffyddlon i'w addewid, a geidw ei addewid. ¶ *I make no doubt but he will be observant of your commands*, Nid wyf yn ammau na's ceidw efe eich (nad ufuddhâ efe i'ch) gorchymmynion chwi. *I would have him observant to* [of] *you in all things*, Mi a fynnwn ufuddhau, o hono (ei fod ef yn ufudd) i chwi ym mhob peth.

Observátion, *s.* Daliad (cymmeriad, gwneuthuriad) sulw *neu* sylw, nodiad; synniad; cyfarchwyliad, cyfarchwyl; gwyliadwriaeth: ¶ rhëol *(Canon Egl.* 30.) ¶ *The Kingdom of God cometh not with observation*, Ni ddaw teyrnas Dduw wrth ddisgwyl, *Luc* xvii. 20.

Observations, [notes *or* remarks.] *See* Annotations.

Observátor, *s.* Daliwr (daliedyd) sylw, nodiedydd; synniedydd, cyfarchwylydd, cyfarchwyliwr; gwyliwr, gwyliedydd; selwr, selydd, seliad, seliedydd; ¶ ystyriwr, ystyrydd.

Obsérvatory, *s.* [a place built for observing the heavenly bodies] Tremynfa, Tremyn-dwr, cyfarchwylfa; disgwylfa.

To observe, *v. n.* [take notice: remark] Dal (cymmeryd, gwneuthur) sulw *neu* sylw (ar;) nodi; synnied (ar,) synniaw (ar;) cyfarchwyllo, gwilied, *&c.*

To observe, *or* heed, Dal ar, *Gen.* xxxvii. 11. *See* to Heed, to mind, *&c.*

To observe, *v. a.* [respect *or* regard] Parchu, perchi, *Marc* vi. 20.

To observe, *or* descry. *See* to Descry, *and* to Espy.

¶ *To observe* [keep] *commandments, &c.* Cadw gorchymmynion (geiriau un, *&c.*) *Ecs.* xxxiv. 11. gwneuthur gorchymmynion, *Num.* xv. 22. *To observe statutes*, Cadw deddfau, 2 *Cron.* vii. 17. *To observe a law*, Cadw cyfraith, 1 *Mac.* ii. 67.

¶ *They that observe lying vanities*, Y neb a gadwant oferedd celwydd, *Jonah* ii. 8. To ob-

Digitized by Google

serve ordinances, Canlyn ordeiniadau, 2 *Esdr.* ix. 32.

¶ To observe, *or* keep [time, a fast, a festival, &c.] Cadw, *Jer.* viii. 7. ac *Ecs.* xii. 42.

¶ *To observe times*, [omens] Arferu coel ar frudiau, *Lef.* xix. 26.

¶ *To observe to do a thing*, [commanded] Edrych am wneuthur peth, *Deut.* viii. 1. gwilied (gwilio) am wneuthur, *Deut.* xii. 1.

¶ *To observe* [follow] *fashions*, Dilyn arferion, 2 *Mac.* vi. 8.

Observed, *part.* Y daliwyd sulw arno, &c.—a gadwyd.

Obsérver, *s.* Daliwr sulw, &c. edrychwr, edrychydd, disgwyliwr, disgwylydd; ¶ yspïwr, yspiennwr, yspienddyn. ¶ *An observer of laws*, Cad'wr (cadwedydd) cyfreithiau. *An observer of fashions*, Dilynwr (dilynydd, dilyniedydd) arferion.

Observingly, *ad.* [with heed, care, *or* attention] Dan ddal sulw (manol sulw;) dan edrych yn fanwl (yn ofalus;) dan ystyried yn ddyfal.

Obsession. *See* a Beleaguering, *and* a Besieging.

Obsoléte, *a.* [not in, *or* grown out *of*, use] Anghynnefodig, wedi myned (a aeth) allan o arfer, &c. ¶ *An obsolete word*, Hên air.

To grow obsolete, Myned allan o arfer (yn anghynnefin,) henu, heneiddio.

Obsoléteness. *See* Antiquatedness.

Obstacle, *s.* Rhwystr, &c.

Obstétric, *a.* [of, *or* belonging to, a midwife] Perthynol (a berthyn, yn perthyn) i fydwraig *neu* golwyn-wraig; eiddo bydwraig (colwynwraig.) ¶ *The obstetric art*, Celfyddyd colwyno.

Obstinacy, *s.* Cyndynrwydd, cildynrwydd, pengaledwch, pengaledrwydd, anhydynrwydd, ystyfnigrwydd, gwrthnysigrwydd, mileindra, tynder bryd, tynder; anhyblygedd.

Obstinate, *a.* [stiff, stubborn, wilful, self-willed, inflexibly resolute] Tynn ei fryd, tynn, cildyn, cildynnus, cyndyn, cyndynniog, milain, anhydyn, gwrthnysig, ystyfnig; syth, gwarsyth, gwegilsyth: caled, *Esay* lxviii. 4. pengaled, gwargaled; derr; anhyblyg.

Obstinate in opinion, Tynn ei farn.

To be [rather *to grow*] *obstinate*, Mileinio.

To make obstinate, ¶ Cadarnhâu, *Deut.* ii. 30.

Obstinately, *ad.* Yn dynn, yn gildynn, yn gyndyn.

Obstinateness. *See* Obstinacy.

Obstréperous, *a.* [noisy in opposition from turbulence *or* obstinacy of temper] Gwrthnadus, gwrthnadog, gwrthnadgar, gwrthodyrddus, gwrthlefog, gwrthlefgar, gwrthfloeddog, gwrthfloeddgar; drygnadus, blin ei nâd (ei wrthnad;) dadyrddus.

To obstrúct, *or* hinder. *See* to Hinder.

To obstruct, or *stop up*, Cau i fynu, argau, gwrthgau, gwarchau; ¶ tagu.

Obstrúction, *s.* Attal, rhwystr, &c.

Obstruction, *s.* [stoppage] Attal, rhwystr; argae, gwrthgae, gwarchae; tagfa, attalfa.

Obstrúctive, *a.* [of a nature *or* quality to stop up] Arganedigol, gwrthgauedigol, tagedigol; rhwystredigol; a bair rhwystr (dagfa *neu* attalfa.)

To obtáin, *v. a.* [acquire, get possession of] Cael, caffael, cyrraedd, cyrrhaeddyd, goddiweddyd, gorddiwes, cael gafael ar, cael i'w feddiant, ynnill, dyfod o hyd i.

To obtain, [prevail, *or* succeed.] *See* to take Effect, *under* E.

To obtain, *or* effect. *See* to Effect.

To obtain [as *a custom*, *an opinion*, &c.] *See* to Gain ground; *and* to Grow in fashion *or* use, *under* G.

Obtáinable, *a.* [that may be obtained] Hygael, a aller (ellir) ei gael *neu* gyrraedd.

Obtáined. *See* Acquired.

Obtáiner, *s.* Caffaeliwr, caffaelydd, cyrrhaeddwr, &c.

An obtáining, *s.* Caffaeliad, cyrrhaeddiad.

To obtést. *See* to Beseech, to Conjure (in its 2*nd* Acceptation) *and* to Entreat.

Obtestátion. *See* Obsecration, &c.

Obtrectátion. *See* a Backbiting, *and* Detraction.

To obtrúde, *v. a.* [force, *or* thrust] on *or* upon, Gwthio (cymmell, dirio, gwasgu) peth ar un, gosod (bwrw, gyrru) peth o drais *neu* ledrais ar un, peri i un dderbyn peth na (er na) bôdd nag anfodd ganddo; ¶ peri i un lyngcu peth o wîr drais *neu* daerni (bid da bid drwg ganddo.)

¶ To obtrude, *or* intrude. *See* to Intrude.

Obtrúded, *part.* Gwthiedig (a wthiwyd, wedi ei wthio) ar.

Obtrúder, *s.* Gwthiwr (gwthiedydd) peth ar arall, a wthio beth ar arall, &c.

Obtrúsion, *or* an obtrúding, *s.* Gwthiad (cymmelliad, diriad) peth ar arall: ymwthiad i le *neu* gymdeithas.

Obtrúsive, *a.* [apt to force one's self, *or* something else, upon another] Parod *neu* chwannog i ymwthio ar arall (i ryw le *neu* gymdeithas;) parod *neu* chwannog i wthio peth (barn, daliad, &c.) ¶ ar arall; ¶ ymwthgar.

To obtúnd. *See* to Blunt; *and* to Dull.

Obturátion, *s.* [a stopping up with wax, &c. smeared over] Arganad (gwarchauad) â chŵyr *neu* 'r cyffelyb.

Obtusángular, *a.* [having obtuse angles] Pŵlonglog, a'r y mae iddo ongl (iddynt ôngl *neu* onglau) mwy nâ chyfartal.

Obtúse, *a.* Pŵl (*fem.* pol, &c.)

¶ Obtuse, *a.* [applied to an *Angle*] Pŵl, mwy nâ chyfartal.

Obtuse-angled. *See* Obtusangular.

Obtúsely, *ad.* Yn bŵl, &c.

Obtuseness, *s.* Pyledd, pylni.

Obtusion, *s.* Pyliad: pyledd, pylni.

¶ Obvéntions, *s.* [church-revenues] Cyllid eglwysig, ardreth eglwys.

To obvert, *v. a.* [turn] towards, Troi tu ag at.

To obviate, *v. a.* [prevent: meet in the way; go to meet; set aside] Rhagflaenu; cyfarfod â pheth ar y ffordd; myned i gyfarfod â pheth (yn erbyn peth;) troi (bwrw) heibio. *To obviate objections*, Rhagflaenu (rhag-atteb, rhag-ddiddymmu, rhag-ddirymmu) gwrthresymmau. ¶ *To obviate difficulties*, Rhagddymchwelyd (rhagflaenu) anhawsderau, rhagsymmud anhawsderau o'r ffordd. *To obviate dangers*, Rhagochelyd (rhagflaenu) peryglon, cael y blaen ar beryglon.

Obviated, *part.* Rhagflaenedig, a ragflaenwyd, wedi ei ragflaenu.

An obviating, *s.* Rhagflaeniad.

Obvious, *a.* [meeting, that meets, *or* offers it-

self to, one in the way; lying before one *or* before one's eyes; easy to find; plain, *or* easy to be seen, &c.] Yn cyfarfod (a gyfarfyddo) ag un ar y ffordd, yn ymgynnyg (a ymgynnygo) i un ar y ffordd; yn gorwedd ger bron *neu* o flaen llygaid un; hygael, hawdd ei gael, hawdd cwrdd ag ef; hywel, hawdd ei (i'w) weled, eglur, amlwg, &c. —*This is obvious to all the world*, Mae hyn yn eglur i bawb. *This is obvious to all the Christian World*, Hyspys (eglur, amlwg) yw hyn i holl Grêd; *neu*, ¶ Da y gŵyr holl Grêd hyn. ¶ *His meaning is obvious* [easy to understand] Hawdd yw dyall ei feddwl; *neu*, Mae ei feddwl yn hawdd i'w ddyall.

¶ Obvious, *or* obnoxious, to. *See* Liable to.

Obviously, *ad.* Yn eglur, yn amlwg, &c.

Obviousness, *s.* Amlygedd, amlygrwydd.

To obúmbrate, *v. a.* [overshadow, &c.] Cysgodi, bwrw cysgod dros; ¶ cymmylu.

Occá-ion, *s.* [opportunity, *or* season; room] Achlysur, odfa, lle; ¶ amser. *Give none occasion to curse thee*, Na ddod le i ddyn i'th felldithio di, *Ecclus.* iv. 5. *Refrain not to speak when there is occasion to do good*, Na attal air yn amser iechydwriaeth (*pan fyddo lle i wneuthur daioni*, ar ymyl y ddalen) *Ecclus.* iv. 23.

Occasion, *s.* [a handle] Achlysur, *Doeth.* xiv. 23. ¶ *That he may seek occasion against us*, I fwrw hyn arnom ni, *Gen.* xliii. 18.

Occasion, *s.* [cause, &c.] Achos, &c.

Occasion, *or* need. *See* Need [occasion, &c.] *and* Exigence.

A sudden [unforeseen, &c.] occasion. *See* Emergence.

By occasion [reason] that. *See* By reason [because] that, *under* By.

Observe these phrases. ¶ *In her occasion*, Wrth ei hachlysur, *Jer.* ii. 24. *To seek occasion to cavil*, Ceisio canllaw i wrthddadleu. *An occasion to fall* [of offence *or* stumbling] Rhwystr, *Rhuf.* xiv. 13. a 1 *Jo.* ii. 10. *And give occasion of speech against her*, A gosod yn ei herbyn anair, *Deut.* xxii. 14. *Which thou shalt have occasion to bestow*, Yr hyn a ddigwyddo it' ei roddi, *Ezra* vii. 20.

To occasion, *v. a.* Peri, &c. bod yn achos *neu'n* achlysur. *I have occasioned*, Bûm achos (achlysur,) 1 *Sam.* xxii. 22.

To give occasion, Peri, 2 *Sam.* xii. 14. rhoi lle.

Occásional, *a*, Achlysurol, achosawl; digwyddol, digwyddiadol, damweiniol, a ddêl o ddamwain.

Occásionally, *ad.* Yn achlysurol, &c. ¶ yn awr ac eilwaith (ac yn y man) ar ddamwain; fel y digwyddo; yn ol yr (fel y bo'r) achos; yn ôl (fel) y bo'r achos yn gofyn.

Occásions, *s.* [affairs, *or* concerns] Negesau, gorchwylion.

O'ccident, *s.* [the West] Gorllewin, y gorllewin.

Occidéntal, *a.* [western] Gorllewinol. ¶ *The occidental parts*, Parthau'r gorllewin.

Occúlt. *See* Hid, *or* hidden.

Occultátion. *See* a Hiding; *and* a Hiding one's self.

O'ccupancy, *s.* [the act of taking possession: *also* possession *or* the being in possession] Goresgyniad, goresgyn, cymmeriad goresgyn ar dir, cymmeriad meddiant, cymmeriad gafael ar dir *neu'r* cyffelyb: meddiant, mwyniant, daliad (cynnaliad) meddiant mewn lle.

O'ccupant, *s.* [one that takes possession] Goresgynnwr (goresgynnydd) tir *neu'r* cyffelyb, cymmerydd meddiant, &c.—meddiannydd, daliedydd (cynheilydd) meddiant mewn lle, ¶ deiliad.

Occupátion, [of land, &c.] *See* Occupancy, *and* Entry upon [in *Law*, &c.]

Occupation, [trade *or* calling.] *See* Employment, &c.

A person of occupation, Gŵr o (wrth) alwad, &c. —*A person of no occupation*, Dyn di-alwad (di-swydd, di neges, &c.)

¶ *An occupative field*, [a field *or* land abandoned by its original proprietor, and of which possession is taken by another, suppose *the Lord of the manor*, &c.] Maes a gymmero arall (megis *Arglwydd y faenor*, &c.) i w feddiant, yn ol i'w iawn berchen ymwrthod ag ef; maes (tir, tyddyn) a gadwer o drais.

O'ccupied, [engaged in work *or* business, &c.] Ar waith, &c. ¶ *It is a good thing that the heart be established with grace, not with meats, which have not profited them that have been occupied therein*, Da yw bod y galon wedi ei chrysfhâu â gras, nid â bwydydd, yn y rhai ni chafodd y sawl a rodiasant ynddynt, fudd, *Heb.* xiii. 9

Occupied, [used, *or* made use of] A arferwyd (wedi ei arfer) mewn gwaith. ¶ *New ropes that never were occupied*, Rhaffau newyddion y rhai ni wnaethpwyd gwaith â hwynt, *Barn.* xvi. 11. *All the gold that was occupied for the work*, Yr holl aur a weithiwyd yn y gwaith, *Ecs.* xxxviii. 24.

O'ccupier of lands, &c. Deiliad tir *neu'r* cyffelyb, a gymmero (a gaffo) fwyniant peth, mwynhäwr, mwynhedydd.

Occupier of business, [of a trade, &c.] Gwnenthurwr gorchwyl; dilynwr (dilynydd, perchen) crefft: marchnadwr, *Ezec.* xxvii. 27. masnachwr, marsiandwr, negeseuwr.

To ôccupy space, &c. [take up, fill *or* fill up] Cyflawni, 1 *Cor.* xiv. 16. llenwi, cyflenwi, meddu, meddiannu.

To occupy land, [have, hold, *or* keep, in hand] Dal tir (lle, tyddyn,) dal tir yn llaw (yn ei law,) bod â thir yn llaw (yn ei law *neu* afael;) byw (preswylio, trigo) mewn lle; byw ar dyddyn: diwyllio (amaethu, trin) tir: meddu, perchennogi, meddiannu.

To occupy, *or* employ. *See* to Employ (in its several Acceptations.) to Busy one, &c.

To occupy one's self in a business. *See* to Busy one's self in an affair; to Engage, *or* engage one's self, in a matter; *and* to Exercise one's self in.

To occupy [practise, &c] *any business.* *See* to Exercise [practise, &c.] to Exercise an office, to Follow a trade, &c.

To occupy merchandise, ¶ Marsiandio, 2 *Esdr.* xvi. 42. marchnatta marchnad, *Ezec.* xxvii. 9.

To occupy one's money in trade, Gosod allan ei arian ar fasnach (mewn masnach.)

¶ To occupy, [molest] Blino, 2 *Mac.* x. 15. ¶ *To occupy one's self about the Sabbath*, Cadw'r Sabbath, 2 *Mac.* viii. 27.

Digitized by Google

¶ To occupy, *v. n.* [trade, *or* traffic] Marchnatta, *Ezec.* xxvii. 16, 19, &c.

To be occupied in or *about*, Ymgynnefino â, *Eccles.* xii. 3. arfer (bod yn arfer) peth, *Eccles.* xxxviii. 25. myfyrio yn, *Eccles.* xxxix. 1. treulio ei amser yn, *Eccles.* xxxix. 1. ¶ rhodio yn, *Heb.* xiii. 9.

To occúr to one, [offer *or* present itself to the memory] Dyfod i gôf un.

To occur, *v. n.* [to be seen, found, *or* met with] Bod i'w weled (i'w gael.)

To occur, *v. n.* [come in one's way: happen] Dyfod yn ffordd un; cyfarfod (dyfod i gyfarfod) ag un; ymgynnyg i un: digwydd.

Occúrrence, *s.* [a thing that happens *or* one meets with] Peth a ddigwydd (a ddaw yn ffordd un,) digwydd-beth; digwydd, digwyddiad, ¶ darn o newydd. ¶ *The occurrences of the year*, Pethau a ddigwyddasant yn chwyl y flwyddyn.

Occúrrent, *s.* [event] Damwain, digwydd, digwyddiad, ymgyfarfod, 2 *Bren* v. 4.

Occúrsion, *s.* [a meeting together; *or* running upon one another] Ymgyfarfod; ymgyfredeg, ymgyfrediad.

O'cean, the ocean. *See* the Deep, *and* the Main sea.

O'chre, *or* óker, *s.* [a sort of fossil, *or* earthy substance, so called] Math ar fwyn o'r enw, ocr; mwyn haiarnaidd, llwch melynliw a arferir gan baentwyr, &c.

Octágon, *s.* in Geometry [an eight-angled figure] Wyth-ongl, dull wyth-onglog.

Octángular, *or* octágonal, *a.* [having eight angles] Wyth onglog, ag (a'r y mae) wyth ongl iddo.

Octave of a holiday [the eighth day, *or* week's end, after a solemn festival] Gŵyl pen yr wythnos, yr wythfed dydd o'r ŵyl: ¶ wythnos ŵyl.

Octáve, in Music [an eighth, *or* an interval consisting of eight degrees of sounds) Wythfed tôn, wythfed grâdd tôn, wyth-radd tôn; wyth-radd.

Octávo, *a.* [applied to a *book*, when the sheets of paper therein are folded into eight leaves each, such a book being said to be an *octavo-book*, *or* a book *in octavo*] Wyth-blyg, wythplyg. *A thick octavo book*, Llyfr wythplyg tew. ¶ *An octavo*, Llyfr wythblyg.

Octénnial, *a.* [that happens every eighth year: that lasts for eight years] Wyth-mlyneddol, a ddaw (a ddêl, a ddigwydd, ¶ a newidir) bob wyth mlynedd: a bery (a barhâo) wyth mlynedd, a erys dros wyth mlynedd.

Octóber, *s.* [the month so called] Hydref, mîs hydref, hyddfref, hyddfre, ¶ hydrew.

O'ctuple, *a.* [eight fold] Wythblyg.

O'cular, *a.* [that belongs to, *or* falls under the observation of, the eye, &c.] Golygawl, eiddo'r golwg, a berthyn i'r golwg (i'r olwg,) a ddêl (a ddigwydd) dan wybyddlaeth y golwg *neu* 'r llygaid, a welir â'r llygaid. *Ocular demonstration*, Arddangosiad golygawl. ¶ *Will you not be convinced by ocular demonstration?* Oni chredwch chwi eich llygaid eich hun?

O'culist, *s.* [a physician of the eyes] Meddyg llygaid.

O'culus Christi, [In Botany.] *See* wild Clary, *under* C.

Odd, *a.* [applied to *number*, uneven, not even] Amnifer, anghynnifer.

To play at even and odd. *See under* Even.

Odd, *a.* [that hath not a fellow to it, such as *a single glove, shoe, &c.*] Anghymmar, anghydmar, anghytbar, heb gymmar, a'r nid oes cymmar iddo *neu* iddi; digymmar, digydmar. *An odd glove*, Maneg anghymmar.

Odd, *a.* [singular, that affects singularity, whimsical] Heb ei fath (ei gyffelyb,) heb ail iddo, anhyfath, a fynn ei ffordd (ei feddwl) ei hun ym mhob peth; anwadal.

Odd, *a.* [uncommon; strange] Anghyffredin, angnawd, anghynnefin, annefodol, anarferol; rhyfedd, anrhyfedd, aruthr, dieithr; od.

¶ Odd, *a.* [not minded *or* worth minding, of little or no value] Dibris, &c. a'r ni ofelir (ni thâl meddwl) am dano *neu* am danynt. *He left behind him a few odd things*, Efe a adawodd ar ei ol ryw ychydig bethau dibris a dïelwig (¶ ryw ddau neu dri o sâl bethau *neu* o bethach.)

¶ Odd, *a.* [more, above; something more; something exceeding a round number *or* the number mentioned] Anghwaneg, ychwaneg, 'chwaneg; 'chwanegol; ychydig (peth, rhywbeth) yn ychwaneg *neu* dros ben. *The money wherewith the odd number of them is to be redeemed*, Yr arian, gwerth y rhai sydd yn ychwaneg o honynt, *Num.* iii. 48. *There is some odd money*, Y mae peth arian dros ben. *Here are ten pounds and some odd shillings*, Y mae yma ddeg punt a rhai sylltau yn ychwaneg. *They spent twenty pounds odd money*, Hwy a dreuliasant ugain punt a thros ben (ac heîyd *neu* ac ychwaneg arian.) *He is fourscore and odd*, Mae e'n bedwar ugain (oed) a thros ben.

O'ddity. *See* Oddness.

¶ O'ddity, *s.* [an odd, uncommon, *or* strange thing] Peth heb ei fath [anhyfath, anghyffredin, &c.) —¶ *An oddity*, [an odd man, *or* an odd sort of man] Rhyw ddyn a chanddo ffordd iddo ei hun ar bob-peth, dyn o'i fath ei hun, dyn rhyfedd (heb ei fath.)

O'ddly, *ad.* [in a strange manner] Mewn modd anghyffredin (anarferol.)

O'ddness, or *unevenness, of number*. *See under* Number.

Oddness, *s.* [the quality of being uncommon] Anghyffredinrwydd, angnodrwydd, angnodedd, anghynnefinder, anarferolrwydd, odrwydd; anhyfathrwydd; dieithrwch, aruthredd; newyddrwydd. ¶ *I could not but smile* [not help smiling] *at the oddness of his proposal*, Ni allwn (ellais) i lai nâ chwerthin am ben ei gynnyg gorwyllt di-arflordd.

Odds, *s.* [the difference of, *or* between, things compared together] Gwahaniaeth, gwahan, amrywiaeth, rhagor, rhagoriaeth. *See what odds there is between them!* Gwelwch, gymmaint o wahaniaeth y sydd rhyngddynt! *neu*, ¶ Gwelwch, faint y mae'r naill yn rhagori ar y llall!

Odds, *s.* at Play, &c. [advantage] Y blaen; y gorau. *He hath the odds on his side*, Y mae y blaen (y gorau) ganddo ef; *neu*, Efe sydd â'r blaen; *neu*, Efe biau'r blaen *neu* 'r gorau. *You have the odds of him*, Chwi biau'r gorau arno ef; *neu*, Y mae y blaen (y gorau) gennych arno ef.

Digitized by Google

To lay odds with one, Dàla ag un fwy i lai (mwy i lai ag un,) *megis*, dau (tri, &c.) i un *neu*'r cyffelyb.

To play without any odds, [even hands] Chwarae lygad yn llygad (lygad a llygad, llygad am lygad, heb nac ynnill na cholli.)

To have the odds against one, Bod o'r (à'r) fantol yn ei erbyn.

Odds, *s.* [variance, &c.] Ymrafael, amrafael, ymryson, cynnen, anghydfod, &c.

To be at odds, Bod yn ymryson (yn ymrafaelio, mewn ymrafael *neu* ymryson.)

To set at odds, Peri i ddau *neu* ychwaneg ymrafaelio â'u gilydd, peri ymrafael (ymryson, &c.) rhwng, gyrru ben-ben.

¶ *'Tis odds but*,—Odid na.—'Tis [it is] *great odds*, Deg (cant, mil) i un.

¶ *To fight against odds*, Ymladd un yn erbyn dau *neu*'r cyffelyb. ¶ *Two to one is odds*, Gormodd dau yn erbyn un.

Ode, *s.* [a lyric sort of poem *or* song] Awdl, owdl, cywydd gan dant (i'w ganu gyd â thant,) cywydd; càn, caniad.

O'dious, *a.* Cas, 1 *Cron.* xix. 6. atgas, *Diar.* xxx. 23. a *Doeth.* xii. 4.

O'diously. *See* Abominably.

O'diousness. *See* Detestableness, *and* Hatefulness.

O'dium. *See* Hatred, *&c.*

Odoríferous, *a.* [that yields a sweet scent *or* smell, *&c.*] Arogl-ber, arogleu-ber, per-arogl, pêr ei arogl.

Odoríferousness. *See* Fragrance.

O'dorous, *a.* Arogleu-fawr.

O'dour, *s.* [scent, savour, *or* smell] Arogl, arogledd, arwynt, safr, sawr, safwyr, sawyr. ¶ *Odours* [incense] Arogl-darth, *Dadg.* v. 8.—*Sweet odours*, Pêr-aroglau, 2 *Cron.* xvi. 14. arogl-darth, *Dan.* ii. 46.

Oeconómic, *or* œconómical, *a.* [belonging to œconomy *or* household government] Perthynol (a berthyn, yn perthyn *neu*'n deiryd) i deuluwriaeth, teuluwriaethol.

Oeconómics, *s.* [books that treat of, *or* a treatise on, œconomy] Llyfrau (traethawd) teuluwriaethol.

¶ Oeconomics, [things *or* matters relative to œconomy] Pethau a berthyn (berthynant) i deuluwriaeth.

Oecónomist, *s.* [a manager of a house *or* family] Rheolwr (rheolydd, trinydd, triniedydd, llywodraethwr, llywodraethydd) tŷ; llywodraethwr (llywodraethydd) teulu; ¶ pen-teulu.

An œconomist, or *a good œconomist*, [a prudent and discreet manager of his affairs] A drino *neu* a drefno y pethau sydd ganddo yn hyfedr ac yn ddiafrad.

Oecónomy, *s.* [the government of a house *or* family] Rheolaeth (llywodraeth, trefnyddiaeth) tŷ; llywodraeth teulu, teuluwriaeth, teuluyddiaeth.

¶ Oeconomy, *or* good œconomy, [good husbandry, thriftiness, &c.] *See* Frugality; *and* Housewifery.

¶ Oeconomy, *or* management. *See* Management, &c.

Oecuménical, *a.* Cyffredinol, *&c.* llwyr-wysawl. ¶ *An œcumenical council*, Cymmanfa (llwyrwys) cymmyrcholwŷr Eglwys Cred; *neu*, Llwyrwysol gyngor (gymmanfa) Crêd *neu*'r Byd Crist'nogol.

Oédema, *s.* in Surgery [a white swelling so called] Meddal-chwydd gwŷnn a geidw siamp *neu* fanu ynddo (fel y gwna toes *neu*'r cyffelyb;) chwydd gwynn.

O'er. *See* Over.

Oesóphagus. *See* Gullet.

Of, *prep.* coming between Substantives, and denoting *possessions*, *relation to*, *&c.* being the sign of the *genitive case* with respect to the Latin language, has generally nothing in Welsh for it, the latter Substantive immediately following the former, as will be evident from the following examples; viz. *The work of God*, [God's work] Gwaith Duw. *The house of God*, Tŷ Duw; tŷ Dduw. *The house of David*, Tŷ Dafydd (Ddafydd;) tŷ Dewi (Ddewi.) *The house of the father of David* or *of David's father* [David's father's house] Tŷ tâd Dafydd. *The husband of this woman*, [this woman's husband] Gwr priod y wraig hon. *The men of England*, Gwŷr Lloegr. *The women of Wales*, Gwragedd Cymru. *A man of God*, Gŵr Duw, ¶ gŵr i Dduw. *The fear of God*, Ofn Duw. *The fear of the distemper had seized him*, Ofn yr (¶ rhag yr) haint a syrthiasai arno. ¶ *A man of England*, *&c.* Gŵr o Loegr, &c.—un o wyr Lloegr. *A woman of England*, *&c.* Gwraig o Loegr, &c.—un o wragedd Lloegr.

A horse of war, [a war-horse] Cad-farch, rhyfel-farch, march rhyfel.

Of, coming before the matter *or* materials whereof any thing is made, is rendered in Welsh either by immediately subjoining the substantive of the *matter* to the preceding, or else by the intersertion of the particle—*o*, as in the examples following; viz. *A house of wood* [a wooden house] Tŷ coed, tŷ o goed, ¶ tŷ coedawl. *Gates of brass* [brazen gates] Pyrth prês (o brês.) *A candle of wax* [a wax-candle] Canwyll gwyr (o gwyr.) *A flame of fire*, Fflam dân (o dân.) *A throne of gold* [a golden throne] Gorsedd aur (o aur,) ¶ gorsedd euraid. *A wall of stone* [a stone-wall] Gwàl faen (o faen,) ¶ gwàl feinin.

Of, after partitives (i. e. Adjectives implying a *part* and not the whole,) comparatives, *and* superlatives, is rendered in Welsh by—*o*, as will be seen in these examples; viz. *One of them must have done it*, Rhaid mai un o honynt hwy a'i gwnaeth. *There are not a few of them here*, Y mae yma lawer (nid ychydig) o honynt. *Many of these trees have I planted with my own hand*, Llawer o'r prennau hyn a blennais i à'm llaw fy hun, *The elder of you*, Yr hynaf o honoch. *The wisest of men*, Y doethaf o ddynion.

Of, when a *Pronoun demonstratire* goes before it, and a *possessive* follows, is completely rendered in Welsh in the translation of such *possessive*, as these instances will evince; viz. *This book of mine*, *of his*, *&c.* Fy llyfr (dy lyfr, ei lyfr, &c.) hwn. *These sayings of mine*, Fy ngeiriau hyn, *Mat.* vii. 24. *See* Mine.

Of, preceded by a Substantive *without a pronoun* joined to it, and followed by a *possessive*, may be considered as changed into—*to*, and placed before the *primitive* of the said *possessive*, which *primitive* pronoun, with the particle *to* prefixed, being literally translat-

Digitized by Google

ed into Welsh, will convey the spirit of the original expression; as any one that is conversant in the Language will find by the examples following: viz. *A friend of mine* [to me] *in his journey is come to me*, Cyfaill i mi a ddaeth attaf wrth ymdaith, *Luc* xi. 6. *A son of mine is come home*, Mab i mi (¶ un o'm meibion) a ddaeth adref.

Of, *or* by, [after a Verb passive, &c.] Gan. *He is praised of these*, Efe a glodforir (clodforir ef) gan y rhai'n. *Do that which is good, and thou shalt have praise of the same*, Gwna'r hyn sydd dda, a thi a gai glod ganddo, *Rhuf.* xiii. 3.

Of, *or* concerning, Am, ynghylch, &c.

Of, [after the Verb *to buy*] Gan. *Let us buy of somebody else*, Prynwn gan ryw un arall.

Of, *or* according to, Yn ôl, wrth. *Of right*, Yn ôl cyfawnder.

Of, [out of, *or* from] O, allan o; oddiwrth. *He is come of a good family*, Efe a ddaeth o dylwyth da. *Thou art descended of* [from] *kings*, O frenhinoedd y'th hanwyd. *Kings shall come of thee*, Brenhinoedd a ddeuant allan o honot. *All things come of* [from] *thee*, Oddi wrthyt ti y mae (y daw) pob peth. ¶ *He shall see of* [what proceeds from] *the travail of his soul*, O lafur ei enaid y gwêl, *Esay* liii. 11.

¶ Of, [in] Yn, mewn. *Skilful of* [in] *the law*, Cyfarwydd (hyddysg) yn y gyfraith.

N. B. Of, when a sort of inseparable attendant on particular *Nouns* and *Verbs*, will be found with *such*, in the course of the Dictionary. *See* Desirous of, to be Mindful of (*under* M.) &c. —¶ *Of the Rock that begat thee thou art unmindful*, Y Graig a'th genhedlodd a anghofiaist ti, *Deut.* xxxii. 18.

Of, [after *cheap*, *dear*, &c.] O. *It is cheap of* [too cheap by] *a penny*, Y mae gormodd o newid arno o geiniog; *neu*, ¶ Y mae ceiniog o newid arno. *It is dear of* [too dear by] *a penny*, Y mae'n rhy brid o geiniog.

Of, [after *sort*, *species*, *kind*, &c.] Ar, o, *A sort of beast*, Math ar anifail. *See* Kind, throughout.

Of, [from, *or* since] Er, o. *I knew him of a little one*, Mi a'i hadwaenwn ef er yn blentyn (o'i febyd, ¶ o'i grûd, o'i gawell)

Of, before words of *praise* and *dispraise*, is best rendered in Welsh by the translation of a correspondent Adjective. See the following examples; viz. *A man*, or *a person, of understanding*, [an understanding, *or* intelligent, person] Dyn (gwr) dëallus, ¶ perchen dyall. *Even a fool, when he holdeth his peace, is counted wise; and he that shutteth his lips, is esteemed a man of understanding*, Y ffôl, tra tawo, a gyfrifir yn ddoeth; a'r neb a gauo ei wefusau, yn ddëallus: *Diar.* xvii. 28. *Nor yet riches to men of understanding*, Na chyfoeth yn eiddo'r pwyllog, *Eccles.* ix. 11. *A woman of virtue*, [a virtuous woman] Gwraig dda (rinweddol, addwyn.) *Of worth. See* Worthy. *Of* [good, *or* a good] *character*, A gair da iddo, âi air da ganddo, *neu* âi air da gyd ag ef. *A person of a good character*, Gwr a gair da iddo. —¶ *A person of no* [good] *character*, Un heb air da iddo.

Of one's side, [party] O du (ran) un; ar du (ran) un.

Of a certainty, Yn hysbys, *Dan.* ii. 8. yn ddilys, yn sicr, yn ddïau, &c.

Of late. See under L.

Of late days. See under D.

Of old. See Anciently, *and* in Former times (*under* F.)

Of one's own accord, O hono ei hun, &c. *See under* A.

Of set purpose. See For the nonce (*under* F.) *and* Designedly.

Of, *or* out of, O. *Of his good pleasure*, O'i ewyllys da ef, *Phil.* ii. 13.

¶ Observe these phrases. *You have a good friend of him*, Y mae efe yn gyfaill (yn gâr) da i chwi; *neu* Y mae i chwi (y mae geunych) gar *neu* gyfaill da ynddo ef. *Ye shall have a kind father of me*, Chwi a'm cewch yn dâd tirion (hynaws.) *neu*, Byddaf (myfi a fyddaf) yn dâd tirion i chwi.

Off, *ad.* [hence, *or* from hence] Oddi-yma, oddi yma. *Nine miles off*, Naw milldir oddi yma.

Off, and on, [backwards and forwards; unsteady] Yn ôl ac ym mlaen, yn ôl a gwrthol: anwadal. *They are so off and on*, Y maent mor anwadal. *A person that is off and on*, Dyn anwadal.

Afar off, *and* Far off. *See under* A. *and* F.

Off, *or* from off, Oddi ar.

Off, *or* away, Ymaith; heibio.

Off, *interj. See* Away [be gone.]

¶ *Hands off*, or *off with your hands*, Ymaith a'ch dwylo.

¶ *Off with* [take off] *thy hat*, Tyna dy hêd (hett)

Off, *after* Verbs. *See the* Verbs.

¶ *Off, vulgo off, of, a place*, Gyferbyn â lle, ar gyfer (ynghyfer) lle.

To be off his bargain, Cilio (tynnu'n ôl) oddiwrth ei gyttundeb, torri (torri ar) ei gyttundeb *neu* fargen.

Off hand. *See* Forthwith.

Offal, *or* offals, *s.* [the waste, *or* off-fallen meat of any animal slaughtered for food, &c.] Syrth (*pl.* syrthion,) syrthfwyd, ymysgar; briwfwyd, briw-gig, briwion.

Off-casts, *s.* [things cast off, as of little or no value] Ysprêd; ysbwrial.

Offence, *or* fault. *See* Crime.

Offence, *or* injury. *See* Injury; *and* Affront.

Offence, *or* disgust. *See* Disgust, Displeasure, Distaste, *and* Disobligation.

Offence, *s.* [scandal] Rhwystr, *Esay* viii. 14. a *Mat.* xvi. 23. tramgwydd, 1 *Sam.* xxv. 31. a *Rhuf.* xiv. 20. *Chastise thy son and hold him to labour, lest his lewd behaviour be an offence unto thee*, Addysga dy fab, a chymmer boen gyd ag ef (dâl ef mewn gwaith,) fel na byddo ei anweddeidd-dra ef yn dramgwydd i ti, *Ecclus.* xxx. 13.

To give offence. See under G.—*See also* to Disoblige.

To take offence [at.] *See* to be Disgusted, &c.

¶ *To make* [commit] *a double offence*, Pechu y dau cymmaint, *Ecclus.* xxiii. 11.

Offenceless, *or* without [void of] offence, Difai, *Ecclus.* xix. 8. dibechod, dibech: didramgwydd, *Phil.* i. 10. dirwystr, *Act.* xxiv. 16.

To offend, *v. n.* [commit a crime *or* fault, transgress a law, &c.] Gwneuthur bai (ar fai,) pechu, troseddu, &c. gwneuthur ar gam,

Digitized by Google

camwneuthur, camweddu, camweithredu, ¶ llithro, *Iago* iii. 2. pallu, *Iago* ii. 10. tramgwyddo.

To offend, *v. a. or* injure. *See* to Injure (in its former Acceptation, &c.)

To offend against, Pechu (troseddu) yn erbyn, gwneuthur peth yn erbyn, 2 *Esdr.* xii. 41. ¶ gwneuthur cam à. *Salm* lxxiii. 15.

To offend, *or* give offence to. *See* to Disoblige, to Displease, to Disgust *or* give disgust to, *and* to Give offence to (*under* G.)

To offend, *v. n.* [scandalize, cause to stumble, *or* be a hinderance to] Peri tramgwyddo, rhwystro, *Mat.* xviii. 6. a *Mat.* v. 25. ¶ *Nothing shall offend them*, Nid oes tramgwydd iddynt, *Salm* cxix. 165. *All things that offend*, Yr holl dramgwyddiadau, *Mat.* xiii. 52.

To offend the law, Troseddu'r (torri'r) gyfraith ¶ *He upbraideth us with our offending the law*, Y mae efe—yn edliw (i mi) y pechodau sydd yn erbyn y gyfraith, *Doeth.* ii. 12.

Offénded. *See* Injured, Disobliged, Displeased, Distasted; Angred, *and* Affronted.

To be offended, [at *or* with] Digio, bod wedi digio, bod yn ddig *neu* 'n anfoddlon, &c. tramgwyddo, ¶ Ymrwystro, *Mat.* xv. 12. *I am greatly offended at their life*, Yr ydwyf yn anfoddlon iawn i'w buchedd, *Ecclus.* xxv. 2. *The hypocrite will be offended thereat* [i. e. at the law] Y rhagrithiwr a dramgwydda wrthi hi, *Ecclus.* xxxii. 15.

Easy to be offended, Hygawdd.

Offender. *See* a Criminal (an offender, &c.) *and* Delinquent.

Offénding, *part.* Yn troseddu, gan (dan) droseddu; yn pechu, &c.

Offénsive, *a.* [displeasing, disgustful, &c. to the mind, *or* to the senses] Blin (anhyfryd, gormesol, gormeilus, dygn, a bair anesmwythder) i'r meddwl, *neu ynte* i un o'r pump synwyr; câs, atgas; ffiaidd, ffieiddgas.

Offensive [in words.] *See* Injurious [abusive] *and* Obscene [impure, &c.]

¶ Offensive, *a.* [interrupting] Rhwystrus, *Canon Eglwys.* 133.

Offénsive, *a.* [applied to *war* and *arms*, and opposed to *defensive*] Gosodawl, ymosodawl, rhuthrawl, rhysgyrawl. *An offensive war*, Rhyfel ymosodawl, ¶ cyrch ryfel. *Offensive weapons*, Arfau ymosodawl, ¶ arfau taraw (gosod, ymosod,) cyrch-arfau. ¶ *Arms offensive and defensive*, Arfau er taraw (er ymosod) ac er ymddiffyn.

Offensive to the stomach, Gwrthwynebus (gwrthwyneblyd) i'r cylla.

Offénsively, *ad.* Yn flin, yn anhyfryd. &c.—yn gâs, yn atgas, yn ffiaidd, &c.—yn rhwystrus: yn ymosodawl.

To act offensively, [in war] Ymosod ar (yn erbyn) y gelyn, bod ar du'r taraw *neu* 'r ymosod.

Offénsiveness. *See* Noisomeness; Noxiousness: Nauseousness; Odiousness, *&c.*

Offer, *s.* [a proposal, proffer, tender, *&c.*] Cynnyg. cynnygiad.

An offer, *or* attempt, *s.* Cais, cynnyg, *&c.*

To offer, *v. a.* [profier, tender, bid for wares] Cynnyg.

To offer, *v. a.* [propose] Gosod ger bron: dangos. ¶ *To offer to consideration*, Cynnyg peth (gosod peth ger bron) i'w ystyried.

To offer, [present] Cyflwyno: cyssegru.

To offer *or* attempt, *v. a.* Cynnyg, gwneuthur cynnyg (prawf, gosod,) &c.

To offer violence to one, Dwyn trais ar (cynnyg gormeil i) un, cynnyg trais (gormes, gortrech i un, amcanu treisio un. *See*

To offer abuse to one, Cynnyg cam i un. ¶ *He offered to abuse* [He with] *her*, Efe a fynnai orwedd gyd â hi: *neu*, Efe a amcanodd ei threisio.

To offer [make an offer, *or* be offering] *at a thing*, Cynnyg (profi, amcanu) gwneuthur peth, rhoi cais (gwneuthur cynnyg) ar wneuthur peth. ¶ *He would be offering at the shepherd's voice*, Efe a fynnai (a amcanai) ddynwared llais y bugail.

To offer [expose] *to public view*. *See* to Expose to [public] view.

¶ To offer, *or* dare, *v. a.* Beiddio, &c. osio.

Don't offer to do it. Na chytgam (chydcam) â'i wneuthur; *neu*, ¶ Na chynnyg ef.

To offer itself, [to the memory.] *See* to Occur to one.

To offer one's self, Ymgynnyg, cynnyg ei hun; dyfod o hono ei hun i ymddangos ger bron, ymgynnyrcholi, cyfarfod â *neu* ag i roi ei hun (i ymroddi; ymroddi, ymroi.)

To offer sacrifice, offer in sacrifice, ¶ *offer up*, or *offer*, Offrymmu, aberthu.

To offer up prayers, Cyflwyno (offrymmu) gweddiau.

To offer battle, Ymgynnyg i ymladd, herrio (annog) i ymladd *neu* i'r frwydr.

Offered, *a. part.* Cynnygedig, a gynnygwyd, wedi ei gynnyg: offrymmedig.

O'fferer, *s.* Cynnygwr, cynnygydd; cyflwynwr, cyflwynydd; offrymmydd.

An offerer of sacrifice, Aberthawr, aberthwr, aberthydd, offrymmwr, offrymmydd, *Mal.* ii. 12. offrymmiedydd.

O'ffering, *part.* Yn cynnyg, gan (dan) gynnyg; yn cyflwyno.

Offering, *s.* [the act of offering] Cynnygiad; cyflwyniad; offrymmiad, aberthiad; offrymmiadaeth.

An offering, *or* oblation, *s.* Offrwm, aberth; cyflwyn.

A burnt-offering, heave-offering, &c. *See under* B. H. &c.

A peace-offering, Hedd-offrwm, hedd-aberth.

A sin-offering, Pech-aberth, pech-offrwm.

A whole burnt-offering. *See* Holocaust.

O'ffertory, [that part of the Communion-office where the offering is, *or* the act of offering: the thing offered: the place, in a Church, where alms are offered: and those offerings kept] Offrymmiad, yr offrymmiad, yr offrymfa: offrwm, yr offrwm, offrymmiad (*pl.* offrymmiadau,) offrymgell, yr offrymgell, cell yr offrymmau *neu* 'r offrymmiadau, yr offrymfa, ¶ elusenfa. *Then shall the Priest—begin the Offertory*, Yna—yr Offeiriad—a ddechreu'r Offrymmiad. *The money given at the offertory, &c.* Yr arian a roddwyd ar yr offrymmiadau, *&c.*

O'ffice, *s.* [any employment, public charge, &c.] Swydd, swyddogaeth; gwasanaeth, &c.

Office, *or* duty, *s.* Dyledswydd.

¶ Office, *s.* [the room, *or* place, appropriated to any business] Swyddfa, swydd-dŷ; gorchwylfa, gorchwyldŷ.

Digitized by Google

¶ *Office, a good office*, s. Cymmwynas, cêd, twrn da.
A high office, s. Uchel-swydd.
A joint-office, s. Cŷd-swydd.
Office, s. [a particular *service* in divine worship] Gwasanaeth. *The Communion office*, Gwasanaeth y Cymmun. ¶ *Divine offices*, Duwiol-ffurfiau, amry-ffurf wasanaeth Duw.
Priest's office, s. Offeiriadaeth, swydd offeiriad.
A sordid [sorry, mean] *office*, Gwael-swydd, budr-swydd, swydd wael (dlawd; fudr, front.)
One's office or *part*, Rhan un, *sef* yr hyn a fo rhan i un ei wneuthur. *Do you your office*, Gwnewch chwi eich rhan. ¶ *Their office was to distribute unto their brethren*, Arnynt hwy yr oedd rhannu i'w brodyr, *Neh.* xiii. 13.
To discharge one from [deprive one of] *his office*, Diswyddo un, troi un allan o'i swydd, ¶ *One discharged from his office*, [Jack out of office] Un coll-swydd (swydd-goll, a gollodd ei swydd.)
To sue for an office, Swydd-ymgais, ymerlyn am swydd.
A suitor [one that standeth] *for an office*. *See* Candidate.
A house of office, Geudy. *See* Boghouse.
Officer, s. Swyddog, swyddwr.
An officer in the army, Câd-swyddog.
An officer of excise. *See* Exciseman.
An officer's wand, Swydd-wial.
A great [high] *officer*, Uchel-swyddog, un uchel-swydd.
A chief [head] *officer*, Pen-swyddog
Officered, [applied to an *army*, having *or* that hath officers] Swyddogedig, tan (ag iddo, iddi, *neu*, iddynt) swyddogion. ¶ *An army completely officered*, Byddin gyfr-swyddogedig. *A well-officered*, army, Byddin ag iddi swyddogion cymmwys (gwiw, teledîw.)
Petitory, *or* petitionary, *a.* [of a petitioning nature *or* quality] Gofynedigol; ar wedd gofuned *neu* arch, iolig, gofynnawl, perthynol (yn perthyn) i ofuned, &c.
Petrescent, *a.* [growing *or* turning into stone] Yn troi (myned, caledu) yn garreg.
Petrific, *or* petrifactive, *a.* [of a petrifying quality] Carregedigol, o rin (rinwedd) i dwoi peth yn garreg.

Digitized by Google

Petrifaction, *s.* [a turning into stone] Tröad (mynediad) yn garreg, carregiad; ymgarregiad.

To pétrify, *v. a.* [turn into stone] Troi (peth) yn garreg.

To pétrify, *v. n.* [grow into stone, *or* be petrified] Myned (troi) yn garreg, carregu, ymgarregu.

Pétrified, *part.* Wedi troi (a dröddyn garreg, carregedig.

Pétrifying. *See* Petrification.

Pétronel, *s.* [a horseman's gun] Gwnn marchog.

Pétticoat, *s.* Pais [bûn;) tinbais; crysbais.

Péttifogger, *s.* [a piddling attorney, a troubletown] Coeg-gyfreithiwr a yrr y gymmydogaeth ben-ben, ceccryn y cyrtau, coegyn o gyfreithiwr (crach-gyfreithiwr) cynnhengar, ¶ cynffon y gyfraith.

Pettifogging, [the practice of a pettifogger.] *See* Chicane.

A pettifogging attorney. *See* Pettifogger.

Péttish, *&c.* *See* Fretful, Peevish, *&c.*

Péttitoes, *s.* [the feet of sucking pigs] Traed perchyll.

¶ ***In petto,*** [in one's breast, in private] Ym mynwes, yn ei fynwes; yn geledig, yn ddirgel, yn ddirgel yn ei fynwes ei hun, *&c.*

Pétty. *See* Petit; Inconsiderable, *and* Inferior.

Pétulance, *or* **pétulancy.** *See* Perverseness; Pertness: Wantonness; *and* Frolicksomeness.

Pétulant. *See* Perverse (in its 2nd Acceptation) Malapert: Wanton; *and* Frolick, *a.* [—; full of levity *or* wanton pranks.]

Pew, *s.* [in a church] Cadair eglwys, cadair; côr.

A réading-pew, *s.* Côr.

Péwit. *See* Lapwing.

Péwter, *s.* Ystaen, ffeutur, plwm gwynn; elydn, elydr.

Péwterer, *s.* [a dealer in pewter] Ystaenwr, ystaenydd; elydrwr; gweithiwr (gweithydd, gweithiedydd) mewn elydr; gwerthwr gwerthydd) elydr.

Phálanx, *s.* [the celebrated square battalion of infantry in the ancient Macedonian army so called consisting of 8 thousand men] Llu o wythmil o wŷr traed; ¶ y lleng wythmil, y lleng anhydor (anorfod.)

Phan. *See* Fan.

Phántasm. *See* Apparition, *and* Illusion, each in its former Acceptation.

Phántasy, *s.* [an image existing in the mind, &c.] Delw yn hanfod yn y meddwl; gweledigaeth ddychymmygol, drychiolaeth, eilun a ymddangoso yn y meddwl.

Phántom. *See* Phantasm.

Phárisee, *s.* Pharisëad; ¶ rhagrithiwr.

Pharisáical, *a.* [Pharisee-like] Pharisëaidd; ¶ rhagrithiol.

Phármacy, *s.* [the art of preparing medicines] Celfyddyd darparu meddyginiaethau.

Pháros. *See* Light-house.

Phásels, *s.* [kidney beans] Ffa ffrengig; pŷs hirion.

Pháses [the enlightened appearance] of the moon, *s.* Ymddangosiadau y lleuad.

Phasm. *See* Phantasm; *and* Appearance.

Pheasant, *s.* [cock] Ceiliog coed.

Pheasant, *s.* [hen] Iâr goed (wŷdd,) coed-iar.

Phœnix, *s.* [an imaginary bird so called, fabled by the ancient poets, &c. to live alone for a length of years, and then to burn itself in a nest of spices, out of whose ashes there ariseth a young one] Aderyn ni bydd ond un o'i rywogaeth; yr aderyn unig (digymmar, digyfaill.)

Phenómenon, *s.* [an appearance in the air, &c.] Ymddangosiad, drychiolaeth (gweledigaeth) yn yr wybr, arddangosiad.

Phéon, *s.* in Heraldry [the head of an arrow] Pen saeth.

Phial, *s.* [a small glass bottle so called] Costrelan, fi'olan, ffiol.

Philánthropy, *s.* [the love of mankind] Dyngarwch, cariad ar ddynion *neu* ar ddynolryw.

Philíppic, *s.* [an invective, so called from Demosthenes's sarcastic orations against Philip of Macedon] Dychan, *senn.*

Philóloger, *s.* [a lover of learning, of language, &c.] Carwr dysgeidiaeth; a garo ddysg, un llêngar; geirgar, ieithgar; ymadroddgar; carwr cywir iaith, a garo (a hoffo) gywiriaith.

Philológical, *a.* belonging to *Philology*] Perthynol (yn perthyn, a berthyn) i ieithgarwch *neu* i wybodaeth cywir-iaith; ¶ cywir-ieithyddol.

Philólogist, *s.* Cywir-ieithydd.

Philólogy, *s.* [the study, *or rather* an affection for the study of literary science] Llêngarwch, cariad (serch) ar lên *neu* ddysg; geirgarwch, ieithgarwch: ymadroddgarwch: cywir ieithyddiaeth; llythyr-ddysg, dysgeidiaeth llythyregawl.

Philomel, *s.* in Poetry [the nightingale] Eos, ëaws, yr ëos.

Philósopher, *s.* [i. e. a lover of wisdom, that makes the nature of things *or* moral duties his study] Carwr doethineb, athronddysgeddydd, *vulgo* philosophydd.

Philosóphic, *or* philosóphical, *a.* [belonging to a philosopher *or* to philosophy] Perthynol (a berthyn, yn perthyn) i athronddysg *neu yate* i athronddysgedydd, *vulgo* philosophyddawl, philosophyddaidd.

Philosóphically, *ad.* [like a philosopher, *or* according to the rules of philosophy] Yn philosophyddawl, fel philosophydd, yn ol rhëolau athronddysg *neu* philosophyddiaeth.

To philósophize, *v. a.* [argue *or* reason like a philosopher] Ymresymmu fel (¶ chwarae'r) philosophydd, chwedleua (rhesymmu) yn philosophyddaidd.

Philósophy, *s.* [the love and affectionate study of wisdom] Doethinebgarwch, doethinebgaredd.

Philosophy, *s.* [the system of learning so called. distinguished into *moral* and *natural*] Athronddysgeidiaeth, athronddysg, *vulgo* philosophyddiaeth, philosophi, *Col.* ii. 8.

Moral philosophy. *See* Ethics.

Natural philosophy. *See under* N.

Philter, *or* **philtre.** *See* a Love-charm, *under* L.

Phiz, *or* **phyz,** [a cant term for *Face.*] *See* Face.

Phlebótomist. *See* Blood-letter, *under* B.

To phlebótomize. *See* to Blood, *or* let blood.

Phlebótomy. *See* Blood-letting.

Digitized by Google

Phlegm, *s.* [the humour so called] Llysnafedd, *vulgo* ffflêm.

Phlégmatic, *a.* [abounding with phlegm] Llysnafeddog: yn orllawn o'r llysnafedd; ¶ oerllyd; musgrell.

Phlégmon, *s.* [a preternatural tumour *or* swelling, so called] Chwydd poeth-goch.

Phleme, *or* fleam, *s.* [to let horses' blood with] Ffliaim.

Phósphorus. *See* Lucifer.

Phrase, [a mode *or* form of speech, &c.] *See* Expression; Diction: *and* Idiom.

To phrase, *v. a.* Geirio.

Phráse-book, *s.* Llyfr ymadroddion, ymadrawdd-lyfr.

Phraseólogy. *See* Phrase-book; *and* Diction.

Phrénetic, *or* phréntic. *See* Frantic.

Phrénsy. *See* Frensy.

Phthísic. *See* shortness of Breath, *under* B.—*See also* Consumption [the disease so called.]

Phthísical, *a.* Clâf o'r diffyg anadl.

Phylácteries, *s.* [parchment scrolls on which were written passages of the Law of *Moses*, worn by the Jews on their foreheads, wrists, and the borders of their garments] Darnau o femrwn ag arnynt ymadroddion o'r Ddeddf yn ysgrifennedig, a wisgai'r Pharisëaid ar eu talcennau, am eu harddyrnau, ac ar ymylau eu gwisgoedd; phylacteran, *Mat.* xxiii. 5.

Physic. *See* Medicine, in both its Acceptations.

To physic, *v. a.* [administer physic to] Physygwrio, rhoddi (gweini) meddyginiaeth i un.

Physical. *See* Medicinal: *and* Natural.

Physically, [according to Nature *or* the principles of *Physics*] Wrth (yn ol) natur, o naturiaeth; wrth (yn ol) egwyddorion Anianddysg *neu* Naturiaeth

Physician, *s.* Meddyg, physygwr.

Physico-theology, *s.* [a demonstration of a Deity from an accurate survey of Nature, such as *that* celebrated one of Dr. *Derham*] Anian-ddifinyddiaeth, *sef* arddangosiad bod Duw oddiwrth ystyried Natur a gweithredoedd.

Physics, *s.* [the science of investigating Nature in its operations, &c.] Celfyddyd a gwybodaeth Naturiaeth.

Physiógnomer, *or* physiógnomist, *s.* one who undertakes to judge of the temper, or future fortune, of persons by the lineaments of the face] Dewin a gymmer arno ddarllain neu ddywedyd naturiaeth dynion wrth ddrŷch eu hwynebau, dewin wyneb, drŷch-ddewin, wyneb-ddewin.

Physiógnomy, *s.* [the art of discovering the temper, &c. of persons by the features of the face] Drŷch ddewiniaeth, wyneb-ddewiniaeth.

Phyz, *s.* (in cant language) for *physiognomy*, [the features] Drŷch (gwedd, pryd) wyneb, &c.

Physiológical, *a.* [relating to the science of *Physiology*] Anian dreithiol, anian-draethodol, perthynol i Anian-draith *neu*'r Athrawiaeth am bethau naturiol, athrawiaethol am bethau anianol; anian-dreithyddol.

Physiólogist, *s.* [one versed in *Physiology*] Anian-dreithydd, anian-draithedydd, athraw (un hyddysg *neu* hyfedr) yn yr wybodaeth am bethau naturiol, ymadroddwr (chwedleuwr] am y cyfryw bethau; chwiliwr (chwiliedydd) pethau naturiol.

Physiólogy, *s.* [the doctrine of *Physics* or of the constitution of the works of Nature] Anian-dreithyddiaeth, athrawiaeth am bethau naturiol *neu* weithredoedd Natur; anian-draethawd, anian-draith.

Piácular. *See* Expiatory.—*See also* Heinous, Enormous, &c.

Pia-máter, *s.* [the thin and delicate membrane that immediately covers the brain] Pilen isaf (teneu-wisg) yr ymennydd, y grefadur.

Piáster, *s.* [an Italian coin so called, valued at about 5 shillings sterling] Coron yr Eidal.

Piázza, *s.* [a walk under a roof supported by pillars] Rhodfa golofnog.

Pica, *s.* in Printing, [a sort of type so called, of which there are three sizes, *i. e.* the small pica, the pica, and the double pica] Math ar argraph-lythyren, o'r hon y mae tri rhyw.

Picaróon, *s.* [a robber] Yspeiliwr, yspeilydd.

Picaroon, *s.* [a pirate-ship] Herw-long.

Píccage, *s.* [money paid at fairs for leave to break ground for booths] Toll y bythau (y toniardai.)

Pick, *s.* [a sharp-pointed instrument] Treccyn pig-fain, pig-dreccyn.

¶ **Pick**, *s.* in Printing, [a blot occasioned by dirt on the letters] Magl, mann.

To pick, *v. a.* Pigo, dewis.—N. B. The English verb—*to Pick*—may be translated by the Welsh verb—*Pigo*—in most of, if not in all, its Acceptations.

To give one a bone to pick, [put one to a stand] Peri i un beth rhwystr, gwneuthur i un beth-ruso ychydig, rhoi i un beth i'w gil-gnoi.

To pick *or* cleanse. *See* to Cleanse.

To pick *or* gather. *See* to Gather.

To pick a hole in one's coat, [seek occasion of exposing, or finding fault with, one] Ceisio achos yn erbyn (i feio ar) yn, chwilio bai (chwilio allan fai) un, chwilio gwall yn un, ceisio'r mann gwan ar un, ceisio (pigo) twll ym mhais un. ¶ *It is an easy matter to pick a hole in any man's coat*, Hawdd cael bai o mynnir beio.

To pick [find] *out the sense of an author*, Chwilio (cael, pigo) allan bwyll *neu* feddwl awdur.

To pick, *v. a.* [pilfer] Chwilenna, chwiletta, chwiwio, chwiw-ladratta, pig-ladratta.

To pick a lock, Pigo (lladrad-egori) clo.

To pick a quarrel, Pigo cynnen (cweryl.)

To pick [gather] *up*, Casglu, cynnull.

To pick up a livelihood [maintenance] *by a business*, Ynnill (hely, eriid) bywiolaeth wrth ryw alwad, cael (ceisio) cynheiliaeth, casglu (cyrraedd) lluniaeth *neu* ymborth, pigo bwyd.

To pick up a mistress, Cymmeryd atto (dewis iddo ei hun) ordderch-wraig *neu* gyffoden.

To pick up one's crumbs, [gather flesh and strength after sickness] Gwrygio.

Pickage, *s.* Tâl am drwydded i dorri tîr er adeiladu bythau masnach mewn Ffair.

Pick-a-pack, [probably formed by a corrupt pronunciation of *pack a-pack* or *pack a-back*] Pwn (yn bwn) ar bwn; pwn (yn bwn) ar gefn.

Pick-ax, *or* pick-axe, *s.* Cyfegydd, *vulgo* piccas, piccys; caib, biccys, pig-caib, caib pig.

Digitized by Google

Picked, *a.* [sharp-pointed] Pigog, pig-fain, blaen-llym

To pickéer, *v. a.* [make a flying kind of skirmish] Ciprys (ymgiprys) ar redeg, biccre, tynna biccre.

To pickeer, *v. a.* [rob like a pirate] Herw-yspeilio.

A pickéering, *s.* Ciprys, ymgiprys, ymgattewrsch.

Picker, *s.* Pigwr, pigiedydd.

A picker of quarrels. *See* Brawler.

An ear-picker, *or* ear-pick. *See under* E.

A tóoth-picker, *or* tooth-pick, *s.* Deint-big, deint- graf.

Pickerel *or* a small pike, *s.* [fish] Pen-hwyedyn, pen-hwyad bychan.

Pickét, *s.* [a game at cards so called] Math ar chwarae ar y cardiau.

Pickét, *s.* in Fortification, [a sort of sharp-pointed stake] Pig-bawl. ¶ *To stand upon the picket* [a military punishment so called] Sefyll ar y pig-bawl (y llym-bawl.)

A picking, *s.* Pigiad, &c.

A picking out. *See* Excerption.

A picking up. *See* Collection.

Pickle, *s.* [a seasoning so called] Cyffaith bwyd, cyffaith: heli.

Pickle, *s.* [a thing kept in pickle] Cyffeithbeth, peth cyffeithiedig (heliedig.)

¶ Pickle, *s.* [a state *or* condition] Cyflwr, &c. *Sad is thy pickle,* Drwg (gwael, tost, &c.) yw dy ddrych. *He is in a sad pickle,* Y mae efe mewn cyflwr gwael, *neu* yn wael (yn ddrwg) ei ddrych.

To pickle, *or* pickle up, *v. a.* [steep in pickle in order to preserve] Cyffeithio, rhoi mewn cyffaith: helio, rhoi mewn heli.

Pickled, *a.* Cyffeithiedig, &c.—¶ hallt. ¶ *A pickled rogue,* Dihiryn o'i galon, dihiryn drwyddo.

¶ Pickle-herring. *See* Buffoon.

A pickling, *s.* Cyffeithiad, &c.—cyffaith.

Pick-lock, *s.* [a thief's instrument to open locks with] Gau-agoriad, *vulgo* pigclo.

¶ Picklock, *s.* [the person who opens locks with a picklock] Pigiedydd (pigwr, pigydd) cloion.

Pick-pocket, *s.* Pigwr (pigiedydd) codennau.

Pick-thank. *See* Flatterer, *and* Parasite.

Pick-tooth. *See* a tooth-Picker, *above.*

Picture, *s.* [a piece of painting] Llûn, darllun, darlun, eilun, delw, &c.—¶ *In pictures of silver,* Mewn gwaith ariau cerfiedig, *Diar.* xxv. 11.

To picture. *See* to Depaint; *and* to Image.

A pictare drawer. *See* Painter; *and* Describer.

Pictured, *a. part.* Darluniedig, a ddarluniwyd, wedi ei ddarlunio, &c.

To piddle, *v. n.* [attend to minute parts rather than to the main, do slightly, trifle, &c.] Gowneuthur (llerw-wneuthur) peth; chwarae (go-chwarae) â pheth; ofera, simmera.

A piddler, *s.* [in eating] Llerw-fwyttäwr, bwyttäwr llerw.

Piddler, or *a piddling* [trifling] *fellow,* Simmerwr, oferwr; go-chwareuwr.

Piddling. *See* Nugatory.

A piddling-business, Go-neges, ofer-orchwyl.

Pie, *s.* [in Pastry-cookery] Pastai. *A meat-pie,* Pastai gig. *Apple-pies,* Pasteiod afalau. *A veal-pie,* Pastai gig lla, &c.—*A pie-house,* Pastei-dŷ.

¶ Pie, *s.* among Printers, [a disorderly group *or* huddle of types] Pastai lythyrennau, pastai.

Pie-bald, *a.* [of various colours, *or* black and white like a magpie] Brith, *fem.* braith; amry-liw.

Piece, *s.* Darn, dryll, rhan, &c.

A small [little] piece, Dernyn, dryllyn, &c.

A great piece *or* bit, ¶ Safnaid, bochaid, bochgernaid.

A broken piece. *See* Fragment.

A piece cut off, Cinyn, &c.

A *piece* [slice] *of bread, &c.* Tafell o fara.

A piece of bread and butter, Tafell o fara ac ymenyn, ¶ brechdan.

A piece of ground, Llain (darn, &c.) o dir.

A piece of money, Dryll o arian.

A piece of work, Darn (gorchwyl) o waith. ¶ *He made a sad piece of work of it,* Efe a wnaeth o hono orchwyl-annedwydd; *neu,* Ni bu iddo lwyddiant o'i waith.

A studied [elaborate] *piece,* Cywrein-waith, cynnil-waith, darn (dernyn) o gynnil-waith, dichlyn-waith.

A piece, [each] Pob (bob) un.

Of, *or* all of, a piece [all alike, &c.] Un-fath, un-wedd, un-ddull, unffurf: un-lliw. *They are all of a piece,* Unfath ydynt oll. ¶ *He is not all of a piece* [not consistent] *with himself,* Nid yw efe yn gysson (yn cyttarô) ag ef ei hun.

A piece of antiquity, ¶ Gwragedd yr hên oesoedd.

To piece, *v. a.* [put in, *or* sow on, a piece] Lleinio, rhoi llain (darn) ym mheth; clyttio, rhoi (dodi) clwt ar beth.

To piece, *or* piece out, [add a piece to] Rhoi llain (darn) wrth.

To piece up. *See* to Patch up, &c.

Piece-meal, *s.* [piece by piece, *or* by piece-meals, Darn yn narn, bob yn narn (yn ddarn,) yn ddarnau, yn ddryllian.

Piecer, *s.* Lleiniwr, clyttiwr.

In pieces, Yn ddarnau, yn ddryllian.

To tear to pieces, Rhwygo yn ddarnau, dryllio, &c.

To [all to] *pieces,* Yn gandryll, yn chwilfriw, yn friwsion mân, yn gregyn, yn ufflon, yn glechdyr, yn ysgyrion.

To call one all to pieces. *See* to Call one all to naught, *under* C.

To fall [crumble] *to pieces,* Myned yn gandryll (yn chwilfriw.)

To fall to pieces, [quarrel] Syrthio allan.

To fall to pieces, [be in labour] Dwyn dyn bach i'r byd, eagor.

A piecing, *s.* Lleiniad, clyttiad.

Pied, *or* parti-coloured, *a.* Brith. *A pied cow,* Buwch fraith. *A pied horse,* March (ceffyl) brith.

Pie-powder-court, *s.* [a court held in fairs for adjusting differences arising there] Llŷs y traed llychlyd, ffeir-lŷs.

Pier, *s.* [the abutting column of the arch of a bridge] Canbost (piler) bwäau pont. *The piers,* Y cenbyst *neu'r* pilerau.

To pierce with, [run *or* thrust a weapon into] Gwanu (â,) brathu, gyrru (arf) i mewn i, tyllu, *Job* xl. 24.

Digitized by Google

To pierce through or *thorough*, Trywanu.
To pierce a barrel. See to Broach a vessel, *under* B.
To pierce, *v. a.* [enter into a body, &c.] Treiddio, mynedi mewn i.
¶ To pierce *or* grieve. *See* to Grieve.
Pierced, *a. part.* Gwanedig, a wanwyd, wedi ei wanu.
Pierced through, Trywanedig, ¶ trydwll, *fem.* trydoll.
That may be pierced. See Penetrable.
Piercer, *s.* Gwanwr, trywanwr, trywenydd.
Piercer, *s.* [an instrument for piercing] Trwyddew.
Piercing, *s.* Yn trywanu gan (dan) drywanu,—treiddiol. ¶ *Very piercing eyes*, Llygaid tra-theryll.
Piercing, *a.* [sharp, &c.] Llym, tost-lym, llymdost, egr. *Piercing cold weather*, Tywydd llym addoer.
A piercing, *s.* Gwaniad, trywaniad, treiddiad, —tradd, ¶ brâth, *Diar.* xii. 18.
Piercingly, *ad.* [sharply] Yn llym; yn llymdost, ¶ yn deryll.
¶ Piercingly, [in an affecting manner] *See* Pathetically.
Piercingness, *s.* Treiddiolrwydd.
Piety, *s.* Duwioldeb. *The practice of piety*, Yr ymarfer o dduwioldeb.
¶ *Piety towards parents*, Cariad tu ag at rïeni.
Pig, *s.* Mochyn *(pl.* môch;) ¶ llwdn hŵch.
A young [little] pig, Porchell, *dim.* porchellyn; banw *(fem.* banwes.)
An autumn pig, ¶ Cnyw.
A barrow-pig, Twrch, *dim.* tyrchyn, banw.
A sow-pig, *or* young swine, Hŵch ieuangc, hychig, porchelles, banwes.
A pig [newly] farrowed, Porchell bwrw.
A sucking-pig, Porchell sugno (dynu.)
A tythe-pig, Porchell degwm.
A fat [fatted] pig, Pasg hwch (*vulgo* pasgwch,) pasgdwrch.
To pig. *See* to Litter (in its former Acceptation,) *and* to Farrow.
Big with pigs, Torrog. *A sow big with pigs*, Hŵch dorrog.
To grow [begin to be] *big with pigs*, Torrogi.
To suckle pigs, Rhoi torr.
To cry like a pig. See to Grunt, *or* gruntle.
Pig-market, *s.* Marchnad (ffair) môch.
Pig-sty, *s.* Twlc (cut, cwt, craw) moch; craw, crewyn, crywyn.
Pig-trough, *s.* Casn môch.
A pig of lead, [of iron, &c.] Clamp o blwm (o haiarn bwrw, &c.) hŵch blwm.
Pigeon, *s.* Colommen, c'lommen.
A cóck-pigeon, *s.* Colommen wrryw.
A hen-pigeon, *s.* Colommen fenyw.
Pigeon-foot, *s.* [in Botany] Troed y golommen.
Pigeon-holes, *s.* Tyllau colommennod.
Pigeon-house, *s.* Colommen-dŷ.
Pigeon-livered, *a.* [void of gall, spleen, *or* resentment] Di-far, diddig, mwyn ei dymmer, diffustl.
Pigeon-pie, *s.* Pastai golommennod.
Pigged, *part.* Wedi en bwrw.
Piggin, *s.* [a pail-like little vessel so called] Cunnogyn, cynnogyn, *vulgo* crynnogyn *or* cyrnogyn.
Pigment, *s.* Eiliw.
Pigmy. *See* Dwarf.
Pignorátion. *See* a Gaging.
Pig-nuts. *See* earth-Nuts *in the Article* Nuts, *&c.*
Pigritude, *s.* [slothfulness, sluggishness] Musgrelli, syrthni, mewyd, seguryd, diogi.
Pike, *s.* [the fish so called] Penhwyad.
Pike, *or* lance, *s.* Ffon big, gwayw-ffon, &c. (*See* Lance,) thôn.
A little [half] pike. *See* Javelin.
Piked, *a. part.* [ending in a point, sharp-pointed] Blaen-fain, blaen-llym, pigfain, pigog.
Pike-man. *See* Lancier, *or* lance-man.
Pike-staff, *s.* [the staff *or* handle of a pike] Troed (ffon) gwayw, ffon (troed, coes) pig, ¶ ffon linon.
Pilaster, *s.* [a small pillar *or* column, partly prominent, and partly set within a wall] Colofnyn, colofnig; atgolofn, atbiler, adbiler.
Pilch, *s.* [the cover of a saddle] Gorchudd, (twyg, brethyn) cyfrwy; suder.
Pilch, *or* pilcher, *s.* [an infant's clout so called] Caw (*dim* cewyn,) *pl.* cawau *or* cawiau.
Pilchards, *s.* [small fishes not unlike herrings, but smaller] Math ar benweig bychain. ¶ *A pilchard*, Penwegyn, pennogyn.
Pilcher, *s.* [a sort of gown lined with fur, *&c.*] Ysgin, tabar, twyg bannog.
Pile, *or* heap. *See* Heap.
¶ *A pile* [a noble pile] *of building*, Adail mawr-wych (mawreddog, mawryddig;) adail mawr.
A funeral pile. *See under* F.
Pile, *s.* [a great stake-like piece of wood rammed into the ground to make a firm foundation for some building] Seil-bawl, seilddar (*pl.* seildderi.)
Pile, *s.* [the head on coin] Llûn pen ar ddryll o arian bâth.
Pile, *s.* in Heraldry [a wedge-like figure] Côn yn arfau bonedd.
To pile, *v. a.* [make firm *or* solid with piles for a foundation] Sail-bolioni, sail-dderïo, gyrru sail-bollon i'r (yn y) ddaear er sicrwydd sail.
To pile up, &c. *See* to Heap [up, &c.
Pileated, *a.* [with a cap *or* hat on] A (â) chap neu het ar ei ben.
The piles, [the disease so called.] *See* Emeroids.
Pile-wort, *s.* i. e. the small [in Botany] Llysiau'r bronnau, gwenith y gog (y ddalar.)
Great pilewort, *s.* Dannogen y dŵr (*quære,*) y ddilwydd felen.
To pilfer, *v. a.* [steal petty things] Lladrattta mân-bethau, chwilenna, *vulgò* chwiw-bigo, yspeilfattach, yspeilfattan, yspeiliattan, lladratta yng'hii dwrn.
Pilferer, *s.* Chwilennwr, chwiw-leidr, (*dim.* chwiw-leidryn,) chwilottwr, *&c. vulgò* chwiwgi.
Pilfering, *a.* Lladronaidd, ysgafnllaw, llaw-ysgafn.
A pilfering, *s.* Chwiw-ladrad, pig-ladrad, lladrad cil dwrn.
Pilferingly, *ad.* Yn lladronaidd, yn ysgafnllaw; yn chwiw-ladradaidd.
Pilferingness, *s.* Lladroneiddrwydd.
Pilfery, *s.* [petty theft] Chwiw-ladrad, mân-ladrad.

Digitized by Google

Pilgrim, *s.* [a traveller on a religious account] Pererin, ymdeithydd crefyddol.
To pilgrim, *v. n.* [travel up and down like a pilgrim] Pererina.
To go on pilgrimage, Pererindotta, myned i (ar) bererindod.
Pilgrimage, *s.* [a journey undertaken on a religious account] Pererindod, pereriniaeth.
A piling, *s.* [driving piles] Gyrriad sail-bolion yn y ddaear.
A piling up, Tyrriad, pentyrriad, &c.
Pill, *s.* [in Medicine] Pelen o feddyginiaeth, pellenig.
To make into pills, Pelennu, gwneuthur yn belennau.
Pill, *or* peel, [rind.] *See* Peel, in its latter Acceptation.
To pill, pill and poll, *or* pillage, [rob *or* plunder] Yspeilio, ¶ anrheithio, dwyn a feddo ua; ¶ eillio, cneifio, pilio, digroeni. *The belly pills* [pillages] *the back*, Y bòl a bil y cefn.
To pill, *or* peel, [strip off the rind *or* bark] Pilio, diriglo.
To pill, *v. n.* [be stripped away: come off in flakes] Pilio, gwisgio ymaith; ¶ yspelwi: dysod ymaith yn bilion (yn ddalennau.)
Pillage, *s.* [plunder] Yspail, anrhaith, praidd, ysgwtl, ysglyfaeth.
¶ Pillage, *or* a pillaging, *s.* [a plundering] Yspeliad, yspeilfa, anrheithiad, anrheithfa, preiddiad.
Gotten by pillage, ¶ Preiddiu.
To pillage, *v. a.* [rob *or* plunder] Yspeilio, anrheithio, preiddio, pilio; ¶ cribddeiliaw, cribddeilio.
Pillaged, *a. part.* Yspeiliedig; anrheithiedig, a anrheithiwyd, wedi ei anrheithio.
Pillager, *s.* Yspeiliwr, yspeilydd, anrheithiwr, anrheithydd, preiddiawr, preiddiwr, preiddydd, ysgyfiwr, ysgyflydd: ¶ cribddeiliwr, cribddeilydd.
A pillaging, *s.* Yspeiliad, anrheithiad, &c. *See* ¶ Pillage *or* a pillaging, *above*.
Pillar, *s.* Colofn, pîler.
¶ Pillar, *s.* [supporter] Cynheilydd, attegydd, attegwr.
To pillar, *v. a.* [support *or* adorn with pillars] Pileru, colofnu.
Pillared, *a.* [supported by *or* with pillars] Colofnedig.
A small [little] *pillar*, Colofnig, colofnyn, pileryn.
Set about [surrounded] *with pillars*, Amgolofnog.
Pilled, *a. part.* Piliedig, a biliwyd, wedi ei bilio.
Pill-gárlick, *s.* [one grown bald by a disease] Moelyn, siad-foel.
¶ Pill-garlick, *s.* [a poor, pitiful, sneaking, hen-hearted fellow] Truenyn, adyn, an-wr, llyrfwas.
A pilling, *s.* Piliad; yspeiliad.
Pillion, *s.* [a pillowed kind of woman's saddle, so called] Clustog-gyfrwy: isgil-gyfrwy, 'sgil-gyfrwy.
Pillory, *s.* [in which a criminal is fastened by the neck and hands, in order to be exposed to the public] Rhigod, carchar (cyffion) gwddf, vulgo pilwri.
To pillory, *v. a.* [set a criminal on the pillory in order to expose him to the public] Rhoi (dodi) yn y rhigod *neu'r* pilwri, rhigodi, pilwrio.
¶ A pillory-knight. *See* Knight of the post, *under* K.
Pillow, *s.* Clustog; gobennydd, *Marc* iv. 38.
A small pillow. *See* Cushionet.
¶ *To consult*, or *advise with, one's pillow*, [consult, *or* advise, with one's self on one's pillow] Ymgynghori â'r gobennydd, ymgynghori ag un ei hun ar ei wely.
Pillow bear, *or* pillow-case, *s.* Twyg clustog.
Pilósity. *See* Hairiness.
Pilot, [the steerer *or* conductor of a ship] Llywydd (llywiadwr, llywiedydd) llong, llonglywiawdwr (*pl.* llong-llywiawdwyr,) *Ezec.* xxvii. 8.
To pilot, *v. a.* [steer, *or* conduct, a ship] Llywio llong: arwain (tywyso) llong i borthladd.
Pilotage, *s.* [the office, *or* profession, of a pilot] Llywiedyddiaeth llongau, swydd (galwad) llong-lywiawdwr.
Pilotage, *s.* [a pilot's fare *or* hire] Cyflog llonglywiawdr am arwain llong i borthladd, hûr llong-lywiedydd.
Pimento, *s.* [Jamaica-pepper] Math ar bupur, pupur Siamaica.
Pimpernel, *s.* [in Botany] Llysiau'r crymman, gwlydd Mair.
¶ Pimping, *a.* [a little, small, petty, &c.] Bâch, bychan, disnmmig, &c.—¶ pittw. *A pimping thing*, Peth bâch (diaylwedd, disnmnig, eiddil; dïystyr, dibwys, &c.)
¶ Pimping, [mean, worthless, &c.] *See* Mean [poor, pitiful, sneaking, &c.] *and* Insignificant.
¶ Pimping, [penurious, miserly, &c.] *See* Miserable [niggardly, &c.] *and* Close-fisted.
Pimple, *s.* [a small red pustule] Crugyn (crùg,) piloryn, ploryn, llinoryn.
To break out into pimples. *See under* B.
Pimpled, pimply, *or* full of pimples, *a.* Crugynnog, llawn crugynnau, ploryunog, llinorog.
Pin, *s* [a piece of wire with a round head and small point, &c.] Pinn, pin, ¶ nodwydd (in Anglesey;) hoel, *Ecs.* xxvii. 19. cethr. ¶ *It is not worth a pin*, Ni thal efe mo'r blewyn (ffiloryn;) *neu*, Ni thal efe flewyn (ffiloryn.)
A crísping-pin, *or* cúrling-pin. *See under* C.
A rólling-pin, *s.* Rhol-bren.
A [wooden] pin. *See* Peg, in both its Acceptations.
¶ Pin, *or* centre. *See* Centre.
Pin of a dial. *See* Gnomon.
The pin [centre-pin] *of a spinning wheel*, Hoel durnen.
Pin [a web] *in the eye*. *See* Cataract [a disease of the eye.]
¶ Pin, *or* cue. *See* Cue [mood, &c.]
To pin, *v. a.* [fasten with a pin] Pinno, pinnio; cethru, hoelio.
¶ Pin-basket, *s.* [the last child] Cyw gwaelod y nŷth.
¶ *To pin* [up] *the basket*. *See* to End [finish, &c.]
Pin-case, *or* pin-cushion, *s.* Clustog (sachell) binnau.
Pín-dust, *s.* Llifion, blawd dur-lif, &c.
Pín-fold. *See* a sheep-Cot (*under* C.) *and* Fold [a sheep-fold, &c.]
To pin in a fold. *See* to Fold [put into a fold.]

Digitized by Google

Pin-holes, *s.* Tyllau pinnau.
Pin-maker, *s.* Pinniwr, gwneuthurwr pinnau *neu* nodwyddau pennìog.
To pin [with wood,] *or* peg. *See* to Peg.
To pin one down by articles, Rhwymo un drwy ammodau *neu* erthyglau.
To pin a thing upon one, [oblige one to do it] Rhwymo (rhoi yn dynn *neu*'n gaeth ar) un i wneuthur peth *neu*'r cyffelyb.
To pin one's faith on another man's sleeve, [believe implicitly] Credu (derbyn *neu* seilio ei ffydd) ar air *neu* awdurdod un arall heb ymofyn ym mhellach; adeiladu ei ffydd ar (clymmu ei ffydd wrth) goel un arall, derbyn ei ffydd gan arall yn ddìymchwìliad *neu* yn ddìymorol.
To pin one's self [spunge] *upon one*, Byw (ymgynnal) ar gefn un.
To pin up a gown, Pinnio gŵn (godrëon gŵn) i fynu *neu* oddi amgylch i un.
Pincers, *or* a pair of pincers, *s.* Gefail, crâff.
Pinch, *s.* [a painful squeeze with the fingers *or* nails, *or* between hard bodies] Gwâsg (caethwasg, cras-wasg, gwasgfa) rhwng bysedd, ewinedd, *neu*'r cyffelyb; tymmhìg; crafang-wasg, crafangiad; ing-wasg; gwrŷf-wasg, lleth-wasg.
A pinch *or* gripe. *See* Gripe, *and* Grasp, in their several Acceptations.—*See also* Pang.
A pinch with the teeth, Cno, gwasg rhwng dannedd, cno-wasg.
A pinch [a short steep ascent] *in a road*, Serthfa (berr-esgynfa, berr-allt, tyle) mewn ffordd.
¶ Pinch, *s.* [in a figurative, i. e. metaphorical, sense; *a strait*, &c.] Ing, ingder, ingdra, cyfyngder, caethiwed, cyni, &c.—*He is a real friend who assisteth one at a pinch*, Câr cywir yn yr ing y gwelir. *He will not do it but upon a pinch*, Ni's gwna namyn yn y dir (*i. e.* onid pan gymmellir ef gan angenrheidrwydd.) *He was reduced to a great* [the last] *pinch*, Efe a ddygpwyd i'w gyfyng-gyngor (*i. e.* i ddirfawr gyfyngder.) *If the matter ever come to the pinch, that*, &c. Os byth y daw y peth i'r fath gyfyngdra, fel, &c.
To pinch, *v. a.* [squeeze between the nails, fingers, *or* teeth; press between hard bodies] Gwasgu (caeth-wasgu, craswasgu) rhwng dau-ewin, *neu* rhwng deu-fys, *neu* rhwng dannedd: ewino, ewin-wasgu; crimpo, crimmeidio, crimp-wasgu; cnoi, cno-wasgu; lleth-wasgu, gwrŷf-wasgu: tymmhigo.
To pinch, [as cold] Dal ar, deifio, ¶ gwasgu.
To pinch with a pair of pincers, Gefeillo, gefeill-wasgu, gwasgu â (mewn) gefail.
To pinch [defraud *one of his meat, wages*, &c.] *See* to Defraud.
To pinch [stint] *one's own belly*, Gwasgu (cyfyngu ar, bod yn galed wrth) ei fol *neu* ei gylla ei hun.
To pinch, *or* hurt. *See* to Hurt.
To pinch, *or* grieve. *See* to Grieve, &c.
To pinch, *or* wring, [as shoes that are too little do] Gwasgu, caethìwo.
To pinch, [use hardly, &c.] *See* to Oppress (in its several Acceptations, &c.)
To pinch, *or* gripe. *See* to Gripe, in its 2nd *and* 5th Acceptation.
To pinch, *or* bite. *See* to Bite.
To pinch, [be sparing, &c.] Cynnìlo; bod yn gynnil *neu*'n grintach.
To pinch off. *See* to Nip.
Pinched, *a. part.* Gwasgedig (a wasgwyd, wedi ei wasgu) ag ewinedd, â dannedd, *neu*'r cyffelyb.
Pinched with hunger. See Belly-pinched, *and* Hunger-bit.
Pinched *or* oppressed. *See* Oppressed.
Pinching, [that pinches] A fo'n gwasgu neu'n cnoi; caeth.
Pinching, *a.* [sparing; pimping, &c.] Cynnil; crintach, &c. *See* Niggardly, [*a.*] &c.
Pinching, *s.* [over-sparingness, &c.] Cynniledd, tra-chynniledd; crintachrwydd, *Eccles.* xi. 18.
The pinching of the guts. See Gripe of the belly, *and* Gnawing of the guts.
A pinching in the stomach. See a Griping at the stomach, *under* G.
Pinch-penny, *or* a pinch-fist. *See* Churl [a [niggard, &c.] Hunks; *and* a Griping usurer, *under* G.
Pinchpenny-like, *ad.* Yn grintach, fel bawai, fel crintachddyn, yn grìnwasaidd, fel crìnwas.
Pin-cushion. *See under* Pin, *above*.
Pindâric, *a.* [written in the measures of *Pindar*, the celebrated Theban lyric poet, whose strains are so sublime as to be almost inimitable] A ddynwared fesurau cerdd *Pindarus*, y cywyddwr ardderchog gynt. ¶ *A Pindaric poem*, Cywydd mowr-eiriog (uchel-wŷch) fel yr eiddo *Pindarus*.
Pin-dust. *See under* Pin, *above*.
Pine, *or* pine-tree, *s.* Pin-wydden, (*pl.* pin-wŷdd,) y pren Pinus, pererinbren. *A wild pine-tree*, Pinwydden wyllt.
Pine-apple, *s.* Afal pinwydd.
Ground-pine. *See under* G.
A pine grove, *s.* Llwyn o'r pinwydd.
To pine, *or* pine-away, *v. a.* Dihoeni, *Mare* xi. 18. dadwino, edwino, darfod, edwi, nychu, dyddfu, trenlio ymaith, &c.
To pine, *or* grieve. *See* to Grieve, *or* be grieved.
To pine one's self, Ymgulhâu, ymddihoeni, &c.
To pine one's self to death, Ymofidio i farwolaeth, marw gan ofid.
Pine-end, *s.* [of a house] Pinniwn.
Pined, *a. part.* Gwywedig (a wywodd, wedi gwywo, ¶ gwyw) gan ofid *neu*'r cyffelyb.
Pin-fold. *See under* Pin, *above*.
Pinguid, *and* pinguédinous. *See* Fat, Gross, [fat, &c.]
Pin-holes. *See under* Pin, *above*.
Pining. *See* Consuming away, Drooping, Languishing, &c.
¶ *Pining sickness*, Nychdod, *Esay* xxxviii. 12.
A pining, [away.] *See* a Drooping, a Languishing, &c.
Pinion, *s.* [the joint at the extremity of a wing: a wing] Blaen-gymmal adain, blaen adain, angell aderyn: bôn adain *(quere:) Meton.* adain, aden, asgell, ffilog.
To pinion, *v. a.* [bind the wings of a fowl, *or* the elbows of a person, close to the sides] Rhwymo'r adenydd, *neu*'r elinoedd, yn gaeth wrth y corph: engyll rwymo, engyll-gaethiwo, engyll-gaethu, rhoi'r engyll yn rhwym wrth yr ystlys, angellu: torri blaen adain: ¶ llawethelrio.

Digitized by Google

¶ Pinion, *s.* [a particular kind of wheel in a clock *or* watch, formed out of the axis of a wheel] Echel-drwyll, echel-droell, rhigol-droell: ¶ trwyll, troell.

Pinioned, *a. part.* A'i engyll (â'i freichiau, â'i adanedd) yn rhwym wrth ei ystlysau; â'i ddwylo yn rhwym *neu* yng'hlwm ar ei gefn; angelledig, &c.

Pinions, *s. pl.* Adanedd: hualau, &c.

Pink, *s.* [a flower so called] Pingc.

Pink, *or* pink colour, Pingc, lliw'r pingc, màth ar liw rhudd-goch golau.

Pink, *s.* [a sort of fish so called] Gwyniad ond odid.

Pink, *s.* [a sort of ship so called] Màth ar long fechan, pincgen.

To pink one, [run one through] Gwanu un drwyddo, *vulgo* rhedeg un drwyddo, trywanu, trydyllu.

To pink [wink] *with the eye,* Go-gan'r llygad *neu*'r llygaid dan gil-wenu.

Pinked, *a. part.* [run *or* pierced through] Trywanedig, a drywanwyd, wedi ei drywanu; trydylledig; ¶ trydwll, *fem.* trydoll.

A pinking. *See* Perforation.

Pin-maker, *See under* Pin, *above.*

Pinnace, *s.* [a small sort of ship so called] Màth ar long fechan, ysgafn-llong, ysgoren.

Pinnacle, *s.* [a turret, *or* high spiring point] Pinagl, pinacl, *Mat.* iv. 5. pinagl tŵr; nendŷ. ¶ *On the pinnacle of honour,* Ar frigyn (grib, nen) anrhydedd.

Pinned, *a. part.* Pinnedig, &c.

Pinner, *or* pin-maker. *See* Pin-maker, *above.*

Pinner, *s.* [a sort of woman's head-dress so called] Math ar ben-wisg llaesgiustiog.

Pinnock, *or* Cuckoo's mate, *s.* [a bird so called] Gwàs (gwichell, gwigyn) y gôg.

Pint, *s.* [the 8th part of a gallon] Peint.

A pint, *or* pintful, Peint, peintiaid, llonaid peint.

Pioneer, *s.* [a digger in an army, whose business is to undermine the enemy's works, cast up trenches, level roads, &c.] Càd gloddiwr, cloddiwr llu.

Pioneers, *s. pl.* Cloddwŷr llu.

Piony, *or* péony, *s.* [a plant producing a large red flower] Blodau'r brenhin.

Pious, *a.* A wnêl ei ddyled tu ag at Ddduw a'i rieni.

Piously, *ad.* Yn dduwiol, &c.

Piousness. *See* Piety, *and* Devoutness.

Pip, the pip, *s.* [a horny substance, *or* whitish scale, growing on the tip of the tongue in poultry] Y big.

To pip, *v. a.* take off the *pip* from the tongue of a fowl] Torri'r big ar geilliog, &c.

To have the pip, Bod a'r big arno. *He has the pip,* Y mae'r big arno.

Pip, *s.* [a spot on a *card* or *die*] Llygad.

To pip, *v. a.* [cry like a chicken, &c.] Pipian, gwneuthur llais (lleisio fel) cyw *neu*'r cyffelyb.

Pipe, *s.* [any tube *or* tubular body] Pib, pibell.

Wind pipe, *s.* [the weasand, *or* pipe of the lungs] Breuant, y brenant (*also* y freuant,) corn brenant,) corn y gèg, pibell yr ysgyfaint.

A pipe of wine, [a butt *or* half a tun] Pib (lanner tunnell) o win, sef yw bynny, cant a chwech ar hugain o alwyni.

A wine-pipe, *s.* Pib win, hanner tunnell.

A pipe, *or* flute. *See* Flute.

A bag-pipe, *s.* Pib gôd.

A horn-pipe, *s.* Pib gorn, pib corn, pipcorn.

An oaten pipe, *s.* Pibell o welltyn ceirch.

A wooden pipe, *s.* Pib bren, pib pren, pip-pren.

To pipe, *v. a.* [play on a pipe] Canu pibell, *Mat.* xi. 17.

¶ Pipe, *s.* [the roll in the Exchequer] Rhòl (y rhòl) yn y Syllty: rhòl y syllty.

Pipe-office, the pipe office, *s.* [in the Exchequer] Y rholdŷ, y rholfa.

Piper, *s.* Pibydd.

A woman-piper, *s.* Pibyddes.

A bag-piper, *s.* Pibydd côd.

¶ Piper, *s.* [a sea-fish so called] Cornbig.

Pipe-tree, *or* lilac-tree, *s.* Pip-pren, pren pib. *See* Lilach.

Piperedge-tree. *See* Barberry-tree.

Piperine, *s.* [having the quality of pepper, peppery] Puppuraidd; ¶ poeth, twymn, tanllyd.

Piping, *rather* pip-ing, [as a sickly person is said to be] Yn pipian, yn clwccian, cwynfanus, &c.

¶ *Piping hot,* Brŵd (yn frŵd) o'r crochan *neu* oddi ar y tân, brŵd berwedig, &c.

A piping, or *playing on the pipe,* Caniad (¶ canu) ar y bibell; caniad pibell.

Pipkin, *s.* [a sort of little pot, *generally* an earthen one] Crochenyn (pridd *fynychaf.*)

Pippin, *s.* [an excellent apple so called, of which there are several sorts] Màth ar afal pereidd-flas o'r enw.

Piquant, [sharp, &c.] *See* Keen [applied to *expressions,* &c.] *and* Acerb [severe.]

Piquancy, *s.* [sharpness, keenness, tartness, pungency, &c.] Llymder, llymmedd, toster, tostedd, pigowgrwydd, &c.

Pique, *s.* [an offence taken; ill-will, spleen; concealed hatred, &c.] Anfoddlonedd, anfoddlonrwydd, anfodd; anghymmodlonedd, gŵg, cilwg, &c. brŷn, sorriant cuddiedig, casineb cûdd, &c.

To have a pique against one, Dal gŵg i un, &c.

To pique. *See* to Offend *or* give offence to, *&c.*

To pique [value] *one's self on* or *upon,* Ymogoneddu (ymfawrygu) o herwydd.

To piqueer. *See* to Pickeer.

Piquet. *See* Picket.

¶ *To plant the piquet. See* to Encamp.

Piracy, *s.* [sea-robbing, *or* sea-robbery] Môr-ladrad, lladrad ar fôr, môr-herwriaeth, herwriaeth môr, mór-breiddiad, môr-braidd, môr-yspail.

Pirate, *s.* [a sea-robber] Môr-leidr, lleidr ar fôr (ar y môr,) herwr môr, môr-herwr, môr-williad, môr-wylliad, môr-will, môr-wyll, gwillmor, gwillmyr.

¶ A pirate, *or* pirate-ship, *s.* Herw-long.

To pirate, *v. a.* [rob on the sea] Lladratta (yspeilio, herwa) ar y môr.

¶ Pirate, *s.* [one who surreptitiously deprives another of his literary property] Llên-leidr, llên-wylliad, a ladratto lèn-waith un arall.

¶ To pirate, *v. a.* [rob one of his literary property, by clandestinely publishing an edition of a book, in prejudice, *or* opposition, to its real proprietor] Lladratta (lladrad-gy-

Digitized by Google

hoeddl, lladrad argraphu, lladrad-werthu) llên-waith un arall.

Pirátical, *a.* [belonging to piracy *or* robbing on sea: belonging to a pirate: like a pirate] Môr-ladradawl, môr-breiddiawl: môr-leidrynawl, môr-herwrawl, perthynol (a berthyn, yn perthyn) i fôr-leidr *neu* fôr-herwr: môr-herwraidd, môr-leidrynaidd, môr-ladronaidd.

Piscary. *See* Fish-market, *and* Fishery.

¶ Piscary, *s.* [a privilege of fishing] Braint (trwydded, rhydd-did) i bysgotta.

Piscátion. *See* a Fishing.

Piscatory, *a.* [belonging to fishing, *or* to fishermen] Perthynol (a berthyn, yn perthyn) i bysgotta, *neu* i bysgodwyr.

¶ *The piscatory art*, Celfyddyd pysgotta.

Piscatory eclogues, Ymddiddan (ymddiddanion) ar gân rhwng pysgodwŷr.

Pish! [an *interj.* of contempt] Ffi, wi, wfft, och och, ŵb, pw. *See* Fie!

To pish, *v. a.* [express contempt *or* dislike by a suitable *interj.*] Pŵo, wffto, &c.

Pismire. *See* an Ant.

Piss, *s.* [urine] Trwngc, trwyth, dwr dyn *neu* anifail, irain (trwngc îr newydd, pision, golch, lleisw.

To piss. *See* to Make water *under* W.

Pissed out, A biswyd (wedi èi biso) allan.

Pisser, *s.* Troethwr, piswr, pisydd.

Piss-burnt, *a.* Troeth-losgedig, llosgedig gan wrin, lliw llosg y pision (y piso.)

A pissing, *s.* Troethad, pisad.

A pissing-place, *s.* Troeth-le.

Pistáchio, *or* pistáchio nut, *s.* [a sort *of* nut imported from Syria and Egypt, of a spicy smell] Cneuen feddyginiaethol bêr-arogl o'r enw.

Pistachio-nuts, *s. pl.* Dagrau Addaf.

Pistol, *s.* [a small hand-gun] Gynnyn llaw, *vulgo* pistol.

To pistol one, [shoot one with a pistol] Saethu un à gynnyn llaw (à phistol,) pistolio un.

Pistole, *s.* [a Spanish gold coin of the value of about 17*s.* 6*d.* Sterling] Bâth (dryll o) aur yn yr Yspaen, &c. o bris ynghylch dau swllt ar bymtheg a chwe' cheiniog o arian Lloegr.

Pit, *s.* [a hole in the ground, &c.] Pwll, pydew, twll, ffôs, 2 *Sam.* xviii. 17. ogof, 2 *Sam.* xvii. 9. ¶ uffern, *Num.* xvi. 33.

¶ *A deep hollow pit*, Ceu-bwll.

Deep pits, *s.* Ceu-ffosydd, *Salm* cxl. 10.

The arm-pit, *s.* Twll y gesail.

A drain-pit, *s.* Pwll disbyddu.

A sánd-pit, *s.* Tywod-bwll, pwll tywod.

The pit of the stomach, Genau'r cylla. *In the pit of his stomach*, Yng ngenau ei gylla.

Pit, *s.* [a dent *or* hollow made by the finger in the skin of an hydropical person] Siamp, pant, mann, pannwl.

A pit made by the small pox, Ol (ôl) y frêch.

To pit, *v. a.* [grow into a hole *or* hollow] Pyllu, pantu, pannyiu, mannu, myned yn bwll, *&c.*

A little pit, Pyllyn.

The pit *or* grave, *s.* Y pwll, y bêdd.

¶ *At the pit's brink*, [in extreme danger] Mewn dirfawr berygl, ar fin (wart, lan) y pwll.

To go pit a pat. See to Palpitate.

Pitch, *s.* [a black kind of gummy substance so called] Pŷg.

¶ Stone-pitch, *s.* Caled-byg, sych-byg.

To [smear over with] pitch, *v. a.* Pygo, gorthoi (gorchuddio, iro trosto) à phŷg.

A pitch-tree, *s.* Pyg-wydden, pyg-bren, pyc-bren, pren pyg.

¶ Pitch, *s.* [size, stature, &c] Maint, maintioli, maintiolaeth. *They were much about the same pitch*, Yr oeddynt tu a'r un dyfiant (darawiad; uchder; fesur; faintioli.)

¶ Pitch, *or* degree, *s.* Gradd, mesur, &c. ¶ *They fly a* [to a] *very high pitch*, Ehedant yn uchel iawn. *They arrived at* [attained to] *the highest pitch of human learning*, Cyrrhaeddasant uchaf-nod (eithaf-nod, uchaf-bwngc, eithaf-bwngc, uchaf-radd) dysgeidiaeth dyn.

To the highest pitch, I'r eithaf; *neu*, I'r râdd uchaf.

The pitch of a hill, Llethr bron, llechwedd, gwaered, gorwaered, ystlys bryn, disgynfa mynydd, lledfron, gorddisgyn, &c. crîb (trum, coppa) mynydd.

¶ Pitch, *s.* in Architecture [the angle to which the gable-end, and consequently the whole roof of a building, is set] Cyfongl tal-dy, tal-ongl-tŷ; cyf-lethr to; ¶ trumiad tŷ.

¶ *A house of a high* [great] *pitch*, Tŷ uchel-drum (uchel-grib.)

A house of a low pitch, Ty isel drum (isel-grib.)

To pitch [throw] *a bar*, Taflu barr.

To pitch [strike] *in*, Taflu hyd oni lyno ym mheth, brathu (plannu, rhoi i lynu) yn, bwrw (taro, rhoi) ym mhlanu yn.

To pitch [fix] *on* or *upon a subject. See* to Fix [pitch] on, &c.

To pitch, *v. a.* [fling down] Taflu (bwrw) i lawr.

To pitch [lay, put down, &c.] *See* to Lay [put, set, &c.] to Lay down; *and* to Deposit [lay down.]

To pitch, *or* pave, *v. a.* Llaesodru, palmenta.

To pitch [settle.] *See* to Light, *or* alight.

To pitch, [sink, &c.] Llaesu.

To pitch a cart, [pitch sheaves into a cart] Pigo (piccio) i gart, taflu (bwrw) ysgubau i gart *neu*'r cyffelyb à phig-fforch: ¶ llwytho cart.

¶ To pitch, *or* darken. *See* to Darken.

To pitch a net, Tanu (tannu, lledu, gosod) rhwyd.

To pitch upon a time, Enwi amser.

To pitch tents, or *a tent*, Gwersyllu.

To pitch upon one's head, or *pitch down headlong*, Cwympo (syrthio) ar ei ben.

To pitch upon, [make choice of] Dewis, ethol, dethol.

Pitched, *a.* [daubed, *or* covered, with pitch] Pygedig, a bygwyd, wedi ei bygu.

Pitched, *or* paved, *&a. part.* Llaesodredig; palmentedig, a balmentwyd, wedi ei balmentu.

A pitched camp. See a standing Camp, *under* C.

A pitched battle, Câd ar faes, brwydr orsafol.

Pitched one against another, A roddwyd i sefyll y naill gyferbyn à'r llall (wyneb yn wyneb, gyfar-wyneb, *neu* gyferbyn, à'u gilydd.)

Pitcher, *s.* [an earthen vessel, *or* water-pot] Ystên, stên, *vulgo* piser, cunnog, cynnog.

Pitcher-full, Ystenaid.

A litte pitcher, Ystenan, piseryn, cunnogyn, cynnogyn.

Pitch-fork, *s.* Pigfforch, pig.

Digitized by Google

Pitchiness, *s.* [the quality of resembling pitch.] Pygtydrwydd: ¶ duedd.

Pitching, *s.* [paid at fairs] Saw-dal, saw-doll

Pitchy, *a.* [having the qualities of pitch: smeared with pitch: black, &c.] Pygtyd: pygog, llawn pŷg: ¶ du; dywyll, &c.

Pit-coal, *s.* Glo-bwll.

Piteous. *See* Compassionate, *and* Merciful.—*See also* Miserable, in its 1st *and* 2nd Acceptation.

¶ **Piteous**, *or* paltry. *See* Paltry, &c.

Piteously, *ad.* Yn drugarog, &c.

Piteousness. *See* Mercifulness.——*See also* Meanness.

Pit-fall, *s.* [a pit covered in order to catch wild beasts, &c.] Brâd-bwll.

Pith of bread. *See* Crum, in its former Acceptation.

Pith, *s.* [the soft substance in the midst of some trees, such as *Elder*, &c.] Mwydionyn (pabwyryn) pren.

Pith *or* **marrow.** *See* Marrow.

¶ **Pith**, [applied to Arguments, &c.] *See* Force (in its 7th Acceptation;) *and* Energy.

Pithily, *ad.* Yn fywynaidd, yn fywynog, yn fwydionaidd, &c.—¶ yn ddwyf-wresog; yn brûdd, yn ireidd-brudd, yn brudd-wresog: yn felus-brudd, yn nerthol, yn fywiog.

Pithiness, *s.* Bywyneiddrwydd, &c. dwys-wresogrwydd; sylweddolrwydd.

Pithless, *a.* Di-fwyd, di-fwydion, &c.—disylwedd: sŷch.

Pithy, *a.* [full of pith, &c.] Bywynog, mwydionog; brwynaidd, mwydionaidd, mwydionllyd.

¶ **Pithy**, [applied to *style*, &c.] Dwys-wresog, prudd-wresog, ireidd-brudd, melus-brudd: gwresowg-cryf, ireidd-gryf: sylweddol: bywiog, eneidiog.

Pitiable, *a.* [to be pitied, *or* deserving pity] A haeddai (gwiw i) dosturio wrtho, tostur.

Pitiful; **Pitifully**; *and* **Pitifulness.** *See* Piteous, &c. being entirely synonymous.

A pitiful [mean, sneaking, paltry, &c.] *fellow*, Baw-ddyn, &c.

¶ *A pitiful little fellow*, Elach.

A pitiful old fellow, Hên addill.

Pitiful fellows, Dynionach.

A pitiful case, Cyflwr gresyn.

Pitiless, *a.* [void of pity] Di-drugaredd, di-dosturi, annhrugarog, annhosturiol, &c.

Pitman, *s.* [in sawing] Gwr y pwll.

Pits, *s.* Pyllau.

Full of pits, Pyllog, llawn pyllau.

Pit-saw, *s.* Llif bwll.

Pittance, *s.* [in its *original signification*, the allowance of victuals given to each person in monasteries and colleges: a small portion.] ¶ *A small pittance*, [short commons] Adwledd, byrr-bryd.

Pitted with the small pox, Ag ôl y frêch arno.

Pituitous. *See* Phlegmatic.

Pity, *s.* Tosturi, tosturiaeth, trugaredd, &c. ¶ trueni. *He hath no pity in him*, Nid oes tosturi ynddo; *neu*, ¶ Ni fedr oddi wrth dosturi. *It is a great pity that they have lost so valuable a book*, Mawr yw'r trueni (gresyn yw) golli o honynt lyfr mor werthfawr.

¶ *The more is the pity*, Gwaetheroedd, ysgwaetheroedd, gweitheroedd, ysgweitheroedd, ysywaeth, pand gresyn, ond tostur yw, fel y mae'r mwya'r (mwy'r) trueni.

To pity, *v. a.* [be moved with pity *or* compassion towards, &c.] Bod a thrueni (bod ar un drueni) dros, bod yn ddrwg gan un am neu o herwydd; tosturio (gresynu) wrth, &c. *No body pitieth a murderer when he is executed*, Nid oes ar neb drueni dros leiddiad dyn pan ddihenydder ef. ¶ *To be pitied*, Cael trugaredd, *Salm* cvi. 46. *That which your soul pitieth*, Anwyldra (tosturi, *in margin*) eich enaid, *Ezec.* xxiv. 21. *Which no man pitieth*, Digarad, ni (ar ni) thosturia neb wrtho. *See*

To have [take] *pity on* or *upon*, Trugarhâu (tosturio) wrth, &c. arbed, *Deut.* xiii. 8.

Pivot, *s.* [a sharp point on which any thing turns] Colyn.

Pix, *s.* [the chest *or* box in which the consecrated host is kept] Cist (aich, blwch, goiwrch) y sacrafen yn Eglwys Rufain.

Pizzle, *s.* Pidyn, ¶ gwialen, dwsel.

Plácable, *a.* [that may be pacified *or* appeased; easily appeased, *or* soon pacified] A aller ellir) ei ddyhuddo, ddyhuddadwy; hyfodd, dyhuddol, dyhuddgar; hawdd ei (i'w) ddyhuddo, hawdd (a'r y mae'n hawdd) ymgymmodi ag ef.

Plácableness, *or* **placability**, *s.* [the quality of being easy to be appeased] Hyfoddedd, dyhuddgarwch, dyhuddolrwydd; ¶ hynawsedd, rhywiowgrwydd.

Plácard. *or* **placart**, *s.* Hyspysiad cyhoedd, cyhoeddiad, egluryn.

Place, *s. s.* Lle, man, ¶ -fa, *(added to the end of a word,)* ¶ maugre. *In this place*, Yn y lle (man) hwn; yn y fan (y fangre) hon; ¶ y man yma. *A place of execution*, Dihenyddfa. *A place of torture*, Arteithfa. *A place to lie down*, Gorweddfa. *A market-place*, Marchnadfa. *A high place*, Uchelfa. *A washing-place*, Golchfa. *The boat's place*, [the ferry *or* ferrying-place] Y geu-balfa. *A fair* [peasant] *place*, Berthfa (berthfan,) gwempfa (gwemp'a,) hyfryd-le, lle hyfryd. *A sitting place*, Eisteddfa, eisteddle. *A judgment-place*, [a place of doom] Brawdfa, brawdle. ¶ *The very place*, Y man (y fan) a'r lle. *A convenient place*, Cyfle. *In that place*, Yna, yno, yngod, yngo, accw, lle'r (y lle'r, *neu* yn y lle'r) wyt ti. *In place of*, Yn lle; dros. *In no place*, Nid yn un-man (unlle.) *In what place?* Pa le, p'le, pa fan, ym mha le (fan?) *In what place so ever*, Pa le (p'le) bynnag, bynnag pa le. *A place of abode*, Anneddle, trigfan. *Of the same place of abode*, Cyttref, cydtref. *That hath no place of abode*, Crwydrnidd, didref. *In such a place*, Yn y lle a'r lle (y lle hyn a'r lle,) yn y man a'r man (y man hyn a'r man,) yn y fan a'r fan (y fan hyn a'r fan.) *I never was in this place before*, Ni bûm ar y droedle hyn o dir erioed o'r blaen. *A standing place*, [station] Gorsaf, sefyllfa, sâf, saw. *A place for arms*, [an armoury] Gorsaf arfau.

Place, *or* employment. *See* Employment.

Place, *or* office. *See* Office.

Place, [in a book.] *See* Passage [of a book, &c.]

¶ **Place**, *s.* [a mansion so called] Plâs.

To place, *v. a.* [put *or* set in a place] Rho

Digitized by Google

(gosod) mewn lle *neu* yn ei le, llëu, cyflëu, llehâu, cyflehâu; gosod.

To place again, Adlëu, adlehâu, adgyflëu, allosod, edfryd, adferu.

To place, [settle.] *See* to Fix, [settle, &c.]

To place out, [at interest] Gosod yn llôg, llogi.

To place [hire] *out*. *See* to Hire out.

To put out of its place, Aflëu, anghyflëu, bwrw (symmud) allan o'i le; annhrefnu.

To supply another's place, Dirprwyo.

To carry from place to place. *See under* C.

To take place, [*as a saying, a maxim*, &c.] Bod mewn cymmeriad (mewn bri a chyfrif.)

Pláced, *a*. Cyflëedig, a gollëwyd, wedi ei gyflëu.

Plácid, *a*. Araf, tawel, esmwyth, llonydd, llariaidd, hynaws.

Placídity, *s*. Arafwch, hynawsedd.

A plácing, *s*. Llehâd, cyflëad.

Plácit. *See* Opinion; Ordinance: *and* Maxim.

Plácket, *s*. [the open part of a petticoat] Agoriad pais (yr agoriad *neu*'r agored ym mhais) benyw; ¶ balog.

Plágiarism, *s*. [the practice of a plagiary] Llen ladrad, llen-yspail.

Plágiary, *s*. [one who makes use of an author's words or sentiments, palming them upon the world for his own] Llen-leidr, llen-yspeilydd, lleidr llen (llen waith, llyfrau.)

To play the plagiary, Llen-ladratta, llen-yspeilio, chwarae'r llen-leidr *neu*'r llen-yspeilydd, cymmeryd yn lladradaidd allan o lenwaith eraill *neu* arall.

An epic poem. *See under* Epic.

A poem of praise, Gwawd, &c.

Pôesy. *See* Poetry.

Pôet, *s.* Prydydd, bardd, awenydd-fardd, awenyddes, cerddor cerdd dafod, cywyddwr, ¶ pöet (*pl.* pöetau,) *Act* xvii. 28.—mydrwr, mydrydd; gwawdydd; cethlydd.

An ancient poet, Prif-fardd, an o'r prif (o'r hên) feirdd.

¶ *A chief poet*, or *poet laureat*, Pen-fardd, pen beirdd, prif-fardd, ¶ cadeir-fardd.

A modern poet, ¶ Pos-fardd.

Poetaster, *s.* [a paltry poet *or* rhymer] Eilun bardd, eilun o fardd, gwan-fardd, trwsgl-fardd, coeg-brydedd, ¶ Phil-Ceri. ¶ *Poetastry*, Clêr y dom.

Pôetess, *s.* Prydyddes, barddes, bun-fardd, gwreig-fardd.

Poëtic, *or* poëtical, *a.* [of the nature of poetry] Prydyddawl, barddoniawl, awenyddol, barddoniaidd, prydyddaidd, &c.—¶ *The poetic style*, Awen, yr Awen.

Poëtically, *ad.* [in a poetic manner] Yn brydyddawl, yn awenyddol.

To pôetise, [write like a poet] Prydu, gwersu.

Poëtry, *s.* [both the *art* of composing, and the *thing* composed] Prydyddiaeth, barddoniaeth, barddoneg, barddas, cywyddoliaeth.

Art of poetry, Celfyddyd bardd, barddoniaeth, prydyddiaeth, ofyddiaeth.

Pôets, *s. pl.* Beirdd, beirdd'ion, barddoni, prydyddion. ¶ *Small feast poets*, Beirdd yspyddaid (*sing.* bardd yspyddad.)

Poignancy, *s.* [sharpness, tartness, pungency] Llymmedd, llymrwydd, llymder, tostlymder, tostlymrwydd, llymdostrwydd; pigowgrwydd; llosgedigrwydd.

Pôignant, *a.* [sharp, tart, pungent, &c.] Llymm, llymdost, tostlym; pigog, pigowglym; llosgedig.

Point, *s.* [in its general signification] Pwngc, pwynt, *anciently* pwng.

A small [little] point, Pyngcyn, pyngyn.

A full-point, *s.* [in Grammar] Diwedd-nod, perffeith-nod.

A principal point, Prif-bwngc. *The principal* [chief] *point*, Y prif-bwngc, y pwngc (y peth, y matter) pennaf. ¶ *The chief point in debate*, Pegwn y ddadl.

Point, *s.* [a complete member of a sentence] *See* Clause, Period (in its 1st Acceptation;) *and* Paragraph (in its former Acceptation.)

A point [very small portion] *of time*, Munud, &c. *It is done in a point of time*, Gwneir ef (efe a wneir) mewn munud.

Point, *or* article, [of a discourse, &c.] Pen, &c. pwngc, *Iago* ii. 10.—*A virtuous and a good man,—exercised from a child in all points of virtue*, Gwr rhinweddol a da,—wedi ïlafurio er yn fachgen ym mhob pwngc o rinwedd, 2 *Mac.* xv. 12. ¶ *Be discreet in every point* [article *or* thing] Bydd bwyllog ym mhob peth, *Ecclus.* xxxi. 15. *To stand upon every point, and go over things at large, and to be curious in particulars, belongeth to the first author of the story*, Perthynasol yw i ysgrifennwr cyntaf yr ystori fyned ynddi yn ddwfn i sôn am bob peth, gan fod yn ddïesgeulus ym mhob rhan, 2 *Mac.* ii. 30.

Point, [a matter, case, &c] *See* Matter *or* thing; Matter [a subject, *or* topic;] *and* Case [matter, thing, *or* point.]

Point [in Law.] *See* Case [in Law.]

A point of law, Pwngc o gyfraith. ¶ *The knotty* [intricate] *points of the Law*, Cynhawaeg cyfraith.

Point of land, [a promontory.] *See* Ness, &c.

Point [degree; state. &c.] *See* ¶ Pitch *or* degree; Pass *or* condition, &c.

A point [subject, &c.] *in hand*, Matter (achos, dadl, &c.) mewn llaw.

To dispute [debate, &c] *the point with one*, Amddiffyn (sefyll yn lew dros neu ym mhlaid) ei fatter yn erbyn un, dadlau (dal) dadl ag un, ymbarlio ag un ynghylch peth.

To gain [carry] *one's point. See under* G.—*See also* to Carry [win] it.

To pursue one's point, [aim, design, &c.] Dilyd (dylndo, dilyn, ymlid) ei amcan; glynu yn ei arferth; ¶ dilyn ei ergyd.

To strain, or *stretch, a point*, Ymestyn tros y (tu hwnt i'r) nôd.

The point [mark] *aimed at*, Tuedd-nod.

A point, *or* jot. *See* Jot.

The middle point. See Centre.

Digitized by Google

The point of a rock, Pen craig, clogwyn.

Point, *s.* [the sharp end of any instrument, *or* sharp top of any thing] Blaen: plŷg, &c. bagwy. *The point of a needle*, Blaen nodwydd. *The point of a sword*, Blaen cleddyf.

The utmost [uttermost, outermost, *or* outmost] *point of a country*, Cwrr (cwrr eithaf, &c.) gwlad. *In the uttermost point of Spain*, Yng nghwrr (yng'hwrr) eithaf, *neu* yn eithaf-dir, Yspaen.

A point of wisdom, [of pride, of honour, &c.] Pwngc o ddoethineb (o falchder, o anrhydedd, &c.) *It is a point of foolish pride*, Pwngc (dar-, dernyn) o falchder lledfrydig ydyw. ¶ *It were a point of prudence*, [a prudent point] Tro call fyddai.

¶ *The point of a diamond*, Ewin o adamant, *Jer.* xvii. 1.

At the point of, [before a *noun*] or *to* [before a *verb*] Ar, ym mron, yn agos i, &c. *When he was at the point of embarking*, Ac (pan oedd) efe ar esgyn i'r llong. *He is* [lies] *at the point of death*, Y mae efe ar farw (drengi, derfynu, ddarfod am dano, &c.)

In point of [in regard to, *or* in respect of] Ym mherthynas (mewn perthynas) i, o ran, Am.

Point of a shoe. *See* Latchet of a shoe.

Point of a dial. *See* Gnomon.

Point, *s.* [of an epigram] Colyn.

To bring [a business, a discourse, &c.] *to a point.* *See* to Conclude [end *or* finish;] *and to* bring a discourse to a Head (*under* H.)

¶ *To be at a point.* *See* to Hesitate [be in suspense, &c.]

To make a point of doing a thing, Ystyried ei hun megis yn rhwymedig gan gydwybod i wneuthur peth; sefyll ar (sefyll yn fawr ar) wneuthur peth.

The point of the matter turneth upon that, Ar y pwngc hwnw y saif (y try) y matter *neu* 'r ddadl.

¶ *At all points*, Ar bob tu, o bob parth. *Armed at all points*, ¶ Amarfawg, amarfog.

In all points, Ym mhob peth. ¶ *In all points* [in all respects] *as he came*, Yn hollol y modd y daeth, *Eccles.* v. 16.

Points, *s. pl.* [of the mariner's compass] Pigau, yspagau: breichiau: pegynnau; parth-big-au; parthau; cyrrau. *The south-point in the compass*, Deheu-big (deheu barth) y compod. *The north-point*, Yr ogledd-big; parth y gogledd.

Points, *s. pl.* [of the heavens, *or* of the horizon] Parthau; rhannau; cyrrau. *It seems to blow from all the points of heaven* [the firmament] *at once*, Fe a debygid ei bod yn chwythu o bob parth (cwrr) i'r wybr ar unwaith. ¶ *A rainy point* [of the heavens] Twll (pwll, cwrr) y gwlaw.

Without point. *See* Pointless.

Having two points, Deu-big, *fem.* dwy-big.

Having three points, Tri blaen, à thri blaen iddo, tri-phig, &c.

To point, *v. a.* [sharpen the point, *or* bring to a point] Blaen-llymmu, golymmu; pigfeinio, blaen-llifo.

To point at, [show as with a finger; direct to, &c.] Dangos, (megis à bŷs,) arddangos, estyn bŷs at, cyfeirio at, *vulgo* pwyntio at.

To point [aim, *or* direct] *at* or *against*, Cyfeirio (annelu) at *neu* yn erbyn.

To point a cannon, &c.] Cyfeirio (annelu) gwn rhyfel.

To point out, [shew, &c.] Dangos, arddangos; mynegi; yspysu, &c.

¶ *To point out*, Tueddu; terfynu, *Num.* xxxiv. 7, 8,—10.

To point, or *be pointing*, *to* [as an index, *or* the hand of a clock, &c.] Cyfeirio (bod yn cyfeirio) at, bod à'i flaen (à'i big, à'i ben, à'i drwyn, &c.) tu a *neu* gyferbyn à; bod gyferbyn (gyfeiryd) à, bod ar gyfer &c. ¶ *The dog points*, Mae'r ci yn cyfeirio.

To point or *stop*, *v. a.* [distinguish a sentence *or* period by proper points] Gwahan-nodi, rhoi nodau gwahan (gwahan-nodau) mewn gwers, gwahannu à nodau, rhannu yn byngciau.

To point *or* dot. *See* to Dot.

Point-blánk, *a.* [directly, as an arrow to the white point] Yn union, yn uniawn-gyrch, yn gyfeiriol.

Póinted *or* sharp-pointed, *a.* Blaenllym, blaenfain, pigfain, pigog, picca.

Pointed with iron, Blaen-haiarn, pig-haiarn; pen-haiarn.

Pointedly, *ad.* Yn flaen-llym, yn bigowglym, yn bigog.

Póintedness, *s.* Blaenllymmedd, pigowgrwydd.

Póinter. *See* Index.

¶ Pointer, *s.* [a species of dog, so called] Cyfeir-gi.

A póinting, *s.* [at, to, &c.] Cyfeiriad, &c.

Póintless, *a.* Diflaen, heb flaen iddo *neu* arno. *See* Blunt, *and* Dull.

Póint-thread, *s.* [used by cord-wainers] Ede'r crŷdd, ede' grŷdd.

Póint-wise, *ad.* [in *or* after the manner of a point, &c.] Ar wêdd blaen; ar ei flaen; à'i flaen i lawr (i fynu;) à'i big ym mlaen.

Poise, *or* poize, *s.* [weight; &c.] Pwys; cŷdbwys, &c.

To poise, *or* poize, down, *v. a.* [oppress with weight] Pwyso i lawr.

To poise, *or* balance. *See* to Balance, in its several Acceptations.

Póison, *s.* Gwenwyn.

To póison, *v. a.* Gwenwyno.

Póisoned, *a.* Gwenwynedig, a wenwynwyd, wedi ei wenwyno.

Póisoner, *s.* Gwenwynwr, gwenwynydd: *fem.* gwenwyn-wraig.

A póisoning, *s.* Gwenwynad.

Póisonous, *a.* Gwenwynig llawn gwenwyn; gwenwynllyd.

Póisonously, *ad.* Yn wenwynig, &c.

Póisonousness, *s.* Gwenwynigrwydd; gwenwynllydrwydd.

Póitrel. *See* Breast-leather: Breast-plate: *and* Graver *or* a graving-tool.

Poke. *See* Bag; *and* Pocket.

¶ *To buy a pig in a poke* [Prov.] Prynu câth mewn cŵd (ynghŵd.)

To poke [feel in the dark.] *See* to Grope.

To poke, *v. a.* [search for any thing with a pole, &c.] Chwilio a throstan, chwilio (cerddi) twll à trostan, gyrru trostan i dwll; pwttio; pwttian; gwanu.

To poke [up.] *See* to Pocket [up.]

Póker, *s.* Pwttiedydd, pwttienydd, pwttiwr.

Póland, *s.* [a country in Europe, so called] Pwyl, y Pwyl.

Pólar, *a.* [of, belonging to, *or* lying near the

Digitized by Google

pole] Eiddo pegwn y ffurfafen; perthynol (a berthyn neu yn perthyn) i begwn neu golyn echel y ffurfafen; cylchynol i'r pegwn, yn gorwedd ynghylchyn pegwn y byd. *The polar circle*, Cylch (cylchyn) y pegwn.

Polárity, *s.* [tendency *or* direction towards the pole] Tuedd (tueddiad; cyfeiriad) tu a'r pegwn.

Pole, *s.* [the extremity of the axis of the world] Pegwn (colyn echel, colyn) y byd. ¶ *The pole*, Pegwn y byd; ¶ y pegwn. *The two poles*, Dau begwn y byd.—*The north* [arctic] *pole*, Pegwn (seren) y gogledd.—*The south pole*, Pegwn y deheu.—*The pole-star, polar star*, or *north star*, Seren y gogledd, y seren ogledd, seren pegwn y byd, seren y pegwn.

Pole, *s.* [a long staff] Trostan; pastwn: pawl, (*pl.* polion.)

Pole, *s.* [a hunting-pole] Ffon (pastwn) hely, helffon.

Pole, *or* perch. *See* Perch, in its 3 former Acceptations.

Pole of [for] *a ladder*, or *a ladder's pole*, Carfan (pren carfan, pren) ysgol.

Pole of a chariot, &c. Llâth (paladr) cerbyd.

Pole, [a tall piece of timber driven into the ground.] *See* Pile, in its 4th Acceptation.

To pole, *v. a.* [furnish with poles] Polioni.

Póle-ax, *s.* [an ax fixed to a pole] Ffon-fwyall; isarn.

Póle-cat, *s.* Câth goed.

Poledavies, [a sort of coarse cloth.] *See* Canvas.

Polémic, *or* polémical, *a.* [of a controversial nature, *or* relating to debates] Gwrthrynawl (gwrthdrinawl,) ymwrthrynawl, dadlwriaethol, dadlawl.

A polémic. *See* Controvertist, &c.

Polémics, *s.* [books of controversy] Llyfrau dadlwriaeth, llyfrau gwrthrynawl, dadldreithiau.

Póle-star. *See under* Pole, *above*.

¶ Pole-star, [Met.] *See* Director, Guide, *&c.*

Pólice, *s.* [the civil *or* internal government of a city, &c.] Dinasyddiaeth, dinas-lywodraeth; tufewnol lywodraeth dinas neu wlad; llywodraeth gymdeithasol.

Póliced, [regulated *or* formed into a society, &c.] Trefnedig (a drefnwyd, wedi ei drefnu) yn gymdeithas; trefnedig tan lywodraeth.

Pólicy, *s.* [the art of governing] Celfyddyd llywodraethu gwlad.

Policy, *or* conduct. *See* Conduct, in its 2nd *and* 3rd Acceptation.

Policy, [craft, &c.] *See* Craft (in its 1st Acceptation,) Cunning, [craft, art, &c.] *Fetch* (in its former Acceptation,) &c.

¶ *Policy goes beyond strength*, [Prov.] Trech cyfrwys nâ chadarn; *neu*, Nid cadarn ond cyfrwys.

¶ Policy of insurance, an instrument *or* deed signed by a company for indemnifying from losses by fire, &c.] Ysgrifen ddiogeliad *neu* ddigolledlad.

Pólish, *s.* [a gloss made *or* raised by rubbing, &c.] Llathredd, caboledd, ¶ cabol.

¶ Polish, [applied to manners] Tlysni (ceinedd, &c.) moesau *neu* ymddygiad.

To pólish. *See* to Burnish; *and* to Civilize.

Pólishable, *a.* Caboladwy, a aller (ellir) ei gaboli, hylathr, &c.

Pólished. *See* Burnished.

Not polished, Heb ei gaboli, anghaboledig, anghabol, aflathraidd, atlathr, annhrwsiedig, &c. trwsgl.

Pólisher. *See* Burnisher.

A pólishing, *s.* Caboliad, llathriad, trwsiad, *Galar.* iv. 7.

A pólishing-stone, *s.* Cabol-faen.

A pólishing-iron, *s.* Haiarn caboli.

Polite, *a.* Moesawg, moesgar, boneddigaidd, moeswych.

Polítely, *ad.* Yn foesawg, yn foesgar, &c.

Políteness, *s.* Moesgarwch, boneddigeiddrwydd, hyfoesedd.

¶ *The body politic*, Y corph gwladol (gwladwriaethol.)

Politic, *or* cunning, *a.* Cyfrwysgall, cyfrwys, ffel, ffalst.

Politic, *a.* [prudent, &c.] Call, &c.

Polítical, *a.* [of the nature of, *or* belonging to, polity *or* civil government, &c.] Gwladwriaethol, gwladol, teyrnasol, dinasol, dinasyddiaethol; perthynol (yn perthyn, a berthyn) i wladwriaeth, *neu* i lywodraeth gwlad, *neu* ddinas. *Political disputes*, Dadleuon gwladwriaethol *neu* ynghylch matterion y wladwriaeth.

Politícian, *s.* [one skilled, *or* conversant, in politics] Un cyfarwydd mewn matterion gwladwriaethol, un hyfedr ar fatterion llywodraeth, un cynnefin â rheolau llywodraeth; un hyddysg yng'helfyddyd llywodraethu gwlad; un a wypo aca fedro drin a threfnu matterion (negesau) gwlad *neu* deyrnas; un a ymyrryd (yn ymdrin) â matterion y wladwriaeth; ¶ gwladwr. *A skilful politician*, Gwladwr hyfedr.

Póliticly, *ad.* Yn gyfrwys gall.

Pólitics, *s.* [the science of government, *or* the art of governing] Celfyddyd llywodraeth, celfyddyd llywodraethu gwlad, gwladwriaeth, llywodraeth gwlad, gwlad-lywodraeth.

Politics, *s.* [books of government] Llyfrau gwladwriaeth, ymadroddion ynghylch llywodraeth gwlad *neu* deyrnas.

¶ *To be out in one's politics*, Cam-gymmeryd yn ei gynghorion (ei amcanion, ei fwriadau;) colli (bod wedi colli) ei amcan.

Polítish, *a.* [somewhat polite] Go-foesawg, go-foesgar, lled-foesgar, &c.

Pólity, *s.* [the government of a country, city, *or* church] Llywodraeth (trefn llywodraethu) gwlad, tref, *neu* eglwys, &c. *Ecclesiastical polity*, Llywodraeth eglwysig; *neu*, Trefn llywodraethu (y drefn ar lywodraethu) eglwys

Poll, *s.* Pen, *Num.* i. 18.

¶ Poll, *s.* [a list of heads, *i. e.* of persons, made *or* taken at an election for a member of parliament, &c.] Llechres enwau dewisyddion; cyfrif (cofrestr) y sawl sy â braint iddynt i ddewis seneddwr *neu*'r cyffelyb, fel y gwyper gyd â pha un o'r swydd-ymgeiswŷr y bo'r nifer mwyaf yn pleidio. ¶ *He named the voters, as they stood on the poll*, Efe a enwodd y dewisyddion bawb wrth eu pennau (bob un wrth ei ben,) yn ol eu trefn ar y llechres.

To poll, *v. a.* [give in one's voice *or* vote at an election] Rhoi ei air (ei ddewisair) ym

Digitized by Google

nahlaid, *neu* gyd â, swydd-ymgeisydd. *To poll one*, [enter one's name in a list as a voter, at an election] Rhoi enw un yng nghof-restr, (ar lechres) y dewisyddion. ¶ *He polled a great many that day*, Efe a roddodd ar ei lechres (a chwanegodd at ei blaid) rifedi nid bychan y dwthwn hwnnw. *He too was polled in the evening*, Rhoddwyd ei enw ynte ar y llechres yn y diwe'dydd.

To poll, *v. a.* [cut hair off the head, shear, &c.] Toccio, &c.—¶ talgrynnu, *Ezec.* xliv. 20.

To poll trees. *See* to Lop, to Crop, &c.

To poll *or* clip money. *See under* C.

¶ To poll *or* plunder. *See* to Pill, in its 1st Acceptation.

Póllard, *or* póllenger, *s.* [a lopped tree] Toccbren, pren tocciedig. ¶ *Pollards*, Coed tocc.

Pollard *or* pollen, [small *or* fine bran.] *See* Gurgeons.

Pollard, [a fish so called.] *See* Chevin.

Pólled. *See* Clipped, Cropped, Lopped, &c.

Póllen, *s.* [the fine meal on flowers] Gofiawd blodau.

Póller. *See* Clipper, Cropper, Lopper, &c.

Poller *or* plunderer. *See* Pillager.

Póller, *s.* [one that gives his vote at an election] Dewisydd (un o'r dewisyddion) pan ddewiser seneddwr *neu*'r cyffelyb.

Póll-evil, *s.* [an inflammation in the nape of the neck of a horse, so called] Crâch (crugdardd) yng'wegil ceffyl.

A pólling. *See* a Clipping, Cropping, Lopping.

Póll-money, *or* póll-tax, Tâl pen. *See* Capitation.

Póllock, *s.* [a sort of sea-fish so called] Rhyw fôr-bysg.

To pollúte, *v. a.* [contaminate, render unclean, &c.] Halogi, dîlwyno, dîfwyno, &c.

Pollúted. *See* Defiled, &c.

Pollúter. *See* Defiler.

Pollúting. *See* Defiling.

Pollution, *and* a pollúting. *See* Defilement, *and* a Defiling.

Poltróon, *and* Poltróonery, *See* Coward: *and* Cowardice.

Poly-, [in composition, signifying *mult-*, *multi-*, *mani-*, or *many*] Aml-; amry-.

Polygamist, *s.* [one that is married to several, whether man *or* woman] Un*a*aml-briod; gwr aml-wraig *neu* aml-wrageddog; gwraig aml-wr *neu* aml-wriog.

Polygamy, *s.* [the being married to several] Aml-briodas; *sef* bod un gwr yn briod â dwy neu dair o wragedd, *neu* un wraig yn briod â dau neu dri o wŷr, ar unwaith.

Pólyglot, *a.* [containing many languages] Amlieith, aml-leithog; amry-laith.

Pólygon, *s.* [a figure of many angles] Dull aml-onglog (amry-ongl.)

Polygonal. *See* Multangular.

Pólypody. *See* oak-Fern, *under* F.

Pólypous, *a.* [many-footed] Aml-droed, aml-droedlog.

Pólypus, *s.* [a sort of fish, so called] Rhyw bysgodyn amldroed.

Polypus in the nose. See ¶ Noll me tangere.

Polysyllábic, *or* polysyllábical, *a.* [consisting of many syllables] Aml-sillafog, yn cynnwys aml sillafau.

Pólysyllable, *s.* [a word consisting of many syllables] Gair aml-sillafog.

Pólytheism, *s.* [the belief of many gods] Amlddduwiaeth, daliad aml-ddduwiau.

Polytheist, *s.* [one who holds a plurality of gods] Un aml-dduw, *sef* un a ddeil bod aml dduwiau; a chwith yw ei ddaliad!

Pómace, *s.* [the dross of cyder-pressings] Gweisgion afalau.

Pomáde, *s.* [sweet-scented ointment] Ennaint arogl-ber (per ei arogl.)

Pómander, *s.* [a sweet, *or* perfumed, ball] Pelen (pellen) bêr *neu* bêr-arogl.

Pomátum, *s.* [a sort of ointment, so called] Ennaint pêr.

To pome, *v. a.* in the Gardener's style. [grow to a round head like an apple] Crynhâu, ymgrynhâu, pen-grynnu.

Pome-citron, *s.* [a citron-apple] Aur-afal.

Pomegranate, *s.* [a grainy fruit so called] Afal gronynnog, pomgranad, *Caniad* iv. 3.

Pome-paradise, *s.* Afal paradwys.

Pome-róy, *or* pome róyal, *s.* [an excellent sort of apple so called] Afal y brenhin, ¶ brenhin yr afalau.

Pomiferous, *a.* [bearing apples, &c.] A ddygo (ddygco) afalau *neu* 'r cyffelyb aeron.

Pommel of saddle, Corwf (coryn, gwarr-glwm, ysgwydd-glwm, bôth) cyfrwy.

Pommel of a sword, Pen-clwm (globyn) cleddyf.

Pommel, *or* knob, *s.* Cnap (*pl.* cnappiau,) 2 *Cron.* iv. 12.

To pommel, *v. a.* [beat with the fist, &c.] Dyrnodio, pwyo (dyrnu) â dyrnau *neu* â chiwppa.

Pomp, *s.* [splendor attending persons in high life, &c.] Rhwysg, *Esay* v. 14. rhodres, rhwyf, rhwy; ¶ balchder, *Esay* xiv. 11. *Great pomp*, Rhwysg-fawr, *Act.* xxv. 23. ¶ gogoniant mawr, 1 *Mac.* x. 86.

¶ Pomp, [a splendid procession.] *See* Cavalcade.

To go [live] *in pomp*, Rhwysgo, rhwysfo, byw mewn rhwysg a rhodres.

Pómpets, *s.* [the Printer's ink-balls] Pelau (lngc-belau 'r) Argraphydd.

Pómpion, *or* pumpkin, *s.* Pompiwn, pwmpa.

Pompóon, *or* pompon, *s.* [a sort of ornament worn by ladies in the fore part of their hair] Tal-addurn, tâl-flodenyn.

Pómpous, *a.* Rhwysg-fawr, mawr ei rwysg, mawr-wych, mawryddig.

Pómpously, *ad.* Yn rhwysg-fawr, yn fawr ei rwysg, â (gyd â) rhwysg mawr.

Pómpousness, *s.* Rhwysg-fawredd, mawrwychedd, mawryddigrwydd, &c.

Pond, *s.* Llynn; llynwyn, merllyn.

Fish-pond: Horse-pond, &c. *See under* F. H. &c.

To pónder, *v. n.* [think *or* muse] Ystyried, 2 *Esdr.* iv. 3. ystyrio, myfyrio.

To ponder, *v. a.* [weigh in the mind, &c.] Pwyso, *Diar.* xxi. 2. ystyried, *Luc* ii. 19. ystyrio, *Diar.* v. 6.—¶ dal ar, *Diar.* v. 21. *Ponder the path of thy feet*, Ystyria lwybr dy draed, *Diar.* iv. 26. *They shall ponder his words in their heart*, Hwy a ystyriant ei eiriau ef yn eu calonnau, *Ecclus.* xxi. 17. ¶ *Doth not he that pondereth the heart consider it?* Onid yw pwyswr y calonnau yn deall? *Diar.* xxiv. 12. *Now when I considered these things in myself, and pondered them*

Digitized by Google

in my heart, how that to be allied unto Wisdom is immortality;—I went about seeking how to take Her to me, Wrth feddwl hyn ynof fy hun, ac wrth gofio yn fy nghalon mai ynghareunydd Doethineb y mae tragywyddoldeb;—mi a geisiais o amgylch pa fodd y cawn Hi attaf (yn briod:) *Doeth.* viii. 17, 18.

Pónderable, *a.* [that may be weighed] A aller (ellir) ei bwyso, i'w bwyso, bythwys, pwysadwy.

Pónder'ed, Ponderer, *&c.* *See* Considered; Considerer, *&c.*

Pónderous. *See* Heavy [weighty, ponderous.]

Pónderously, *ad.* [weightily] Yn bwysig, yn bwysfawr, yn drymmaidd.

Pónderousness, *or* **ponderósity,** *s.* Pwysigrwydd, pwysfawredd, trymmeiddrwydd.

Póniard. *See* Dagger.

To póniard, *v. a.* [stab with a poniard] Gwanu à bidog.

Póntage, *s.* [a bridge-tax, *or* bridge-toll] Trêth (toll) pont; trêth pynt (pontydd, ponnydd.)

Póntiff, *s.* [a high-priest, bishop, *or* pope] Archoffeiriad, esgob, pâb.

Pontifical. *See* Episcopal; *and* Papal.

Pontifical, *s.* [a book of pontifical rites and ceremonies] Llyfr defodau a chynneddfau 'r Pâb *neu* esgobion Eglwys Rufain.

In his pontificalibus, [robes, &c.] Yn ei harddwisgoedd (ei frein-wisg, ei ddillad gorau; ei wisgoedd esgobaidd *neu* esgobawl.)

Pontificate, *s.* Pabaeth; esgobaeth.

Pontificial, *or* **pontifical.** *See* Papal; *and* Episcopal.

Pónton, *or* **pontóon,** *s.* [a bridge of boats, so called] Yagraff-bont, pont ysgraffau.

Póny, *s.* [a small horse] Cor-farch; ceffylyn.

Pool, *s.* Pwll (o ddŵr,) llynn, llynwyn.

A standing pool, Morllyn, morlwll, merddwr.

Poop, *s.* [the upper part, *or* crown-work, of the stern of a ship] Canllaw (crib, coronwaith, corun) pen ôl llong; llyw le llong.

Poor, *a.* [in want of money *or* of the necessaries of life] Tlawd, anghenus, digyfoeth, bychodog.

Poor, [of small worth *or* value, trifling, &c.] *See* Frivolous, Insignificant, Inconsiderable.

Poor, *or* **mean.** *See* Mean [poor, &c.] *and* Abject.

Poor, [unimportant, *&c.*] *See* of little Consequence, *and* of no Consequence, *both under* C. —*and* Humble, in both its Acceptations.

Poor, *or* **wretched.** *See* Miserable, in its 1*st* Acceptation.

Poor, *or* **lean.** *See* Lean [not fat.]

¶ **Poor,** *or* infertile. *See* Infertile: *and* Meagre *or* hungry.

Poor, *a.* [an epithet expressive of tenderness] Druan. *My poor child,* Fy mhlentyn druan.

Poor man! Truan (druan) gŵr!

Poor, *or* beggarly. *See* Beggarly.

The poor, Y tlodion.

Poor on all sides, Amdlawd.

Poor, [applied to *spirits.*] *See* Low [applied to *spirits.*]

Poor, *a.* [applied to *health*] Tlawd, gwan, egwan, *&c.*

Poor, *a.* [applied to *price*] Isel, gwael, tlawd, distadl, salw, sâl.

A poor creature, Eagus gwael (tlawd, annigonol.)

¶ *A poor tool,* Gwas i bawb, truan gwr, truenyn, mwr, adyn.

A poor man, Dyn tlawd, rheiddusddyn, ¶ tlodyn; cardottyn. ¶ *Poor men* [persons] Rheiddusion.

A poor woman, Bâu (benyw, gwraig) dlawd, ¶ tlodes; cardottal.

The poor [poorer] *sort of people,* Y gwerin (gwerinos) tlodion, y tlodion gorisel, y bobl isel-radd; yr adlawiaid, gwehilion y bobl.

Poor beggarly fellows, Dynionach anghenog; ¶ plant (meibion) angen.

Poor cheer or *fare,* Ymborth tlawd (gwael, sâl, salw;) ¶ adwledd.

¶ *Poor as Job,* Cyn dlotted a llygoden eglwys.

The poors' chest, Elusen-gist.

¶ *Poor folks have few kindred,* Anaml garennydd a fydd i'r tlawd.

To grow [also *to make*] *poor,* Tlodi.

Póorly, *ad.* Yn dlawd; yn wael; yn egwan.

Poorly clothed or *clad,* Tlawd o ddillad (mewn dillad;) carpiog, clyttiog; ¶ mewn ammhar.

To look poorly in health, Edrych (diagwyl) yn anhwylus, edrych yn wael (yn wywlyd) ei wedd, diagwyl yn (bod à golwg) glafaidd *neu* glefycca arno, edrych yn wael *neu* 'n wywlyd.

Póorness, *s.* Tlodrwydd; tlodi: gwaelder, gwaeledd, gwaelni: truanedd, teneuder.

Poorness of ground or *soil.* *See* Barrenness.

A pop with the mouth, Poccyn (poc, pop) genau a arfer marchwŷr i'w medrch; mincoccaeth à'r genau.

To pop with the mouth, Poccio (poccian, poppian) à'r genau, mincoccian.

To pop [a thing] *into the mouth,* Gaethu i'r genau; tafiu i'r genau.

To pop in, Neidio (saethu, ymsaethu, ¶ tasgu) i mewn.

To pop out, Neidio (saethu, ymsaethu, ¶ tasgu) allan.

To pop out a word foolishly. *See* to Bolt out a rash expression; *and* to Blab *or* blab out.

Póp-gun, *s.* Gynnyn tegan, tegan o wnn; chwistrell.

To pop off a gun, Coeg-saethu, gollwng argyd o ynnyn.

Pope, *s.* [the bishop of Rome] Pâb, esgob Rhufain. *The Pope,* Y Pâb.

The popedom, *s.* Y pabaeth, y babaeth, esgobaeth Rufain.

Pópery, *s.* Pabyddiaeth, crefydd eglwys Rufain.

Pope's eye, *s.* [the gland in the middle of the thigh, so called] Cneuen (cnewyllyn) y forddwyd, ¶ llygad y Pâb.

Pópin-jay, [a Welsh parrot.] *See* Jay; ¶ Pecker *or* wood-pecker; *and* Parrot.—¶ *See also* Coxcomb, *and* Fop.

Popíniary herb, *or* jealousy, *s.* [in Botany] Llysiau'r eiddigedd.

Pópish, *a.* [of, *or* belonging to, the Pope *or* the Roman-catholic religion] Pabaidd.

Popishly affected or *inclined,* Yn ysgwyddo (yn gogwyddo, yn ystlysu, a'i ysgwyddiad *neu* ogwyddiad) at y Pâb *neu* at y grefydd babaidd.

Póplar, *or* a poplar tree, *s.* Poplysen, poplyswydden, pren poplys.—*Poplar-trees,* Poplys, poplyswydd, coed poplys.

A poplar-grove, or a grove of poplars, Poplyslwyn, llwyn poplys.

Digitized by Google

Black poplar, *s.* Pwmpleren.
White poplar, *s.* [an asp-tree *or* aspin-tree] Aethnen, aethwydden, pren aethnen. *White poplar-trees,* Aethwydd, aeth-goed.
Poppy, *i. e.* garden poppy, *s.* [in botany] Llysiau'r cwsg, pabi dof.—*Poppy,* Pabi.—*Corn-poppy,* Pabi côch yr ŷd.
Pópulace, the populace. *See* the common people, *under* C.
The meaner populace. See the Poor [poorer] sort of people, *under* Poor *above.*
Pópular, *a.* [of, *or* belonging to, the common people] Eiddo'r gwerin *new*'r gyffredin bobl; perthynol (a berthyn, yn perthyn) i'r gwerin *neu* i'r cyffredin bobl: eiddo'r bobl, perthynol (a berthyn, yn perthyn) i'r bobl.
Popular, *a.* [approved of, *also* beloved by, the people] Cymmeradwy gan (a rvngo fodd *neu* a fo wrth ŷdd) y bobl; hŏff (gorhoff) gan y bobl *neu* gan y werin, a fo hoff (gorhoff) gan y bobl *neu*'r werin, mewn parch gyd â'r werin.
Popular, *a.* [suited to the capacity of the common people] Cyfaddasedig (a gyfaddaswyd, wedi ei gyfaddasu) i ddëalltwriaeth y gwerin *new*'r bobl gyffredin.
¶ Popular, *a.* [studious of the favour of the people] A ymgais (a fo'n ymgais) ag ewyllys da a chariad y bobl.
Popular, *or* epidemic. *See* Epidemic.
Popularity, *s.* [a being popular *or* in favour with the people] Hoffedd y bobl *neu*'r werin tu ag at un, cariad ac ewyllys da y bobl, ffafr y bobl *neu*'r werin, cymmeriad (y cymmeriad a fo i'r neb a'i coleddo) gyd â'r bobl.
Pópularly, *ad.* [in a popular manner, &c.] Yn y cyfryw fodd ac y fo cymmeradwy gan y bobl; yn ôl dull a modd y bobl: gyd ag ewyllys da a chariad y bobl, &c.
To populate, *v. a.* [breed *or* increase people] Pobli, poblogi, anghwanegu (magu) pobl, ¶ hilio.
Populátion, *s.* [the state of a country, with respect to the number of its people] Pobliad; poblogaeth.
Pópulous, *a.* [abounding in, *or* full of, people] Poblog, llawn pobl (o bobl;) hyddyn; tylwythog, *Nah.* iii. 8. aml, *Deut.* xxvi. 5.
Pópulousness, *s.* Poblogrwydd, amledd (amlder, lliosogrwydd) pobl.
Pórcelain. *See* China *or* china-ware.
Porch, *or* vestibule, *s.* [before the door of a house, &c.] Porth, rhag-tŷ, cynnor, cyn-dŷ. ¶ *The porches of the court,* Drysau'r cyntedd, *Ezec.* xli. 15.
A porch, *or* portico. *See* Portico.
Pórcupine, *s.* [a little animal of the hedge-hog-kind, so called] Rhyw fath ar ddraenog, *vulgò* porciwpin.
Pore, *s.* [one of the small apertures in the skin by which perspiration, both perceptible and imperceptible, is performed] Chwysdwll, un o fândyllau'r croen. *The pores,* Y chwysddyllau, ¶ yr ymgorau.
To pore, *v. n.* Edrych yn graff, &c. *See*
To pore upon, Edrych yn graff (syllu, sylliaw, tremio) ar, &c.
Póre-blind, *a.* Dall gan syllu, clb-ddall, coeg-ddall.
Póriness, *s.* Tyllogrwydd, chwysdyllogrwydd.
Pork, *s.* [swine's flesh distinguished from, *or* not cured and dried as, bacon] Cig (ir-gig) glas-fochyn, cig (ir-gig) tyrchyn *neu* dyrches, cig porcyn, *vulgo* cig porc.
Pórker, *s.* [a pig fit and designed for pork] Mochyn porc.
Pórket, *or* porkling, *s.* [a young hog fit and intended for pork] Porcyn; porchellyn.
Porósity, *or* poronsness, *s.* [the quality of abounding with pores.] *See* Poriness, *above.*
Pórous, poróse, *or* pory, *a.* [abounding with, *or* full of, pores] Chwysdyllog, llawn mandyllau *neu* chwysdyllau, llawn o chwysdyllau *neu* fan-dyllau, llawn ymgorau; tyllog.
Pórphyry, *or* pórphyre, *s.* [a species of marble of a reddish cast, flecked with white] Math ar faen mynor gwelw-goch gwynn-fannog.
Pórpoise, *or* pórpus, *s.* [the sea-hog] Môr-hwch, mor'wch, môr-fochyn; moelrhon *(quære.)*
Porráceous. *See* Leek green.
Porrection, *s.* [the act of reaching forth] Ystyniad allan.
Porridge, *s.* [pottage, *or more properly* leek-pottage] Cawl, cawl cennin.
A porridge-dish, *s.* Dysgl gawl.
Pórridge-pot, *s.* Crochan cawl.
Pórridge-belly, *or* porridge-monger, *s.* Cawlwr, potteswr; cawlai.
Porringer, *s.* [a dish out of which porridge is eaten] Dysgl (ffiol) gawl; ffiol fresych.
Port, *s.* [a haven] Porthladd.
Port, *s.* [for a great gun in the side of a ship] Twll (rhwyll) gwnn yn ystlys llong.
Port, *s.* [gate of a city] Porth dinas.
Port, *s.* [carriage, &c.] *See* Carriage (in its 8*th* *and* 9*th* Acceptation,) Mien, &c.
Port, *or* port-wine, *s.* [a sort of wine, so called from Oporto in Portugal] Gwin Oporto.
To port, *or* carry. *See* to Carry.
The Porte, *s.* [the court of the Grand Seignior] Llŷs ymerawdr y Tyrciaid.
Pórt-vein, *s.* Gwythen fawr yr afu.
¶ *Port,* or *helm a port,* [a sea-term] Trol'r (tröad y) llyw tu â thu assau'r llong.
Pórtable, *a.* [that may be carried *or* borne] A aller (ellir) ei ddwyn *neu* gludo; hyddwyn, hyglud, dygadwy, cludadwy.
Pórtableness, *s.* Hygludedd.
Pórtage, *or* pórterage, *s.* [the price of carriage] Tâl clûd (am glûd,) arian clud, arian porth.
Pórtage, *or* pórt-hole. *See* Port, in its 2*nd* Acceptation.
Pórtal, *or* gate, *s.* Porth, cyn-ddrws, cyn-ddor.
¶ Pòrtal, *s.* [before a door] Rhag-borth.
Pórtance. *See* Port, in its 4*th* Acceptation.
Pórtative. *See* Portable
Portcúllis, *or* portclúse, *s.* [a harrow-like machine suspended over the gate of a city, &c. to be let down to keep out the assailants, when they have burst open the gate] Og gwlis, porth-cwlis.
To portcúllis, *v. a.* [bar *or* shut up with a portcullis] Cau ag ôg gwlis.
Pórted, *a.* [borne in a solemn manner] Uchelddwyn, uchel-borth, uchel arweddog. *The ported spear,* Y wayw uchel-arweddog.
To portend, *v. a.* [fore-token, presage, shew before, &c.] Arwyddoccâu peth cyn ei ddamweinio, rhag-arwyddo, argoelio, rhag-argoelio, arwyddo ym mlaenllaw, rhag-arwyddoccâu, rhagddangos, rhagddewinio, darogan.
Portended. *See* Boded.

Digitized by Google

A portending, or portension. See a Boding.
Portent. *See* Omen, Foretoken.
Portentous, [ill-boding, *or* foretokening something ill.] *See* Ominous.
Porter, [door-keeper, &c.] *See* Gate-keeper, *&c.*
The porter's lodge, Ystafell y porthor, porthordy.
The porter's office, Porthoriaeth.
Porter, *s.* [one whose employment is to carry burdens] Dygwr (dygydd, dygiedydd, dygiwdr) beichiau *neu* lwythau, arweddwr.
¶ Porter, *s.* [a liquor so called, in high request in London among *porters, &c.*] Math ar ddiod frag mewn mawr gymmeriad ym mysg arweddawdwŷr Llundain; ¶ arwedd-lynn, diod arwedd.
Porterage, *or* porters' wages, *s.* Hûr, (tâl, cyflog) gweision ysgwydd-ddwyn *neu'r* ha a gludant ar ysgwydd.
Portgisaive, *s.* [a sword-bearer before a prince *or* magistrate] Arweinydd (arweddawdr) y cleddyf, arweinydd y teyrn-gledd (y breingledd,) un a fo'n arwain cleddyf o flaen uchel-swyddog, gweinidog cleddyf-ddwyn.
Port grave, *or* portgreve, *s.* [the chief magistrate in some maritime towns, so called] Porth-lyw, llywydd y porth.
Pórt-holes, *s.* [in a ship] Tyllau'r gynnau *neu'r* cyflegr yn ystlysau llong.
Pórtice, *s.* Rhodfa ddiddos (golofnog.)
Pórtion, *or* share, *s.* Rhan, rhandwy, cyfran.
¶ *Man is wholly God's own possession*, Eiddo Duw yn hollawl yw dyn.
¶ *A portion* [parcel] *of ground*, Rhandir.
¶ *A portion or share*, [of an inheritance, in the division of lands according to the custom of Gavelkind] Rhandir, ? *Bren.* ix. 10.
A portion, *or* piece. *See* Part [a piece of any thing.]
Portion, *or* lot, *s.* Rhan, cyfran, &c. *Let the portion of a sinner fall upon her*, Syrthied coelbren pechadur arni hi, *Ecclus.* xxv. 19.
Portion, *or* allowance. *See* an Allowance [a certain rate, &c.]
A portion measured out, Dogn, cyfran fesurol.
¶ A portion, *or* present, *s.* Anrheg, *Esth.* ix. 22.
Portion, *or* dowry. *See* Dower.
Having a portion. See Dowered.
Having no portion. See Dowerless.
To pórtion, *v. a.* [a daughter, &c.] Gwaddoli.
To portion, [divide into portions.] *See* to Apportion; to Allot [distribute by lot, &c.] to Parcel, *&c.*
Portioned, *or* dowered, *a.* Gwaddoledig, a waddolwyd, wedi ei gwaddoli.
Pórtioner. *See* Distributer, *and* Divider.
¶ *Like portions*, Rhan am ran, *Deut.* xviii. 8.
Pórtliness, *s.* [stateliness of port *or* mien] Gwychder (hoywder) gwèdd; tegwch diwygiad; trawd uchel-wych, uchelder trawd.
Pórtly, *ad.* [of a stately, *or* stately of, port *or* mien, &c.] Gwych (hoyw-wych, hoyw, uchel-wych) ei wèdd; têg ei ddiwygiad; uchel ei drawd.
Portmánteau, *s.* [a kind of chest *or* trunk, in which clothes are carried on a journey] Isgil-gist, cochl-gist.
Pórtmote, *s.* [a court held in sea-port towns] Porthlys, llys porth-dref.
Pórtrait, *or* portraiture, *s.* [a picture *or* resemblance drawn from the life] Llûn dyn, &c. portreiad.
To pórtray, *v. a.* Tynnu llûn peth, portreiadu, &c.
Pórtsale, *s.* [the sale of a commodity in a port *or* harbour] Gwerthiad nwyf yn y porthladd, ¶ porthwerthiad, porthwerth.
Pose, the pose, [a rheum in the head.] *See* Mur.
To pose, *v. a.* [puzzle with questions, &c.] Dyrys-holi.
Póser, *s.* Dyrys-holwr, dyrys-holydd.
Posítion, *s.* [the act of placing, the state of being placed; situation] Dodiad, cyflèad, gosodiad, gosod, sefydliad; ystum; cyflwr; trefniad.
Position, *s.* [the thesis of an argument, *or* a principle laid down] Gosodediaeth; testun, sail (defnydd) dadl *neu* ymadrodd.
Positional, *a.* [of the nature of position] Dodiadol, cyflèadol, gosodol.
Positive, *a.* [having the nature *or* quality of a position; capable of being affirmed] Gosodedigol; gwiriedigol, haeredigol, a aller (eilir) ei wirio *neu* haeru; sicer, diau.
Positive, *or* peremptory, *a.* Pendant, *&c.*
The positive degree, Y gyssefin rhâdd. ¶ *An adjective of the positive degree*, Enw gwan gwastad.
Positively, *ad.* Yn wir ddiau, yn bendant.
Positiveness, *s.* [actualness] Gwiriedigolrwydd, sicerwydd, dieurwydd.
Positiveness, *or* positivity, *s.* Pendantrwydd.
Positure. *See* Position, in its former Acceptation.
Pósnet, *s.* [a sort of skillet so called] Math ar grochenyn, padellan dân, efydden.
To possess, *v. a* Meddu, meddiannu, perchennogi; bod ar ei helw, bod yn eiddo; mwynhâu; goresgyn; etifeddu, *Gen.* xxiv. 60. bod i un beth, &c.
To possess [fill] *one with notions* or *a notion*, Peri i un goelio (gredu *neu* dybied, llenwi un o ryw dŷb *neu* dybiau, dysgu (peri) i un feddylied rhyw beth na bo gwiw iddo, perswadio un, &c.
To possess before, Rhag-feddiannu, rhag-oresgyn, &c.—cymmeryd (achub) o flaen arall, rhag-achub.
Possessed, *a.* Meddiannedig, a feddiannwyd, wedi ei feddiannu.
Possessed [in possession] *of*, Yn mwynhâu, mewn (yn y) meddiant o, mewn (yn y) mwyniant o, yn meddu, &c.
¶ *To be fully possessed of* [fully understand] *a thing*, Cwbl ddyall (amgyffred) peth.
Possessed with a devil or an evil spirit. See Demoniac; *and* a Demoniac.
¶ *One possessed with an evil spirit of prophesying*, Chwilliog: *fem.* chwillioges.
Possessing, *part.* Yn meddu, yn meddiannu.
Possession, *s.* [the having in one's hands *or* power] Meddiant, mwyniant, perchennogaeth.
Possession, *pl.* possessions, (the thing *or* things possessed *or* enjoyed by a person] Meddiant *pl.* meddiannau,) pethau ar helw un; ¶ cyfoeth, *Gen.* xxvi. 14.—etifeddiaeth, *Gen.* xvii. 8. dâ, *Mat.* xix. 22.—tîr, *Act.* v. 1. tiroedd, *Act.* xxviii. 7.
¶ Possession, in Law [entry upon an estate] Goresgyn.—*To have possession* [livery and

Digitized by Google

seisin] Cael goreagyn (*yadyn.*)—*To take possession*, Cymmeryd goreagyn.—*To be in possession*, Bod mewn goreagyn.—*One put in possession*, ¶ Ysdynnol.—*Unjust possession*, Cam-oreagyn.

To put in, or give possession. See to give Livery *and* seisin *(under* L.) &c.

To put out of possession, Bwrw allan o oreagyn.

To take possession. See to Enter on *or* upon an estate; *and* to Enter upon an office: *both under* E.

To deliver [give] *up possession*, Ymadael â'i oreagyn, rhoi i fynu ei feddiant (ei oreagyn.)

Long possession, Hîr feddiant.

In possession of, Mewn meddiant (goreagyn) o; yn meddu, yn meddiannu, &c.

In one's possession, Yn meddiant un. *In my possession*, Yn fy meddiant (fy llaw *neu* fy nwylaw) i.

In actual possession of, Gwir-feddiannol o.

Belonging or pertaining to possession, Meddiannol, perthynol (a berthyn) i feddiant *neu* berchennogaeth, perchennogaethol.

Posséssive, *a.* [denoting, implying, *or* relating to, possession] Meddiannedigol; meddiannol; perchennogol, perchennogaethol; meddedigol, meddedigaethol.

Posséssor. *See* Owner, &c.

Póssessory, *s.* [relating to a possessor, &c.] Meddiannyddol, perchennawl, perchennogol, meddiannol.

Pósset, *s.* Meidd-lynn dïod (ewrw) a llaeth, possel, posset. *Treacle posset.* Possed triagl. *Posset curds*, Caws possed. ¶ ffacced.

Possibility, *s.* Posibirwydd, gallueiddrwydd, dichoneiddrwydd, galla bod o beth.

Póssible, *a.* Posibl, *Mat.* xix. 26. gallusaidd, a allo (ddichon) fod. *If it were possible*, Pe byddai (o bai, pe bai) bosibl: ¶ os gellid; os gallent, *Act.* xxvii. 39.

As far as possible, I'r (hyd yr) eithaf; hyd y gellir. *See* As (in its 3rd Acceptation; *and* as Far as, *under* F.

Not possible, Amhosibl, *Heb.* x. 4.

Póssibly, *ad.* [perhaps, &c.] Ef allai, &c. ¶ *If I can possibly*, [by any means] Os gallaf mewn un modd.

Post, *s.* [a piece of timber set up erect] Pôst, post. ¶ *A directing post*, Mynag-bost.

Post of a door, *or* door-post. *See* Jamb, *and* Door-cheek.

Post, *or* Pillar. *See* Pillar, &c.

¶ Post, *s.* [to which a cow, &c. is tied] Pôst, buddel, buddelw (*pl.* buddel-wydd) buddal.

Post, *s.* [a hasty messenger] Brys-negesydd, ¶ rhedegwr, *pl.* rhedegwŷr,) *Jer.* li. 31. ac *Job* ix. 25. cennad yn rhedeg, *Doeth.* v. 9.

Post, *s.* [that carries letters] Llythyr-was, ¶ rhedegwr, (*pl.* rhedegwŷr,) 2 *Cron.* xxx. 6. *vulgo* pôst.

Post, [a military station, &c.] Gorsaf, &c. safle, ¶ lle.

Post, *or* office. *See* Office (in its 1st Acceptation;) *and* Employment.

To post it, post away, or *ride post*, Mynedar ddyfrys (ar redeg, ar y gyrsiau, yn nerth traed ceffyl;) gyrru yn ebwyrn, &c.

To post, *v. a.* [fix, *or* place] Sefydlu, cyflëu, rhoi (gosod) mewn lle *neu* mewn gorsaf.

To post one's self in a place, Ymsefydlu, ymlechâu, ymgyflëu, ymormesu.

To post a book of accounts, [transcribe the several articles, and enter them on their proper sides in a Ledger] Ysgrifennu (tynnu, copïo) amrywiol sannan *neu* bynciau cyfrifon allan o annhrefn y Dydd-lyfr, a'u rhoi yn drefnus yn eu llëoedd priod mewn Gorsaf-lyfr; cyflëu (trefnu, desparthu) llyfr cyfrifon.

To post, *v. a.* [fix on a post, as *public notices*] Rhoi ar bost, *vulgo* postio; *Met.* cyhoeddi, peri (gwneuthur) yn gyhoedd, gyrru ar gyhoedd (¶ ar gyrn a phibau.)

To post one for a coward, Cyhoeddi un yn llwrfwas (yn gil-gi) yng'wydd y byd.

To post up a writing in some public place, Rhoi ysgrifen ar bost (postio ysgrifen) mewn rhyw gyhoedd-fan.

Póstage, *s.* [money paid for a letter, &c.] Tâl am ddwyn llythyr, ¶ tâl am lythyr, llythyr-doll.—*To pay postage*, Talu am ddwyn llythyr; ¶ talu am lythyr.

Póst-boy, *s.* Llythyr-was.

Póst-date, *s.* [a date subsequent to the real time of a writing *or* transaction] Hwyrddyddiad, is-ddyddiad, ol-ddyddiad, dyddiad hwyrach *neu* is nâ'r gwir.

To postdate a writing, Hwyr-ddyddio (is-ddyddio, ol-ddyddio) ysgrifen; dyddio ysgrifen yn hwyrach neu 'n ddiweddarach nâ'r gwir.

Postdiluvian, *a.* [after the deluge] Ar ôl y (wedi 'r) diluw.

Póst-doctor, *s.* Coeg-feddyg.

Posted in a place, Gosodedig (a osodwyd, wedi ei osod) mewn gorsaf *neu* saf-le: sefydledig mewn lle.

Posted on one's guard, Cyflëedig (sefydledig) yn ei orsaf *neu* wiliadwriaeth.

Postérior, *a.* [to] Olaeh (nâs) yn ol (i;) hwyrach, diweddarach; is; gwaelach, salwach.

Posteriórity, *s.* Olafedd, olafneth, olachrwydd, &c.

Postérity, *s.* [the future generation of men] Y to (y do, ¶ y byd) a ddel ar ol, y to (y do) a ddêl, y to (y do) nesaf, y rhai a ddel ar ein hol *neu* yn ein lle, plant ac ŵyrion; ein plant a'n hwyrion, yr oliaid, ein holiaid, ¶ adian; hil, hiliogaeth.

Post-haste, Rhedeg-frys. *He came post-haste*, Efe a ddaeth ar redeg-frys (ar redeg, dan redeg, yn nerth traed ei geffyl.)

To make post-haste, Rhedeg-frysio, brysio yn nerth traed a'r gwadnau.

In post-haste, Ar redeg-frys, ar (dan) redeg, mewn mawr-frys.

With post-haste, Yn nerth traed y ceffyl (ei geffyl,) yn nerth y traed (ei draed,) yn nerth y traed a'r gwadnau; ¶ ar ddŵr ac ar wynt.

A post-horse, *s.* Gyrr-farch, brys-farch.

Póst-house, *or* post-office, *s.* Llythyr-dŷ, llythyrfa.

Pósthumous, *a.* [born after the interment of its father, &c.] Genedig (a aner, a anwyd, wedi ei eni) ar ol claddedigaeth, *neu* wedi marw, ei dad; ¶ a gyhoeddwyd (a argraphwyd) ar ol eladdu, *neu* yn ol marw, ei awdur.

Postílion, *s.* [that rides on one of the formost pair of horses in a carriage] Rhag-farchog

Digitized by Google

corbyd, vulgo postillwn. *Postilion*, Rhagfarchogion.

Pôst-master, *s.* Ceidwad llythyr-dŷ, llythyrwr. ¶ *The postmaster general*, [that presides over the letter-carriers, *or* posts of the kingdom] Pen-llythyrwr y deyrnas.

Postmeridian, *a.* [past the meridian, in the afternoon] Wedi canol (banner) dydd, prydnawnol, yn y prydnawn. ¶ *Postmeridian work*, Prydnawn-waith, gwaith prydnawn.

To postpône, *v. a.* [set behind, *or* make less account of, &c.] Gosod (bwrw, gadaw) yn ol neu isgil, isgilio, gwneuthur llai pris o; esgeuluso.

To postpone, [put off to a future day, &c.] *See* to Defer, to Delay.

Pôstscript, *s.* [an appendix to a letter, &c.] Olysgrifen, ol-'sgrifen, ol-'sgrif, ol-ymadrodd; yr anghwaneg a fo yn niwedd llythyr, neu yn niwedd llyfr, ar ol y pen-glo.

Pôstulate. *See* Demand.

To pôstulate. *See* to Demand.

¶ Postulate, *or* postulâtum, in Mathematics, [an almost self-evident position, in support of which no proof is offered] Gosodiad (gofynniad) diymwad; gofyn rheaymmol i'w gaabiadu; gosod (gofyn, cymmeriad) cyfs addef; dibrawf-gymmeriad.

Postulâtion. *See* a Demanding: *and* ¶ Postulate, in its latter Acceptation.

Pôstulatory, *a.* [of a demanding nature *or* quality] Gofynnedigol: dibrawf osodedigol.

Postulâtum. *See* ¶ Postulate, *above*.

Pôsture, *s.* Munud, ystum, safiad, sefyll-wedd. ¶ *In its several postures*, Yn ei amryw luniau (ystumiau.)

Posture of the mind. See Frame [state, temper, &c.] of the mind, *under* F.

Posture of affairs. See Conjuncture, in its 3rd Acceptation.

¶ *The posture* [state] *of one's affairs*, Helynt un.

Pôsture-master, *s.* [that throws himself into surprising attitudes, &c.] Munudiwr: llamkidydd.

Posy [motto, *or* legend] *of a ring*, Arwyddwers (arwydd-air, testun) modrwy.

Pot, [to drink out of.] *See* Cup.

Pot, *s.* [for boiling victuals in] Crochan, crochen.

An earthen pot, *s.* Crochan pridd.

A little pot, *s.* Cwppenyn: crochenyn.

A wâter-pot. *See* Ewer.

A wâtering-pot, *s.* Llestr (crochan, cannog) dyfru; ystên ddyfru.

¶ *To go to pot*, [go to ruin, &c.] Myned i ddistryw, darfod am dano.

To pot pigeons, &c. [preserve in pots *or* pans] Crochenu.

Pôt-ashes, *or* pot ash, *s.* [a main ingredient in the composition of soap] Golch-ludw, trwythludw, lludw sebonog.

Pot-Companion; pot-Hangers, *or* pot-Hooks; pot-Herbs: pot-Lid, *&c. See under* C. H. L. *&c.*

Pôt-sherd, *s.* [a fragment of a broken pot] Priddell, *Esay* xlv. 9. darn (dryll, *dim.* derynn, dryllyn) o lestr pridd, *Diar.* xxvi. 23. priddlestr, *Salm* xxii. 15. cragen, *Job* ii. 8. ¶ crwtsiwn.

Pôtable. *See* Drinkable.

Potâtion. *See* Drink: *and* a Drinking.

Potâtoes, *s. pl.* [sing. *potatoe* or *potato*] Aeron y ddaear, *vulgo* pytatwys (*sing.* pytaten.)

To poteh, *or* poke, *v. n.* Pwttian, ¶ cerddi, pwt gorddi.

Pôtency, *or* pôtence. *See* Might.

Pôtent; more Petent; *and* most Potent. *See* Mighty; Mightier; *and* Mightiest.

¶ Potent, potence, *or* cross potence, in Heraldry [a figure resembling the top of a crutch] Bagl-groes, llân pen ffon fagl.

Pôtentate, *s.* [one possessed of power, as a sovereign prince] Un a'r y mae iddo allu ac awdurdod, ¶ pennaeth, 1 *Tim.* vi. 15. pennadur. ¶ *Potentates*, Cedyrn, *Ecclus* x. 24.

Poténtial, *a.* [implying, *or* expressive of, power] Gallŵus, gallnol; galluogol, gallnedigol. *The potential mood*, Y modd gallnedigol.

Potentiâlity, *or* poténtialness, *s.* Gallausrwydd, galluolrwydd.

Poténtially, *ad.* Yn allaus, yn allnol; yn alluogol.

Pôther. *See* Bustle, in both its Acceptations.

To pôther. *See* to Bustle.

Pôtion, *s.* [a physical draught, *or* medical drink] Diod (trangcell o ddiod) feddygol (feddyginiaethol,) diod feddyginiaeth, meddyg-lyn; llynn, llymmeidlyn. ¶ *Love-potions*, Diodydd swyn serch.

Pôttage. *See* Broth.

Pôtter, *s.* [a maker, *also* a seller, of earthen ware] Crochenydd, priddawr, gweithiwr (gwerthwr) llestri pridd, crefenydd, gweithiwr gwaith pridd, ¶ llaniwr, *Esay* lxiv. 8.

Potter's clay. *See under* C.

The potter's trade, Crochenyddiaeth.

Potter's ware. *See* Crockery.

Pôttinger. *See* Porringer.

Pôttle, *s.* [half a gallon] Hanner galwyn, dau (mesur dau) chwart; pedwar pwys o beth gwlŷb.

Pôt-valiant, *a.* [valiant in one's cups] Cadarn (gwrol) yn ei gwrw, dewr mewn diod.

Pôtulent. *See* Drinkable.

Pouch. *s.* [a little bag *or* pocket] Codeu, côd.

¶ Pouch, *or* belly. *See* Belly.

To [put in a] pouch, *v. a.* Codeuu, rhoi (dodi) yng'hoden.

To pouch the mouth. See under M.

Pôuch-mouthed, *a.* Min-grwn, min-grych.

Póverty, *s.* Tlodi, llymder (llwmder,) angen, eisiau.

¶ Poverty, *or* meanness. *See* Meanness.

¶ Poverty, *or* scarcity, *s.* Prinder; an-amledd.

Pouldavis, *s.* Hwyl-llain, llïain hwylian.

Poult, *or* polt. *See* Blow, *and* a hit *or* stroke.

To [give one a] poult, *v. n.* Rhoi ergyd (cts; ysgŵd,) i un; taraw, taro.

¶ Poult, [a chicken] Cyw. *A turkey-poult*, Cyw twrci, twrci ieuange.

Pôulterer, *s.* [one who keeps fowls to sell] Ieir-wr(aig) *sef* y neb a gadwo iair, hwyaid, gŵyddau, a'r cyffelyb adar gwâr-ddofion, i'w gwerthu.

Pôultice, *s.* [a well-known sort of application used to assuage swellings *or* inflammations] Sugaethau, plastr llysiau; Hŷs-blastr; cymmysg o amryw bethau (o lysiau neu ddail berw a'r cyffelyb) a roir yn wlŷb wrth chwydd neu friw neu ancell.

Digitized by Google

Póultry, *s.* [tame *or* domestic fowls so called] Pob math ar adar gwâr-ddofion a llaw-faeth (*megis* iair, hwyaid, gwyddau, &c.)

The poultry, *s.* [the fowls-market, *or* place where poultry is sold] Marchnad yr adar (y iair, yr hwyaid, y gwyddau, a'r cyffelyb adar gwâr-ddofion; yr ieirfa, yr adarfa.

A poultry house, *s.* Ieir-dŷ, adar-dŷ, tŷ'r iair.

Pounce, *pl.* pounces, [the talons of a hawk, &c.] Yspagau (*sing.* yspag.)

Pounce, *s.* [gum-sandarach-powder for curing sinking paper so as to make it bear ink] Powdr pann.

To pounce, [seize with the pounces *or* talons.] *See* to Gripe, in its 3*rd* Acceptation.

To pounce paper, [cure its sinkingness with pounce] Rhoi powdr pann ar bapur oflyd a gwagsaw, i'w sadhau a'i heri yn ddurfing; rhwbio à phowdr pann.

¶ *To pounce silk*, &c. [make holes in it for ornament with a pouncing iron] Taraw-dyllu, try-dyllu, pawns-dyllu, *vulgo* pawnsio.

Pounced, *a.* [having, *or* armed with, pounces *or* talons] Yspagog, crafangog, a'r y mae iddo yspagau *neu* grafangau.

Pounced, *a.* [as paper] Rhwbiedig à phowdr pann.

Pounced, *a.* [as silk, stuff, &c.] Pawnsiedig, a bawnsiwyd, wedi ei bawnsio.

A pouncing-iron, *s.* Pawnsiedydd, haiarn pawnsio.

Pound, [in weight] Pwys. *Two pounds*, Dau bwys, deu-bwys.

Pound, in money [consisting of 20 shillings sterling] Punt. *Two pounds*, Dwy bunt.

Pound, *s.* [for confining trespassing *or* strayed cattle] Ffald, gwarchae, carchar anifeiliaid.

To pound, [beat in a mortar with a pestle.] *See* to Beat [bruise, pound, *or* reduce] to powder; to Bray; *and* to Bruise.

To pound cattle. *See* to Impound cattle.

Pónudage, *s.* [a certain deduction from every Pound Sterling made and allowed for prompt payment, &c.] Tâl (treth) punt; *scf*, tâl *neu* dreth o swllt (*neu* ddau *neu* dri, &c.) yn y bunt, a delir yn wobr am arian parod (ar law,) *neu* yn ardreth i'r brenhin, &c.

Póundage, *s.* [a pound-keeper's fee] Arian (tâl) gwarchae, *vulgo* ffîs, ffald.

Pónded, *a.* [with a pestl, &c.] Pwyedig, maluriedig.

Póunded, *a.* [as cattle are] Ffaldiedig.

Póunder, *s.* [that pounds *or* beats any ingredient in a mortar] Pwywr, pwyedydd, cymmhwywr, cymmhwyedydd, maluriwr.

¶ Póunder, *s.* [that weighs a pound; *also* that carries a ball weighing a pound, applied to a cannon] Un-pwys. *A ten pounder*, [a cannon carrying a ten-pound-ball] Dryll (cyflegr) deg-pwys ei belen, ¶ deg-pwys.

A pounding. *See* a Beating; *and* a Bruising.

To pour, *v. a.* Tywallt, tywall, gwallaw, dywallaw; gwehynnu, gwahennu.

To pour about, Amdywallt.

To pour abroad, Tywallt ar lêd.

To pour again, Ail-dywallt, tywallt eilwaith (drachefn.)

To pour back, Tywallt yn ôl, atdywallt.

Singer, *s.* Canwr, cenydd, caniedydd, cantor, ceiniad, canu-wr, canen-wr, cethlydd: ¶ cerddor (*fem.* cerddores, *p.* cerddorion,) 1 *Chron.* xv. 19. ¶ *A sweet* [tuneable] *singer*, Cynghaneddwr. *Men-singers and women-singers*, Cantorion a chantoresau, *Eccles.* ii. 8.
A singer of [the] *descant*, Pyngciwr, a byngcio mewn cerdd: a gano fesur byrr a atteb i fesur hir mewn cerdd; a gano feinllais i atteb y byr-don.
Singing, *part.* Yn canu, gan (dan) ganu. ¶ *Singing men and singing women*, Cerddorion a cherddoresau, 2 *Sam.* xix. 35. cantorion a chantoresau, 2 *Chron.* xxxv. 25.
A singing, *s.* Cariad, cathliad: cân, *Esay* xxxv. 2. cerdd, 1 *Chron.* vi. 32. canu. ¶ *A voice of singing*, Llêf gorfoledd, *Esay* xlviii. 20.
A singing in tune, or *sweet singing*, Cynghanedd, &c.
A singing together in one tune. *See* Concent.
Singing boys, *part.* [choristers] Bechgyn y côr (y gân.)
A singing loft or *gallery*, Llofft y gân.
A singing man, Cantor; cerddor. *A singing woman*, Cantores, cerddores.
A singing master, Meistr ysgol ganu, cân-feistr.
A singing place, Canfa, lle'r gân.
A singing school, Ysgol ganu.
Single, *a.* [not double; only one] Sengl, annyblyg, annwbl, diddyblyg, diddwbl, unplyg (*potius* ammhlyg,) syml (*fem.* seml,) *Mat.* vi. 22.—unblaid; ungaingc, ungor, unhaen; un; un yn unig; unigol. unig, neilltuol, &c. *The thread is stronger twined* (i. e. double) *than single*, [Prov.] Cadarnach yw'r edau yn gyfrodedd nag yn ungor. *Not like a single medicine.* Nid megys rhyw un feddyginiaeth. *A single card*, Un garden. *A single testimony*, Tystiolaeth un yn unig. *A single house*, Tŷ unig.
A single person [not more than one.] *See* Individual.
A single [unmarried] *person*, Un gweddw (*fem.* weddw,) ammhriod, anweddog, unig.
A single life. *See* Celibacy.
A single Combat. *See* Duel.
To lead [live] *a single life*, Byw yn weddw.
A single point or *article.* *See* Particular.
To make single. *See* to Individuate.
Single, *or* uncompounded, *a.* Anghyfansoddedig, anghyfansawdd.
A single penny, Un geiniog, ceiniog yn unig, ceiniog ar ei phen. ¶ *I have not a single penny*, Nid oes gennyf môr geiniog fechan.
To single from. *See* to Separate, *throughout.*
To single out, Senglu allan; neilltuo o fysg eraill, &c.
¶ Single, *s.* [the tail of a deer] Cynffon (llosgwrn) danys.
Singled out, Sengledig, a senglwyd, (wedi ei senglu allan.
A single-hearted person, Gwr cywir (gwirion) onest.
Single-soled, *a.* [that has but one sole] Ungwadn.
Singleness, *s.* Sengledd, senglrwydd, symledd, *Act.* ii. 46. symlrwydd, *Eph.* vi. 5. symlder.
Singly, *ad.* Yn sengl, yn syml.
Singular, *a.* [that represents, *or* belongs to, one only] Unigol, unig, un unig, un yn unig, un ar ei ben ei hun, un, perthynol i un, sengl, anlliosog. *The singular number*, Y rhif unigol (unig, anlliosog.) *See* Single [—: only one,] &c.
Singular, *a.* [special, &c.] Neilltuol, *Lef.* xxvii. 2.
Singular [peerless, matchless, &c.] *See* Incomparable; Extraordinary, *and* Rare.
Singular, *or* odd. *See* Odd, in its 2nd *and* 3rd Acceptation.
Singularity, *s.* [the being singular, *or* but one] Unigolrwydd, unigrwydd.
Singularity, *s.* [uncommonness, &c.] Anghyffredinedd, anghyffredinedd, anghyffredinedd, anghyffredinedd, &c --godidowgrwydd, rhagoroldeb, rhagoriaeth.
Singularity, *s.* [an affected way of being singular *or* particular] Odrwydd, anhyfathrwydd; neilldnolrwydd.
To singularize. *See* to Particularize.
Singularly, *ad.* Yn od, yn odiaeth, yn odidog.
Sinister, *a.* [left, being on the left hand] Chwith, aswy, y (ar y) sydd ar y llaw chwith *neu* aswy; a berthyn i'r llaw *neu* i'r tu aswy; ¶ chwithig, anneheulg, annchau, anhylaw.
Sinister, *a.* [unfair, undue, unlawful] Annheg, annnion, annyladwy, anwiw, anaddwyn, anghyfreithlon.
By sinister [false] *means.* *See under* By.
¶ Sinister [unlucky, &c.] *See* Inauspicious, *and* Ominous (in its 1st Acceptation.)
Sinisterly, *ad.* Yn chwith, yn chwithig, &c.—yn annheg, yn annnion, &c.—yn ddiffawdd, yn anffawdus.
Sinistrous; *and* Sinistrously. *See* Sinister; *and* sinisterly.
To sink, sink down or *lower*, *v. n.* Disgyn, desgyn, soddi, *Salm* lx. 5. a *Galar.* ii. 9. myned (dyfod) i lawr, *neu* yn is, cwympo (syrthio) yn is, syrthio, 2 *Bren.* ix. 24. gostwng, ymostwng; llaesu, ymlaesu; gwasgu (ymwasgu) i lawr; ymollwng (i lawr;) pwyso i lawr; ishâu, issâu. *The ground sunk amazingly*, Y llawr a laesodd (a soddodd, a ymostyngodd, a ymollyngodd) yn aruthr.
To sink *or* abate, [as water, &c.] Treio, &c.
To sink [as one's spirits, courage, &c.] *See* to Fail [as one's courage:] to Fail, *v. n.* [—; sink *or* languish through fatigue;—] to Faint [—; sink down through dejection, &c.]
To sink, *v. n.* [in a fluid:] Soddi. *Salm* lxix. 2. suddo, *Mat.* xiv. 30. disgyn. *They filled both ships, so that they began to sink*, Hwy a lanwasant y ddwy long, onid oeddynt bwy ar soddi, *Luc* v. 7. *They sank as lead in the mighty waters*, Soddasant fel plwm yn y dyfroedd cryfion, *Ecs.* xv, 10. *They sank into the bottom as a stone*, Disgynnasant i'r gwaelod fel carreg, *Ecs.* xv. 5. ¶ *Thy feet are sunk in the mire*, Dy draed a lynasant yn y dom, *Jer.* xxxviii. 22. ¶ *Let him sink or swim I care not*, Bid da bid drwg iddo (nofied *neu* sodded,) ni'm dawr i.
To sink [decline, *or* be declining, as *Credit*, &c.] *See* to Dwindle, &c.
To sink, or grow low, [as a *Fire*] Myned yn isel,

Digitized by Google

nacthu, gwanhau, diffoddi, (suddo, *ar ymyl y ddalen*,) *Num.* xi. 2.

To sink [penetrate] *into*, Treiddio i, soddi yn, 1 *Sam.* xvii. 49. mynedi mewn i; ¶ meun ar. ¶ *Let these sayings sink down into your ears*, Gosodwch chwi yn eich clustiau yr ymadroddion hyn, *Luc* ix. 44.

¶ To sink *or* blot [as paper] Sugno (yfed, llyngcu) yr inge.

To sink through [as liquor.] *See* to Look out *or* through, *under* L.

To sink [bend, stoop, let one's self down, fall, &c.] *beneath* or *under*, Plygu (ymblygu, crymmu, ymgrymmu, ymollwng, llaesu, ymlaesu, syrthio) dan bwn *neu*'r cyffelyb. ¶ *He sunk under his burden*, Efe a lethwyd gan ei lwyth (gan ormod-lwyth.)

To sink down upon, Syrthio (gmollwng) ar.

To sink or *grow less*, [in the esteem *or* opinion of others] Lleihau, myned yn llai, myned lai lai; ¶ edwi, adfeilio, ammharu. ¶ *He sinks daily in the opinion of the world*, Y mae efe yn gwaeiu (yn myned waelach waelach) beunydd ym marn y byd.

To sink in one's circumstances or *fortunes*, ¶ Myned yn ol yn y byd.

To sink, *v. a.* [cause to descend *or* go to the bottom, &c.] Soddi, suddo, peri soddi, peri suddo; gyrru i'r gwaelod: peri disgyn; gyrru'n is; peri treio, &c. *He sunk seven of their ships*, Efe a soddodd saith o'u llongau.

To sink, *v. a.* [make deep by digging] Cloddio; dyfnhau. *He sunk a well*, Cloddiodd bydew.

To sink, *v. a.* [depress, &c.] Gostwng, darostwng, iselu, gorlesku, ishau; ¶ disgyn.

To sink, *v. a.* [cause to decline] Peri edwi (adfeilio, ammharu.)

To sink *or* diminish. *See* to Diminish [make less, &c.]

To sink [spend entirely, *or* make away with] *a sum of money*, &c. Treullo fel na's gwelir mwy, treulio arian gorph a llôg: coili yn llwyr (yn annyciwel, dros byth,) soddi; ¶ claddu.

¶ *To sink* [fraudulently suppress, conceal, *or* keep back] *money*, &c. Darnguddio arian, *Act.-v.* 2. cadw yn guddiedig (yn guddiadan) celu, twyll-gelu.

Sink, *s.* Carthle (carthfa) tŷ; carthle (carthfa) llong; golchfa mewn cegin; ffôs budreddi, sybwll, sugn-dwll; ceuffos, ceudwll, ceubwll, gouâf, &c. ¶ *A loathsome sink*, Budr-bwll, ffiesid-bwll. *The sink of corruption*, Llyngclyn y llygredd. *Dost thou call me impudent, who art thyself the very sink of wickedness?* A elwi di fi'n haerllug, a thi dy hun yn gronfa dyrraswch a direidi?

A common sink. *See* Common sewer, *under* C.

Sink-hole, *s.* Genau ysgarth-flos.

Sinking, *part.* [that sinks] Yn (a fo yn) soddi *neu*'n suddo, &c.

Sinking paper, *s.* Papur sugn, sugn-papur.

A sinking, *s.* Soddiad, sudd iad, &c.

Sinless, *a.* Dibechod, dibech, ammhechus, ammhechadurus.

Sinlessness, *s.* Ammhechusrwydd.

Sinner, *s.* Pechadur.

Sin-offering, *s.* Pech-offrwm, pech-aberth.

Sinoper *or* sinople. *See* red Lead *(under* L,) *and* Ruddle.

To sinuate, *v. a.* [bend in and out] Myned (plygu) i-gam ô-gam, ystumio (fal glannau afon,) dolystammo, dolennu, ymdroi (fel neidr,) myned yn fachog, dullio, ymddullio, plygu (ymblygu) yn ddulliau *neu*'n ddolennau, ymddirwyn, ymnyddu.

Sinuation, *s.* [a bending in and out] Ystumiad, dolystammad, &c.

Sinuosity, *s.* [the being full of bendings in and out] Dolennogrwydd, ystumiogrwydd, ystumiolrwydd; ¶ igam-ogammedd, igam-ogamrwydd.

Sinuous, *a.* Ystumiog, ystumiol, &c. ¶ igam-ogam.

Sinus, *s.* Mynwes; cilfach. *See* Bosom, in its 1st and 2nd Acceptation.

Sip, *s.* [a small draught] Llymmeidyn, golymmaid, *vulgo* sip.

To sip, *v. a.* [drink by small draughts] Llymmeittian, llymmeittio, go-yfed, *vulgo* sippian.

Siphon, *s.* [a sort of tube used in drawing liquors out of vessels] Arlloes-bib, pib (pibell) arlloes, pib ddyshyddu.

Sipper, *s.* Llymmeittiwr, llymmeittai, coeg-yfwr.

Sippet, *s.* [a little sop] Micas, migas, bara browes, tafell (tafellig, tenew-dam) sew.

A sipping, *s.* Llymmeittian. *I cannot abide sipping*, Ni allai aros llymmeittian.

Siquis, *s.* [a bill set up in some public place] Cyhoedd-'sgrif, cyhoedd-lythyr.

Sir, *s.* [a word of civil address] Arglwydd, *Mat.* xiii. 27. syre, *Ioan* xii. 21. syr. ¶ *Sirs*, Ha wŷr, *Act.* vii. 26. O feistraid, *Act.* xvi. 30.

Sire, *s.* [a father] Tâd, tadwys. ¶ *'Like sire, like son*, [Prov.] Mal y bo'r dyn y bydd ei lwdn.

Sirrah, *s.* Syre.

Siren. *See* Mermaid.

Sister, Chwaer, *s. pl* chwïorydd, *probably from* chwior, i. e. *equal*;) ¶ cares, *Job* xlii. 11.— ¶ *Sister in law*, Chwaer ynghyfraith. *Step-sister*, Llyschwaer.

Sisterhood, *s.* Chwaeroliaeth.

Sisterly, *ad.* [like, *or* becoming, a sister] Chwaerol, ¶ chwiorol.

To sit, *v. n.* Eistedd; gorseddu.

To sit at table, Eistedd wrth y ford (y bwrdd,) eistedd i fwytta; ¶ bod ar y bwrdd, *Cant. Salom.* i. 12. ¶ *He made them sit in the chiefest place among them that were bidden*, Efe a roddes iddynt le o flaen y gwahoddedigion, 1 *Sam.* ix. 22.

¶ *To sit* [be] *beside the cushion. See under* C.

To sit close at work, Eistedd (bod) yn ddiwyd *neu*'n ddiflin wrth ei waith.

To sit, *v. n.* [as a hen] Eistedd (ar wyau.)

To sit down, Eistedd i lawr, ¶ rhoi (bwrw) ei bwys, *(fem.* ei phwys) i lawr. ¶ *And they sat down at thy feet*, A hwy a ymlynasant wrth dy draed, *Deut.* xxxiii. 3.

To sit often or *over and anon*, Eisteddial, mynych eistedd.

To sit together, Cydeistedd, eistedd ynghyd.

To sit up, Eistedd i fynu; bod (cwnnu, codi) yn ei eistedd.

¶ *To sit up*, [watch and not go to bed] Gwylied, gwylio, cadw (cynnal) gwylnos (gwylfa) eistedd i fynu; bod ar ei draed (heb fyned i'r gwely.) *He sat up all night*, Bu (efe a fu) ar ei draed drwy'r nôs.

To sit upon one's skirts, Eistedd ar odrëon (ar gwrr pais) un; ¶ bod ar gefn un; gwasgu

Digitized by Google

(pwyso) ar un, tolu'r (gwilied odfu i dalu'r) pwyth i un; dial (ymddïal) ar un.

To sit one down, Eistedd i lawr.

To sit, *v. a.* [as the wind] Chwythu o ryw gyfr. *Which way doth the wind sit?* O ba gwrr (ba le) y mae'r gwynt yn chwythu? neu, ¶ O ba le (ba gwrr) y mae'r gwynt? *neu*, O ba le y mae ergyd y gwynt?

Site. *See* Situation.

Sith. *See* Since, *and* Seeing that.

Sithe, *or* Scythe, *s.* Pladur.

Sitter, *s.* Eisteddwr, eisteddydd, eisteddiedydd, goreisteddwr, &c.

Sitting, *part.* [that sits] Yn (a fo, neu y sy, yn) eistedd; gorseddog, gorseddol.

Sitting, *s.* Eisteddiad: eisteddfod, eisteddfa.

To do one's work sitting, Gwneuthur ei archwyl o'i (yn ei) eistedd.

That sits much, Eisteddog, goreisteddog.

That does his work sitting, Goreisteddwr.

A sitting-place, *s.* Eisteddle, eisteddfa.

Situate *or* situated, *ad.* [lying in a place, &c.] Yn (a fo, neu y sy; yn) gorwedd neu sefyll mewn lle; gosodedig; cyfleedig, &c.

To situate *or* place. *See* to Place, in its 1st Acceptation.

To be situate, Gorwedd, sefyll, trigo, *Exec.* xxvii. 3. ¶ *The forefront of the one was situate northward over against Michmash*, A safiad y naill oedd oddi wrth y gogledd ar gyfer Michmas, 1 *Sam.* xiv. 5.

Situation, *s.* Safiad (gorweddiad) lle, ystum, ansawdd, 2 *Bren.* ii. 19.—gosodiad (cyflead) peth: cyfliwr, &c. ¶ *Beautiful for situation*, Tegwch bro, *Salm* xlviii. 2.

Six, *a.* Chwech, chwe'.

Six fold, *a.* Chwe-phlyg, chwe dyblyg; chwe chymmaint.

Six hundred, Chwe-chant.

Six hundred times, Chwe-chanwaith.

The six hundredth, Y chwe-chanfed.

Six-pence, *s.* Chwe cheiniog.

Six-score, *a.* Ugain a chant, chwe (chwech) ugain. ¶ *Six-score thousand persons*, Deuddeng myrdd o ddynion, *Jonah* iv. 11.

Six thousand, Chwe (chwech) mil.

The six thousandth, Y chwe milfed (filfed.)

Six times, Chwe-gwaith.

Six times as much, Y chwe cymmaint (chymmaint.)

To yield six for one, Dwyn ffrwyth ar ei chwechfed, dwyn (rhoi) chwech am un.

¶ *At sixes and sevens*, [in disorder and confusion, &c.] Mewn annhrefn ac annibendod, heb na rhëol na threfn. ¶ *We are here at sixes and sevens*, Yr ydym ni yma mewn dyryswch ac annibendod.

Sixtéen, *a.* Un ar bymtheg. *Sixteen times*, Unwaith ar bymtheg.

Sixtéenth, *a.* Unfed ar bymtheg. *The sixteenth*, Yr unfed ar bymtheg. *The sixteenth part*, Yr unfed ran ar bymtheg.

Sixth, *a.* Chwechad, chwechfed. *The sixth*, Y chweched. *The sixth time*, Y chwechad waith.

Sixthly, *ad.* Yn chweched.

Sixtieth, *a.* Tri-ugeinfed.

Sixty, *a.* Tri-ugain, chwe-deg.

Sixty times, *s.* Tri-ugeinwaith.

To yield sixty for one, or bring forth sixty-fold; Dwyn ei dri-ugeinfed, *Math.* xiii. 23.

Sizeable, *a.* [of a good size] O faint gweddol (digonol, cymmwys, nid rhy fawr nid rhy fach;) gweddol o faint.

Size, *s.* [the bulk of a body considered as compared with that of another] Maint, maintioli, maintioliaeth; mesur, meidroldeb, 1 *Cron.* xxiii. 29. ¶ agwedd, 1 *Bren.* vi. 26.

¶ Size, *s.* [a glutinous, *or* gluish substance, so called] Lled-lud, lled-ayth, gorayth.

To size, *v. a.* [arrange *or* place according to bulk] Trefnu pethau yn ol eu maintioli; cymmeinio; mesure, cymmeryd meint peth; cymmheasnu.

To size, *v. a.* [do over with size] Lleiludio, lledaythu, rhoi lleiliad ar beth, neu â lleiliad.

Sizy, *a.* [having the nature *or* quality of size] Lleiludiaidd, lledaythaidd.

Skain, *sub.* [of thread *or* silk] Cengl, *dim.* cenglan.

To skait. *See* to Scate.

Skait. *See* Scate, in both its Acceptations.

Skean, *s.* [a short sword *or* knife, so called] Ysgïen, bidog.

Skegger, *s.* [a sort of small salmon, so called] Gaflaw.

Skéleton, *s.* in Anatomy, [the bones cleared of the flesh, put together again in their natural order, and fastened with wires at the joints] Ysgrŵd, ysgerbwd, esgyrn-gwisg, esgyrngiwm.

¶ *A mere*, [perfect] *skeleton*, Dim ond ŷ cyfan a'r esgyrn, cyhyraeth, ysgyttrych (ysgryddrych,) ¶ ysgryd, ysgeilyn (*fem.* ysgeilen.) ¶ *She is a perfect skeleton*, Nid oes ond ei lên ef.

Skep, *s.* [a corn-vessel, so called] Yd-lestr o wiail neu gawn neu bridd; cawnen, cystinen.

Skeptic, *s.* [one that doubts, *or* pretends to doubt, of every thing in religion and philosophy; a *Pyrrhonist*] Un (dyn) ammhengar; ymofynnydd, (chwiliedydd, dadleuwr, ymresymmwr, ymresymmydd) ammhengar; un a adawo (a derfyno) boh ymofyn mewn ammheuaeth ac annilysrwydd; ¶ mab yr Ammheuaeth. ¶ *Skeptics*, Meibion Ammheuaeth.

Skeptical, *a.* [of, *or* belonging to, skepticism *or* skeptics] Ammheuathawl; ammhengar.

Sképticism, *or* scepticism, [a disposition to doubt every thing] Ammhengaruch. *See* Pyrrhonism.

Sketch, *s.* [the first and rough draught of a design, &c.] Cynllun, cynddelw, brâslun, bras-gynllun; brâs-ddarlun, prawf-lun, prawf-ddarlun; cynnyg (ergyd) prawf; prawf-lin, prawf-linell, cynllinell.

To sketch, *or* sketch out, [draw the outlines of a thing] Cynllunio, cynddelwi, brasluno, &c.—tynnu cynllun.

Skewed, *ad.* Ar osgo,

Skéwer, *s.* [a wooden *or* iron pin so called, used by butchers, cooks, &c.] Gwäell (*pl.* gweyll, gwehyll, *also* gweillion,) gwahell; *vulgo* ysgiwer.

To skewer, *v. a. or* skewer up, Gwäella, gwahella rhoi (gosod, dodi) gweillion yn nheth; gweillioni.

To skid [trig up] *a wheel*, Attal olwyn rhag cwympo (ymchwélyd) ar lechwedd, *neu* rhag rhedeg yn chwyrn ar orwaered.

Skiff, *s.* [a sort of boat, so called] Ceubal, ceubol, bâd llong.

Digitized by Google

Skilful, *a.* [well skilled in a thing] Cyfarwydd, cywreinst, cyuuil, medrus, hyfedr, celfyddol, cyweithydd. ¶ *A skilful man*, Gwr doeth, *Eccles.* xxi. 15.

Skilfully, *ad.* Yn gyfarwydd, yn gywreinst, &c. ¶ *To play, or sing, skilfully*, Canu yn gerddgar, *Psalm* xxxiii. 3.

Skilfulness, *s.* Cyfarwyddyd, cywreinrwydd, cynuildeb, medrusrwydd, &c.

Skill, *s.* Medr, cynmedr, cyfarwyddyd, celfyddyd, &c.—gwybodaeth, *Eccles.* xxxvii. 3. dëall, *Dan.* i. 17.

To have skill [be skilled] *in a thing*, Medru (gwybod) peth, bod yn gyfarwydd yn nheth.

¶ *Can skill*, Medru, 1 *Bren.* v. 6. ¶ *All that could skill of instruments of music*, Pob un a oedd gyfarwydd ar offer cerdd, 2 *Cron.* xxxiv. 12.

¶ *Men of skill*, Y cyfarwydd, *Eccles.* ix. 11.

To acquire skill in, [attain to the knowledge of] *a thing*, Cael (cyrraedd) cynmedr ar beth.

Skilled, *or* well skilled, in a thing, Cyfarwydd yn nheth neu ar beth, &c.

Skillet, *s.* [a kitchen utensil well known] Cullory, peiryn, *vulgo* ysciled; posned.

To skim. *See* to Scum.

To skim still, Dibuefenu (tynnu trafen) haeth, *vulgo* ysgumio llaeth.

To skim [pass lightly *or* slightly] *over a thing*, Mynëd yn ysgafn (yn droed-ysgafn, yn llawysgafn, ar redeg) dros beth; ehedeg dros beth; mynëd dros wyneb peth.

Skimmed, *or* scummed. *See* Scummed.

Skimmed, [lightly and superficially passed over] A'r a aed drosto yn ysgafn ac yn arwynebol.

Skimmer. *See* Scummer.

Skimming. *See* Scumming.

Skimmingly, *ad.* Yn ysgafn arwynebol; dan (gan) redeg yn ysgafn dros yr wyneb.

Skin, *s.* Croen, tonn, tonnen; cenn. *He is as full as his skin can hold*, Y mae efe cyn llawned ag y dël ei groen. ¶ *He came off with a whole skin*, Efe a ddïangodd yn groen-gyfan. *It is good sleeping in a whole skin*, Da yw bod (yw dïange) yn ddïogel neu 'n groen-gyfan. *Near is my shirt, but nearer is my skin* [Prov.] Nës i mi fy nghrys na'm pais.

Thick skin, Tew-groen.

Having [that has] *a thick or hard skin*. *See* Callous.

¶ *A skin of parchment*, Llen (dalen) o femrwn.

A little skin, Croenyn, croenen.

A thin skin. *See* Pellicle, &c.

Young [tender] *skin*, Glasgroen.

¶ *The skin of a buck*, ¶ Hyddïgen, croen bwch danys.

The skin of a fox, ¶ Ystela, croen cadno.

To [strip off the] skin. *See* to Flay.

The skin over, Croeni. *See* to Close up a wound; *and* to Close up, [as a wound is said to do;] *both under* C.

¶ *To skin a flint*, [make a hard bargain, *or* stand very hard in buying] Bargenna 'n galed, gwneuthur bargen galed, ¶ blingo 'r garreg.

Skin-flint, *s.* Caled ei fargen (*fem.* ei bargen;) ¶ blingedydd y garreg.

Skink, *s.* [any thing potable] Diod. *See* Drink.

To skink, *v. a.* [serve one with drink] Hellio (gwelni) diod i un, heilio ar un, trulliо.

Skinker, *s.* Hellyn, trulliad.

Skinned over, Croenedig, wedi croeni (ei groeni.)

Skinner, *s.* [a dealer in skins: *also* a flayer] Crwynwr; blingwr, blingydd, blingedydd.

Skinny, *a.* Crbenllyd; plicnnog: plenllyd; crofenllyd: cul, uchul, tenau, truan.

Skip, *s.* [a leap *or* bound] Naid, crychnaid, llam; moelystod, &c. *See* a Bound *or* bounding [jump, &c.] Frisk, Hop, &c.

¶ **Skip**, *or* skip-kennel, [a contemptuous term for a footman.] *See* Lackey, &c.

Skip-jack, [a meddlesome person.] *See* Busybody.

To skip, *v. n.* Neidio, *Salm* cxiv. 4. llammu, *Can. Salom.* ii. 8. llemmain, crychneidio, &c. ¶ gwibio, *Ecclus.* xxxvi. 26. ymgynhyrfia *Jer.* xlviii. 27.

To skip back. *See* to Leap back, &c.

To skip before, Rhagneidio, rhaglammu, llammu (llemmain) o'r blaen.

To skip often. *See* to Leap often.

To skip [leap *or* jump] *over*, Neidio (llammu) drosodd, neidio (llammu) dros beth.

¶ *To skip over, v. a.* [pass over without notice] Mynëd dros (heibio i) beth heb sonied am dano ¶ llammu dros beth.

Skipper, *or* jumper. *See* Jumper, *and* Caperer.

¶ **Skipper**, *s.* [a sort of fish, so called] Y cornbig lleiaf.

Skipper, *or* seaman. *See* Seaman.

Skipper, *s.* [a sort of Dutch ship: *also* the master of such ship] Math *or* long: *hefyd* meistr y cyfryw long.

Skipping, [jumping, &c.] *See* Hopping, Capering, &c.

Skipping beasts, Anifeiliaid yn moelystotta, *Deuth.* xvii. 19.

A skipping. *See* a Frisking about, a Leaping.

¶ *Full of skipping*, Llammachus.

By skips, Ar naid (neidiau) dan neidio.

Skirmish, *s.* [a slight engagement with the enemy] Ysgarmes, ciprys, ymgiprys, ymgattewrach, ceintach, yngeintach, serged, bicre; blaengis.

To skirmish, *v. a.* [fight in small parties, without coming to a close, and general, engagement] Ymgiprys, ceintach, yngeintach, ymgattewrach, ymladd o birbell (o hyd arfau,) biccra, tynnu biccre: dechreu câd, ymiroli.

By way of skirmish, Dan rith (yn rhith) ymgiprys.

Skirmisher, *s.* Ymgipryswr, cipryswr, ysgarmeswr, &c.

skirmishing, *s.* Ciprys, ymgiprys, ceintach gan (dan) neidio ym mhlaen ac yn ol, yngeintach, ymgyttewrach.

Skirret, *or* skirwort, *s.* [in Botany] Moreren (*pl.* moren) Ffrainge, moreren yr Almaen, moreren felen.

Skirt, *s.* Godre, (*pl.* godrëon,) cwrr, aden, *Ruth* iii. 9.—dibl, ¶ dible. *See* Border [skirt] *of a garment*.

Skirt [*pl.* skirts] *of a country*. *See* Border of a country; *and* Borders [confines *or* marches] of a country. *See also* Extremity, &c.

To skirt a garment, Godreu (godrefu) dilledyn.

Skittish, *a.* [easily frightened, apt to start; shy] Tarfiyd, hydarf, hawdd ei darfu, (*fem.* ei tharfu,) hawdd ganddo, (*fem.* ganddi) daeno,

Digitized by Google

osgoilyd; ¶ browns. *A skittish horse*, Ceffyl tarflyd (osgoilyd.)
Skittish, *or* humorsome. *See under* H.
Skittish *or* fickle. *See under* F.
Skittish, *a.* [wanton, &c.] Nwyfus, hynwyf, trythyll, gwagsaw, nwyf-chwarëus.
A skittish humour, Gwrth-naws; tymmer osgoilyd (ffromllyd.)
¶ *As skittish as an old mule*, Cyn wrthnysicced (anhyweithed) â hen ful tindaflog.
Skittishly, Yn darflyd, yn osgoilyd.
Skittishness, *s.* Tarflydrwydd, osgoilydrwydd.
To skue *or* skew, [go sideling] Myned ar y naill-ystlys, ystlysgammu, seilgammu.
Sky, the sky, Yr wybr, yr wybren, yr awyr, ¶ y nef, *Heb.* xl. 12. y ffurfafen. ¶ *If the sky falls, we shall catch larks*, [Prov.] Pan syrthio'r awyr, bydd newid ar y sŷr; *neu*, Pan syrthio'r ffurfafen, bydd pob un a'i seren; *neu*, Pe'r byd fyddai'n bastai, pastai wych y fyddai.
Of the sky, Wybrol, wybrennol.
Sky-colour, *s.* Lliw'r awyr, lliw'r wybr, &c.
Sky-coloured, *a.* O liw'r awyr *neu*'r wybr.
Sky-light, *s.* Ffenestr tô, ffenestr pen tŷ.
Slab, *or* puddle. *See under* P.
Slab, *s.* [the outmost board sawn off a piece of timber] Cyn-blaugc, cyn-drwch, cyn-ddarn.
¶ *A slab of marble*, or *a marble-slab*, Llêch fynnor, mynor-lech.
To slabber *or* drivel. *See under* D.
To slabber one's clothes, &c. [defile with spittle *or* any thing wet] Diwyno (difwyno) â phoer *neu*'r cyffelyb, glafoerio; gwlychu, gwlybhâu, siccio, golchi, trochi, soegi, ¶ golchioni.
Slâbbered, *a.* Glafoeriedig.
Slâbberer. *See* Driveler.
A slâbbering, *s.* Glafoeriad.
Slâbbering bib, *s.* Bronfoll (bronllïain, pilyn, biner) y poer; ¶ piner.
Slabbiness, *s.* [the quality of being slabby] Soeglydrwydd; lleithlydrwydd, gwlybrwydd; ¶ llithrigrwydd, llysogrwydd.
Slâbby, *a.* [wet; dirty through wet, &c.] Gwlŷb, gwlyb soeg, soeg-wlyb, soeglyd, soegen, lleithlyd; gwlŷb-lipryn; tomlyd, gwlŷb-domlyd, bawlyd, bowlyd; llacceilyd, ¶ llithrig (llysog) gan wlybrwydd; llithrig, llysog.
Slack, *a.* [loose, &c.] Llaes, llac, ysläc, annhyn; rhydd; dïog, ¶ twyllodrus, *Diar.* x. 4.
Slack, *a.* [slow; not to one's word, &c.] Hwyrfrydig, hwyrdrwm, hwyr, a fo (y sy) yn oedi, 2 *Pedr* iii. 9.
To slack *or* slacken, *v. a.* Llaccau, ysläccau, llaesu.
To slack *or* slacken, *v. n.* *See* to grow Loose (*under* L.) to Relax *v. n.* *and* ¶ to Remit, *v. n.*
¶ *To slack* [slacken] *one's hands*, Tynnu ymaith ei ddwylaw, *Jos.* x. 6.
To slack [slacken] *one's pace*, Arafu ei drawd, myned yn fwy araf *neu* chwarien. ¶ *Slack not thy riding for me, except I bid thee*, Nac aros am danaf fi i farchogaeth, onid archwyf it', 2 *Bren.* iv. 24.
To be slack, Oedi, *Deut.* vii. 10. esgeuluso, *Jos.* xviii. 3. bod yn hwyrdrwm (yn hwyrfrydig, yn ddïog.)
¶ To slack *or* slacken, [grow faint] Ffiaggio.
To slack lime, &c. *See* to Slake, &c.
To slâcken. *See* to Slack, *above.*
Slackened, *or* slâcked, *part. a.* Llaesedig, a laeswyd, wedi ei laesu.
A slâckening, *s.* Llaesiad, llaccâd.
Slâckly, *ad.* Yn llaes, yn llac.
Slâckness, *s.* Llaesrwydd, llaesedd, llaeder, llacrwydd, ysläcrwydd, annhynnedd, annhynrwydd,—¶ oed, 2 *Pedr* iii. 9.
Slag. *See* Dross.
Slain, [*Part. pass. of* slay] Lladdedig, a laddwyd, wedi ei ladd. ¶ *There fell down many slain*, Llawer yn archolledig a fuant feirw, 1 *Cron.* v. 22. *Hophni and Phinehas were slain*, Hophni a Phinees a fuant feirw, 1 *Sam.* iv. 11. *The slain*, Celanedd, *Job* xxxix. 30.
To slake [dissolve *or* ¶ kill] *lime*, Toddi (lladd, llaesu, ¶ saethu) calch.
To slake [quench, *or* allay] *thirst*, Torri (dofi, llaesu) syched.
To slake [allay, *or* assuage] *hunger*, Torri (dofi, llaesu) chwant bwyd *neu* newyn.
To slake, *v. n.* [grow less tight, &c.] *See* to Relax, *v. n.*
Slâked, *part. a.* [as lime] Toddedig, a doddwyd, wedi ei doddi.
Slam, *s.* Lladdfa.
To slam. *See* to Crush; to Destroy, *and* to Massacre.
To slam a door, [shut with violence] Taro drws wrth (yn erbyn) y gynnor; tafiu yn erbyn y gynnor.
Slânder. *See* Defamation, Calumny, *and* Backbiting, *sub.*
To slander, *See* to Backbite one, to Calumniate, *and* to Defame.
Slândered. *See* Calumniated; *and* Defamed.
Slânderer, *s.* Camgyhuddwr, &c.—gogan wr, gogenydd.
A slândering. *See* Calumniation; *and* Defamation.
Slânderous. *See* back-biting, *adj.* Calumnious, Detractive, &c.
Slanderous words, ¶ Cabledeirian, gogan-eirian.
Slanderously. *See* Calumniously.
¶ *To walk with slanders*, Rhodio yn dwyllodrus, *Jer.* ix. 4.
Slang, *Preterimp. of the verb* Sling, *which see.*
Slank [thin, slim, slender.] *See* Lank, in its 2nd Acceptation.
Slank [in Botany.] *See* Ore-weed.
Slant *or* slanting. *See* Oblique
A slanting blow, Ergyd (dyrnod) lledtraws *neu* ynghwrthwyneb llaw.
Slantly, *or* slantingly. *See* Obliquely.
Slantness, *or* slantingness. *See* Obliquity.
Slap, *s.* [a blow with an open hand, &c.] Palfod, ergyd llaw-egor, cls.
Slap dash, *s.* [at once *or* at one dash, &c.] Ar (oll ar) unwaith, ar un ergyd; mewn munud, yn ddïannod, yn ddïattreg; yn ddïsymmwth, &c.
To slap, *v. a.* [strike with an open hand] Palfodio, rhoi palfod (ergyd llaw-egor) i un.
To slap up, [devour greedily] Cegu, &c.
Slash, *See* Gash, *and* a Cut (in its 3rd, 4th, 5th, 6th, 7th, *and* 8th Acceptation.)—*See also* Lash, in its 1st and 3rd Acceptation.
To slash, *v. a.* [cut with a sword, &c.] Trychu â chleddyf *neu*'r cyfelyb; ffosodio; archolli.
¶ *To slash with a whip, &c.* *See* to Scourge.

Digitized by Google

A slatch [short space *or* interval] *of fair weather*, Berr hinon, ychydig hindda, byrr yspaid (llygedyn) o dywydd têg, byrr gynnawll.

Slate, *s.* [a sort of fossile stone, used to cover houses, and to write on] Peithynen, (*pl.* peithyn,) elech: 'sgriflech, (*pl.* 'sgriflechau.)

To [cover with] slate, *v. a.* Peithynu, toi â pheithyn, elechu.

Sláted, *part.* [covered with slate] Peithynedig, töedig â pheithyn, elechedig.

Sláter, *s.* Peithynwr, elechwr.

To slatter, *v. n.* [mind nothing, &c.] Bod yn gwbl ddïofal (ddiymdawr;) bod heb ofalu nag am dano ei hun nag am arall; gadael y cwbl (y cyfan) mewn annhrefn ac anniben-dod; ¶ gollwng ei draed gyd â'r afon, gadael i'r byd fydio.

Sláttern, *s.* [one that is negligent and slovenly in her dress] Bún anniben (annhacclus, anghryno, anghywair) ei gwisg, ¶ anghrynöen, llaesen; gwraig ddi-wregys; hir ei llawdr: swga laesbais lodrog.

Slave, *s.* [a person in bondage, whether *male* or *female*] Caeth-ddyn, (*pl.* caeth-ddynion,) caethwr, (*fem.* caeth-wraig,) caethfab, (*fem.* caeth-forwyn,) &c.

¶ A slave *or* drudge. *See under* D.

A little slave, Caeth-wesyn.

To be a slave to one, Bod yn gaeth (yn gaethwas) i un; ¶ bod yn ufudd-was i un; bod yn barod i wneuthur a archo un, bid y fyddo; bod yn gwbl (yn hollol) wrth arch *neu* amnaid un; bod yn gwbl (yn hollol) dan lywodraeth un. ¶ *He is a perfect slave to his passions*, Y mae efe yn llwyr-gwbl dan lywodraeth ei chwantau (ei anwydau.)

To make a slave of, Caethiwo, dwyn (rhoi) yn gaeth.

To [work like a] slave. *See* to Drudge.

Sláver, To slaver, &c. *See* Drivel, &c.—*See also* to Slabber, &c.

A slavering [drivelling] fellow. *See* Driveller, &c.

Sláveringly, *ad.* Dan (gan) ollwng ei boer ar hyd ei farf fel lledfrydig.

Slávery. *See* Bondage; Bond-service; *and* Drudgery.

Sláughter, *s.* Lladdfa; lladdiad, &c.

A general slaughter, Lladdfa dra-llwyr (gyffredin, gyffredinol.)

Man-slaughter. *See* Homicide, in its latter Acceptation.

Slaughter-house, *s.* Lladd-dŷ, cigydd-dŷ, cigyddfa.

Slaughter-man. *See* Butcher.

To slaughter, *v. a.* Lladd, &c.

A sláughtering, *s.* Lladdiad, &c.

Slávish. *See* Servile.

Slávishly. *See* Servilely.

Slávishness. *See* Servility; Meanness; Dirtiness; Drudgery; *and* Laboriousness.

To slay, *v. a.* Lladd.

Slay, *s.* [a weaver's] Peithyn.

Sláyer, *s.* ¶ Tarawydd, *Num.* xxxv. 24.

Man-slayer. *See* Homicide, in its former Acceptation.

Sláying, *part.* Yn lladd, gan (dan) lâdd, &c.

A sláying, *s.* Lladdiad, &c.

To sleak out the tongue, Chwerthin gwatwor dan ystyn y tafod.

Sléazy, *a.* [thin-woven *or* ill-wrought, as some stuffs, &c. are] Teneu-we, tenllïaidd; masw.

Sleazy stuffs, *s.* Tenllïf, tenlli'.

Seld. *See* Dray.

Sledge, *s.* [a smith's, &c.] Gordd haiarn, gordd.

¶ Sledge, *or* [better] sled, *s.* Carr llusg.

To [beat, *or* strike with a] sledge, *v. a.* Gorddio, pwyo â gordd.

Sleek, *a.* [smooth, &c.] Llyfn, claer-lyfn; cabol, llathr.

A sléek-stone, *s.* Cabol-faen.

To [make] sleek, *v. a.* Caboli, llyfnhàu, yslippanu, *&c.*

A sleeking, *s.* Caboliad, *&c.*

Sleep, *s.* Cwsg, hûn,—*A wink of sleep*, Amrant-hun. ¶ *I passed the night without sleep*, Bûm yn ddi-hun trwy'r nos. *I had not a wink of sleep this night*, Ni chysgais i amrant-hun heno.

Dead [profound, fast, sound, deep] *sleep*, Trymgwsg.

Light [not sound] *sleep*, Dargwsg, darhun, ysgafn-gwsg.

A short sleep. See Nap [of sleep.]

The first sleep, Y cyngwsg, yr hûn gyntaf, y gyntun.

To sleep, *v. n.* Cysgu, huno; ¶ gorwedd, *Ecc.* xxii. 27.

To sleep lightly, [not soundly] Gogysgu, dygysgu, dargysgu, darhuno, darren, heppian, amrant-huno.

To sleep soundly, [be in a fast *or* sound sleep] Cysgu yn drwm, trwm-gysgu, bod mewn trymgwsg.

To sleep a dog's sleep, Cymmeryd arno gysgu, dynwared cysgu, rhith-gysgu, esgusgysgu.

¶ *To sleep in a whole skin*, Ymgadw yn groen gyfan (yn ddïasgen, yn ddiberygl,) cadw ei droed o'r fagl.

To sleep away cares, Cysgu ymaith ei ofalon; ¶ bwrw (gadaw) ei ofalon ar y gobennydd.

To sleep away the fumes of liquor, [sleep one's self sober] Cysgu ymaith ei feddwdod; cysgu nes dadfeddwi.

Causing [that causeth] *sleep*, or *sleep-causing*, *See* Soporiferous.

Sleeper, *s.* Cysgadur, cysgedydd, cysgwr; hunwr, hunydd, hunedydd. *The seven sleepers*, Y saith cysgadur.

Sléepiness. *See* Drowsiness.

Sléeping, *part.* [that sleeps *or* is asleep] Yn (a fo, *neu* y sy, yn) cysgu; gan (dan) gysgu.

A sléeping-place, *or* sleeping-room, *s* Hunfa.

After sleeping, Yn (ar) ol cysgu *neu* huno.

Sleepless, *a.* Digwsg, dihun, anhunog, effro, deffro.

Sléepy. *See* Drowsy.

The sleepy disease. See Lethargy.

Sleet, *s.* Eirlaw, odlaw, cymmysg eiry a glaw.

To sleet, *v. n.* Bwrw eirlaw, ¶ odi.

Sléety, *a.* [abounding with sleet, &c.] Eirlawog; eirlawlyd.

Sleeve, *s.* Llawes, (*pl.* llewys, llewis.)

¶ *A little sleeve*, Llawesan,—*Hanging sleeves*, Llewys dibyn (llippa, hirion, llaesion,) llaeslewys, gorllewys.

To laugh in one's sleeve. See under L.

Sleeve, *s.* [a sort of fish so called] Môr-gyllell.

Sléeved, *a.* [having sleeves] A llewis iddo, llawesog.

Digitized by Google

Sléeveless, *a.* Dilewis, heb lewis. *A sleeveless coat*, Pais ddilewis, (heb lewis.)
A sleeveless errand. See under E.

Sleight, *s.* [an artful turn, *or* a knack in doing a thing] Celfydd-dro, cynnil-dro, dehcu-dro, dichwith-dro, cyflym-dro; tro celfydd; (cynnil, dehau, dichwith, cyflym,) celfyddyd, cynnildeb, dehcuder, cyfarwyddyd.
Sleight of hand. See Legerdemain.
By sleight of hand, Trwy gyfarwyddyd (gynnildeb, &c,—gelfydd-dro, &c.) llaw.
Full of sleights, Llawn hûd (o hûd) a lledrith, llawn hûd (o hûd) à hocced, hudlawn, lledrithiog.

Sléuder, *a.* [small in circumference, slim, &c.] Main, meindwf, addfain, eiddil, meindlws, (*fem.* meindlos.) *Slender thread*, Edef fain, (*pl.* edafedd meinion *neu* ¶ mân.) *Slender legs*, Coesau meinion. ¶ *A slender waisted damsel.* Archfain rïain. *A slender* [and] *pretty woman*, Bûn feindlos. *A fair and slender* [girl, &c.] Meinwen. *A slender and tall* [girl, &c.] Mein-hir, (*vulgo* mein'ir.) *A slender and shapely* [tall and well-grown] *woman*, Bûn ysgeiddig (osgeddig.)

Slender, *a.* [thin, meager, &c.] Tenau, cûl, &c.

Slender, [*applied to* provision, diet, &c.] *See* Poor cheer *or* fare (*under* Poor.)—*See also* Scant *or* scanty.

Sléuder, *a. applied to* parts, abilities, capacity, &c. weak, &c] Gwan, gwannaidd, egwan; eiddil. *A slender capacity.* Dëall (synwyr) gwan. *Slender parts*, [talents *or* abilities] Doniau gweinion.

Sléuder, *a. applied to* estate, income, &c. [small, poor, &c.] Bychan, bâch, eiddil; tlawd, byrr. *A slender patrimony*, Tref-tadaeth (etifeddiaeth) fechan.—¶ *There are but slender hopes of his recovery*, Nid oes ond ychydig (bychan) obaith o'i wellhâd.

Sléuder, [puny.] *See* ¶ Puny [weak, &c.]

Sléuder, *a. applied to* argument, &c. [not well-founded; trifling, &c.] Seil-wan, gwan ei sail; diammeg, diseylwedd, &c.

Slender, *a. applied* to foundation, &c. [not solid; weak, &c.] Ansiccr, anghadr, hysigl, gwan, egwan, &c.

Slender, [slight, &c.] *See* Paper,—in composition, [slight, &c.]
Somewhat slender, Go-fain, go-eiddil, lled-eiddil.
Very slender, Tra-main, tra-eiddil.
To make slender, Eiddilo, peri (gwneuthur) yn eiddil, addfeinio, meinhâu.
To grow [become] *slender.* Eiddilo, myned yn eiddil, maindyfu, meinhâu, addfeinio.

Slênder-built, *a.* Adeil-wan, gwan (eiddil) ei adail.

Sléuderly, *ad.* Yn addfain, yn eiddil, yn achul, yn wannaidd; yn dlawd, &c. ¶ *We are slenderly provided for*, Tlawd (gwan) y darbodwyd drosom; *neu*, Ni wnaed ond arlwy dlawd erom; *neu*, Tlawd (cyrrith) y'n gosmeithiwyd; *neu*, Nid oes i ni ond cyrrith osymalth.

Sléuderness, *s.* Meinder, addfeinder, meindra, addfeindra, eiddilwch; culi, culni, achulni, teneuder, teneuedd; tlôdi.

Sléuder-shanked, *a.* Coes-fain, main ei goes.

Slept, Ex. *I slept* [did sleep] *very well*, Cysgais (mi a gysgais) o'r goreu.

Slew. Ex, *I slew* [did slay] Lleddais, mi a leddais.

Slice, *s.* [an instrument of metal *or* wood, used for spreading plasters, &c.] Yspedol, 'spodol, cyllell blastr, cyllell bren, cyllell brea; carthbren.

¶ Slice, *s.* [for turning cakes on a bake-stone, &c.] Llech-raw, rhaw-lech, rhowiech, *vulgo* rhowiarch; ¶ rhawdl, rhodl, crafell.

Slice, *s.* [a thin cut of bread] Tafell (*dim.* tafellan, tafellig:) crafell o ymenyn (*vulgo* o 'fenyn.)

To slice, *v. n.* [cut into slices] Tafellu, torri yn dafellau (yn defyll:) crafellu (ymenyn,) torri yn grafellau.

Sliced, *a.* Tafelledig, a dafellwyd, wedi ei dafellu; a dorrwyd (wedi ei dorri) yn defyll.
In slices, Yn dafellau, yn defyll.
A slicing, *s.* Tafelliad, torriad yn dafellau.

Slid. Ex. *I slid*, [did slide] Llithrais, mi a lithrais.

Slide, *s.* [an icy place to slide on] Llithrfa.

To slide, *v. a.* Llithro, ymlithro; myned ar nawf; ymlusgo.
To slide along, Llithro (o hyd;) llithro (ymlithro) yn mlaen.
To slide away, Llithro (ymlithro) ymaith; rhedeg (fel afon;) ymdeithiangc.
To slide back, Llithro (yn lithro) yn ol; cilio yn ol (yn ei ol, *pl.* yn eu hôl,) *Jer.* viii. 5. ¶ anhyweithio, *Hos.* iv. 16.
To slide by, Llithro (ymlithro, rhedeg yn llyfnaraf *neu* yn araf-lyfn) heibio *neu* heblaw.
To slide down, Llithro (ymlithro, myned ar nawf) i lawr neu i waered.
To slide in, Llithro (ymlithro) i mewn.
¶ *To slide one's hand into a person's pocket*, Rhoi ei law yn ladradaidd ynghôd un.
¶ *To slide money privately into one's hand*, Rhoi arian yn ddirgel (yn ddistaw) yn nwrn un.
Apt to slide, Hyllthr.

Slidden, *part.* A lithrodd, wedi llithro, ¶ llithredig.

Slider, *s.* Llithrwr, llithrydd, llithredydd.

Sliding, *part.* Yn llithro, gan (dan) lithro.
A sliding, *s.* Llithrad, ymlithrad: llithr, ymlithr.
A sliding-place, *s.* Llithrfa.
¶ A sliding-rule, *s.* Llithr-luniedr, llithr-luthes, llithr-lâth.

Slight, applied to stuff, &c. [thin, &c.] Tenau, teneu-we. ¶ *Slight stuff*, Teniiif, teniii. *See* Sleazy.

Slight, *a.* [small, of little weight, moment, *or* consequence; weak] Bychan, eiddil, main, di-sut, diseylwedd; ysgafn, bychan ei bwys, bychan-bwys; gwan, &c.

Slight, *s.* [a contemptuous neglect] Bychandod, bychander, bychandra, bychanrwydd, bychanedd; dibrisdod, dibrisder, dibrisdra, dibrisrwydd; tremyg, dirmyg, diystyrwch, diystyredd: ammharch, anfri.

To slight, *v. a.* Bychanu, dibrisio, tremygu.
¶ *To slight* (over) *work*, &c. [do it slightly, carelessly, *or* by halves] Gwneuthur peth yn llaw-ysgafn (yn ysgafn-llaw, yn esgeulus, yn hanner-og, yn arwynebol, yn dwyllodrus;) hanner-wneuthur peth; ysgafn-waithio.
¶ To slight *or* demolish. *See under* D.
¶ Slight, *better* sleight. *See above.*

Slighted, *a.* Bychanedig, a fychanwyd, wedi ei fychanu, dibris, diystyr.

Slighter. *See* Disparager; *and* Contemner.

Digitized by Google

Slighting, *part.* Yn bychanu, gan (dan) fychanu, &c.
A slighting, *s.* Bychaniad, dibrisiad, tremygiad.
Slightingly, *ad.* Gan (dan) fychanu, &c.—trwy fychanedod.
Slightly, *ad.* Yn llaw-ysgafn, yn ysgafnllaw, yn ysgafn, yn esgeulus, yn haanerog, yn arwynebol, yn dwyllodrus.—
Slightness, *s.* Eiddilwch, disutrwydd, gwendid, anghadernid; ysgafnder.
Slily, *ad.* Yn gyfrwys, yn ystrywus, yn ystrywgar, yn ddichellgar, yn hoccedus, yn chwiredus, yn dwyllodrus.
Slim. *See* Slender, in its 1st Acceptation.
Slime, *s.* [a sort of sticky *or* glutinous dirt] Llaid, ¶ clai, *Gen.* xi. 3.
¶ **Slime**, *s.* [the slippery substance adhering to stones, &c. in water] Llŵd, llŷs, llinos y dŵr.
To slime left by an inundation, Rhwda, rhwd lli.
Slime *or* mucus. *See under* M.
To slime, *v. a.* [in Falconry] Ysgothi'n ddibaid.
Sliminess, *s.* [the quality of being slimy] Lleidiogrwydd; lleidlydrwydd.
Slimy, *a.* [covered with slime: *also* of the nature of slime] Lleidiog, llawn llaid; llysog; lleidlyd; llyslyd.
To grow slimy, Lleidiogi; llysogi; myned yn lleidiog neu'n llysog: lleidlydio; llyslydio; myned yn lleidlyd neu'n llyslyd.
Sliness, *s.* [the quality of being sly.] *See* Cunningness, &c.
Sling, *s.* [for throwing stones, &c.] Tafl, ffon dafl, 1 *Sam.* xvii. 40. tafl-ffon.
A great sling, Albras, albrys, blif.
¶ **Sling**, *s.* [for wrapping the arm in, when hurt] Yrwast (*quære an* arwestr.)
To sling, *v. a.* Taflu (â ffon dafl,) *Jer.* x. 18. chwyrn-daflu, 1 *Sam.* xxv. 29. chwyrnellu.
¶ **To sling**, [put into a sling, as an *arm* when hurt, &c.] Rhoi mewn arwestr (*vulgo* mewn yrwast.)
To sling a cask, &c. [put into, *or* hang by, a rope, to raise it thereby] Rhoi baril mewn rhaff (wrth râff) i'w chodi i fynu.
Slinger, *s.* Taflwr â ffon dafl, ¶ taflydd (*pl.* taflyddion,) 1 *Mac.* ix. 11. tafledydd.
Slink, *s.* [an abortive *or* cast, calf] Llo erthyl, marw-lo, mar'lo (*vulgo* marllo.)
To slink, *v. a.* [miscarry of a calf] Taflu (bwrw) mar-lo; erthylu.
To slink [steal] *away*, Tynnu (ymlithro, myned) ymaith yn lladradaidd *neu'n* guddladan.
To slink back, Cilio 'n ol dan dynnu ei gynffon atto.
To slink home, Myned adref yn ddirgel ddistaw.
Slinking away, Yn cilio (yn ymlithro) ymaith yn ddirgel, gan (dan) gilio 'n guddiadan.
Slip, *s.* [with one's foot] Llithr, ymlithr; llithrad, ymlithrad.
Slip, *s.* [a false step] Gengam, gwall-gam, twyllgam, llithr-gam.
A slip *or* mistake. *See* Oversight [a mistake.]
Slip, *s.* [a sprig *or* twig from the main stock] Ysgolfyn, ysbrigyn, &c.—¶ ysgyfyn. *See* Cion, Graff, *and* Set *or* slip [of a tree.]
Slip, *s.* [a string, in which a dog is held *or* led, &c.] Cynllyfan, hoenyn, bwynyn.
A slip *or* shred, [of paper, &c.] *See* Shred, a Scrip of paper, &c.
Slip-shoe, *s.* Esgid ysloppau.
Slip-shod, *s.* ¶ A'i esgidiau 'n lloppanau (*sing.* â'i esgid yn lloppan;) â'i lloppanau (â lloppanau) am ei draed.
Slip-slop, *s.* [some washy *or* unsubstantial food] ¶ A golch, saig soegen, soppas; sôs.
To slip *or* slide, *v. n.* Llithro, &c.
To [let] **slip**, Gollwng ymaith (heibio, i fyned, yn rhydd;) gorddillwng; gadaw (goddef) i ddïangc *neu* i fyned heibio; gollwng i goll, *Heb.* ii. 2.
To slip away, Myned (llithro, ymlithro, tynnu, dwyn ei hun) ymaith; dïangc, ymaith, ymddïangc: ¶ lladratta (ymladratta) ymaith; cilio, 1 *Sam.* xix. 10.
To slip away privately, [without leave] ¶ Cymmeryd cennad y ci.
To slip his bridle, [as a horse] Tynnu ei ben o'r ffrwyn.
To slip down [through] *the throat*, Llithro (i waered) trwy'r gêg. ¶ *It slipt down his throat before he was aware of it*, Efe a'i llyngcodd (a aeth i waered) heb wybod iddo *neu* cyn gwybod oddiwrtho.
To slip off, [tear a slip from a tree, &c.] Ysglefynnu, ¶ ysglyfynnu; rhwygo ysglofyn ymaith; digeingcio, ysgythru.
To slip [clothes] *off*, or *on*, Tynnu ymaith, dïeog: gwisgo.
To slip over or omit. *See* to Overslip, &c.
To slip over a thing slightly, Cyfwrdd â pheth yn fyrr (llithro dros beth yn ysgafn) ar ymadrodd *neu* ysgrifen.
To slip out of one's hand, &c. Dïangc (cwympo, syrthio, llithro) o, *neu* allan o, law un.
To slip [out of] *one's memory*, or *to escape one's memory.* *See under* M.—*See also under* to Escape.
To give one the slip, Dïangc gan (oddi-gan, o ddwylaw) un.
¶ *To slip* [get] *one's neck out of the collar*, Tynnu (dwyn) ei ben o'r cebystr.
To [make, *or* be guilty of, a] **slip.** *See* to Mistake, &c.
Apt to slip. Hylithr, hawdd ganddo lithro.
Slipped [slipt] *away*, A lithrodd *neu* wedi llithro (a aeth *neu* wedi myned) ymaith.
Slipper, [for the foot] Ysloppan (*pl.* ysloppanau,) esgid ysloppan.
¶ **A slipper**, *s.* [for yarn, &c.] Broes. *A yarn-slipper*, Broes gwlân. *A candle-slipper*, Broes canwyllau.
¶ **Lady's slipper**, *s.* [in Botany] Esgid (ysloppan) Fair; *pl.* 'esgidiau (ysloppanau) Mair.
Slipperily, *ad.* Yn llithrig, yn llithredig.
Slipperiness, *s.* [the quality of being slippery] Llithrigder, llithrigrwydd: hylithredd.
Slippery, *a.* Llithrig, &c. ¶ *Let their way be—slippery*, Bydded eu ffordd—yn llithrigfa, *Salm* xxxv. 6.
A slippery tongue. *See* a Glib [voluble] *tongue, under* G.
A slippery [deceitful] *blade*, Dyn cyfrwys (ystrywgar, twyllodrus, hoccedus, dichellgar;) hoccedydd. ¶ *He is a very slippery spark to deal with*, Y mae efe mor llithrig (cyn llithricced) a llosgwrn llysowen; *neu*, Haws y delir llysowen gerfydd ei llosgwrn nag y delir ef gerfydd ei enau (ei eiriau.)
A slippery [difficult, *or* dangerous] *business*, Matter rhwystrus (afrwydd, anhydrin, peryglus.)

Digitized by Google

A slippery trick. *See* a Cheat *or* cheating trick, *under* C.

¶ Slippery, *a.* [difficult to be caught, held, *or* kept] Anhyddal, anhawdd ei ddal *neu* ei gadw.

To make slippery. *See* to Lubricate.

Slipping. *See* Sliding.

Slipping away, Yn llithro ymaith; gan (dan) lithro ymaith.

The slipping of an office, [the letting of it slip through negligence, &c.] Gollyngiad swydd heibio o wall; gwall-golliant (gwall-golled, gwall-goll) swydd.

A slipping of twigs, [leaves, &c.] Ysglofynniad, ysgythriad dail *neu* gangau: digeingciad.

Slit, *s.* [a long cut, *or* narrow opening] Hirdrwch; hollt, agoriad; agen: rhwyg.

The bosom-slit of a shirt or *shift,* Crysiam.

To slit, *v. a.* and *n.* Hollti. *See* to Cleave, in 1st *and* 4th Acceptation.

Slit, *or* slitted. *See* Cleft, *throughout.*

Slitter, *s.* Holltwr, holltydd, holltiedydd.

Slitting, *part.* Yn (gan, dan) hollti.

A slitting, *See* a Cleaving.

Slive, *or* sliver, *s.* Tafell; *pl.* tafellau (tefyll.)

To slive, *or* sliver, *v. n.* Hollti, tafellu. *See* to Slice.

Slocker, *or* slockster, *s.* Ysloccai; ysllocciwr *(fem.* ysllocwraig.)

Sloe, *s.* [the fruit of the black-thorn] Eirinen ddu (sûr) fach, eirinen y perthi. *Sloes,* Eirin duon bach (duon tâg,) eirin y perthi.

Slóe-tree. *See* Bullace-tree.

Sloe-worm. *See* Slow-worm.

Sloop, *s.* [a small ship so called] Llong un-hwylbren (un wernen.)

To slop, *v. a.* [scatter water about; dash with water] Tasgu, (taenellu, ¶ colli) dŵr oddiamgylch; gwlychu.

Slope, *or* sloping, *adj.* *See* Oblique; *and* Declivous.

Slope, *s.* [an oblique direction: a declining surface.] *See* Obliquity: *and* Declivity.

To slope. *See* to make Aslope (*under* A:) *and* to Decline, *v. n.*—*See besides* to grow (*also* to make] Oblique, *under* O.

Slopeness. *See* Obliquity.

Sloping, *part.* Yn lledpeio, gan (dan) ledpeio.

Somewhat sloping, Goleddf.

A slóping, *s.* Lleddfiad, lledpeiad; llechweddiad.

Slopingly. *See* Aslope.

Slops, *s.* [physical potions] Golchionach.

¶ Slops, *s.* [sailor's breeches] Llodrau, *sing.* llawdr.

Slot, *s.* [the print of a stag's foot] Ol troed y carw *neu'r* cyffelyb.

Sloth. *See* Laziness; Indolence, *&c.*

Slothful. *See* Lazy; Indolent, *&c.*

¶ *Grown slothful as a beggar,* Wedi myned mor libyn a llabwst, cyn (ddiocced a'r asyn.)

To grow slothful. *See* to grow Lazy, *under* L.

Slothfully, *ad.* Yn ddïog, yn fusgrell.

Slothfulness. *See* Sloth, *&c.*

To slouch. *v. n.* *See* to Hang down the head *and* to Hang [let down] the ears; *both under* H.—*See also* to Flap *or* flap down.

To slouch *or* let down, [the brim of a hat, &c.] Llippau, llippanu, &c. *See* to Flap *or* let down, *under* F.

Slouch-eared, *or* having [that has] *slouching* ears, Clust-lippa, a chlustiau llippa iddo.

A slouched hat, Het (hêd) â'i hymyl yn llippa *neu'n* crogi am y clustiau (yr ysgwyddau;) het (hêd) lippanedig.

Slouching, *part.* Yn (a fo, *neu* y sy, yn) crogi yn llippa. ¶ *A slouching hat,* Hêd lippa (ymyl lippa *neu* lippa ei hymyl.)

Slóven, *s.* [a slovenly fellow] Llyf, llyfiyn, yslliyfiyn, swga; un (dyn) llyfi, &c.—dyn anniben (annhacclus, anghywair, anghryno) ei wisg, llodryn o ddyn, swl.

Slóvenlily, *vulgo,* slovenly, *ad.* Yn llyfiaidd, fel swga: yn anniben, yn annhacclus, yn anghryno, fel swl.

Slóvenliness, *s.* Llyfieiddrwydd, annibendod, anhaccluserwydd, anghrynodeb.

Slóvenly, *ad.* Llyfaidd, llyfïaidd, llyfi, swga; anniben, anghryno, &c. ¶ *After his slovenly manner,* Yn ei ffordd annigrif ef ei hun.

Somewhat slovenly, Golyfi, goswga, gofudr.

Slough, *s* [a ditch *or* bog] Traeth byw, Cors.

Slough of despondency, Cors anobaith.

Slough [the cast skin] *of a snake,* Croen (hên groen) neidr a fwrio hi y gwanwyn.

Slough, *s.* [of a wound] Marw-gig, marw-wig, cig marw; budredd, crawn: craith.

Slough [the wallowing-place] *of a wild boar,* Ymdreiglfa (gwâl, gorweddfa) baedd gwyllt.

Slough, *s.* [the porous substance in the inside of horns of oxen, &c.] Mab-cosa *(pl.* mepgyrn.)

Slóughy. *See* Boggy, *and* Fenny.

A slough [herd, *or* company] *of bears,* Mintai (cnûd) o eirth.

Slow, *a.* [not swift in motion] Difrys, afrys, an-esgud, anghyflym, hir-drig, araf, chwarien, llwyrfrydig, disymmud, disyflyd; dïog.

Slow, *a.* [late in time] Hwyr, diweddar, anghynnar. ¶ *The vengeance of Heaven is the slowest, and the fullest,* Hwyra dial dial Duw, llwyra dial dial Duw.

¶ Slow, *a.* [that comes slowly to an end] Anniben.

Slow, *a.* [in resolution; in performance, &c.] Hwyrfrydig; dïog. *Slow to anger,* Hwyrfrydig i ddig (i ddigter, i ddigofaint; i lid:) ¶ dïog i ddigofaint, *Diar.* xvi. 32. *Let every man be swift to hear, slow to speak, slow to wrath,* Bydded pob dyn esgud i wrando, dïog i lefaru, dïog i ddigofaint, *Iago* i. 19.

Slow, *a.* [heavy *or* dull] Trwm, trymluog.

Slow, or *dull, of apprehension.* *See under* Dull.

Slow of foot, Trwm ar ei droed, troedtrwm, hwyrdroed, araf-gam.

Slow of heart, Hwyrfrydig o galon, *Luc* xxiv. 25.

Slow of [in] *speech,* Safndrwm, *Ecs.* iv. 10. geneudrwm, geirllaes, arafair.

Slow of [of a slow] *tongue,* Tafodtrwm, *Ecs.* iv. 10. trwm ei dafod.

Slow [not in haste *or* a hurry.] *See* Deliberate [slow, *&c.*]

Slow, *or* backward, *a.* Di-awch, di-hawnt, llaes.

Slow, *or* delaying, *a.* Gohiriog, cyngydiol.

A slow fever, ¶ Nŷch-gryd, nŷch-dwymyn.

Somewhat slow, Go-hwyrdrwm, lled-hwyrdrwm, go-ddïog, gor-ddïog.

¶ *Slow back, s.* Dïogyn.

¶ *Slow-bellies,* Bolïau gorddïog, *Tit.* i. 12.

Slow to go, Dïog i gerdded, *Doeth.* xv. 15.

Slow to visit the sick, Dïog i ofwyo 'r clâf, *Ecclus.* vii. 35.

Digitized by Google

To be slow, ¶ Oedi, *Eccles.* li. 24. bod yn hwyrdrwm (yn ddïog, &c.)

To grow slow, Dïogi, ymddïogi, myn'd yn hwyrdrwm, *&c.*)

Slówly, *ad.* Yn hwyrdrwm, yn drymluog, yn drymhyrddig, *&c.* ¶ yn anniben, *Act.* xxvii. 7. *Great bodies move slowly*, [Prov.] Os mawr ys merydd; *neu*, Hwyr y try tarw yn y três.

To go more slowly, [slacken one's pace] Arafu, chwarienu, myned yn arafach (yn chwarienach.)

Slówness, *s.* Difrysder, difrysedd, afrysedd, anesgudrwydd, anghyflymmedd, anghyflymder, anghyflymdra, hir-drigedd, chwarienrwydd, hwyrfrydigrwydd, disymmudedd, disyflydrwydd; dïogi, *&c.*—hwyredd, hwyrder, diweddarwch: annibendod: hwyrfrydigrwydd.

Slowness of speech, Safndrymmedd, geirllaesrwydd.

Slów-worm, *s.* Dall-neidr, rhudd-neidr.

To stop chinks, Cau agennau.

To stop [shut] *one's ears at,* or *against a thing,* Cau ei glustiau yn erbyn peth. ¶ *And* [they] *stopped their ears,* A thrymhasant (a chausant) en clustiau, *Zech.* vii. 11.

To stop one's mouth, Cau genau un.

To stop or *leave off. See* to Leave *or* leave off.

To stop one's laugh, [cough, &c.] Attal (mogu) ei chwerthin (ei beswch, &c.)

Digitized by Google

To stop payment, Peidio (arbeidio) â thalu; gadael talu.

To stop [a sentence] *with points*, Gwahan-nodi, gorphwysnodi.

Stóppage. *See* Obstruction, (in both its Acceptations;) Detention; *and* Retention.

Stópper, *or* hinderer, *s.* Rhwystrwr, rhwystrydd, rhwystredydd.

A stopper *or* stopple. *See* Plug.

A stopper of chinks, Cauwr (caeydd, cauedydd) agennau.

A tobácco-stopper, *s.* Ystoppell tybacco, *rather* ystoppell pîb dybacco.

A stopping, *s.* Rhwystrad, attaliad; argaead.

Stórax, *s.* [a fragrant gum so called] Ystor coeth, gwmm berwedig (aroglber,) storacs, *Ecclus.* xxiv. 15.

Store *or* good store, *s.* [a large number *or* quantity] Amledd, amlder, amldra, helaethrwydd; 'stôr, *Nah.* ii. 9. ystôr; nifer mawr (nid bychan.) ¶ *And of spices very great store*, A phêr-aroglau lawer iawn, 1 *Bren.* x. 10. *Store of all sorts of wine*, Gwin o bob mâth yn ddïandlawd, *Nehem.* v. 18. ¶ *Store is no sore*, [Prov.] Ni bu drwg bod dros ben.

In great store, Yn ddïandlawd, yn helaethlawn.

Store, *s.* [provision made, and laid up, for future use] Pob dim (pa beth bynnag) a roer ynghadw erbyn yr amser a ddêl, 'stôr, *Lef.* xxvi. 10. ystôr; ¶ trysor. ¶ *And that food shall be for store to the land*, A bydded yr ymborth ynghadw i'r wlâd, *Gen.* xli. 36. *Until her fruits come in, ye shall eat of the old store*, Nes dyfod ei chnŵd hi, y bwyttêwch o'r hên, *Lef.* xxv. 22.

Store, *or* provision, *s.* [of victuals, &c.] Lluniaeth, *Salm* cxliv. 13. arlwy o luniaeth; heiniar, heniar; ystôr. ¶ *Store of victuals* Cellau bwyd, 2 *Cron.* xi. 11.

Stóre-city, *s.* Trysor-ddinas, (*pl.* trysor-ddinasoedd,) 2 *Cron.* xvi. 4. ¶ *Cities of store*, Dinasoedd y trysorau, 1 *Bren.* ix. 19.

Stóre-house, *s.* Ystordŷ, ystorfa, ¶ seler, 2 *Cron.* xxxii. 28. ysgubor, *Jer.* l. 26. cell, *pl.* celloedd, *Ecclus.* xxix. 12. *And Joseph opened all the store houses*, A (ac) Joseph a agorodd yr holl lëoedd ŷd ynddynt, *Gen.* xli. 56.

To store or *furnish, with*, Cynnysgaeddu (cyfoethogi, beirthogi, diwallu) â, &c.

To store up, 'Storio, ystorio, ¶ pentyrru, *Amos* iii. 10.

To have store or *plenty of*. *See* to Abound (with) *or* in.)

To keep in store. *See under* K.

To store or *lay up in store*. *See under* L.—*See also* to lay up [in reserve] &c.

Stórer, *or* store-keepér, *s.* Ceidwad ystordŷ, ystorwr.

Stores, *s. pl.* Arlwy o anghenrheidiau, arlwyannau. *Military stores*, or *provisions for war*, Arlwyannau rhyfel.

Store-house for arms and *armour*. *See* Magazine [of arms.]

Store-house for victuals. *See* Promptuary, &c.

Stork, *s.* [a large bird of passage, so called] Aderyn gwynn y gylfin hîr tebyg i'r cryr, a mwy nag ef; ciconia, *Lef.* xi. 19.

Storm, *s.* [a tempest] Tymmestl, *Esay* xxv. 4. 'storm, *Salm* cvii. 29, 10. ystorm, rhyferthwy, dyhïnedd, &c. ¶ *After a storm cometh a calm* (Prov) Gnawd yn ol dryghin hindda. —*A storm of wind*, Cawod (cafod) o wynt, *Luc* viii. 23.—*A storm of rain*, Rhyferthwy (chaiadr) o wlaw; dyhïnedd.

¶ *A storm* or *tumult*, *s.* Terfysg, &c.

Storm, *s.* [a sudden and fierce attack made on a fortified place] Cyrch (dewr-gyrch, taergyrch, rhuthr) disymmwth; llymgyrch (taubaid-gyrch, chwyrn-gyrch,) annisgwyl; cyrch, rhuthr, diebyd.

Storm, *s.* [a torrent of abuse] Cawod o ddrwgdafod; ¶ gorddyar, gwythlonedd. ¶ *All the storm fell upon thee*, Ti a gest y gawod i gyd.

To storm with anger, *v. n.* Ffrommi, 2 *Mac.* xiii. 25. cynddeiriogi, &c.

To storm [rave *or* rail] *at* or *against*, *a person* or *thing*, Cynddeiriogi (ymgynddeiriogi, ymfydu, ffrommi, brochi) wrth neu yn erbyn un.

To [blow a] storm, *v. a.* Tymmhestlu ystormi; chwythu yn chwerw (yn afrywiog, yn dymmhestlog, yn ystormus, yn uchel yn galed;) rhuo, dyar, gorddyar.

To storm a fortified place, Rhuthro yn ddisymmwth (yn un-llam ddisymmwth) ar gadarnlle.

To take [a fortified place] *by storm*. *See to* take by Assault (*under* A.) *and* to Expugn.

That may be taken by storm. *See* Expugnable.

Stormed, or *taken by storm*, A gymmerwyd (wedi ei gymmeryd) trwy ddewr-gyrch, a nerth arfau.

Stórmy, *a.* [tempestuous] Tymmhestlog, *Ezec.* xiii. 11. ystormus, *Salm* cxlviii. 8. ¶ *Stormy wind*, Tymmhestl-wynt, *Salm* cvii. 28.

Stóry, *s.* Ystori (*pl.* ystoriau,) 2 *Mac.* ii. 30. histori; traethawd, 2 *Mac.* ii. 32. ¶ *The book of the stories of the kings of Judah*, Llyfr historiau brenhinoedd Juda, 1 *Esdr.* i. 33.

Story, *s.* [a tale, &c.] Chweddl, chwedl, &c. ¶ *Sin is shameful in its* [in the] *story*, Cywilyddus yw pechod i'w adrodd (yn ei hanes.)

¶ A story *or* fib. *See under* F.—*See also* Flam.

Story, *s.* [the interval between floor and floor in the height of a building] Yr ysbaid (y cyfwng) a fo rhwng hurtr a hurtr yn uchder adeilad; uchder, *Gen.* vi. 16. esgynfa (*pl.* esgynfeydd,) *Amos* ix. 6. *Three stories*, Tri uchder, *Ezec.* xlii. iii. 6.—*A house three stories high*. *See under* H.

To story. *See* to Report *or* relate; *and* to Fable.

To story, *v. a.* [range in stories, *i. e.* one above another] Rhestru (gosod yn rhestri,) rhestr; uwch-law rhestr; adeiladu yn esgynfeydd, esgynfa uwchlaw esgynfa.

Stóryed *or* storied, [inscribed with a story *or* with stories] Hanesog; ¶ llythyrog.

Stóry-writer, *s.* [a writer of stories *or* histories] Ysgrifennydd historiau, *Esdr.* ii. 17.

Stove, *s.* [a hot-house] Twym-dŷ, gwresowctŷ; gwresogfa.

Stove, *s.* [a sort of grate *or* fire-place, so called] Grattân gûdd, grattân; cynneufa.

Stout, [strong.] *See* Robust.

¶ A stout [great] lion, Llew mawr, *Job* iv. 11.

Stout [valiant.] *See* Bold [daring] Courageous; Hearty.

Stout [sturdy, stiff, &c.] *See* Obstinate.

A stout [stern *or* rough] *look*, Trem (golwg,)

Digitized by Google

ddisgethrin. ¶ *Whose look was more stout than his fellows*, A'r olwg arno oedd yn arwach nâ'i gyfeillion, *Dan.* vii. 20.

Stout *or* proud. *See* Haughty.

Stout *or* magnanimous. *See under* M.

A stout heart, Calon ddewr (wŷch, ddewrwŷch.) ¶ *I will punish* [visit] *the fruit of the stout heart of the king of Assyria*, Ymwelaf â ffrwyth mawredd calon brenhin Assur, *Esay*, x. 12.

Stout of heart, or *stout-hearted*, Dewr o (ei) galon. ¶ *The stout-hearted are spoiled*, Ysbeiliwyd y cedyrn-galon, *Salm* lxxvi. 5.

Stout *or* vigorous. *See* Brisk (in its 4th Acceptation.)

A stout [strong, stiff, *or* brisk] *gale of wind*, Awel grêf (chwern, chwai) o wynt.

To be [grow] *stout*, Ymgryfhâu, *Mal.* iii. 13.

¶ Stout, *s.* [strong ale *or* beer, so called] *See* Stingo.

Stout *or* great, *a.* Mawr. *A stout piece*, Darn fawr.

Stóutly, *ad.* Yn bybyr, yn lew, yn wrol, yn ddihafarch.

Stóutness, *s.* Pybyrwch, glewder; dihafarchrwydd. ¶ *In the pride and stoutness* [greatness] *of heart*, Mewn balchder ac mewn mawredd calon, *Esay* ix. 9.

¶ Stoutness, [stiffness *or* sturdiness.] *See* Obstinacy, &c.

To stow. *See* to Place; to Lay up in store; *and* to Lay in order. *See also* to Bestow, in its 4th and 5th Acceptation.

Stówage, *s.* [room for stowing goods] Lle i roddi nwyf *neu* nwyfau ynddo, megis cauedd llong *neu*'r cyffelyb; ystorfa, ystorle: gain (angder, cynnhwysiad) y cyfryw le *neu* gauedd.

Stowage, *s.* [money paid for stowing of goods] Ystor-dal; arian ystod, tâl am ysdodi nwyfau yn'ghauedd llong *neu*'r cyffelyb. Ystodi (ysdodi ysgafnu) nwyfau yngheuedd llong *neu*'r cyffelyb.

Stówed, *a. part.* Ysdodedig, a ysdodwyd, wedi ei ysdodi.

A stówing, *s.* Ysdodiad, ysgafniad.

To straddle, *v. n.* [stand, *or* go, with the feet at a wide distance from each other] Sefyll â'i draed ar lêd, lledu traed; bod yn fongam (ferrgam, goesgam, afrihwth;) bod â'i draed ar led: cerdded (myned) â'i draed ar led *neu* dan ledu ei draed; myned (cerdded) yn ffwrch-agor *neu* dan ledu ei ffwrch.

A straddle. *See under* A.

Stráddling, *part.* [with his feet and legs wide apart] A'i draed (a'i goesau, â'i ddwy-coes) ar led *neu* dan ledu ei draed.

Stráddler, *s.* A fo (a gerddo) â'i draed ar led.

To strággle, *v. n.* [wander from the right way, *or* from one's company, &c.] Cyfeiliorni, myned ar gyfeiliorn; (ar ddidro) myned ar ddigrain (ar dreigl, ar ddisperod, ar wib, ar grwydr, ar wasgar, ar ddiwanfa, *rectius* ar ddywahanfa:) gwibio, hwntian; ymddywahanu; ymwasgaru oddiwrth ei blaid.

Strággler, *s.* Gwibiad, gwibiwr, gwibddyn, gwibiedydd, crwydrad, crwydryn; ymddywahenydd; ymddywahanedig; ymwasgaredig. ¶ *The stragglers*, Y gwasgaredigion.

Strággling, *part.* [that straggles, *or* wanders] Yn (a fo, *neu* y sy, yn) crwydro; a fo *neu* y sy ar grwydr (ar ddigrain, ar wasgar, &c.) crwydrol, crwydrus, crwydraidd, gwibiog: gwasgaredig.

Straight, *a.* [not crooked] Union, &c.

Straight forward or *on*, Yn union ym mlaen (rhagddo, rhag ei wyneb, *Ezec.* i. 9.)— ¶ *The people shall ascend up every man straight before him*, Eled y bobl i fynu bawb ar ei gyfer, *Jos.* vi. 5.

Straight out, Yn union o hyd (rhagddo.)

Straight *or* directly, *ad.* Yn union gyrch, yn uniown-gyrch, union deg.

Straight against. *See* Right against, &c.

Straight upright. *See* Right up, *and* Erect.

Straight, improperly used to signify—*narrow*. *See* Strait.

Straight down, down-right, *or* downwards. *See* Perpendicular.

To straighten, *v. a.* or make straight, Uniawni, unioni, peri (gwneuthur) yn uniawn.

Stráightness, *s.* [the quality of not being crooked] Unionedd, unionder, unionrwydd, cymmwysder, cymmwysedd.

Stráightway *or* straightways, *ad.* Yn ebrwydd, *Marc* i. 18. chwippyn, yn y man, eboludd, heb oludd, &c.

Strain, *or* sprain. *See* Sprain.

Strain, [a vehement effort.] *See* ¶ a strong [great, forcible] Effort, *under* E.

Strain, *s.* [a tightness] Tynder, tynrwydd, tyndra; tynfa, tyn; ¶ gwâsg.

Strain *or* breed. *See* Breed, in its former Acceptation.

Strain, *pl.* strains, [in Music and Poetry.] *See* Note [in Music;] an Air [in Music,] ¶ Aire; Lay, *sub.*

Strain *or* style, *s.* [in speaking *or* writing] Rhediad (cerddediad) araith *neu* ymadrodd: ar ymadrodd (ar lafaru, ar ddywedyd, *neu* ysgrifennu;) ¶ iaith, ymadrodd; tôn. *In a lofty strain*, Mewn uchel-iaith *neu* uchel-dôn. ¶ *This is the strain in which he writes*, Fel hyn y rhêd (y cerdd) ei araith (ei draethawd.) *He talks in a high strain*, Uchel y cerdd ei ymadrodd; *neu*, Efe a arfer uchel-iaith.

To strain *or* stretch, *v. a.* Tynhâu, rhoi (dodi, gosod) ar dynn, tynnu yn dynn.

To strain *or* press. *See* to Squeeze, &c.

To strain [press, filter, squeeze, *or* force] *out*, Gwasgu (gwryfio; hidlo; cymmell, dirio; gwthio) allan.

To strain *or* compel. *See under* C.

To strain the eyes, Tannu'r llygaid, tynhâu llinynnon y llygaid.

To straid [bind, *or* wring, hard.] *See* to Constringe, *and* to Compress.

To strain, or *rack* [torture] *one's brains about a thing*, ¶ Poeni ei ben ynghylch peth.

¶ *To strain courtesies*, Ymdrech (ymorchestu) mewn moes a chymmwynas.

To strain the voice, Rhy-ddyrchafu (tra-dyrchafu, gorchest-ddyrchafu, ¶ gormeilio, gorthrymmu, gwasgu ar) ei lais; myned yn uwch nâ'i (y tu hwnt i'w) lais.

The strain [stretch] *a point*. *See under* P.

To strain, [through a strainer] Hidlo. *See* to Percolate; *and* to Filter.

To strain hard [labour earnestly] *to do a thing*, Ymorchestu (ymegnio, &c.) yn lew i wneuthur peth.

Digitized by Google

To strain [a joint *or* a limb.] *See* to Sprain.

To strain a sinew, Tyrfu (ysaigo, dir-ystyn) gewyn, &c.

To strain hard together, Cyd-ymorchestu, cyd-ymegnïo; cydlafurio.

To strain *or* distrain [a person's goods.] *See under* D.

To strain, in Falconry [catch at.] *See* to Catch at, in it's former Acceptation.

Stráined, *part. a.* A dynhäwyd, wedi ei dynhau, tynnedig (a dynnwyd, wedi ei dynnu,) yn dynn.

Stráiner, *or* colander. *See under* C.

A strainer, *s.* [straining-cloth] Llain hidlo, lliain hidl (hiddl.)

A strainer *or* straining sieve, *s.* Gogr hidlo.

Strainer, *s.* [one that strains] Tynhäwr, tynnwr (tynnydd, tynniedydd) yn dynn; gwasgwr gwesgydd, gwasgedydd, gwasgiedydd; dirwasgwr, &c.—hidlwr, hidlydd, hidledydd.

Stráining, *part.* [that strains] Yn (a fo, *neu* y sy, yn) tynhau, &c.—gan (dan) dynhau; gan (dan) wasgu *neu* ddirwasgu.

A straining, *s.* Tynhäd, tynniad yn dynn; gwasgiad, dirwasgiad, &c.—hidlad.

The straining of a sinew, [of a limb] Tyrfiad, twrf; ysaigad, ysaigiad gewyn.

Strainings, *s.* Hidlon; gweiagion.

Strait, *a.* [not wide] Cyfyng, 2 *Bren.* v. i. *Enter ye in at the strait gate*, Ewch i mewn trwy'r porth cyfyng, *Mat.* vii. 13.

¶ Strait, *or* strict, *a.* Tynn; caeth; manol, *Act.* xxvi. 5.

A strait, *s.* [a narrow passage] Cyfyng-ffordd, cyfyngle, cyfyngfa; y gyfyng; ¶ bwlch, (*pl.* bylchau), *Judeth* xiv. 11. ¶ *Even so would he have removed thee out of the strait into a broad place*, Felly hefyd efe a'th symmudasai di o enau cyfyngdra i ehangder, *Job* xxxvi. 16. *All her persecutors overtook her between the straits*, Ei holl erlidwyr a'i goddiweddasant hi mewn lleoedd cyfyng, *Galar.* i. 3.

A strait, *s.* [trouble, embarrassment, &c,] Ing, ingder, cyfyngder, cyfyng-gyngor, cyni, &c. ¶ *When the men of Israel saw that they were in a strait*, Pan welodd gwyr Israel fod yn gyfyng arnynt, 1 *Sam.* xiii. 6. *I am in a strait betwixt two*, Y mae'n gyfyng arnaf o'r ddeutu, *Phil.* i. 23. *I am in a great strait*, Y mae'n gyfyng iawn arnaf fi, 2 *Sam.* xxiv. 14. *In the fulness of his sufficiency, he shall be in straits*, Pan gyflawner ei ddigonoldeb, cyfyng fydd arno, *Job* xx. 22. *He is now reduced to the utmost straits*, [the last pinch of all] Fe a'i dygpwyd o'r diwedd i'w gyfyng-gyngor (i'w weddi ddiweddaf.)

Strait-handed. *See* Close-fisted.

Stráit-laced, *a.* [too tight *or* hard] Caeth-linynnedig.

¶ Strait-laced, *or* over-scrupulous. *See under* O.

A strait [sometimes written *streight*, and *straight*, but not properly,] or *a narrow sea*, Cyfyng-fôr.

To stráiten, *v. a. or* make strait [narrow] Cyfyngu, yngu.

To straiten, *v. a. or* ¶ strait [reduce to difficulties] Dwyn i gyfyngdra, *Job* xii. 23.

To straiten *or* contract. *See* to Coutract [draw together]

To straighten, *v. a.* [make tight] Tynhau, tynnu (peri, gwneuthur) yn dynn.

To straiten an army, &c. [confine to narrow bounds] Cadw (dâl) o fewn *oyfyng* derfynau, cyfyngu ar, caethiwo.

To straiten *or* distress. *See* to Distress, in its latter Acceptation.

Straitened, *or* straitened. *See* Narrowed: *and* Distressed.

To be straitened, Bod yn gyfyng arno, *Luc* xii. 50.

To be straitened in, or *for provisions &c.* [as the besieged] Bod yn fyrr mewn lluniaeth, neu am luniaeth; bod yn gyfyng (yn brin) arnynt am luniaeth, bod mewn prinder o luniaeth, heb na rhyddid na dïogelwch (o herwydd y gwarchae) i fyned i'w hela.

A stráitening, *s.* Cyfyngiad; tynhâd.

Stráitly, *ad.* Yn gyfyng; yn gaeth; yn dyn: ¶ yn fanol; trwy fygwth, *Mat.* ix. 30. *The men asked us straitly of our fate*, Gan ymofyn yr ymofynnodd y gŵr am danom ni, *Gen.* xliii. 7. *The father straightly charged the people with an oath*, Gan dyngbedu y tyngbedodd dy dâd y bobl, 1 *Sam.* xiv. 28. *For he had straightly sworn the children of Israel*, O herwydd efe a wnelsai i feibion Israel dyngu trwy lŵ, *Exo.* xiii. 19.

Straitness, *s.* Cyfyngder, cyfyngdra, cyfyngedd, tynder, tyndra, tynnedd; caethder, caethedd; gwasgfa, *Job* xxxvi. 16.

Straits, *s.* [narrow places *or* passages, by sea *or* land] Cyfyngau, cyfyngleoedd, 2 *Mac.* xii. 21.

Strake, *s.* [the iron-band about the felloes of a cart-wheel] Cant (haiarn-gant) olwyn, y cylch baiarn o amgylch olwyn, rhwym olwyn, &c.

Strand [of the sea, &c.] *See* Shore.

¶ Strand, *s.* [a twist of a rope] Cainge, rhaff, edef cordyn, tennyn.

To strand a ship, [drive upon the shole or shallows] Gyrru llong i'r (ar y) traeth neu'r tywyn, taro llong ar draeth *neu* ar lawr, llorio llong.

Stránded, *a. part.* Lloriedig, wedi llorio.

Strange, *a.* [not of our country *or* ¶ acquaintance] Dieithr; estronol, *Exo.* xviii. 3. estronaidd, *Diar.* ii. 16. ¶ estron, *Salm* cxliv. 11. allwlad, &c. ¶ *A strange woman*, Estrones, *Diar.* xx. 16. *A people of strange language*, Pobl anghyfiaith, *Salm* cxiv. 1. *Strange work*, Dieithrwaith, *Esay* xxviii. 21.

Strange, *a.* [wonderful, surprising, &c.] Rhyfedd, &c.

Strange, *or* odd. *See* Odd, in its 2nd *and* 3rd Acceptation.

Strange *or* shy. *See* Shy.

To look strange [cool, *rather* coolly, *or* shily] *upon one*, Edrych yn oerllyd (yn oeglyd, ¶ yn dieithr) ar un.

¶ *To look strange upon one*, [give one a cold reception.] *See* ¶ To entertain one with indifference, *under* I.

A strange thing, Peth rhyfedd (arnthr) rhyfedd-beth; rhyfeddod.

¶ *A strange* [an odd] *thing*, *and A strange* [sort of *man*. *See* ¶ Oddity.

O strange! O ryfedd!

Strangely, *ad.* Yn rhyfedd, mewn modd rhyfedd, yn arnthr; yn ddieithr, *Deut.* xxxii. 27. —yn anghyffredin.

Strángeness, *s.* [the quality of being strange *or*

Digitized by Google

encounter, &c.] Dieithredd, dieithrwch, dieithrwydd; odrwydd, anghyffredinedd, anghyffredinrwydd; aruthredd, rhyfeddolrwydd. *The strangeness of the event astonished us*, Dieithredd (anghyffredinedd, aruthredd) y ddamwain a'n dychrynodd. ¶ *They shall be amazed at the strangeness of his salvation*, Synn fydd ganddynt ei iachawdwriaeth ryfedd ef, *Doeth.* v. 2. *See*

Strángeness *or* **marvelousness.** *See* under M.

Strangeness, *s.* [non-acquaintance put on, *or* pretended after a former intimacy, &c.] Dieithrwch; osgoilydrwydd, &c. *After having professed mutual friendship for so long a time, who would believe that a certain strangeness grew between them at last?* Wedi ymarddelw o garedigrwydd dros gyhyd o amser, pwy a gredai dyfu o ryw ddieithrwch rhyngddynt o'r diwedd?

Stránger, *s.* Dyn (gŵr) dieithr, dieithr-ddyn, &c. ¶ meredig. *I was a stranger, and ye took me not in*, Bûm ddieithr, ac ni'm dygasoch gyd â chwi, *Mat.* xxv. 43. *Know of a surety, that thy seed shall be a stranger in a land that is not theirs*, Gan wybod gwybydd, y bydd dy hâd di yn ddieithr mewn gwlâd nid yw eiddynt, *Gen.* xv. 13. *He that is*—*bought with money of any stranger*, Yr hwn a—bryner am arian gan neb dieithr, *Gen.* xvii. 12. *I am a stranger and a sojourner with you*, Dieithr ac alltud ydwyf fi gyd â chwi, *Gen.* xxiii. 4. ¶ *The land wherein thou art a stranger*, Gwlâd dy ymdaith, *Gen.* xvii. 8. *He is an utter stranger to me*, Nid adwaen i mi honо (nid wyf fi yn ei adnabod) o holl ddynion y byd. *He is a stranger to me*, [he is not, *or* none, of my acquaintance] Nid yw efe o'm cydnabod i; *neu*, Dieithr (meredig) yw i mi. *He is a stranger to our customs*, Ni thyr (fedr) efe oddiwrth ein defodau ni. *I am no* [not a] *stranger to their contrivances*, Nid wyf fi heb wybod (nid anhysbys i mi) eu dychymmygion hwynt. *He is a stranger to the civil laws*, Nid cyfarwydd (hyddysg, hyfedr) mo honо ynghyfraith y byd; *neu*, Anghyfarwydd ydyw ynghyfraith (ni thyr efe oddiwrth gyfraith) y byd. *You are a great stranger to us*, Nid mynych y deuwch i'n plith (y gwelir chwi gyd â nyni;) *neu*, Yr ych yn ddieithr iawn i (gyd â) nyni.

To strangle. *See* to Choke.

Strángled, *a. part.* Tagedig, *Act.* xxi. 25. a dagwyd, wedi ei dagu.

The strángles, *s.* [in a horse] Clwy'r (clefyd yr) ysgyfaint, yr ysgyfeinwst.

To have the strangles, Ysgyfeinio, bod â'r ysgyfein-wst arno.

Strángle-weed, [in Botany] Tâg-wyg. *See* Broom-rape.

A strángling, *s.* Tagiad, ystagiad, tagfa. ¶ *So that my soul chooseth strangling*, Am hynny y dewisai fy enaid ymdagu, *Job* vii. 15.

The strangury, *s.* Y tostedd, diser-ddwr, ystagiad y dŵr, y gobiso, attal (diferiad) trwngc, anhawsedd (anhawsder) troethi.

Strangulátion. *See* a Strangling, *above.*

Strap, *s.* [a thong of leather] Carrai, (*pl.* carreiau, carreiau:) ¶ ffrewyll, fflangell.

To strap one, Rhoi'r garrai wrth gefn un, curo (baeddu) un â charrai: ffrewyllio (fflangellu) un.

The strappádo, *s.* [a military instrument of torture, so called] Peiriant i gospi a phenydio milwŷr, drwy eu codi i fynu ar ysbonge â'n dwylo ynghlwm ar eu cefn, a'n gollwng i lawr yn un-gwymp, hyd nes dadgymmala eu breichiau a'u hysgwyddau; dirwynlath arteithio.

A strápper, *or* **a strapping lass,** *s.* Geneth (heriodes, morwyn) ddewrwych dihafarch; gwr-forwyn.

Strátagem, *s.* [a military trick *or* artifice, by which some advantage is gained over the enemy: any trick *or* artifice] Ymdro (dichell, cyfrwys ddichell, ystrange, ystryw.

Full of stratagems, Llawn dichell ac ymdro, llawn dichellion ac ystrangciau; ystrangcieg, ystrywgar, dichellgar.

Strátum, *pl.* strata, [beds *or* layers of different kinds of earth, &c.] Hain (haeni, *sing.* haen) gwenyf (gwanafau, *sing.* gwanaf,) &c.

Straw, *s.* Gwellt, (*sing.* gwelltyn.)

¶ **Straw,** *s.* [any thing worthless to a proverb] Ffyloryn, blewyn, un blewyn, seren bren, asglodyn, gronyn, un gronyn, &c. *I care not a straw for him*, Nid wyf yn gofalu ffyleryn am dano. *I care not a straw*, Ni waeth gan i flewyn (o flewyn, un blewyn.) *I value him not of a straw*, Nid wyf yn ei brisio i flewyn; *neu*, Ni phrisia 'i flewyn am dano. *I would not give a straw for him* or *for it*, Ni rown (i) erddo seren bren.

A man of straw, [an insignificant fellow, nothing of a man but the bare figure] Eilun dyn; bwbach y brain. *See* Scare-crow.

To be in the straw. See to Lie in [as a woman, in child-bed.]

To straw, *v. a.* [strew, *or* strow] Taenu, *Exo.* xxxii. 20. tanu, taenu, taenellu, sarnu, gwasarnu, gwasgaru.

Full of [abounding in, *or* with] *straw*, Gwelltog, llawn gwellt.

Straw, in Composition [made of straw: resembling straw *or* that of straw] A wnaed (wedi ei wneuthur) o wellt, ¶ gwellt. *A straw-bed*, Gwely gwellt. *Straw-colour*, Lliw gwellt.

Stráwberry, *s.* Syfien, (*pl.* syfi,) mefusen, (*pl.* mefus.)

Stráwberry-bush, *s.* Mefusŵydd, gwŷdd mefus (syfi.)

A stráwberry-tree, *s.* Mefus-bren, pren mefus, (syfi.) *See* Arbute-tree.

Stráwy, *a.* Gwelltaidd.

Stray, *s.* [a strayed beast] Anifail crwydrad (crwydr, treigl.)

To stray *or* go astray, Crwydro, myned ar grwydr, &c.

Having strayed, Wedi myned ar grwydr.—Stráyer.

Stráying, *part.* Yn (a fo, *neu* y sy, yn) crwydro, a fo (y sy) ar grwydr.

A stráying, *or* **a going astray.** *See* under Astray.

Streak, *s.* [a line of a different colour from that of the ground, on which it is drawn] Llinell amliw, rheng, rhengc, llinell.

The streak [strake] *or rut, of a wheel*, Ol olwyn.

To streak, *v. a.* [mark with a streak *or* streaks] Rhengu, tynnu rhengau (llinellau) ar hyd rhyw beth, dosparthu yn (â) rhengau.

Digitized by Google

Red-streak-apple, *s.* Yr afal rhûdd rhengog (rheng-goch)

Stréaked, *a. part.* Rhengedig, a rengwyd, wedi ei rengu.

A stréaking, *s.* Rhengiad.

Stréaky, *a.* [abounding with streaks] Rhengog.

Stream, *s.* Ffrŵd, ffryd-lif, ¶ rhaiadr, *Num.* xxi. 15.

A small stream. *See* Rivulet.

To go down the stream, Myned gyd â'r dŵr (afon:) ¶ myned â'i (gollwng ei) draed gyd â'r dŵr; *i. e.* myned yn ôl yn y byd.

To strive [swim] *against the stream,* Ymdrech (nofio) yn dynn yn erbyn y dwr.

To stream, *v. a.* Ffrydio, rhedeg yn ffrŵd, llifo.

¶ *To stream* [go swimmingly] *along,* Myned ar nawf (megis ar nawf;) myned dan nofio; ¶ myned heb bluyn yn ysgog.

To stream out, Ffrydio allan, rhedeg yn ffrŵd.

Stréamer. *See* Flag [the colours] of a ship, Pendant, &c.

Stréaming: *and* Streamingly. *See* Flowing: *and* Flowingly.

Stréamy, *a.* [abounding in streams: running in a stream *or* current] Ffrydiog, afonog: rhedegog.

Street, *s.* Hëol, hewl, (in Glamorganshire,) ystryd, ystrad.

A little [narrow] *street,* Hëolan, hewlan.

Street by street, O hëol i hëol, bob yn hëol.

Stréet-walker, *s.* Puttain ben hewl, (ben ffordd.)

Strength, *s.* [vigour of body, &c.] Grym, nerth, cryfder, cryfdra, cryfdwr, *Lef.* xxvi. 20. cadernid, gyrdd-der, &c. *That excel* [mighty] *in strength,* Cedyrn o nerth, *Salm* ciii. 20. ¶ *That I may recover strength,* Fel y crythäwyf, *Salm* xxxix. 13.—*N. B.* Strength, being the former *or* latter of two substantives, is sometimes rendered in Welsh by an adjective derived from, or radical to, the Welsh of strength, and joined to the other substantive: e. gr. *Men of strength* [strong men] Dynion nerthol, *Esay* v, 25. *The arm of his strength* [his strong arm] Ei fraich nerthol, *Esay* lxviii. 8. *By strength of* [by a strong] *hand,* Trwy law gadarn, *Ecs.* xiii. 3. ¶ *His bow abode in strength* [continued strong] Arhôdd ei fwa ef yn gryf, *Gen.* xlix. 24.

Strength [vigour] *of mind,* Cryfder (cadernid, cadarnedd, gŵreiddrwydd, gŵroldeb, &c.) meddwl.

Strength of land, [a being in heart] Cryfder (grym, gallu, ¶ calon) tir.

¶ *Strength of trees,* [the crop they produce] Cnŵd, *Joel* ii. 22.

Strength, force, *or* power, [of language, of an expression, of an argument, &c.] Grym, grymmusder.

¶ *Strength of a town, a country, &c.* [its places and means of defence] Amddiffynfeydd, (*sing.* amddiffynfa, *Dan.* xi. 31.) cadernid, *Nah.* iii. 11. cryfder, *Hag.* ii. 22.—¶ golud, *Jer.* xx. 5.

¶ *Strength* [the fruit *or* produce] *of the ground,* Ffrwyth (cnŵd) y ddaear, *Gen.* iv. 12.

Strength [force, power, *or* virtue.] *See* Efficacy; *and* Efficience.

¶ *One's strength,* [a person's fort, *i. e.* the quality wherein a man excels] Y mann cryf ar un; yr hyn y mae un yn rhagori ynddo; dewisgamp un.

Strength of liquor, [of wine, &c.] Nerth, 1 *Esdr* iii. 17. grym, cryfder, cadernid.

Strength *or* power. *See* Force [power, &c.]

Strength [military] *of a country, &c. See* Power [military] *of.*

A place of strength. *See* a strong Hold, *under* H.—a country, &c.

Full of strength, Nerthog, llawn nerth, &c.

Lack of strength, Eisiau (diffyg) grym *neu* nerth; gwendid, &c.

Without strength or *strengthless,* Di-nerth, di-rym; gwan (*pl.* gweinion.) ¶ *When we were yet without strength,* Pan oeddym ni etto yn weiniaid, *Rhuf.* v. 6.

To be of strength or *force. See under* F.—*See also* to be Able.

Of great strength. *See* Powerful.

To gather or *recover strength,* Cael nerth, 2 *Cron.* xiii. 20. gwrygio.

To recover or *restore one to his former strength,* Adferu un i'w gyn-rym *neu* gyn-nerth; iachâu un.

To gather strength, [grow stronger; increase] Cryfhâu, ymgryfhâu; trymhâu; myned gryfach gryfach (drymmach drymmach;) cynnyddu.

To strengthen. *See* to Corroborate, *and* to Fortify (in both its Acceptations.)

To strengthen one's self, Ymgryfhâu, ymgadarnhâu, ymnerthu. ¶ *But he shall not be strengthened by it,* Er hynny ni bydd efe cryf, *Dan.* xi. 12.

Stréngthened, *a. part.* Nerthedig, a nerthwyd, wedi ei nerthu; a gryfhäwyd, wedi ei gryfhâu, &c.

A stréngthening, *s.* Nerthiad, cryfhâd, cadarnhâd.

Strennous. *See* Active [nimble;] Ardent [eager, &c.] Bold (in its 1st Acceptation;) Hearty [stout, &c.]

Stréunously, *ad.* Yn fywiog, &c.—yn daerddrud wresowglym—yn bybyr.

Strenuousness, *s.* Bywiogrwydd; gwresogrwydd, taer-ddrudedd; pybyrwch.

Stress *or* strain. *See* Strain [a tightness, &c.]

Stress, *s.* [weight, moment, &c.] Pwys.

The stress [chief point] *of a business,* Prif-bwnge y matter. ¶ *The stress of the whole matter lieth here* [herein lieth the stress of the whole matter] Ar y pwngc hwn yn hollawl y try (y saif) y matter *neu'r* ddadl.

Stress *or* force, [laid on a word *or* sentence, in reading.] *See* Emphasis.

To lay stress upon a thing, Gosod (dodi, rhoddi) pwys ar beth; pwyso (gorphwyso, gorsefyll) ar beth. *He layeth too much stress upon a dream,* Efe a rydd (ddyd) ormodd bwys ar freuddwyd; *neu,* Efe a rydd ormodd gréd i freuddwyd.

To put to a stress, [to a puzzle *or* difficulty] Rhoddi un mewn dyryswch ac anhawsdra.

Stretch, *or* a stretching, *s.* Ystyniad, ystynfa, ystyn: ymystynniad, ymystynfa, ymystyn.

To stretch out, v. a. Ystyn, estyn; lledu; tannu; tynhâu.

Stress of weather, Dyhinedd dryghin, drychin.

To put one's thoughts [wits] *upon the stretch* Rhoi (gosod, dodi) ei feddyliau *neu* synhwyr

Digitized by Google

au ar dynn (ar ddir-dynn;) poeni (dirboeni) ei feddyliau *neu* synhwyrau.

To put one's patience to the stretch, Rhoi amynedd un ar y dirdynn; profi amynedd un i'r eithaf.

To stretch out, *v. n.* *See* to Extend [itself] to Expand, *v. n. and* to Distend.

¶ To stretch, *v. a.* [with yawning] Ymystŵyro, ymystyn.

To stretch *or* strain a point. *See under* P.

To stretch, *or* reach [extend] to *or* unto. *See under* R.

¶ To stretch, [exceed, *or* go beyond, the truth] Dywedyd mwy nâ'r gwîr, ¶ ystyn.

Stretched, [out] Estynnedig, a estynwyd, wedi ei estyn.

Stretched abroad, Tannedig (a danwyd, wedi ei dannu) ar led.

That may be stretched. *See* Extensible, &c.

A stretching. *See* Extension; Distention: Dilatation.

A stretching, *s.* [with yawning] Ymystŵyrad, ymystynniad, ymystyn.

To strew, *v. a.* Taenu, *Bel.* 14. *See* to straw.

To strew with flour, [with sugar, &c.] *See* to Sprinkle, &c.

To strew the ground with herbs or *flowers*, Taenu â llysiau *neu* â blodau.

Stréwed, *a. part.* Taenedig, a daenwyd, wedi ei daenu.

A stréwing, *s.* Taeniad, taenelliad, &c.

Stréated. *See* Chamfered.

Stricken, *a. part.* Tarawedig, a darawyd, wedi ei daro.

Stricken [well stricken] *in age* or *years*, Mewn (wedi myned mewn) gŵth o oedran, yn pwyso mewn oedran.

Strickle *or* strickless, *a.* [for striking of the over-measure of corn, &c.] Cyforbren, cyforydd.

Strict *or* close, *a.* Cyfyng, caeth, cyfyng-gaeth; gwasgedigol; tynn; digyfwng; annattod, dïysgar. *The strictest band of love*, Cyfyngaf gwîwm cariad.

Strict *or* exact. *See under* E.—*See also* Punctual.

Strict *or* positive, Pendant.—*See* Peremptory.

Strict *or* severe. *See* Severe, Rigorous, &c.

Strictly, *ad.* Yn gyfyng, yn gaeth.

Strictness, *s.* Cyfyngedd, caethedd, caethder.

Strictness [closeness] *of friendship*, ¶ Cyfyng-gîwm cyfeillgarwch.

Strictness of justice, ¶ Eithaf (tostedd, llymmedd) cyfiawnder.

¶ Stricture, *pl.* strictures, [sparks flying from red-hot iron, when beat with a hammer, &c.] Gwreichion haiarn, ¶ chwain y gôf.

Stricture, *s.* [a stroke *or* touch] Ergyd, cnith; ¶ ergyd prawf. ¶ *The beast have some strictures of ratiocination*, Y mae i'r (yn yr) aniféiliaid rai argoelion (arwyddion, nodau, ergydion) ymresymmu.

A stride *or* long stride, *s.* Hir-gam, bras-gam; ¶ hydd-gam.

To have a strict eye upon one, Gwylio (cadw ei olwg) yn ddyfal ar un.

To have, or *keep a strict hand over one*, ¶ Cadw'r ffrwyn yn dynn ar warr un, ffrwyno un yn dynn.

I strid, [did stride] Brasgemmais.

Stride *or* step, *s.* Cam, camre.

To stride, *v. a.* [take a stride *or* a long stride] Brâsgammu, hirgammu, hyddgammu.

¶ *He strides along*, Efe a â (y mae efe yn myned) dan frâsgammu.

To stride across, or *over*, Brâsgammu dros.

A striding, *s.* Brâsgammiad.

Stridingly, *ad.* Dan frâsgammu; ar frâsgam; â'i draed ar led.

Strife. *See* Contention, Quarrel, &c.

Full of strife. *See* Contentious, Quarrelsome.

To fall at strife, [at, *or* into, variance.] *See* to Quarrel, &c.

The strig [foot-stalk] *of fruit*, Troed (coesgyn) aeron, megis eiddo afal *neu*'r cyffelyb.

Strike, *s.* [a measure not heaped] Cyfor.

To strike, *v. a.* Taraw, taro, &c.

To strike [aim] *at*, Ergydio (bwrw, cyfeirio, annelu, taro) at.

To strike at one with a sword, &c. Gosod (ymosod, rhuthro, &c.) ar un â chleddyf, taro â chleddyf.

¶ *To strike* [drive] *at*. *See* to Aim at [design.]

To strike [drive] *back*, Taro yn ol, gwrthdaro.

To strike [up] *a bargain*, Taro bargen.

To strike blind, Taro 'n ddall, dallu, taro â dallineb (delli.)

To strike, [as a vicious horse.] *See* to Fling [kick, &c.] *and* to Kick (in its 1st, 2nd, and 3rd Acceptation.)

To strike, *v. a.* [in measuring corn] Gwastattâu (peri yn wastad) gyd ag ymyl y llestr, ¶ cyforio.

To strike down, Taro (bwrw, curo) i lawr.

To strike against. *See* to Dash [beat, strike] against.

To strike fire, Taro tân.

To strike gently, Taro yn dirion, go-daro, cnithio.

To strike, or *affect*, *with joy*, &c. *See under* A.

To strike off, Taro (torri, trychu, llâdd) ymaith. *To strike off one's head*, Taro pen un ymaith, torri'r pen oddiar y gwddf.

To strike or *dash*, *on the chaps*. *See under* D.

To strike out, Taro allan.

To strike or *dash*, *in pieces*. *See under* D.

To strike one's ears, Taro clustiau (seinio ynghlustiau) un.

To strike sail, Gostwng (gestwng) hwyliau, gollwng (tynnu) hwyliau i lawr: *Met.* ymostwng, ufuddhâu.

To strike the mast, Gostwng yr hwyl-bren, tynnu'r hwylbren i lawr.

To strike through, Taro (bwrw) trwodd *neu* drwyddo; gwanu trwodd, trywanu; treiddio.

To strike tents, Gostwng pebyll, bwrw (tynnu, (taro) pebyll i lawr.

To strike up, [as a musical instrument, &c.] Agor, agori, egôri; dechreu, cychwyn.

To strike [kick *or* trip] *up one's heels*. *See under* H.

To strike, *or* dash, together. *See under* D.

——N. B. ¶ *And he will* [would] *strike his hand over the place*, Ac y gosodai (y cyhwfanai) ei law ar y fan, 2 *Bren.* v. 11. *As the torment of a scorpion, when he striketh a man*, Fel gofid oddiwrth ysgorpion, pan ddarfyddai iddi frathu dyn, *Dadg.* ix. 5. *Who is he that will strike hands with me?* Pwy ydyw efe a dery ei law yn fy llaw i? *Job* xvii. 3. *If thou hast stricken hands with a stranger*,

Digitized by Google

Os tarewaist dy law yn llaw y dieithr, *Diar.* vi. 1. *For the transgression of my people was he stricken*, Rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl, *Esay* liii. 8.

Striker, *s.* Taraw-wr, tarawydd, tarawiedydd.

Apt to strike, Tarawgar; ymladdgar.

¶ *The striker of a plough*, Dihoelyd (dyhoelyd) aradr, y dihoelyd; asgell aradr.

Striking, *part.* Yn (a fo *neu* y sy, yn) taro: ¶ a hair argraph: hynod. *A striking instance of sagacity in a brute*, Siampl hynod o gyflymder dëall mewn anifail.

A striking, *s.* Tarawiad

Expert at striking, *s.* Arfodus, hyfedr ar daro; parod ei ergyd.

Strikle. *See* Strickle.

String, *s.* Llinyn.

A string of leather, Carrai.

A string *or* ligament, *s.* Rhwymyn, rhwym, *Marc* vii. 35.—¶ llinyn.

¶ *To have the world in a string*, Bod yn ben (yn feistr) ar y byd; bod â'r byd ynghill ei ddwrn (dan ei fawd, dan ei law, dan ei droed;) bod à'i fŷd wrth ei fodd.

¶ *To hang in a string together*, Bod yn un-sir (yn un-chwedl, ar yr un llinyn;) bod wedi cyttuno ym maenllaw ar eu ehwedl.

A string, *s.* [by which a dog is led] Cynllyfan.

The string of a purse, Arwestr.

String, *s.* [of a musical instrument] Tant (*pl.* tannau.) ¶ *A little string*, Tennyn. *The base string*, Y llorf-dant. *The key-string*, [tuning string] Y cyweirdant. *The fore-finger string*, Tant y mynagfys. *The middle string*, Y canol-dant. *The sharp string*, Y crâs-dant. *The small* [treble] *string*, Y cildant. *The larger strings*, [of the harp] Y llorf-dannau. *The smaller strings*, Y cildannau. *An instrument of ten strings*, Offeryn deg tant.

A string [pair] *of beads*. *See under* B.

A string, or *bracelet, of pearls*. *See under* B.

To [run upon a] string, *v. a.* Llinynnu, rhoi (rhoddi, gosod, dodi) ar linyn.

To string a harp, &c. [furnish with strings] Tennynnu telyn, rhoi (dodi) tannau mewn telyn *neu*'r cyffelyb.

To string a dart, &c. Carreio piocell *neu*'r cyffelyb.

Stringed, *part. a.* Llinynnedig, a linynnwyd, wedi ei llinynnu; tennynnedig, a dennynwyd, wedi ei dennynnu (ei thennynnu;) â thannau ynddi. ¶ *A stringed harp*, Telyn dannog (dennynnog.) *A stringed instrument*, Offeryn tant (tannau.)

The small strings of roots, Gwreiddiach, mânwraidd.

Stringiness, *s.* [the quality of being stringy] Llinynnogrwydd, anawdd llinynnog.

Stringy, *a.* [abounding with strings, &c.] Llinynnog, llawn llinynnau (llinynion:) mânwreiddiog.

Strip, *s.* [a small, narrow, piece] Dryll (drylliyn) hir-gul *neu* hir-fain; llain (o dîr, o frethyn, &c.)

To strip [make naked.] *See* to Denudate.

To strip, *v. a.* [deprive of dress, &c.] Diosg, 1 *Sam.* xxxi. 8. diwisgo, tynnu oddiam. *They stripped him*, Hwy a'i diosgasant ef, *Mat.* xxvii. 28. *Lest I strip her naked*, Rhag i mi ei diosg hi yn noeth lymmun, *Hos.* ii. 3. *They shall strip thee also of thy clothes*, Diosgant di hefyd o'th ddillad, *Ezec.* xvi. 39. *And thou hast stripped the naked of their clothing*, A diosgaist ddillad y rhai noethion (y rhai noethion o'u dillad,) *Job* xxiii. 6. *And strip Aaron of his garments*, A dïosg ei wisgoedd oddiam Aaron, *Num.* xx. 26. *He hath stript me of my glory*, Efe a ddïosgodd fy ngogoniant oddiam danaf, *Job* xix. 9. ¶ *They shall also strip thee out of thy clothes*, Diosgant hefyd dy ddillad, *Ezec* xxiii. 26.

To strip, or *strip one's self*, Ymddïosg, *Esay* xxxii. 11. ymddiwisgo, &c. ¶ *And the children of Israel stript themselves of their ornaments*, A meibion Israel a ddïosgasant eu hardd-wisg, *Ecs.* xxxiii. 6. *And Jonathan stript himself of the robe that was upon him*, A Jonathan a ddiosgodd y fantell oedd am dano ei hun, 1 *Sam.* xviii. 4. *And he stript off his clothes*, Ac efe a ddïosgodd ei ddillad, 1 *Sam.* xx. 24.

To strip of its covering. *See* to Develop.

To strip off the rind. *See* to Decorticate, to Peel, to Flay.

¶ To strip, *or* deprive, of. *See under* D.

Stripe, *s.* [a stroke *or* blow with a rod, a stick, &c.] Gwialennod (*pl.* gwialennodlau,) *Act.* xvi. 23.—ffonnod (*pl.* ffonnodlau,) *Luc.* xii. 48. lab, llach; ¶ dyrnod, ? *Sam.* vii. 14.—ffrewyll, *Salm* lxxxix. 32. ¶ *A reproof entereth more into a wise man than a hundred stripes into a fool*, Un sen a ofna'r call yn fwy, nâ phe baeddid y ffôl ganwaith, *Diar.* xvii. 10.

¶ Stripe, *s.* [the mark *or* print of a stripe] Ol gwïalennod (gwïalen,) &c. &c.—clais, *Ecs.* xxi. 25. briw, *Act.* xvi. 33.

A stripe *or* streak [of a different colour.] *See* Streak.

Full of stripes, Gwïalennodiog, ffonnodiog, llawn ffonnodiau; cleisiog, llawn cleisiau, &c.

To stripe. *See* to *Streak*.

Striped. *See* Streaked, *and* Streaky.

Stripling, *s.* [a youth] Llangc, gwr ieuangc, 1 *Sam.* xvii. 56.

The age of a stripling. [*i. e.* entering 15] Glasoed.

Stripped *or* stript, *part. a.* Dïosgedig, a ddïosgwyd, wedi ei ddïosg, ¶ noeth, *Mic.* i. 8.

Stripper, *s.* Dïosgwr, dïosgydd, dïosgiedydd.

A stripping, *s.* Diosgiad.

To strive, *or* contend. *See under* C.

To strive *or* endeavour. *See under* E.

To strive against the stream. *See under* Stream.

To strive together, Ymgynhennu, *Lef.* xxiv. 10. ymryson, *Ecs.* ii. 13.— cyd-ymdrech.

To strive *or* contend [in words.] *See* under C.

To strive with, Ymryson (ymdrech; dadleu: ymddadleu, &c.) â. ¶ *They that strive with thee*, Dy wrthwynebwŷr, *Esay* xli. 11. *Plead my cause, O Lord, with them that strive with me*, Dadleu fy nadl, Arglwydd, yn erbyn y rhai a ddadleuant i'm herbyn, *Salm* xxxv. 1.

To strive together with, Cyd-ymdrech gyd â, *Rhuf.* xv. 30.

Having striven, Wedi ymdrechu (ymoreheuta.)

Striver, *s.* Ymdrechwr, ymdrechydd, ymdrechiedydd.

Striving, *part.* Yn (a fo, *neu* y sy, yn) ymdrechu;—gan (dan) ymdrechu.

A striving. *See* a Contending, *and* Exertion.

A striving together. *See* Colluctation.

Digitized by Google

Strivingly, *ad.* Gan (dan) ymdrech; yn ymdrechgar, drwy (dan) ymorchestu; â'i holl egni.
Stroke, *s.* Ergyd, &c.
The stroke of a weapon, Arfod.
To stroke, *v. a.* [draw the hand lightly over] Llochi, gorllyfnu.
To be upon the stroke of [as a clock] Bod ar daro (ar ergyd)
¶ To stroke, *v. a.* [draw the last milk] Ail-odro.
To bear stroke or *sway*, Dwyn rhwysg.
Stróked, *a. part.* Llochedig, a lochwyd, wedi ei llochi.
A stróking, *s.* Llochiad, llawch, gorllyfniad.
Strokings of milk, Yr ail-odro, armel.
To stroll, *v. n.* Gwibio, crwydro; ¶ herwa.
Stroller. *See* Rambler.
Strólling. *See* Rambling, &c.
Strong, *a.* Crŷf, *(fem.* crêf,) cadarn, &c. *A strong man*, Gŵr crŷf (cadarn,) ¶ cawr, &c. *Salm* xix. 5. *Strong drink*, [ale *or* beer] Dïod grêf (gadarn; cwrw crŷf (cadarn.) *For that he is strong in power, not one faileth*, Gan ei gadarn allu, ni phalla un, *Esay* xl. 26. ¶ *A strong ass*, Assyn asgyrnog, *Gen.* xlix. 14. *Strong cities*, Dinasoedd amddiffynnadwy (cedyrn,) 1 *Mac.* i. 19. *His bones are as strong pieces of brass*, Pibellau prês ydyw ei esgyrn ef, *Job* xl. 18. *Strong bulls*, Gwrdd deirw, *Salm* xxii. 12. *They were but ten thousand men strong*, Nid oeddynt onid deng mil o nifer (o risedi.)
Strong-limbed, *a.* Aelod-gryf, aelod-fawr, aelodog.
A strong hold. *See under* H.
Strong *or* firm. *See under* F.—*See also* Massive, &c.
Strong, *a.* [in smell] Cryf; trwm; drwg; drewedig.
A strong smell. *See* Stench.
Too strong for, Trech (cryfach) nâ.
To be strong, Bod â grym (nerth) ganddo; bod yn grŷf (yn nerthog, &c.) ¶ *Then shall the hands of all that are with thee be* (made) *strong*, Yna y cryfhêlr llaw y rhai oll sydd gyd â thi, 2 *Sam.* xvi. 21. *When Israel was* [grew] *strong*, Pan gryfäodd Israel, *Barn.* i. 28. *The sky, which is strong*, [is made firm] *as a molten looking-glass*, Yr wybren, yr hon a siccrhawyd, fel drych toddedig, *Job* xxxvii. 18.
To grow [become *or* wax] *strong*. *See under* G. —*See also* to Gather strength, *under* G.
To make strong, Cryfhâu cadarnhâu, nerthu, cyfnerthu, siccrhâu, dïogelu, gwneuthur (peri) yn gryf-gadr. ¶ *Abner made himself strong* [exerted, *or* was exerting, himself] *for the house of Saul*, Yr oedd Abner yn ymegnïo dros dŷ Saul, 2 *Sam.* iii. 6.
Stronger, *a.* Cryfach, trêch. ¶ *And surely we shall be stronger than they*, A ni a'n gorthrechwn hwynt, 1 *Bren.* xx. 23. *And he that hath clean hands shall be stronger and stronger*, [shall add strength] A'r glân ei ddwylaw a chwanega gryfdwr, *Job* xvii. 9.
Stróngest, *a.* Cryfaf, trechaf, &c.—¶ trylew.
Stróngly, *ad.* Yn grŷf, yn gadarn, &c.
Strove, [preterimp. of the Verb *to strive.*] Ex. *I strove*, [did strive] Ymdrechais, *neu* mi (myfi) a ymdrechais, &c.

Struck, [preterimp. of—*to strike.*] Ex. *I struck* [did strike] Tarewais, mi (myfi) a darewais.
To be struck all of a heap, Cael ei daro i lawr yn gruglwyth (yn swrth, yn soppyn, ar unwaith,) cael ei gythruddo (ei gythryblu, &c.)
Strúcture. *See* Edifice.
¶ *The structure* [construction] *of words*, Gosodiad geirian mewn trefn.
Struggle. *See* Conflict (in its 1st Acceptation) Luctation; Colluctation: *and* Endeavour.
To struggle, *v. n.* Ymdrech, &c.
To struggle for a person, Ymdrech ym mhlaid un.
To struggle together, Ymwthio, *Gen.* xxv. 22.
To struggle one's self out of a person's clutches, Ymryddhâu o grafangau un drwy ymdrech ac ymorchestu.
Having struggled. *See* having Striven, *above*.
Strúggler. *See* Striver.
A strúggling. *See* a Striving, &c.—*See also* Struggle, *(above,)* &c.
Struma. *See* the Evil.
Strúmpet. *See* Prostitute, &c.
A young [little] *strumpet*, Mwyglen, symlogen.
Strung. *See* Stringed.
To strut along, [walk with a stately air] Rhodio yn uchel-falch, (yn uchel-drawd,) cerdded yn hoyw-falch, yn goeg-falch, yn uchel-falch, &c.) myned (cerdded) yn rhygyngog *neu* dan rygyngu: myned (cerdded) dan gastellu.
To strut or *strut out*, [swell, *or* be turgid with something contained] Chwyddo allan, bolchwyddo, chwyddo (bod yn chwyddedig) gan dynnder.
Strut, *s.* [an affected stately gait] Uchel-drawd, rhygyng-drawd.
A strutting along, Mynediad (cerddediad) uchel-falch.
Stub, *or* Stump, *s.* Cippyll, cŷff, boncyff, bôn, bonwm, bonyn.
To stub up, Tynnu'r bonion; diwreiddio, &c.
Stúbbed *or* stúbb'd, [short and thick, &c.] Byrr-dew, byrr-fraisg: blaen-bwl, diflaen.
A stubbed fellow, Dyn bâch (dynyn) cydnerth; pwtt o ddyn.
Stúbbedness, *s.* Byrr-freisgedd; blaen-byledd.
A stúbbing, *s.* Diwreiddiad, tynniad bonau.
Stúbble, *s.* Sofl.—¶ *A stubble goose*, Gŵydd sofl, sofl-ŵydd.
Stúb-nail, *s.* Bôn (bonyn) hoel *neu* hoelan; bonyn o hoel.
Stúbborn, *a.* [not to be moved by threats *or* persuasions, &c.] Cyndyn, cyndynniog, cildyn, cildynus, milain, anhydyn, ystyfnig, gwrthnysig, pen-galed, anhywedd, anhywaith, &c.
A stubborn saucy knave, Dihiryn, dihirwr.
To grow stubborn, Mileinio, myned yn filain (yn ben-galed, &c. anhyweithio, ystyfnigo, ymgyndynnu, cymmryd meddwl cyndyn; ymgadarnhâu; ymwydnhâu.
Stúbbornly, *ad.* Yn gyndyn, yn gildyn.
Stúbbornness, *s.* Cyndynrwydd, cildynrwydd, &c. ¶ caledrwydd, *Deut.* ix. 27.
I stuck [did stick] *to*, Glynais wrth, mi (myfi) a lynais wrth.
Stuck, [with a knife, &c.] Brathedig, a frathwyd, wedi ei frathu, &c.
To cry like a stuck pig, Llefain fal mochyn â'r gyllell yn ei gêg (ei galon.)

Digitized by Google

Stuck [adorned] *with*, Addurnedig (a addurnwyd, wedi ei addurno) â.

A stuckle of corn, Mwdwl (cludair) o ŷd.

Stud, *s.* [an embossed nail] Boglyn, (*pl.* boglynnau,) *Cuaied.* i. 11. bolgiwm, gem, llettem.

A little stud, Boglynnyn.

¶ Stud, *s.* [a collection of horses and mares for breeding] Gre. *A lawful* [just *or* proportionate] *stud, fifty mares and a stallion*, Gre gyfreithawl, dêg caseg a deugaint ac ystalwyn; *K. H.*

A stúd-mare, *s.* [a mare kept for breeding] Caseg re (rewys,) *K. H.*

Stúdded, *a.* Boglynnog; gemmog, llettemmog.

Stúdent, *s.* [one given to books and study] Un llyfrgar (llengar, llêngar, darlleingar, myfrgar;) un yn ymrôi i'w (a ro ei serch ar ei) lyfrau; un chwannog i ddysgu; ysgolhaig; myfyriwr; astudiwr.

A great, or *hard, student*, Astudiwr mawr (caled, ystig:) ¶ llyfr-lwth.

Stúdied, *a.* Myfyriedig, a fyfyriwyd, wedi ei fyfyrio; rhagfyfyriedig, &c.

Stúdious, *a.* [addicted, *or* much given, to study] Yn (a fo, *neu* y sy, yn) ymrôi i'w lyfrau, llyfrgar, llengar, llengar, darlleingar; brydgar, bwriadgar, myfyrgar; astud, ystig, ymroigar, &c.

Stúdious, *a.* [desirous] *of*, or *earnest for*, Chwannog i; taer am. ¶ *He is very studious of praise*, Y mae efe yn ddiwyd yn ceisio, ac yn daer am gyrraedd clôd; *neu*, Y mae efe yn fawr ei fryd ar gyrraedd clôd (canmoliaeth.) *They are studious to please us*, Y maent â'u bryd (bwriad) ar ein boddhâu; *neu*, Y maent yn bryderus (bryderog) i'n boddhân.

Stúdiously, *ad.* Gan (dan) ymrôi i beth; yn frydgar, yn fwriadgar, yn fyfyrgar; yn astud.

Stúdiousness, *s.* [the quality of being studious] Llyfrgarwch, llêngarwch, &c.—brydgarwch, bwriadgarwch, myfyrgarwch; astudrwydd.

Stúdy, *s.* [an intense application of the mind to literature, &c.] Astud ymröad i ddysg *neu* i cyffelyb; astud (difrif a dyfal) fryd ar beth; myfyrdod, myfyried; dihewyd; bwriad yn y meddwl; ystyriaeth. ¶ *Much study is a weariness of the flesh*, Darllain llawer sydd flinder i'r cnawd, *Preg.* xii. 12. *He is conversant in several sorts of study*, Y mae efe yn gymmefin ag amrafael ddysgeidiaeth. *He betakes himself entirely to the study of learning*, Efe a ymrŷdd (y mae efe yn ymrôi) yn hollol i chwilio ac i olrhain dysgeidiaeth. *We are in a course of studies*, Yr ydym ni'n myned ym mlaen yn dreftus yng nghylch (yn ystod) dysgeidiaeth. *He has left off his studies*, Gadawodd ei lyfrau. *He spends all his time in study*, Treulia gydol ei amser uwch ben ei lyfrau; *neu*, Ni's gwna swydd yn y byd ond darllain a myfyrio (ac astudio.)

¶ Study, *s.* [a closet to study in] Llyfr-gell; myfyr-gell, myfr-gell.

In a brown study. See in a deep Muse, *and* deeply Musing, *both under* M.

To stúdy, *v. n.* [be engaged with books in the pursuit of learning and knowledge] Bod yn ddyfal ac yn astud wrth (yn, *neu* uwch ben) ei lyfrau; chwilio dysgeidiaeth; olrhain gwybodaeth; astudio; myfyrio.

To study, *v. a.* [apply one's mind to the knowledge of a thing, &c.] Astudio peth, rhoi ei fryd ar (ymroi i) ddysgu peth, glynu wrth beth i'w ddysgu, bod yn astud (yn ddyfal *neu'n* ddiflin) yn dysgu peth *neu'n* myfyrio ar beth; chwilio allan; ymgais â, &c. *He studies the law*, Astudia (efe a astudia, *neu* y mae efe yn astudio) 'r gyfraith.

To study *or* meditate, *v. a.* Myfyrio, *Diar.* xxiv. 2.

To study, *v. a.* [be diligent, careful, *or* studious; be intent on, &c.] Bod yn ddyfal, 2 Tim. ii. 15.—rhoi ei fryd ar, 1 Thes. iv. 11. —¶ myfyrio, *Diar.* xv. 28.

To study one's humour, Chwilio allan dymmer un, olrhain tymmer un.

To study to please, Ceisio boddhâu (boddi, boddloni;) ymroi i foddhâu.

Stúdying, *part.* Yn (a fo, *neu* y sy, yn) myfyrio; gan (dan) fyfyrio.

A studying, *s.* Myfyriad.

Stuff, *s.* [of which any thing is made] Defnydd. *Kitchen-stuff*, Ired.

Stuff, *s.* [for wearing] Teallif, tenlli.

Stuff *or* furniture, *s.* Dodrefn, dodren, *Household stuff*, Dodrefn tŷ. *A stuff for removing*, Fel dodrefn caethglud, *Exec.* xii. 4. ¶ *The most valuable household stuff*, Anguedd tŷ.

¶ Stuff, *s.* [used to express contempt, dislike] Ffladredd; ffreec (*pl.* ffreged,) ffiloreg; ffoled, ffolineb, ynfydrwydd; brygawthen, &c. ¶ *Mean* [pitiful, sad, sorry, wretched, &c.] *stuff*, Tlod-laith, gwael-laith, isel-laith, ffiadr-laith, baw-laith; laith dlawd (wael, isel, &c.) ¶ ffôl eiriau ffiloreg. *To preach sad stuff*, Pregethu brygawthen. *Nasty stuff*, Budr-laith, ffieidd-laith: budreddi. *Silly* [trifling] *stuff*, Coeg-laith; geiriau gweigion (gorweigion, gorwag, diwyiwedd;) coeg-eiriau, coeg-chwedl, ofer-chwedl.

To stuff *or* cram. *See under* C.—*See also* to Fit with stuffing.

Stúffed, *part. a.* Sechedig, a sechwyd, wedi ei sechi.

Stuffed with, ¶ Llawn (gorllawn) o.

Stuffed up with a cold, ¶ Gosmwytheg, â'r gormyth arno.

A stúffing, *s.* Sechiad. ¶ *The stuffing of a bed* [i. e. *the feathers, flocks, &c.*] Plu, fflocciya.

Stum, *s.* [wine not fermented; fermenting wine, the flower of fermenting wine] Sreeci gwin, gwin cyn gweithio (gwaith;) gwin ya ei waith; ewyn gwinllyn ei waith.

To stum wine, [give it a new fermentation, when vapid and dead] Peri gwaith mewn gwin o newydd, peri i win ail-weithio weithio eilwaith;) peri bywyd newydd mewn gwin marw.

Wátch-tower, *s.* Tŵr-gwilied, gŵyl-dwr; gŵylfa; tremmynfa; disgwylfa.
Watch-word, *s.* [given to a centinel by the general in order to discover friends from foes] Arwydd-air; rhin air, cyfrin-air: gŵyl-air, gair yr wylfa, *sef*, gair nôd neu amnaid mewn rhyfel er gallu o bob un adnabod ei gyfaill rhagor ei elyn.
Wáter, *s.* Dwr, dwfr; ¶ mêr, nav, gwy. ¶ *Water is a waster*, I'r dwr y mae danneddi; neu, Y mae danneddi i'r (gan y) dwr; neu, Y mae i'r (gan y) dwr ddannedd.
To throw water into the Thames [Prov.] *&c.* ¶ to carry Coals to Newcastle [Prov.] *&c. under* C.
¶ *To watch one's waters*, [observe one's conduct narrowly] Dal manol sulw ar ymddygiad un, manol-wilied un.
¶ *A little* [small] *water*, Dyfryn.
Fresh water: *Running water*: and *Standing water*. *See under* F. R. *and* S.
Without water, [waterless] Diddwfr, heb ddwfr ynddo neu ynddi.
Holy water, Dwr (dwfr) bendigaid, dwr (dwfr swyn.)
Living [that lives] *in water*. *See* Aquatic.

Digitized by Google

Living [that lives] *by water and by land. See* Amphibious.
High water. See under H.
Low water. See under Low [applied to water.]
Well [spring, fountain] *water*, Dŵr (dwfr) ffynnon.
To water, *v. a.* [a garden, land, &c.] Dyfrhâu, dyfru.
To water cattle, Dyfrhâu (dyfru) anifeiliaid, rhoi dwfr i, arwain (dwyn, gyrru, troi) i'r dŵr.
To water hemp, &c. Dyfrhâu cywarch *neu'r* cyffelyb.
¶ To water, *v. a.* [take in fresh water] Dyfru, cywain (cyrchu) dŵr.
To water, *v. n.* [as the mouth, the eyes, &c.] Dyfru; gwlybu.
To make water. See under M.
To make one's mouth water, Peri i enau un ddyfru, ¶ peri i un chwennycha (chwantu, blysio, trachwennycha;) peri chwant (blys) yn un.
Wáter-bailiff, *s.* Dyfrwr, swyddog (maer) y dŵr.
Wáterer, *s.* Dyfrwr.
Water-bank. *See* Bank of a river.
Water-bearer, *or* water-carrier, *s.* Dygiawdr dŵr, dŵr-glodydd.
Water-beetle, *s.* Chwilen y dŵr.
Water-borne, *a.* [as a ship that is just afloat] Yn dechreu mynod ar nawf, yn dechreu codi gan y dŵr.
Wáter-course. *See* Aqueduct.
¶ Wáter-courses, *s. pl.* Ffrydiau dyfroedd, *Esay* xliv. 4.
The water-course of a mill, Pynfarch melin.
Wáter-drinker, *s.* Yfedydd (yfwr) dŵr, dŵr-yfedydd.
Wátered, *or* well-watered. *See* Irriguous.
Wátered, *part. a.* [steeped in water] Mwyded-ig mewn dŵr, a roddwyd (wedi ei roddi) ym mrwyd *neu* yngwlyeb mewn dŵr.
¶ Wátered, *a.* [as silks, and calendered stuffs, are] Trŏellog, trŏellennog.
Wáter-fall. *See* Fall of water, &c.
Wáter-flag. *See* Flag, *pl.* Flags [in Botany].
Wáter-flood, *s.* Ffrwd ddwfr, *Salm* lxix. 15.
Wáter-fowl. *See under* F.
Wáter-furrow. *See under* F.
Wáter-gate, *s.* Porth y dwfr, *Neh.* viii. 3.
¶ A wáter-gate, *or* flood-gate, *s.* Argae.
Wáter-gruel. *See under* G.
Wáter-hen, *or* moor-hen. *See* Coot.
Wáter-lily. *See* Lily, &c.
Wáter-line, *s.* Y mainc o long a fo tan ddŵr.
Wáter-lock. *See* Lock [in a river.]
Wáter-man, *s.* Un o wŷr y dŵr (y môr) dyfrwr, môrwr, merinwr; badwr, un o wŷr bâd; rhwyfwr, &c.
High water mark, Nôd y gorllanw, enrai.
Wáter-mill, *s.* Melin ddŵr.
Wáter-pail, *or* water-pot. *See* Bucket: *and* Ewer.
Wáter-piles, *s. pl.* Polion dŵr, dyfr-bolion: seil-dderi, (*sing.* seilddar.)
Wáter-rat, *s.* Llygoden, (*pl.* llygod) y dŵr; llygoden y môr.
Wáter-snake. *See under* S.
Wáter-spider, *or* ¶ water-spinner, *s.* Pryf copyn (carw) y dŵr.
Wáter-spouts, *s. pl.* Pistyllfoedd, *Salm* xlii. 7.
Wáter-springs, *s. pl.* Ffynnhonnau dyfroedd (dwfr) *Salm* cvii. 33, 35.

Wáter-swallow, *or* wáter-wagtail, *s.* Tinsigl y dŵr, brith y ffuches.
Wáter-trough, *s.* Casn dwfr.
Wáter-willow, *s.* Mêr-helyg.
A watering, *s.* Dyfrhâd, dyfriad, &c.
Watering troughs, Cafnau dyfru, ¶ casnau dyfroedd, *Gen.* xxx. 38.
Wáterish, *or* watery, *a.* [aqueous] Dyfrllyd, dyrllyd; dyfrawl, dyfr-naws.
Wáterishness, *or* wateriness, *s.* Dyfrllyd-rwydd.
Wáter-work, *s.* Gwaith dŵr.
Wáttle, *or* hurdle, *See under* H.
To wattle *or* Hurdle. *See* to Hurdle.
¶ To wattle, *v. a.* [run rods *or* twigs over and under, as is done in making wattles] Eilio, adeilio; plethu; bangori.
Wáttled, *part. a.* Eiliedig, a eiliwyd, wedi ei eilio, &c.—¶ *A wattled piece of fence*, Pleindden.
To wattle houses, Cronglwydo (cromglwydo) tai.
Wattles of a cock, Tagellau ceiliog.
Wattling, *part.* Yn (gan, dan,) eilio, &c.
Wáttling-rods, *s. pl.* Gwial (gwialen) eilio; adeil, pleth-wryeg; bangor.
A wattling, *s.* Eiliad, adeiliad, &c.
Wave, *s.* Tonn, tonnen.—*Waves*, Tonnau.
To wave *or* surge. *See* to Billow: *and* to Fluctuate.
To wave, *v. a.* [toss up and down; *or* move to and fro] Taflu i fynu ac i waered; codi a gostwng; chwyfio, cychwyfan, cyhwfan; symmud yn ôl ac ym mlaen. ¶ *She waved her hand*, Taflodd (hi a daflodd) ei llaw. *He called to them, waving his hat*, Efe a alwodd arnynt, dan daflu ei hett (hed.)
To wave, *or* undulate. *See under* U.
To wave *or* omit [an argument, &c.] Gadaw heibio.
To wave, *v. a.* [an offering, &c.] Cyhwfan, *Exo.* xxix. 24. cychwyfan.
Wave, [in Composition] Cyhwfan. *The wave-breast*, Y barwyden gyhwfan, *Lef.* x. 15. *Two wave loaves*, Dwy dorth gyhwfan, *Lef.* xxiii. 17. *A wave offering*, Offrwm cyhwfan, *Exo.* xxiv. 24.
Wáved, *part. a.* [moved wave-like up and down] Cyhwfanedig.
Wáved *or* omitted, A ada'wyd (wedi ei adael) heibio.
¶ Wáved *or* wavy. *See* Undulated.
To waver, *v. n.* [move, *or* turn, unsteadily to and fro, &c.] Ymsymmud (troi, ymdroi) yn anwadal (yn ansafadwy) yn ôl ac ym mlaen; hongcian, hwntian, hoewan, ymhoewan; bwhwmman, &c.
To waver, [doubt in mind, be unsettled, hang in suspense, &c.] *See* to Fluctuate, in its latter Acceptation.
Wáverer, *s.* Un (dyn) bwhwmmanllyd *neu* anwadal.
Wávering, *part.* Ymsymmud (yn ymdroi) yn anwadal yn ôl ac ym mlaen, &c.
¶ Wávering, *a.* [unfixed, &c.] Anwadal, &c. ¶ *Wavering as the wind*, Mor newidiol a'r (yn newid fel yr) awel. *I am wavering in my opinion*, Yr wyf heb ymsefydlu yn fy marn.
A wávering, *s.* Ymsymmudiad (ymdrŏad) anwadal yn ôl ac ym mlaen; ymhoewan; bw-

Digitized by Google

hwmman, &c.—¶ *Without wavering*, Yn ddisigl, *Heb.* x. 23. *Nothing wavering*, Heb ammeu dim, *Iago* i. 6.

Wáveringly, *ad.* Yn anwadal, yn anwastad, yn ansafadwy; gan (dan) anwadalu, gan (dan) fwhwmman, &c.

A waving, *s.* Chwyfiad, cychwyfan, cyhwfan, &c.—gadawiad heibio.

Wávy, [resembling waves.] *See* Undulated.

To wavl, *v. n.* Lleisio fel câth catherig; udo, udain, ubain, &c.

Wáwmish, *or* walmish, *a.* [sick, *or* sickish, at the stomach] A gorwyd (gorchwyd) arno, â'r gylla'n ym'hoelyd.

Wax, *s.* Cŵyr. ¶ *A small* [little] *piece of wax*, Cŵyryn.

Of, or *made of*, *wax*, Cŵyraidd, ¶ cŵyr. *A candle of wax*, or *a wax candle*, Canwyll gŵyr; cŵyren.—*Wax chandler*, Cŵyr-ganhwyllydd, gwneuthurwr *(hefyd* gwerthwr) canhwyllau cŵyr; ¶ cŵyrwr, cŵyrydd.—*Wax-coloured*, or *of the colour of wax*, Cŵyr-lliw. *A wax cake*, or *a cake of wax*, ¶ Cŵyren, teiten gŵyr.—*Wax-work*, Cŵyr-waith, gwaith cŵyr.

To [cover, *or* do over, with] wax, *v. a.* Cŵyro.

¶ To wax, [grow, &c.] *See* to Grow or become, &c.

To wax, *or* grow fat. *See under* F.

To wax, *or* grow old. *See under* O.

Wáxed, *part. a.* [smeared, *or* done over, with wax] Cŵyredig, a gŵyrwyd, wedi ei gŵyro.

Wáxen, *a.* [made of wax] A wnaed o gŵyr. *See* of, *or* made of, Wax, *above*.

Waxen *or* waxed, [grown, *or* become.] *See* Grown [become.]

Wáxing, *part.* [growing *or* becoming] Yn myned (gan *neu* dan fyned) yn. *Waxing confident*, Gan fyned yn hyderus, *Phil.* i. 14.

Wáxy *or* wax-like, *a.* Cŵyraidd, tebyg i gŵyr.

Way, *s.* Ffordd. *This is the way, walk ye in it*, Dyma'r ffordd, rhodiwch ynddi, *Esay* xxx. 21. *There were but two ways only*, Nid oedd oll namyn (onid) dwy ffordd. *Which is the way to your house?* Pa un yw'r ffordd i'ch (tu a'ch) tŷ chwi? ¶ *A way to escape*, Dïangfa, 1 *Cor.* x. 13. *The way of Jordan*, Tu a'r Iorddonen, *Jos.* ii. 7. *By the way of the plain*, Ar hyd y gwastadedd, 2 *Sam.* xviii. 23. *And the shepherds shall have no way to flee*, Metha gan y bugeiliaid ffoi, *Jer.* xxv. 35. *By the way where the sun, goeth down*, Tu a'r lle y machluda'r haul, *Deut.* xi. 30. *There are more ways to the wood than one*, Y mae amryw ffyrdd i'r goedwig; *neu*, Os methodd gennym y ffordd hon, ni a brofwn un arall, *The farthest way about is the nearest way home*, Nesaf ffordd y ge'nffordd, *neu*, Nês y bont nâ'r rhŷd.—*A foot-way*, Ffordd draed.—*A horse-way*, Ffordd geffylau.

Bye-way. *See under* B.

By the way, Ar y ffordd, *Gen.* xlv. 24.

By the way or *by the bye*. *See* By the bye.

A good [great] *way off*. *See under* G.

A great [long] *way*. *See under* G.

High way. *See under* H.

By way of recreation, Er mwyn difyrrwch.

Way, *or* manner. *See* Manner [method, &c.]

One's way [manner] *of life*, Buchedd un, *Act.* xxvi. 4.

This way, Y ffordd hon. ¶ *This is a great deal the nearer way*, Y mae hon yn llawer nês ffordd.

A little way, Ychydig, 2 *Sam.* xix. 36.

A long way about, Maith (hirfaith) amgylchffordd. ¶ *They were sent a long way about*, Anfonwyd hwynt ym mhell o amgylch.

To go one's way, Myned i'w ffordd. *Go thy way*, Dôs i'th ffordd.

In thy way, Yn (ar) y ffordd.

On one's way, Ar ei ffordd (ei daith.) ¶ *The destroyer of the Gentiles is on his way*, Difethwr y Cenhedloedd a gychwynodd, *Jer.* iv. 7.

Out of the way. *See* Devious: *and* Amiss.—*See* to be Out of the way (in its several Acceptations,) *under* O.

Which [what] way *or* manner, Ba (pa) ffordd *neu* fodd.

Any ways, Yn (mewn) neb-rhyw ffordd *neu* fodd. ¶ *But if he shall any ways make them void*, Ac os efe gan ddiddymmu â'u diddymma hwynt, *Num.* xxx. 15.

Many ways, Llawer ffordd (môdd,) llawer o ffyrdd, &c.—drwy lawer o ffyrdd.

All manner of ways, Pob rhyw fodd: ym mhob rhyw fodd (ffordd.)

Two manner of ways, &c. See under M.

¶ *A mile and a way-bit*, Milldir ac hefyd.

Way-breed. *See* Plantain.

Wayfaring-man, ¶ Cynniweirydd llwybr, *Esay* xxxiii. 8. yr hwn (y neb) a rodio'r ffordd, *Esay* xxxv. 8. teithiwr, ymdeithydd, &c.

To waylay. *See* to Lay wait for.

Way-layer. *See* a Lier in ambush.

Way-less, *a.* Di-ffordd, heb ffordd.

Way-mark, *s.* [that directs, *or* points out the way to, travellers] Ffordd-nod, arwydd ffordd, *Jer.* xxxi. 21.

Waywards, &c. *See* Froward, &c.

We, *pron.* [the pl. of I.] Ni, nyni. ¶ *He asserted that we said so*. Efe a haerodd ddywedyd o honom felly.—*We ourselves*, Ni (nyni) ein hunain.

Weak, *a.* Gwan, egwan, &c.—¶ *The weakest goes to the wall* [Prov.] Trecha' treisied, gwanna' gwiched; *neu*, Bid enain alltud.

Weak in judgement or *understanding*, Gwan ei synhwyr (ei ddyall, &c.) hurt.

Having [that has] *a weak stomach*, Diecra, llerw.

To grow weak, Gwanhâu, ymwanhâu, llesghâu, llaesu, 2 *Cron.* xv. 7.

To wéaken, *v. a.* [make weak] Gwanhâu, gwanhychu, ¶ gostwng, *Salm* cii. 23.—¶ *To weaken the hands of*—, Anghyssuro, *Ezra* iv. 4.

Wéakened, *part. a.* A wanhäwyd, wedi ei wanhâu; gwanhychedig, a wanhychwyd, wedi ei wanhychu.

A weakening. *See* Enervation.

Wéak-hearted, *a.* Gwan-galon, gwan ei galon. ¶ *The weak-hearted*, Y rhai sy â gwan galon, *Litani*.

Wéakling, *s.* [a puny, weak, *or* feeble, person] Gwanwr, gwennyn, ¶ nâr.

Wéakly, *ad.* Yn wan, yn wannaidd, yn egwan.

¶ Weakly, *a.* Gwannaidd; gwan, &c.

Wéakness. *See* Debility: Infirmity, &c.

¶ Wéak-side. *See* Foible.

Weal. *See* Good, *s.*—Prosperity, &c.—*See also* the Public Weal (*under* P.)

¶ Weal [the mark of a stripe.] *See* ¶ Stripe.

Weald, wald, *or* walt, *s.* in Composition [a wood *or* grove] Coedwig, coed.

Digitized by Google

Wealth, *or* **riches**. *See* Riches; Goods [means, &c.] Plenty, &c.

¶ **Wealth**, *or* weal, Daioni, 1 *Sam.* ii. 32. *See* Weal, &c.

¶ *No wealth like contentment*; or, *Contentment is the greatest wealth* [Prov.] Nid cyfoethog ond boddlon (ond a'i cymmero;) *neu*, Nid cyfoeth ond boddlonrwydd.

Wéalthily. *See* Richly.

Wéalthiness. *See* Richness, &c.

Wealthy. *See* Rich, &c.

To wean a child, &c. [take from the breast, *or* from the teat] Diddyfnu (*vulgo* diddwyn,) tynnu oddiwrth y fron (y bronnau;) tynnu oddiwrth y llaeth, dilaethu.

¶ *To wean from*, [withdraw from any habit *or* desire] Diddyfnu (diddwyn) oddiwrth.

To wean one's self from pleasures, Ymddiddyfnu (ymddiddwyn) oddiwrth ddifyrrwch a mwythau.

Wéaned, *part. a.* Diddyfnedig, a ddiddyfnwyd, wedi ei ddiddyfnu (ei ddiddwyn.)

A wéaning, *s.* Diddyfniad.

Wéanling *or* **weanel**, *s.* [a child, &c. newly weaned] Un newydd ddiddwyn, mab (plentyn) diddwyn; lledfegyn diddwyn; ¶ diddwynig.

Wéapon, *s.* Arf (*pl.* eirf, arfau.)

Wéaponed, *a.* Arfedig; arfog.

Wéaponless, *a.* Di-arf, di-arfau, heb arfau, anarfog, &c.

Wear, *s.* [the act of wearing] Gwisgad; gwisg.

Wear, *s.* [the thing worn] Gwisg, &c. *This is all the wear now-a-days*, O'did yr un a welir nad dyma ei wisg (ei amdo) y dydd heddyw; *neu*, Dyma'r wisg a geir am bawb gan mwyaf y dyddiau hyn. ¶ *These clothes are good enough for my wear*, Y mae'r dillad yma yn gweddu'n dda ddigon i'm cyfiwr i.

Wear, *s.* [waste *or* impairment by wearing] Traul. ¶ *Wear and tear*, Traul a thrŵch (ac adfail.) *The money allotted to the wear and tear of the navy*, Yr arian a bennodwyd gyferbyn a thraul ac adfail y llynges.

¶ **Wear**, **weir**, *or* **weer**, [for catching fish; for damming up water, &c.] Cored; argae, ¶ pynfarch.

To wear, *v. a.* and *n.* [waste, consume, &c. with use *or* time] Treulio. N. B. *Away* and *out* are particles that follow this Verb.—*See* to Consume.

To wear clothes, &c. Gwisgo dillad; dwyn, arwain, *Jo.* xix. 5.

To wear [be worn] *away*, *off*, or *out*. *See* to Consume, *v. n.*—*See also* to Decay, in its 1st Acceptation.

¶ To wear, [have on] Bod â pheth am dano. *The woman shall not wear that pertaineth unto a man*, Na fydded dilledyn gwr am wraig, *Deut.* xxii. 5.

To wear out, [land, &c.] Gyrru (gwisgo, llafurio) allan. ¶ *And he shall wear out the saints of the most High*, Ac efe a ddifa saint y Goruchaf, *Dan.* vii. 25.

To wear [tire *out one's patience*, Blino amynedd un.

To wear [go] *out of use*, Myned (tyfu) allan o arfer.

To wear out of mind. *See* to Slip [out of] one's memory, &c.

Wearer, *s.* Gwisgwr, gwisgydd, gwisgedydd: treuliwr, treulydd, treuliedydd. ¶ *The wearer best knoweth where the shoe pincheth him*, Y neb a wisgo'r esgid a wyr b'le mae'n gwasgu; *neu*, Goreu y gwyr y gwisgedydd b'le mae'r esgid yn gwasgu.

Wearied, *a.* Diffygiol, *Jo.* iv. 6.

Not wearied, Diflin, heb flino, a'r ni flinodd, diludded.

That cannot [not to] *be wearied*. *See* Indefatigable.

Weariness. *See* Fatigue.

A wéaring, [habit *or* dress.] *See* Garb.

A wearing away. *See* Attrition; *and* Consumption, in both its Acceptations.

¶ *And of wearing of gold*, Ac amgylch-osodiad aur, 1 *Pedr* iii. 3.

A wearing out, Treuliad, treuliant; traul; bradwy.

Wearisomeness. *See* Tiresomeness.

¶ *Wearisome nights*, Nosweithiau blinion, *Job* vii. 3.

Wéary, *a.* Lluddedig, *Barn.* iv. 21. blin, diffygiol, &c. *Weary with one's journey*, Diffygiol gan ei daith. ¶ *I will go and work myself weary*, Mi a âf ac a weithiaf hyd oni flinwyf.

Weary of, Wedi blino (alaru, diflasu) ar. ¶ *I am weary of*, Blinais ar; mae'n flin (ddygn) gennyf.

To be weary, Bod yn lluddedig (wedi blino.) ¶ *I am weary of my life*, Blinais ar fy einioes, *Gen.* xxvii. 46. *My soul is weary of my life*, Y mae fy enaid yn blino ar fy einioes, *Job* x. 1. *I am weary with holding in*, Blinais yn ymattal, *Jer.* vi. 11. *I was weary with forbearing*, Mi a flinais yn ymattal, *Jer.* xx. 9. *I am weary with repenting*, Myfi a flinais yn edifarhâu, *Jer.* xv. 6. *I am weary with my groaning*, Diffygiais gan fy ochain, *Salm* vi. 6. *Let us not be weary in well doing*, Yn gwneuthur daioni na ddiogwn, *Gal.* vi. 9. *Be ye not weary* [faint not] *in well doing*, Na ddiffygiwch (flinwch) yn gwneuthur daioni, 2 *Thes.* iii. 13.

To grow weary. *See* to Tire, *v. n.* or grow tired.

To grow weary of, Blino (alaru, diflasu) ar.

To [make] **weary**, *v. a.* Blino, *Esay* vii. 13.

To weary one's self, [pl. *themselves*] Ymflino, *Jer.* ii. 24. ymddiffygio, *Hab.* ii. 13. ¶ *So that they wearied themselves to find the door*, Fel y blinasant yn ceisio'r drws, *Gen.* xix. 11.

¶ *To weary one*, or *weary one's ears*, Syfrdanu un, *Luc* xviii. 5.—*See* to Ding one's ears.

¶ *To weary one out with solicitations*, Gorchfygu un (mynnu arch gan un) trwy daer-gais ac ymbil.

To weary out with toil, ¶ Llâdd trwy (peri trengi gan) lafur a lludded; gweithio i farwolaeth.

A wéarying, *s.* Pariad lludded, blinad.

Wéasand, *or* **wind-pipe**, *s.* Breuant, y breuant (*also* y freuant,) corn breuant, corn y gêg, pibell (pistyll) yr ysgyfaint, y bibell wynt, llwybr yr anadl.

Wéasel, *s.* [an animal, so called] Gwenci (gwengci) bronwen, ¶ llofennan.—*A white weasel*, Cariwm.

Wéather, *s* [the state of the air] Tywydd, hin. *Fair* [fine] *weather*, Tywydd têg, hin dêg, ¶ hin-dda.—*Fair* [not rainy *or* wet] *weather*, Hinon.—*Bad* [foul] *weather*, Tywydd garw, dryghin, dryc-hin.—*Dark* [gloomy] *weather*,

Digitized by Google

Tywydd tywyll.—*Cold weather*, ¶ Amser oerfel, *Diar.* xxv. 20.
It waxeth fair weather, [it clears, *or* is clearing up] Mae hi'n hinoni, mae hi'n myn'd yn hinon.
Mixt weather, ¶ Tywydd brith.
Mild drizzling weather. *See under* D.
Dry weather, [a droughty season] Sych-hin.
To weather, *or* double a cape. *See under* D.
To weather a storm, Dal (ymgynnal, sefyll) yn erbyn y dymmestl; myned drwy'r trŵch; gorfod ar (sefyll dan) y gawod: sefyll yn ddisigl yn wyneb peryglon, &c.
To weather out some danger, [bear up against it so as to surmount it in the end] Dâl yn lew (ymgynnal yn wrol) yn erbyn rhyw bŷd *neu* berygl nes gorfod o'r diwedd.
Wéather-beaten, *a.* Wedi myned drwy'r tywydd *neu*'r dryc-hin, hin-garedig, hin-faeddedig.
Weather-bound, *a.* Yngharchar (yn gaeth) gan y tywydd.
Wéather-bow, *s.* Sea-term [next to the wind and weather] Nesaf i'r gwynt a'r tywydd.
Wéather-cock. *See* Fane (in its latter Acceptation,) &c.
Wéather-driven, *a.* Gyrredig gan y tywydd *neu*'r dymmestl, hin-yrredig.
Weather-gage, *s.* [whatever shows the weather] Hin ddangosydd, hin-fynegydd. ¶ *That ship has the weather-gage* [is to wind-ward] *of the other*, Saif y llong yna rhwng y llall a'r gwynt.
Wéather-glass, *s.* [for prognosticating the change of the weather] Hin-wydr, gwydr hin-fynag.
Wéather-wise, *a.* [skilled in foretelling the change of the weather] Hin-ddoeth, hin ddewiniol, hin-ddaroganawl; hyfedr yn naregan cyfnewid tywydd.
¶ Weather sheep. *See* Wether.
Wéathered, *part.* Yr hwyliwyd heibio iddo: yr ymgynhaliwyd yn ei erbyn nes ei orfod.
To weave, *v. a.* [in a loom with a shuttle] Gwau, gwnïo; cyfrestru.
To weave into, Gwau ym mheth.
To weave together, Gwau ynghyd, cŷd-wau.
To weave *or* wattle. *See* to Wattle.
Wéaved, *or* woven, *part.* Gwëedig, a wëwyd, wedi ei wau.
Wéaver, *s.* Gwëwr, gwëydd, gwehydd, gwëadur.
A wóman-weaver, *s.* Gwehyddes, gwëadures.
A weaver's beam, loom, shuttle, slay, treadles. See under B. L. S. T.
A linen weaver, Gwehydd (gwëydd) llïain.
A weaver's shop, Gwehydd-dŷ, gweith-dŷ (gweithfa) gwehydd, tŷ'r gwŷdd.
The weaver's trade, Gwehyddiaeth, crefft (celfyddyd) gwehydd.
Wéaving, *s.* Gwëad; gwehyddiaeth.
A weaving together. *See* Contexture; *and* Intertexture.
Web, *s.* [a piece of weaving] Gwe, cynwe.
A web in the eye, Magl ar lygad, huchen, rhychen (yr hychen.)
Wébbed, *a.* Magledig, â magl arno.
Wéb-footed. *See under* F.
Wébster. *See* Weaver.
To wed, *v. a* Priodi.
Wédded. *See* Married.
¶ *Wedded to one's own will*. *See* Self-willed.
A wedding. *See* Nuptials, *and* Marriage.
Of, *or* belonging to, a wedding. *See* Nuptial.
A wedding cake. *See* Bride-cake.
A wedding day, Dydd priodas. *On their wedding day*, Ar ddydd eu priodas. *A wedding dinner, supper*, or *feast*, Neithior, cinaw (gwlêdd) priodas.
A wedding garment or *suit*, Gwisg briodas.
A wedding ring, Modrwy briodas.
A wedding song. *See* Epithalamium.
Wedge, *s.* Cŷn, gaing; gwrthaing, gwrth-hoel, ¶ llettem.—*A little wedge*, Cynyn, geinan.
A wedge of metal. *See* Ingot.
To [fasten with a] wedge, *v. a.* Cynio, geingio, rhoi (gyrru) cŷn yn; gwrth-eingio, gwrth-hoelio, rhoi (gyrru) gwrth-aing yn, &c.
¶ *To wedge* [thrust one's self] in, Ymwthio (ymeingio) i mewn.
Wédlock. *See* Marriage.
¶ *Woman that break wedlock*, Putteiniaid, *Exc.* xvi. 38.
Wédnesday, *s.* [pronounced *Wenaday*] Dydd Merchur (*vulgo* Mercher.)—¶ *The next Wednesday*, Y Mercher nesaf. *All the Wednesdays in the year*, Y Mercheran oll drwy'r flwyddyn.
¶ Wee, *a.* [little *or* small] Bach, bychan; bychanigyn.—*A wee bit*, ¶ Tamaneidyn.
Weed, *s.* [a noxious *or* useless herb] Chwynyn (*pl.* chwynu.) ¶ *Sorry* [ill] *weeds grow apace*, [Prov.] Methed y gwenith (methed a fetho) o dŷf y chwynu.
¶ Weed *or* weeds, *s.* [habit, &c.] Gwisg, &c.
To weed, *v. a.* [clear from weeds] Chwynnu; tynnu ymaith y chwynu; torri'r chwynu.
To weed again, [a second time] Ail-chwynnu, chwynnu eil-waith.
To weed out, Chwynnu allan.
Wéeded, *part.* Chwynnedig, a chwynnwyd, wedi ei chwynnu.
Weedless, *a.* Dichwynn, heb chwynn.
Weeder, *s.* Chwynnwr, chwynnydd, chwynnedydd.
A weeding, *s.* Chwynniad
A weeding hook. *See under* H.
Wéedy, *a.* [abounding in weeds] Chwynnog, llawn chwynn.
Week, *s.* Wythnos.
Passion-week. *See under* Passion.
Wéek-day, *or* work-day, *s.* Diwrnod gwaith.
Wéekly, *a.* [that happens every week] Wythnosol, wythnosawl, a ddêl (ddigwydd) bob wythnos.
Weekly, *ad.* [every week] Bob wythnos, yn wythnosawl.
Weel, *or* whiri-pool, *s.* Pwll (llynn) tro.
Weel, *or* bow-net. *See under* B.
To ween, *v. n.* Tybio.
To weep, *v. n.* Wylo, &c.
To weep abundantly, Wylo'n hidl, *Esay* xv. 3.
¶ To weep *or* weep for, *v. a.* [lament with tears, &c.] Wylo dros; arwylo.
To weep together, Cŷd-wylo; cydwylofain.
Wéeper, *s.* Wylwr, wylydd, wyledydd; arwylwr, &c.
Wéeping, *part.* Yn (gan dan) wylo; wylofus; hidl-ddeigr.
Weeping, *s.* Wylofed, wylofain, ¶ wyle
¶ *Cease* [leave off] *thy weeping*, Paid (llai) â'th wylo.
Wéepingly, *ad.* Dan wylo.

Digitized by Google

To weet, *v. n.* seldom used [to know, *or* suppose] Gwybod; tybied.
Wéevil, *s.* [a little insect that destroys corn in granaries, &c.] Gwyfyn yr ŷd, meisgyn.
Wéezel, *or* weesel. *See* Weasel.
Weft, *s.* [the woof of cloth] Dylif, y dylif, y bwrw.
Weft, *or* weif. *See* Waif.
Wéftage. *See* Texture, in its several Acceptations.
To weigh, *v. a.* [try in weighing-scales: ¶ balance in the mind, &c.] Pwyso, rhoi mewn clorian (tafawl,) cloriannu, tafoli, profi wrth.
To weigh anchor, Codi angor.
To weigh with the hand, Llaw-bwyso, ¶ swmpo.
To weigh [a thing] *down*. *See* to Overbalance.
¶ *To weigh* [sink] *down*, Pwyso i lawr; ¶ soddi.
To weigh up, [with an engine, &c.] Codi (dirwyn) i fynu; ¶ codi. ¶ *He weighed up with ropes and cables a ship that was sunk*, A rhaffau angor, a chynnorthwyon o'r fath, efe a ddygodd o'r dyfnder long a soddasai.
To weigh, *v. n.* Pwyso, bod o bwys.
To weigh equally. *See* to Equipoise.
To weigh [bear heavily, *or* press hard] *upon*. Pwyso ar (yn drwm ar.) gwasgu ar, &c.
To weigh [be of weight] *with one*, Bod o bwys (yn fatter o bwys) gyd ag, *neu* yngolwg un.
Weigh of cheese, [consisting of two hundred and fifty six pounds] Dau cant ac un pwys ar bymtheg a dengain o gaws.
Weighed, *part. a.* Pwysedig, a bwyswyd, wedi ei bwyso, &c.
Weigher, *s.* Pwyswr, pwysydd, pwysedydd.
Weighing, *part.* Yn pwyso, gan (dan) bwyso.
A weighing, *s.* Pwysad.
A weighing down, Pwysad (gwasgiad, &c.) i lawr.
Weight, *s.* [the quality of any commodity discovered by weighing: the mass by which, as the standard, the said quantity is discovered: gravity, &c.] Pwys.
¶ Weight, *or* load. *See* Load, &c.
Even or *equal weight*. *See* Equipoise, &c.
A great weight, [load, *or* burden] Llwyth (baich, pwys) mawr; mowr-llwyth, mowr-bwys; llwyth (baich, pwys) trwm.
¶ Weight, *or* moment. *See* ¶ Moment, &c.
Of [great] *weight* or *moment*. Momentous, &c.
Of equal weight. *See* Equal in [of equal] weight.
A little weight, Pwys bychan, pwysyn, bychan-bwys; ¶ crynfaich, &c.
Equality [evenness] *of weight*, Cyd-bwysedd, &c.
Weights, *s. pl.* Pwysau. *Divers weights*, Amryw bwysau, *Diar.* xx. 10, 23. ¶ *Just weights*, Cerrig cyfiawn (union, cywir, *Lef.* xix. 36. *Deceitful weights*, Cerrig twyllodrus, *Mic.* vi. 11.—*Ye shall do no unrighteousness in judgement, in mete-yard, in weight*, or *in measure*, Na wnewch gam ar farn, ar lathen, ar bwys, nac ar fesur, *Lef.* xix. 35.
¶ *A pair of weights*, Clorian pwyso, cloriannau pwys.
Weightier, *a.* Mwy pwysig, trymmach. *The weightier matters of the law*, Y pethau trymmach o'r gyfraith, *Mat.* xxiii. 23.
Weightily: *and* Weightiness. *See* Ponderously: *and* Ponderousness.
Weighty. *See* Ponderous; Momentous, &c.—*See also* Burdensome.
¶ *Weighty letters*, Llythyrau trymmion a chryfion, 2 *Cor.* x. 10.
Somewhat weighty, Go-bwysig, lled-bwysig; go-drwm, &c.
Very weighty, Pwysig (trwm) iawn, traphwysig, trathrwm, gorthrwm.
To grow weighty, Myned yn drwm (yn bwysig,) trymhâu, amdrymmu.
To be more weighty, Bod yn fwy pwysig (yn drymmach.)
To make weighty, Gwneuthur (peri) yn drwm *neu*'n bwysig; trymhâu, &c.
Wélcome, *s.* [a kind reception, &c.] Croesaw, arfoll. *We met with welcome there*, Bu i ni groesaw (roesaw) yno. ¶ *Welcome is the best cheer*, [Prov.] Nid gwlêdd onid croesaw.
¶ Welcome, *a.* A chroesaw iddo (wrtho,) *He is heartily welcome*, Y mae croesaw iddo o'm calon i, *neu* Y mae iddo groesaw (roesaw) o'm calon.—*The good man of the house made us very welcome*, Bu i 'ni groesaw (roesaw) nid bychan gan ŵr y tŷ. *I was made very welcome by the whole family*, Bu i mi y fawr groesaw (y fawr roesaw, *neu* y mawr roesaw) gan y teulu oll. *You are welcome home*, Croesaw Duw wrthych adref, *neu*, ¶ Croesaw adref. *You are welcome to my dwelling*, Y mae i chwi groesaw (roesaw) i'm hannedd i; *neu*, Croesaw wrthych i'm hannedd. ¶ *Come in, and welcome*, Tyred i mewn, a chroesaw (a groesaw.)
To welcome, *v. a.* [receive hospitably, &c.] Croesawu, derbyn yn groesawgar (yn roesawgar,) arfolli, &c.
To welcome one [bid one welcome] *home*, Croesawu (arfolli) un adref; annerch un yn groesawgar (yn roesawgar) ar ei ddyfodiad adref.
¶ *Welcome in our house*, [in Botany] Golaeth (gwylaeth) y môr, llysiau'r cyfog, llaeth yr ysgyfarnog, fflamgoed.
Wélcomed, *part. a.* Croesawedig, a groesawyd, wedi ei groesawu; arfolledig, &c.
Wélcomer, *s.* Gŵr croesawgar (croesawus, groesawgar, groesawus;) croesaw-wr, &c.
Wélcoming, *part.* Yn croesawu, gan (dan) groesawu; yn (gan, dan) arfolli, &c.
A welcoming, *s.* Croesawiad, arfolliad, &c.
To weld iron. Iassu (assio) haiarn.
Welding heat, Gwrês iassau.—*See* Glow.
Welding hot, Gwyn-ias.
To be of a welding heat or *welding hot*, Gwyniasu, bod yn wynias.
Wélfare, *s.* Iechyd, *Gen.* xliii. 27. iechydwriaeth, (iachawdwriaeth,) *Deeth.* vi. 24. holliechyd, hwyl dda; hawdd-fyd, llwyddiant, *Salm* lxix. 22. daioni, *Neh.* ii. 10. ¶ *And they asked each other of their welfare*, A chyfarchasant well bob un i'w gilydd, *Ecs.* xviii. 7.
Welkin. *See* Firmament, *and* Sky.
¶ *Welkin* [blue] *eyes*, Llygaid gleision.
Well, *a.* [in health] Iâch, &c. *Is your father well, the old man of whom ye spake?* Ai iâch yr hên ŵr eich tâd chwi, yr hwn y soniasoch am dano? *Gen.* xliii. 27.

Digitized by Google

Well, *a.* [in circumstances], Llwyddiannus, &c. ¶ *Is he well? And they said, He is well*, A oes llwyddiant iddo ef? A hwy a ddywedasant, Oes llwyddiant, *Gen.* xxix. 6. *All is well*, Y mae pob peth mewn llwyddiant (yn llwyddiannus; yn ddiasgen, yn ddiangol, o'r goreu, a'r y goreu, &c.) *neu*, ¶ Nid oes onid dà. *All is well that ends well*, [Prov.] Ys dedwydd diwedd dedwydd. *Is all well?* A ydyw pob peth fel y dymunech? *neu*, A ydyw pob peth wrth eich bodd? *neu*, Ai da pob peth? &c.

Well, *ad.* Da, yn dda iawn, yn iawn, &c. *You say well*, Da (iawn, &c.) y dywedwch. *I do not well understand*, Nid wyf fi yn iawn-ddyall; *neu*, Nid wyf fi yn dyall yn iawn (yn dda, yn ddigonol, &c.) ¶ *He giveth more than he is well able*, Dyry fwy nag y mae'n hawdd iddo ei hepcor; *neu*, Dyry yn hytrach fwy nag y mae ei dda yn rhoi. *I cannot well perceive how this will be effected*, Ni fedraf fi ddiruad yn eglur ddigon pa fodd y gwneir hyn. *The business goeth on well*, Y mae'r gwaith yn myned ym mlaen yn llwylus (hylwydd, hyrwydd.) *Well may we wonder at them*, Hawdd (cymmwys, da) y gallwn ryfeddu wrthynt. ¶ *Well begun is half done*, [Prov.] Deuparth gwaith ei ddechreu.

To be well with one, Bod yn dda ar *neu* i un. ¶ *It is well with him*, [he fares well] Mae yn dda'r byd arno, *neu*, Mae ei fyd wrth ei fodd; *neu*, Mae arno fyd gŵr. *But think on me, when it shall be well with thee*, Etto cofia fi gydà thi, pan fo daioni i ti, *Gen.* xl. 14. *That it may be well with thee*, Fel y byddo yn dda i ti, *Ephes.* vi. 3. *That it might be well with them*, Fel y byddai da (yn dda) iddynt, *Deut.* v. 29. *Happy shalt thou be, and it shall be well with thee*, Gwyn dy fyd, a da fydd it', *Salm* cxxviii. 2. *It shall not be well with the wicked*, Ni. bydd daioni i'r annuwiol, *Preg.* viii. 13. *Because he is well with thee*, O herwydd bod yn dda arno ef gyd à thi, *Deut.* xv. 16. *Then it was well with him*, Yna y llwyddodd, *Jer.* xxii. 16.—*Is it well with thee?* A wyt ti yn iâch? 2 *Bren.* iv. 26.

¶ *To be* [stand] *well with one*. *See* to be upon good terms with one, *under* T.

As, or *so*, *well*, Cystadl, cystal, yn gystal. *He thinks no body can do so well as himself*, Tybia na's gwnà neb gystal ag ef ei hun.

As well as, Yn gystal (gystadl) à *neu* ag; fel, *Deut.* iii. 20. *See under* A.

Wel, *interj.* Da! wel! iddo! wele!

Well, come on, Wel (wele,) dyre ym mlaen.

Well then, [in transitions] Wele (yna, iddo) ynte.—*Well now*, Iddo yn awr.

Exceeding well, Da iawn (dros ben.)

Well, *after* Verbs. *See* the Verbs.

¶ Well, *or* diligently. *See under* D.

¶ Well, *or* happy, Dedwydd. *Well and good*, Dedwydd a da. ¶ *O well is thee*, Gwyn dy fyd, *Salm* cxxviii. 2.

Well [stricken] *in years*. *See* Stricken [well stricken] in age *or* years.

Well in one's wits, Yn ei iawn bwyll a'i synwyr, yn ei iawn gôf; yn ei synhwyrau.

Well to pass, Yn gynnes yn y byd.

¶ *Well might that be a cause*, Têg y gallai hynny fod yn achos.

Full, right, *or* very, well, *a.* Da (yn dda) iawn *neu* dros ben: yn hydda, o'r goreu. ¶ *Full well ye reject the commandment of God*, Gwŷch yr ydych yn rhoi heibio orchymmyn Duw, *Marc* vii. 9.

Well, *s.* Pydew, *Gen.* xxix. 2. ffynnon, *Jo.* iv. 6.

A little well, Pydewyn; ffynnhonnig, ffynnhonnell.

A well head, or *well-spring*, Llygad (blaen) ffynnon, bruchen.

To take well or *in good part*. *See under* G.

How well! Ddäed (o ddäed, mor dda!)

N. B. The Adverb—*well*, is much used in Composition, is exemplified as in the following Articles, *viz.*

Well-a-day, *or* wélaway, *interj.* Wban, och, &c.

Well-advised: *and* **Well-affected**. *See both under* A.

Well-being. *See* Prosperity.

Well-behaved: **Well-born**; *and* **Well-bred**. *See under* B.

Wéll-beloved. *See* Beloved; *and* dearly Beloved.

Well descended. *See under* D.

Well done! *interj.* Da'r gwaith! da iawn! da? têg! ¶ *Well done, good and faithful servant*, Da, wâs da a ffyddlon, *Mat.* xxv. 23. *Well done, boy!* Da, fachgen!

Well-favoured. *See under* F.

Well-handled, *part.* Iawn-driniedig, a driniwyd (wedi ei drin) yn iawn *neu'n* hyfedr.

Well-intended; **well-designed**; *or* **well-meant**. *See* ¶ well-meant, *under* M.

Well-looked to *or* after. *See under* L.

Well-looking. *See* good [well] Looking, *under* L.

Well met, Da'r cyfarfod. *See under* ¶ Met.

Well-minded. *See under* M.

Wéll-natured. *See* Good-natured, *under* G.

Wéll-nigh, *ad.* Prin (braidd) na, *Salm* lxxiii. 2.

Wéll-pleased. *See under* P.

Wéll-pleasing. *See under* Pleasing, *ad.*

Well set together. *See under* S.

Wéll-spent, *a.* Iawn-dreuliedig; ¶ iown-draul.

Wéll-spring, *s.* Ffynnon, *Diar.* xvi. 22.

Wéll-willer, *s.* Ewyllysiwr da.

Wéll-wisher, *s.* Dymunwr (dymunydd, dymuniedydd) da.

Welsh, *a.* [belonging to *Wales*, or to *Welshmen*] Cymräeg, Cymrëig; perthynol (priodol) i'r Cymry; perthynol i Gymru. *The Welsh Bible*, Y Beibl Cymräeg. *The Welsh Laws*, Y Cyfreithiau Cymrëig. ¶ *The Welsh borders* or *marches*, Cyffiniau Cymru.

Welsh, or *the Welsh tongue*, Cymraeg, yr iaith Gymraeg, ¶ y Gymraeg, iaith y Cymry, iaith Gymru. *Here nothing is heard but Welsh*, Ni chlywir yma onid Cymraeg. *The Welsh is the only language here*, Y Gymraeg yw'r unig iaith yma.

The Welsh, *s.* [the people *or* nation] Y Cymry.

A Welshman, *s.* Cymro. *A Welshwoman*, Cymräes.—*Welshmen*, Cymry.

¶ *A Welshman*, [one that speaks, is acquainted with, and skilled in, the Welsh language] Cymreigwr, Cymreigydd.—¶ *A Welshwoman*, [one qualified as above] Cymreig-wraig, Cymreiges, Cymreigyddes.

To [render in, turn *or* translate into] **Welsh**, *v. a.* Cymreigio, troi (cyfieithu) i'r Gymräeg.

Digitized by Google

Wêlshy, *or* Welsh-like, *a.* Cymreigaidd; Cymreiglyd; à lled-iaith Cymraeg arno.
To become Welshy, Cymreigeiddio.
Welt, *s.* [the border of a garment, &c.] Eirionyn, amaerwy, ymylgylch, &c.—¶ gwald.
The welt [rand] *of a shoe*, Gwaldas (gwaldys) esgid.
To welt [border] *a garment*, Ymylu (eirionynnu, amaerwyo) dilledyn; rhoi (gosod) amaerwy *neu* ymylgylch ar ddilledyn.
To welt a shoe, Gwaldasu esgid.
Wêlted [as a garment.] *See* Bordered.
Wêlted, *part. a.* [as a shoe] Gwaldasedig, a waldaswyd, wedi ei gwaldasu.
To welter, &c. *See* to Wallow, &c.
Wem. *See* Spot: *and* Scar.
Wen, *s.* [a fleshy excrescence, so called] Llyngrange, crangen.
Full of wens, Crangennog.—¶ *Having a wen* [having wens *or rather* warts] Dafadennog *Lef.* xxii. 22.
Wench, *s.* [a young woman] Llangces, 2 *Sam.* xvii. 17.
¶ Wench, [a strumpet.] *See* Harlot.
A little [young] *wench*, Genethan, genethig, llangcesan, llangcesig, morwynig; ¶ mwyglen.
A dancing wench. *See under* D.
A singing wench, Cantores.
To wench, *v. n.* Dilyn (erlid, hela) mwyglennod; gwragedda: putteinia.
Wêncher, *s.* Dilynwr (erlidiwr, heliwr) mwyglnod; gwrageddwr: hoccrellwr.
To wend, [Obsol.] *See* to Go.
Went, [preter. of *to Go.*] Ex. *I went*, Aethym, euthym, mi (myfi) a aethym *neu* euthym. ¶ *They went about hindering* [to hinder] Amcanasant (antnriasant, ceisiasant) rwystro. *And the Lord went* [was going] *before them by day*, A'r Arglwydd oedd yn myned o'u blaen hwynt y dydd, *Ecs.* xiii. 21. *How went the matter?* Pa fodd y bu? 2 *Sam.* i. 4. *In Judah things went well*, Yn Juda hefyd yr oedd pob peth yn dda, 2 *Cron.* xii. 12. *So that they went through the midst of the sea*, Fel y treiddiasant trwy ganol y môr, *Neh.* ix. 11. *And the glory of the Lord went up*, A gogoniant yr Arglwydd a ymddyrchafodd, *Ezec.* xi. 23. *She went into captivity* [was carried away captive] Hi a gaethgludwyd, *Nah.* iii. 10. *And they went a whoring*, A hwy a butteiniasant, 1 *Cron.* v. 25.
Wept, [preter. of *to Weep.*] Ex. *I wept*, Wylais, mi (myfi) a wylais. *I wept abundantly*, Wylais yn hidlaidd.
Wept for, Yr wylwyd drosto.
To be [worthy to be] *wept for*, I wylo (a haeddai wylo) drosto; ¶ gwiw-gŵyn.
Were, [preter. of *to Be*] Ex. *We were, ye were, they were*, Oeddem, oeddych, oeddynt. *When we were there*, Pan oeddem (oeddym) ni yno. *If there were*, Pe bai (byddai.) *If we were*, Pe baem (byddem) ni. *And such were some of you*, A hyn fu rai o honoch chwi, 1 *Cor.* vi. 11. *That at that time ye were without Christ*, Eich bod chwi y pryd hynny heb Grist, *Ephes.* ii. 12.
Were it not, that—, Oni bai, bod.—*Were it not for the soul, the body would be but a lifeless mass*, Oni bai'r enaid, ni byddai'r corph ond clempyn marw (difywyd.)
As if there were, Megis pettynt (pod faent.)
As it were. *See under* A.
As if it were, Mal (fel) be bai, mal pod fai, mal pettai, malpai.
Wêrish. *See* Unsavoury.
Wêsil. *See* Weasand.
West, *s.* [one of the 4 cardinal points of the compass, and of the horizon] Gorllewin, gorllewydd.—*The West*, Y Gorllewin; ¶ ymachlud haul, machludiad haul, *Zech.* viii. 7.
The west-wind, Gwynt gorllewin.—¶ *A stormy* [whirling] *west-wind*, Gwynt tfalm.
West-south-west, Deheu-orllewin.—*The wind blowing from that point*, Gwynt deheu-orllewin.
Wêstering, *a.* [verging towards the West] Yn tueddu, *neu* yn troi, tu a'r Gorllewin.
Wêsterly, *or* western, *a.* Gorllewinawl.
¶ Western, *or* westhorn, [a bird so called] Gwenol y môr, môr-wennol.
Wêst-ward, *a.* Tu a'r Gorllewin.
Wet, *a.* Gwlŷb; llaith, yn yst-wlŷb, ynwst; glawog, gwlawog; gwlybyrog.
¶ *You have a wet eel by the tail* [Prov.] Llysowen mewn afon gerfydd ei chynffon.
Soaking wet, Gwlŷb soegyn.
To [make] wet, *v. a.* Gwlychu, gwlybhâu, peri yn wlŷb; llaithio; mwydo; trochi; siccio.
To [grow] wet, *v. a.* Gwlychu, gwlybhâu, myned yn wlŷb: mwydo: ynyst-hâu.
Thoroughly wet, Gwlyb drwyddo; gwlŷb soegyn (soppas;) wedi ei wlychu yn llwbl.
Wet, *s. or* wetness, Gwlybrwydd, gwlybwr, gwlybaniaeth.
A wet season, [a continuance of rain] Gwlybhin; gwlybaniaeth.
Wether, *s.* [a castrated ram] Mollt (*pl.* mylit,) maharen (*pl.* meheryn,) *vulgo* gweddr (*pl.* gweddrod.)
Wêt-nurse, *s.* Mam-maeth wlŷb.
Wet-shod, *a.* Troed-wlŷb.
Wetted, *part. a.* [made wet] Gwlychedig, a wlychwyd, wedi ei wlychu.
Wetting, *part.* Yn gwlychu, gan (dan) wlychu.
A wetting, *s* Gwlychiad; gwlŷch.
Wêttish, *a.* [somewhat wet] Go-wlŷb, lledwlŷb: gwlybyraidd.
Whale, *s.* [the king of sea-fish, so called] Môrfarch, môr-fil.
Whâle-bone, *s.* Asgwrn (*pl.* esgyrn) môrfarch; asen (*pl.* ais, asennau) morfarch; aseth (*pl.* esyth) adain *neu* asgell môrfarch.
Wharf, *s.* Twyn y borthfa.
Whárfage. *See* Keyage.
Whárfinger, *s.* [the owner of a wharf] Ceidwad (perchen) y twyn *neu* 'r borthfa.
What, *pron.* Beth, pa beth. *What hast thou done?* Beth a wnaethost? *Gen.* iv. 10. *What is man, that thou art mindful of him?* Pa beth yw dyn i ti i'w gofio? *Salm* viii. 3. *How I fear what you will come to!* Pa ofn y fydd arnaf beth a ddaw o honoch! *What not yet neither?* Beth, ai nid bellach chwaith?
What, *a.* Pa. *What dress is this?* Pa wisg ydyw hon? *What man is there—?* Pa ŵr sydd—? *Deut.* xx. 5. *What man soever* [whatsover man] *shall do it*, Pa ddyn bynnag a'i gwnêl. *Whatever* [whatsoever] *thing*, or *what thing soever, it shall be*, Beth (pa beth) bynnag y fo *neu* y fyddo. ¶ *What man is this that walketh in the field to meet us?* Pwy

Digitized by Google

yw'r gŵr hwn sydd yn rhoddi yn y mues i'n cyfarfod ni; *Gen.* xxiv. 65. *What counsel give ye me to return answer to this people?* Pa fodd yr ydych chwi yn cynghori atteb y bobl hyn? 2 *Cron.* x. 6. *What advice give ye?* Beth yr ydych chwi yn ei gynghori? 2 *Cron.* x. 9. *What time I am afraid,* Y dydd (y pryd neu'r amser) yr ofnwyf, *Salm.* lvi. 3. *What is it?* Beth sydd? *Act.* x. 4. *What of that?* Beth am hynny?

What [that which] Yr hyn. *Mind what you are about,* [what you have in hand] Dal ar yr hyn sydd gennyt mewn llaw; *neu,* ¶ Rho dy fryd ar dy orchwyl. ¶ *I will do what I can,* Mi a wnaf a (yr hyn a) allwyf. ¶ *They act contrary to what they promise,* Gwnânt yn wrthwyneb i'w haddewid. *He is now very modest to what he was ere while,* Y mae efe yn awr yn ŵyl iawn wrth (yr) oedd efe gynneu.

¶ What, *pron.* [partly, in part, &c.] O ran; weithiau; rhwng. *What by himself and what by his soldiers,* O ran ganddo ef ei hun, ac o ran gan ei filwyr. *What with reading, and what with writing, we have spent the day,* Wedi'n darllain, ac weithian'n 'sgrifenu, mi a dreuliasom y dydd. *What with one, and what with another, they keep one ever doing,* Rhwng y naill a'r llall o honynt, hwy a'm cadwant fyth ar waith.

What manner of: In or *after what manner:* and *In what manner soever. See all three under* M.

What manner of man? Pa fath ddŷn (ar ddyn?)

What countryman? Gŵr o ba wlad?

Whatever, *pron.* Pa hynnag. *Whatever sin a man shall commit,* Pa bechod bynnag a wnelo dyn.

By what means, place, way. See under B.

By what means soever, Pa fodd bynnag, trwy ba foddion bynnag.

For [as for] *what:* and *For what cause? See under* F.

In [at] *what place:* and *In* [at] *what place soever. See under* P.

What side [party] *is he of?* O ba blaid (du) y mae efe?

¶ What, *pron.* [how many, *or* how many a] Pa nawl, &c.

Whatsoever, *pron.* Pa bynnag; pa beth bynnag. *All evils whatsoever,* Pob drwg pa bynnag (fel eu gilydd.) ¶ *There was no engagement whatsoever that would prevent him,* Nid oedd neges yn y byd (na neges mwy na'i gilydd) a'i rhwystrai.

At what time, &c. *See under* T.

¶ *From what?* Pa rag?

What though? Beth er?

Wheal [a pustule.] *See* Bloch; *and* Blister.

A little wheal, Poethellyn.

Full of wheals, Crugynnog, ewyngennog, &c.

Wheat, *s.* Gwenith. *A grain of wheat,* Gwenithyn.

Wheatear, *s.* [a bird so called] Math ar aderyn o'r enw.

A wheat-ear, *s.* [an ear of wheat] Tywysen o wenith. *The wheat-ear,* Y dywysen wenith. *Wheat-ears,* Tywys gwenith.

Wheaten, *a.* [made of wheat] A wneler (a wnaed) o wenith. ¶ *Wheaten bread,* Bara gwenith, bara cann.

Wheaten-field, *s.* Cae gwenith.

Wheat-flour, *s.* Cann gwenith, pellflad.

To wheedle, *v. a.* [entice with soft words] Hudo â geiriau têg, &c.

Wheedled, *part.* Hudedig (a hudwyd, wedi ei hudo) â geiriau têg.

Wheedler, *s.* Hudwr; llithiwr.

Wheedling, *part.* Yn (gan, dan) hudo â geiriau têg, &c.—llithiog.

A wheedling, *s.* Denlad, tynniad trwy dêg, hudiad â thêg eiriau; llithiad.

Wheel, *s.* Rhôd; trŏell; olwyn. *A spinning wheel,* Rhôd nyddu, troell nyddu.—¶ *The loop of a wheel,* [of a spinning wheel] Sidell (sidyll) rhôd.

A potter's wheel, Trŏell (*pl.* trŏellau,) *Jer.* xviii. 3.

Wheel, *s.* [of a cart, of a wain, of a chariot, &c.] Olwyn (*pl.* olwynion,) *Ecc.* xiv. 35.—*The hoop of a cart-wheel, &c. formed by the fellies,* Cant olwyn.

The wheel of a pulley, Troell chwerfan dro.

The wheel of a lathe, [a turner's wheel] Troell turn.

A mill- [water] wheel, Rhôd melin; rhôd ddwr, olwyn melin, olwyn ddwr.

A little wheel, Rhodig, rhodan; trŏellig, trŏellan, olwynig, olwynan.

To wheel about, Troi o gwmpas (o bob-tu,) chwyldroi, troi o amgylch (yn ôl, yn ei wrthol;) ymchwelyd; mynedo amgylch, &c. *See* to fetch a Compass *under* C.

To wheel, *v. n.* [turn round] Troi yn grwnn (yn sidyll;) troi ar begwn (ei begwn;) chwylo. *See* to [go in] Circuit *and* to turn round in a Circle; *both under* C.

To wheel [carry] *off* or *away,* [in a barrow] Troelln (trŏell-gludo) ymaith; dwyn (cludo) ymaith mewn berfa.

To wheel, or *carry one about,* [in a wheel-carriage] Dwyn (gyrru, trŏell-gludo, troelln) un o amgylch; ¶ treiglo (cerbydu) un o amgylch.

Wheelage, *or* wheel-work, *s.* Troell-waith, rhodwaith.

Wheeled, *or* having wheels, *part.* Trŏelleg, ag iddo droellau; olwynog, ag iddo olwynion.

A wheeled carriage, or *wheel-carriage, s.* Cludai olwynog (droelleg;) trŏell-gludai.

Wheel-barrow. *See under* B.

Wheeler, *or* wheel-wright, *s.* Olwynwr, troellwr, saer olwynion (troellau;) rhodwr, saer rhodau.

A wheeling, *s.* Chwylad, chwyldröad.

To wheeze *or* wheeze, *v. n.* [breath with a hissing noise as an asthmatic person] Cêg-wichio, gwich-chwythu, gwich-anadlu, ceg-leisio, cêg-chwithrwd.

Wheezing, *part.* Yn cêg-wichio gan fyrder anadl, gan (dan) gêg-wichio.

A wheezing, *s.* Cêg-wichiad, gwich-chwythiad.

Whelk. *See* Wheal; *and* Tumour.

To whelm, *v. a.* Gorchuddio, &c.

Whelp, *s.* [the young one of a dog, *of* a lion, &c.] Cenau, cenaw (*pl.* cenawon,) canaw, &c. *A lion's whelp,* Cenau llew. *An old dog will not play with a whelp,* Ni chwery hen gi â chenaw.

To whelp. *See* to Cub; *and* to Litter, in its 1st Acceptation.*

When *ad.* [at the time that] Pan, *Deut.* vi. 17. *Let him come when he will,* Deued pan fynno. ¶ *Now when they heard this,* Hwythau wedi clywed hyn, *Act.* ii. 37.

Digitized by Google

When, *or* at what time. *See under* A. *and under* T.

When, *ad.* [what, *or* which, time] Pa bryd, *Lef.* xlv. 57. pa amser, yr amser y, pan. *Since when,* Er pa bryd.

¶ **When,** [while] Tra. *This he said when at dinner,* Hyn a ddywedodd efe tra'r oedd ar giniaw.

When? [at what time?] Pa bryd? *Jer.* xiii. 27. pa amser?

When as, Yn gymmaint ag.

Just when, Ar y funud pan; cyn gynted (yn y man) ag, &c.

Whénsoever, *or* **whénever,** *ad.* Pa bryd (amser) bynnag.

Whence, *or* **from whence,** O ba le, o b'le; o ba un.—*Whence you will,* O'r lle y mynnoch. *The rock whence ye are hewn,* Y graig y'ch naddwyd o honi, *Esay* xli. 1.

Whence are you? O ba le eich henyw?

Whencesoever, *ad.* O ba le (b'le) bynnag.

Where, *ad.* [what place; in what place] Pa le, *Jer.* xxxvi. 19. p'le, pa fan, lle, *Ecc.* xx. 24. y lle, y man; ym mha le (fan,) yn yr hwn. ¶ *This very porch where we walk,* Y porth hwn ei hun y rhodiwn ynddo.

Whéreabout, *or* **whereabouts,** *ad.* Ynghylch pa le (fan,) pa le.

¶ **Whereabout,** [about, *or* concerning, which] Ynghylch yr hwn neu'r hyn. ¶ *Let no man know any thing of the business whereabout I send thee,* Na chaed neb wybod dim o'r peth am yr hwn y'th anfonais, 1 *Sam.* xxi. 2.

Whereas, *ad.* Cyd, can, gan; ¶ o herwydd, 1 *Bren.* viii. 18.

Whereat, *ad.* [at which] Wrth yr hyn; wrth ba beth.

Whereby, *ad.* Trwy'r hyn neu'r hwn, (*pl.* rhai;) trwy ba beth; ¶ pa fodd, *Luc* i. 18.

Wherever, *ad.* Pa le [fan) bynnag; ym mha le (fan) bynnag.

Whérefore, *ad.* Am hynny, *Num.* xxv. 12. ¶ *What is the cause wherefore ye are come?* Beth yw'r achos y daethoch o'i herwydd? *Act.* x. 21.

Whérefore? Pa ham? 2 *Sam.* xvi. 10. I ba beth? 2 *Sam.* xii. 23.

Wherein, *ad.* Yn yr hyn neu'r hwn; ym mha beth? *Mal.* iii. 8.

Whereinto, *ad.* I'r hyn neu'r hwn.

Whereof, *ad.* O'r hyn, *Act.* ii. 32.

Whereon, *ad.* Ar yr hyn, neu'r hwn; ar ba beth.

Wheresoever. *See* Wherever, *above.*

Whereto, *or* **whereunto,** *ad.* I'r (at yr) hyn neu'r hwn; i (at) ba beth. ¶ *Whereto we have already attained,* Y daethom atto, *Phil.* iii. 16. *It shall prosper in the thing whereto I sent it,* Efe a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid, *Esay* xlv. 11.

Whereupon, *ad.* Ar hyn (hynny,) ar yr hyn.

Wherewith, *or* **wherewithal,** *ad.* A'r (â'r) hyn, â'r hwn, *Io.* xvii. 28. trwy'r hwn, *Ephes.* ii. 4.—*â pha beth, Mich.* vi. 6. *Or wherewithal shall we be clothed?* Neu â pha beth yr ymddillada'n? *Mat.* vi. 31. ¶ *Wherewith* [how] *shall I save Israel?* Pa fodd y gwaredaf fi Israel? *Baru.* vi. 15. *Had I wherewithal to do these things,* Pe bai gennyf fodd i wneuthur y pethau hyn.

Any where: Every where: *and* No where. *See under* A. E. *and* N.

Wherret, *or* a box on the ear. *See under* B.

To wherret one, or *give one a wherret,* Bonclustio (rhoi bonclust i) un, cernodio (rhoddi cernod i) un.

Wherry, *s.* (a light sort of boat used on a river) Cŵch, cych-fad.

Whet, *s.* [the act of giving an edge] Hogiad; ¶ hawg. hôg.

To whet, *v a.* [set an edge on, give an edge to, &c.] Hogi, awchu, &c.

Whéther, *conj.* Ai, *Ezra* ii. 59. pa un ai, *Jo.* vii. 17, pa un bynnag—ai. *Rhuf.* xiv. 8. pa un, *Mat.* xxiii. 17. ¶ os, 1 *Bren.* xx. 18. *Whether in the body or out of the body, I cannot tell,* Pa un ai yn y corph, ai allan o'r corph, ni wn i, 2 *Cor.* xii. 3. ¶ *I will go see whether he be at home,* A fi edrych os (a) ydyw efe gartref. *Whether it be good or bad,* Pa un bynnag ai da ai drwg, 2 *Cor.* v. 10. *You shall do it, whether you will or no,* Chwi a'i gwnewch, na bodd nag anfodd gennych. *Whether through anger, or whether through hatred, or whether through pride,* Pa un ai o ddîg ai o gasineb, ai ynte o falchder. *He shall have the offer of the job, whether he undertake it or not,* Caiff gynnyg ar y gorchwyl, pa un ai cymmero arno ai peidio.

Whether, *pron.* [of the two] Pa un? *Mat.* xxiii. 17, 19. *Whether of them twain did the will of his father?* Pa un o'r ddau a wnaeth ewyllys y tâd? *Mat.* xxi. 31.

Whétted, *part.* Hogedig, a hogwyd, wedi ei hogi, &c.

Whétter, *s.* Hogwr hogydd, hogiedydd, &c.

A whétting, *s.* Hogiad, awchiad.

Whétstone, *s.* Hog-faen, maen (carreg) hogi, awch-faen, hogalen, agalen.

Whey, *s.* Maidd, meiddlyn. *First whey from the cheese,* Maidd syml, llaeth syml. *Second whey from the curds,* Maidd glas, llaeth glas.

Wheyish, *or* **wheyey,** *a.* Meiddaidd, meiddlyd.

Which, *pron.* Pa un? pwy?—*pl.* pa rai? *For which of those works do you stone me?* Am ba un o'r gweithredoedd hynny yr ydych yn fy llabyddio i? *Jo* x. 32. *Which is he that betrayeth thee?* Pwy yw'r hwn a'th bradycha di? *Jo.* xxi. 20. *Which of you convinceth me of sin?* Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod? *Jo.* viii. 46.

Which, [a pronoun demonstrative] Pa un, p'un, *pl.* pa rai. *Shew us which of these thou hast chosen,* Dangos i ni pa un (*pl.* pa rai) o'r rhai'ma ddewisaist. *Consider which may be said to have defrauded which,* Ystyria am ba un o honynt y gellir dywedyd dwyllo o hono ef y llall. *I know not which to choose,* Ni wn i pa un a ddewisaf. *He knows not which is which,* Ni's gŵyr p'un yw p'un.

Which, [a pronoun relative] Yr hwn (*fem.* yr hon, *neut.* yr hyn,) *pl.* y rhai.

Which way. *See under* Way.

Which way soever, Pa (ba) ffordd neu fodd bynnag, bynnag pa ffordd neu fodd.

Whiff, *s.* [a puff, &c.] P'wff, piff. chwa, chwyth, &c.—awelyn.—¶ *A whiff of tobacco,* Tynn (tynniad, tynfa) o fŵg tybacco.

To whiffle, *v n.* [be unsteady as if driven to and fro by every blast] Troi gyd â phob awel, bod mor anwadal â cheiliog y gwynt; bwhwmman, anwadalu, &c.

Digitized by Google

¶ To whiffle, [open a way through a crowd] Agor (gwneuthur) ffordd trwy dwrr o bobl; torri trwy dyrfa.

¶ To whiffle, *v. a.* [play on the fife] Chwythu'r chwib, chwarae ar y chwibanogl.

Whiffler, *or* a whiffling fellow, *s.* Un anwastad, anwadal, penchwiban, a dry gyd â phob awel, ysgoewan, &c.

Whiffling. *See* Fickleness.

Whig, *s.* [whey, &c.] Maidd glàs (sûr;) chwig, chwigws.

¶ Whigs [the name of a party in England, in opposition to the Tories] Chwigiaid (*sing.* Chwigiad.)

While, *ad.* [a space of time] Encyd (ennyd; talm) o amser, ¶ amser; gwers. *Rest a while,* Gorphwyswch encyd, *Marc* vi. 31. *Which for a while believe,* Y rhai sydd yn credu dros amser, *Luc* viii. 13. ¶ *After that ye have suffered a* [little] *while,* Wedi i chwi ddioddef ychydig, 1 *Pedr* v. 10. *A while after,* Ym mhen gwers.

A little while, Ennyd fàch, ychydig ennyd, &c. ¶ *He lived too little a while,* Bu fyw ry fàch o amser.

A little while after, Ychydig wed'yn *neu* wedi hyn.

Some while after, Rhyw ennyd o amser wed'yn.

All the while. See under A.

A good [great] *while,* ¶ Ennyd, *Gen.* xlvi. 29.

A great while, Hir amser, 2 *Sam.* vii. 19.

After a while, Yn ôl ennyd (rhynnawd, talm) o amser *neu* o ddyddiau; ym mhen ennyd (gwers)

A long while. See Long [*ad.*] &c.—*and* Long season *or* while.

The while, or *the mean while. See* Interim.

In the mean while or *time. See* under In.

One while. See under O.

It is worth [the] *while,* E dâl am ei wneuthur (am y poen.)

While, *or* whilst, *ad.* Tra, &c. ¶ *While we were yet sinners,* A nyni etto yn bechaduriaid, *Rhuf.* v. 8.

¶ While *or* until. See under U.

To while, or *while away the time,* ¶ Gwersa (in *Glamorgan.*)

Whilk, [a small shell-fish, so called.] See Periwinkle.

Whilom. See Formerly; and Once [in time past.]

Whilst that. See Until.

Whim. See Freak.

Whim-wham, *s.* [an old woman's tale, &c.] Chweddl gwrach; coeg-chwedl, &c.

To whimper, *v. n.* [half-cry from discontent] Gerain, geran, go-lefain.

Whimsical. See Freakish, Fanciful, &c.

Whimsey or Whimsy. See Freak, &c.

Whin, *or* whins. See Furze.

To whine, *v. n.* [lament in a low voice, speak plaintively, &c.] Gwynofain, cwynfan; dywedyd yn gwynfanus (yn glafaidd, yn gwynfanllyd, yn bipianllyd;) cwyn-leisio, gwneuthur llais cŵyn (cŵyn-lais;) gwneuthur llais llefain, clafleisio.

¶ To whine, *v. n.* [as a dog] Ubain, uban, cŵynnadu.

To whine out, Dywedyd (adrodd) dan gwynfan.

Whine, *s.* [a low plaintive voice *or* utterance] Cwyn-lais (cwynllais,) llais llefain, clafiais cŵyn, &c.

Whiner, *s.* Cwynfanwr, cwynfenydd, cwynleisiwr, a wnelo lais llefain, un (dyn) cwynfanllyd.

Whining, *part.* Yn cwynofain, gan (dan) gwynofain, &c. cwynfanus, cwynfanllyd, yn gwneuthur ei gwyn, yn gwneuthur llais llefain, pipianllyd.

Whining, *s.* Cwynfaniad, clafleisiad: cwynfan, cwynofain.

To whinny. *See* to Neigh.

Whinyard, [a sword, in contempt so called.] *See* Falchion.

Whip, *s.* Ffrewyll, *Diar.* xxvi. 3.

To whip, [beat *or* lash with a whip.] *See* to Scourge, &c.

To whip, *v. a.* in Sewing, [make a round kind of hem] Crwn-ymylu, ymyl-grynnu, crwnhemmio.

To whip [snatch one's self] *away,* Ymgipio (¶ tasgu) ymaith.

To whip or *snatch* [a thing] *away,* Cipio (ysgipio) ymaith.

To whip [snatch one's self] *in,* Ymgipio (neidio, ¶ tasgu) i mewn.

To whip a thing in, Cipio (ysgipio) i mewn; rhoi (dodi, bwrw) i mewn yn chwimwth.

To whip out, v. n. Ymgipio (neidio, ¶ tasgu) allan; myned allan yn chwimwth.

To whip a thing out, Cipio (ysgipio) peth allan; tynnu allan yn chwimwth (yn heini ar ddyfrys, yn wisgi.) *To whip out a sword,* ¶ Gwisgïo cleddyf.

To whip [run] *up,* or *go up in haste,* Rhedeg i fynu; myned i fynu yn heini *neu* ar ddyfrys; esgyn yn wisgi.

To whip [catch *or* snatch] *up,* Cipio (ysgipio) i fynu.

To whip up and down, Rhedeg (ymgipio) i fynu ac i waered; rhedegfain.

¶ *To whip a top,* Gyrru toppyn.

Whipped, *or* whipt. *See* Scourged.

Whipper, *or* whipster. *See* Scourger.

¶ Whip-hand, [the advantage over another] Y llaw uchaf (drechaf:) ¶ y gore

A whipping. *See* Scourging.

Whip-saw. *See under* Saw.

Whip-staff, *s.* [the handle of the rudder] Braich y llyw.

Whirl. *See* Twirl; Gyration; *and* Circumvolution.

¶ Whirl, *s.* [of a spindle] Chwerfan.

To whirl about, Chwyldroi, cylch-droi, sidyll-droi, troi yn sidyll; ¶ myned (troi) oddi amgylch, *Preg.* i. 6.

A whirl about, Chwyldro, cylchdro, sidyll-dro; chwimwth-dro.

Whirlbat. *See* Hurlbat.

Whirl-bone of the knee. *See* Knee-pan.

Whirler, *s.* Chwyl-drŵr, chwyl-dröydd, chwyldröedydd.

Whirligig, *s.* [for children to play with] Chwirligwgan, chwirligwgan.

Whirling about, Yn (gan, dan) chwyl-droi, &c.

A whirling round, [in a stream.] *See* Eddy.

Whirl-pool, *s.* Llynn (pwll) tro.

Whirl-wind, *s.* Tro-wynt.

Whisk, *s.* Llamdro; erych-naid.

¶ Whisk, *s.* [a sort of small besom, so called] Ysgubellig, ysgubellan; ¶ tangell.

Digitized by Google

To whisk, or *whisk about*, Llamdroi; crychneidio, myned ar lamdro (ar grych-naid.)
To whisk by one. *See* to Brush by one.
To whisk clothes, Ysgubelligo dillad, dllychu dillad ag ysgubellig.
To [agitate with a] whisk, *v. a.* Gweithio (cynhyrfu) ag ysgubellig, ¶ ysgubelligo.
The whisk of a switch, Clecc (ysgort, ¶ crinell) gwialen.
Whiskers. *See* Mustaches.
¶ Whisking, *a.* [huge, &c.] Mawr iawn, gorfawr, &c. *A whisking* [swingeing] *lie*, Celwydd mawr iawn.
Whisper, *s.* Husting, hustyng; sibrwd, sisial.
To whisper, *v. n.* Husting, hustyng, ymhustyng, sibrwd, sisial, sisyfwl, siffrwd, suo, rhegain, dywedyd ynghlust un.
To whisper together, Cyd-ymhustyng, cyd-sisial.
Whisperer, *s.* Hustyngwr, (*pl.* hustyngwyr,) *Rhyf.* i. 30. sisialwr, sisielydd, sibrydwr, sibrydydd, &c.
Whispering, *s.* Hustyng.
Whist, [*interj.*] *See* Hush!
Whistle, *s.* Chwib.
To whistle, *v. n.* Chwibanu.
Whistler, *s.* Chwibanwr, chwibenydd, chwibaniedydd.
Whistling, *part.* [that whistles, &c.] Yn (a fo, neu y sy, yn) chwibanu; gan (dan) chwibanu: ¶ chwibanog; chwibanllyd. *A whistling wind*, Gwynt chwibanog (chwibanllyd.) ¶ *With a whistling sound*, or *whistlingly*, Yn chwibanllyd.
Whit, *or* jot, *s.* Mymryn, tippyn, &c.
Every whit. *See under* E.
Never [not] *a whit*. *See under* N.
White, *a.* Gwynn, cann, cannaid; cyncan.
¶ *A white boy*, Bachgen gwynn.
White behind, *s.* Ol-wynn.
To white, *v. a.* Gwynnu; gwyngalchu.
¶ White, *a.* Gwynn; gwynni.—*The white of an egg*, Gwynn wy, gwynnwy.—*The white of an eye*, Gwynn (gwynni) y llygad. *The whites* [whites] *of the eyes*, Gwynnion y llygaid.
The white of a tree. *See* the Sap [not the heart] of a tree, *under* S.
White colour, *a.* Lliw gwynn. *Of a white colour*, or *white coloured*, Gwynn-lliw.
White-faced, *a.* Wyneb-wynn.
White-footed, *or* white-foot, *a.* Troed-wyn.
White-friars, *s.* [an order of Friars distinguished by a white habit] Brodyr gwynnion (gwisg-wynn, hug-wynn)
White-haired, *a.* Gwallt-wynn; pen-wynn, brig-wynn.
White-head, *s.* Pen-wynn; ¶ brig-wynn.
White-lead. *See under* L.
White-lime, *or* white-liming, *s.* Gwyn-galchiad, gwyn-galch.
To white-lime, *v. a.* Gwyn-galchu; gwynnu.
White-limed, *a.* Gwyn-galchedig, a wyngalchwyd, wedi ei wyngalchu.
A white-liming, *s.* Gwyngalchiad.
White-livered, *a.* Gwynn ei afu, ag (a'r y mae) afu gwynn iddo: ¶ gwan-galon, cynfigennus.
Whitely, *a.* [approaching to white] Gwynnaidd, gwawr-wynn, gorwynn, ar y gwynn.
White-meat, *s.* Gwyn-fwyd (*pl.* gwyn-fwydydd;) llaethfwyd; gwynnod.
To whiten [make white.] *See* to Blanch [whiten] *and* to Bleach.
To whiten, *v. n.* [grow white] Cannu, gwynnu, gwynhâu, myned yn wynn (yn gann, yn gannaid:) gorwynnu.
Whitener, *s.* Cannwr, cennydd, canniedydd.
Whiteness, *s.* Gwynder, gwyndra, gwynrwydd, gwynni, canneidrwydd.
White-pot, *s.* Gwynnod.
A whitening. *See* a Blanching; *and* a Bleaching.
White-nosed, *a.* Trwyn-wynn.
Whiter. *See* Whitener.
White-robed, *a.* Ysglu-wynn.
Whites, *s.* [fluor albus] Gwyn-red, ¶ y gwynnion.
White-tailed, *a.* Cynffon-wynn, llosgyrn-wynn.
White-wash, *s.* Gwyn-olch.
To white-wash, *v. a.* Gwyn-olchi; gwyngalchu.
White-wine, *s.* Gwin gwynn, gwyn-win.
Whither, *ad.* [to what *or* which place; to the place which] I ba le, *Gen.* xvi. 8. i b'le; i'r lle. *Not knowing whither he went*, Heb wybod i ba le yr oedd yn myned, *Heb.* xi. 8. ¶ *Let him go whither he will*, Aed lle (i'r lle) y mynno. *And they drew nigh unto the village, whither they went* [were going;] Ac yr oeddynt yn nesâu i'r dref, lle (i'r hon) yr oeddynt yn myned, *Luc* xxiv. 28. *In the land whither ye go to possess it*, Yn y wlad yr ydych ar fyned i mewn iddi i'w meddiannu, *Deut.* iv. 5.
Any whither. *See under* A.
No whither. *See under* N.
Some whither, I ryw le (fan.)
Whithersoéver, *ad.* I ba le (i b'le) bynnag. 2 *Sam.* vi. 14. i ba fan bynnag; pa le bynnag, *Diar.* xvii. 8.—tu a pha le bynnag; ¶ lle, *Diar.* xxi. 1.
Whiting, *ad.* [a fish] Gwyniad *Llyn Tegid* a llynau dwr croyw eraill, yn gystal a dwr hallt y môr.
Whiting, *s.* [a chalky substance so called] Gwynfwyn, lledsialc.
Whitish, *a.* [somewhat white] Gwynnaidd, gorwynn, go-wynn, lled-wynn.
Whitishness, *s.* Gwynneiddrwydd, gorwynder.
Whitlow, *s.* [a sore at the root of the nail so called] Ewinor, ewinwasg, gwlithen; bystwn.
Whitster. *See* Whitener.
Whitsun, *a.* [belonging to Whitsuntide] Eiddo'r Sul-gwyn. *The Whitsun-holidays*, Gwyliau 'r Sulgwyn, gwyliau Sulgwyn.
Whitsunday, *s.* Y Sulgwyn, dydd Sulgwyn.
Whitsuntide. *See* Pentecost.
Whitsun-week, Wythnos y Sulgwyn.
The whitten tree, Ysgawen y dŵr.
Whittle, *s.* [a sort of wrapper to wrap a young child in; *also* flung over their shoulders by old women] Twyg-rwymyn, hûg-rwymyn, tor-rwymyn, rhwym-doryn; ysgwydd-bais, toryn, *vulgo* chwiti.
Whittle, *s.* [a little knife] Cyllellan.
To [dress in a] whittle, *v. a.* Twyg-rwymynnu; torynnu, rhoi toryn am ysgwyddau un.
Whittled, *part.* Torynnedig, a thoryn am ei hysgwyddau.
Whiz, *s.* [a loud humming noise] Si.
To whiz, *v. a.* Sïo.
Whizzing, *part.* Yn (gan, dan) sïo.
A whizzing, *s.* Siad, si.
Who? *pron.* Pwy? 2 *Bren.* ix. 32.

Digitized by Google

Who, [relative, *or* referring, to a person mentioned, *or* understood] Yr hwn *(fem.* yr hon;) y sawl, y neb, yr un: *pl.* y rhai. *N.B* The Pronoun relative is mostly understood in the *Welsh;* as, *The man who doeth* [shall do *or* have done] *this,* Y gŵr a (yr hwn a) wnelo hyn.

Who, [indefinite] Pwy. *He that was healed wist not who it was,* Yr hwn a iachasid ni wyddai pwy oedd efe, *Io.* v. 13.

Whoever, *pron.* Pwy bynnag.

Whole, *or* entire. *See under* E.—*See also* Unbroken.

Whole, the whole, [all the] Oll, holl, &c. *The whole country,* Y wlâd oll; *new,* yr holl wlâd.

¶ *The whole world. See* ¶ the Universal world, *under* U.

Whole, *a.* [well, in health, &c.] Iach, *Mat.* ix. 21. *The whole need not a physician,* Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, *Mat.* ix. 12.

The whole, *s.* Y cwbl, *Mat.* xiii. 33. ¶ y cwbl oll, *Luc* xiii. 21.—y cyfan.

¶ *As whole as a fish,* Cyn iached a'r glain.

To make whole, [care, &c.] Iachau, *Marc* v. 34. gwneuthur yn iach, *Io.* v. 6 *He woundeth, and his hands make whole,* Efe a archolla, a'i ddwylaw a iachant, *Job* v. 18.

To grow whole or well. See to Heal, *v. n.*

To make whole, [restore what has been broken] Cyfhau, cyfannu, gwneuthur yn gyfan.

¶ *To make whole* or *indemnify. See under* I. *See also* to Repair a loss, &c.

To grow whole or *sound,* [when broken *or* shattered] Cyfhau, cyfannu; ymgyfannu.

To make whole again, [what is decayed *or* impaired] Cyweirio, &c.

Whóle-footed, *a.* Cyfan-droed.

Whóle-hoofed, *a.* Cyfan-garn.

Whóleness, *s.* Cyfander, cyfanrwydd.

Wholeness, *s.* [soundness of body] Iechyd, iachusrwydd.

Whólesale, *s.* [sale in the gross] Cyfan-werth, gwerth dan swmp.

By wholesale, Dan swmp.

To sell by wholesale. See under By.

A wholesale man, *s.* Hwn a wertho'r cwbl i'r unffordd (i'r un-llaw;) gwerthwr (gwerthydd) dan swmp: cyfan-werthydd.

Whólesome, *a.* Iach, *Diar.* xv. 4. iachus.

Whólesomely, *ad.* Yn iachus, yn iachol.

Whólesomeness. *See* Salubrity.

Whólly, *ad.* [wholely] Yn gyfan, yn gwbl, yn gyfan-gwbl, yn hollol, &c. ¶ *Wholly and entirely,* Yn gyfan ac yn gwbl. *Meditate upon these things, give thyself wholly to them,* Myfyria ar y pethau hyn, ac yn y pethau hyn aros, 1 *Tim,* iv. 15.

Whom, [the oblique cases of *who,* both singular and plural] Pwy? *Mat.* xvi. 13.—yr hwn *(fem.* yr hon,) *Gen.* xxii. 2. y rhai *(pl.) Jer.* viii. 2. *Whom have I in heaven but thee?* Pwy sydd gennyf fi yn y nefoedd ond tydi? *Salm* lxxiii. 25. ¶ *The woman whom thou gavest to be with me,* Y wraig a roddaist gyd â mi, *Gen.* iii. 12. *The people amongst whom I am,* Y bobl yr ydwyf fi yn eu plith, *Num.* xi. 21.

Whomsoever, *pron.* Pwy bynnag, *Act* viii. 19. pa rai bynnag, *(pl.)* 1 *Cor.* xvi. 3. *To whomsoever I will,* I bwy bynnag y mynnwyf, *Luc* iv. 6. ¶ *The most High ruleth in the kingdom of men, and giveth it to whomsoever he will,* Y Goruchaf a lywodraetha yn mrenhiniaeth dynion, ac a'i rhydd i'r neb y myuno efe, *Dan.* iv. 17.

Whoop. *See* Halloo [a shout.]

Whoop *or* hoopoo [a bird so called.] *See* Lapwing.

To whoop *or* halloo. *See under* H.

To whoop [halloo] *after one,* Gwaeddi ar ôl un.

Whóoping, *part.* Yn gwaeddi, gan (dan) waeddi, ¶ gwaeddgar.

A whóoping. *See* a Hallooing.

Whore, *s.* Puttain, &c. ¶ *The greatest whore crieth whore first,* [Prov.] Puttain a eilw battain gyntaf. *To cry out whore first,* ¶ Achwyn rhag, achwyn rhagddo (rhagddi.)

An arrant whore, Carn-buttain.

A common whore. See Prostitute.

A little or *young, whore,* Putteinig; mwyglen, aymlogen; hoeden.

To play the whore or *harlot. See under* H.

Whoredom. *See* Harlotry.

A whore-house, *s.* Putteindy.

A whore-monger, *or* whore-master. *See* Wencher, &c.

Whóring, *part.* Yn putteinio, gan dan butteinio.

¶ Whoring, *a.* [given to whores, *or* to whoring] Putteingar.

A whoring, *s.* Putteiniad, putteiniaeth.

To go a whoring, Putteinio, *Ezec.* vi. 9.

Whóriah, *a.* [meretricious] Putteiniaidd, putteinig, *Diar.* vi. 26. putteinllyd, *Ezec.* vi. 9. bndrogaidd; godinebus.

Whórishly, *ad.* Yn butteiniaidd; fel puttain.

Whòrlebat. *See* Hurlbat.

Whortle, *s.* [a sort of shrub so called] Llaswydd.

Whórtle-berries, *s.* Llusi.

Whose, [Pronoun interrogative and indefinite implying *property*] Eiddo pwy? *Gen.* xxxii. 17. pwy biau? &c. *Whose is the land?* Eiddo pwy yw'r wlâd? 2 *Sam.* iii. 12. *Whose are the sheep that thou lookest after?* Pwy biau'r defaid a gedwi di? *Whose ox have I taken?* Ych pwy a gymmerais? 1 *Sam.* xii. 3. *Let us cast lots for it, whose it shall be,* Bwriwn goelbrennau am dani, eiddo pwy fydd hi, *Io.* xix. 24. ¶ *The God in whose hand thy breath is, and whose are all thy ways,* Y Duw y mae dy anadl di yn ei law, a'th holl ffyrdd yn eiddo, *Dan.* v. 23. *Whose art thou?* I bwy y perthyni di? *Gen.* xxxii. 17. *Whose son is he?* Mâb i bwy ydyw? *Mat.* xxii. 42. *God whose I am,* Duw yr hwn a'm piau, *Act.* xxvii. 23.

Whose, [a Pronoun relative, the gen. of *who* or *which* both *sing.* and *pl.*] Yr hwn *(fem* yr hon:) *pl.* y rhai. *The king, whose name* [the name of whom] *is the Lord of hosts,* Y brenhin, enw yr hwn yw Arglwydd y lluoedd, *Jer.* xlvi. 18. *Whose end is destruction, whose god is their belly, and whose glory is in their shame,* Diwedd y rhai yw distryw, duw y rhai yw eu bòl, a'u gogoniant yn eu cywilydd, *Phil.* iii. 19.

Whose-soéver, *pron.* Eiddo pwy bynnag, *Ie.* xx. 23. *pl.* eiddo pa rai bynnag.

Whóso, *or* whosoéver, *pron.* Pwy bynnag, *Mat.* xiii. 12. ¶ *Whoso* [he that] *doeth these things shall never be moved,* A wnelo (y neb a wnelo) hyn nid ysgogir yn dragywydd, *Salm* xv. 5. *Whosoever he be,* Pwy bynnag fyddo, *Gal.*

Digitized by Google

v. 10. *Whosoever would, he consecrated him*, Y neb a fynnai, efe a'i cyssegrai ef, 1 *Bren.* xiii. 33.

To whur, *v. n.* [as a dog] Chwyrnu dan ysgyrnygu, dannedd.

Why, *ad.* Pa ham, pa am, pa'm am ba achos, i ba beth, 2 *Sam.* xiii. 26. am ba beth, *Esth.* iv. 5. ¶ *What are we to avoid? why every sin*, Beth sydd i ni i'w ochelyd? nid amgen nâ phob pechod. *What cause is there, why you should wish us so much harm?* Beth yw'r achos y dymunech i ni gymmaint niweid?

Why not? Pa ham na?—beth ynte?—pa ham nad è? *Why do you not sweep the floor?* Pa ham nad ysgubwch y llawr?—¶ *With a why not*, [unsparingly, &c.] Yn ddïarbed; yn ddïergryn; yn ddigyngyd; yn ddi-baham. —¶ *Would you have me do this? why*, no, A fynnech chwi wneuthur o honof hyn? ys, na fynnwn.—¶ *Why truly, do you make a doubt of it?* Neud, ai amhygoel hyn i chwi?

Why so? Pam (pa ham) hynny? pa ham felly?

Wick, [of a candle, &c.] Pabwyryn *(pl.)* pabŵyr.

Wick, *or* borough. *See under* B.

Wicked, *a.* Drwg, drygionus, 1 *Cor.* v. 13.

Wicked men. *See* Evil men.

A wicked rogue or wretch. *See* Villain (in its latter Acceptation, &c.

¶ *Most wicked*, Llwyr-ddrwg, 2 *Mac.* xiv. 27.

The wicked one, Y drwg, y fall, *Ephes.* vi. 16.

Wickedly, *ad.* Yn ddrwg, yn ddrygionus, &c.

Wickedness. *See* Evil *(s.)* Impiety; Flagitiousness; Malice: *and* Villainy.

Wicker. *See* Osier.

A wicker basket, Basged fer-helyg.

Wicket. *See* a little Door, *under* D.

Wick-yarn, *s.* Edau babwyr.

To widdle waddle along. See to Waddle.

Wide, *a.* [not narrow; opposed to long] Llydan; ehang, &c.

Far and wide, Yn mhell ac ar led (ag o gwmpas;) yn mhell ar hyd ac ar lêd; ¶ yn mhell ac yn agos.

As wide as, Cyfled â.

Wide open. *See under* O.

To make; *also* to grow, wide. See to Dilate.

Widely. See Extensively.

To widen, *v. a.* & *n.* See to Dilate.

Wideness. See Breadth; Extensiveness; *and* Extent.

Wider, *a.* Llêd, llettach, llydanach. ¶ *Wider and wider*, Lled-led, llettach-lettach.

Widgeon, *s.* [a sort of silly aquatic bird, so called] Rhyw ddyfriar neu hwyaden o'r enw.

Widow, *s.* Gweddw, *Ecs.* xxii. 22. *A widow woman*, Gwraig weddw, 2 *Sam.* xiv. 5. ¶ *Her widow's garments*, [the garments of her widow-hood] Dillad ei gweddwdod, *Gen.* xxxviii. 14, 19.

To [make *or* render a] widow, *v. a.* Gweddwi, peri yn weddw; amddifadu.

Widower, *s.* Gwr gweddw (wedi claddu ei wraig.)

¶ Widowers, *s. pl.* Gweddwon, 2 *Esdr.* xvi. 44. gwŷr gweddwon.

Widowhood. *s.* Gweddwdod, *Esay* xlvii. 9.

Width, *s.* Llêd.

To make of equal width, Cyfledu.

To wield [a weapon, &c.] See to Handle (in its 5th Acceptation;) *and* to Brandish.

To wield [sway] *the sceptre.* *See under* S.

To wield *or* manage. See under M.

Wieldy. See Manageable.

Wife, *s.* [a married woman] Gwraig wrieg (weddog, briod,) ¶ gwraig, *Gen.* ii. 24.—cydweddi; cywestach.

A little wife, Gwreigan; gwreignith.

An old wife, Hên wraig, &c. ¶ *Need makes the old wife trot*, [Prov.] Angen a bair i hen wrach duthio; *neu*, Angen a ddysg i hên redeg. *Old wives' fables*, Gwrachïaidd chwedlau, 1 *Tim.* iv. 7.

A son's wife. *See* Daughter-in-law.

A brother's wife, [sister in law] Chwaer yng-hyfraith.

A wife's father. *See* Father in law.

A wife's mother. *See* Mother in law, in its latter Acceptation.

The wife's grandmother, Rhagchwegr, nain y wraig, nain yn y gyfraith.

The wife's grandfather, Rhagchwegrwn, taid y wraig, taid yn y gyfraith.

Wig, (a sort of cake.] *See* Bun.

A wig *or* periwig. *See under* P.

Wight, *s.* [a man *or* person] Dyn.

The Isle of Wight, Ynys yr Wyth.

Wild, *a.* [untamed, uncultivated, &c.] Gwyllt. (whose application is universally parallel to the ideas of the English word.)—*A wild ass*, Asyn gwyllt, *Job* vi. 5. asen wyllt, *(fem.) Jer.* ii. 24.—*A wild olive-tree*, Olew-wydden wyllt, *Rhuf.* xi. 24.—*A wild man*, Dyn gwyllt, *Gen.* xvi. 12.—*A wild young man*, or *a wild youth*, Dyn ieuangc gwyllt (chwidr-ffol, chwidr.)

To make: *also* to grow; wild. *See* ¶ to Savage; *and* to grow Savage.

¶ *To grow wild*, *v. n.* [as land neglected after culture] Gwyddo.

A wild beast, Anifail gwyllt, &c. anifail y maes, *Job* xxxix. 15.—¶ *And Asahel was as light of foot as a wild roe.* [as one of the roes that is in the field] Ac Asahel oedd mor fuan ar ei draed ag un o'r iyrchod sydd yn y maes, 2 *Sam.* ii. 18.

A wild country, Gwlâd anial (wyllt, anniwyll,) gwydd-wlad.

Wild, *a.* [as nature unimproved, and over-run with its spontaneous and weedy productions, *i. e.* nettles, thistles, brambles, &c.] Gwyllt; gwydd; llawn gwyddeli.

Wild *or* desert. *See under* D.

To grow wild, [as a tree unpruned, &c.] Tyfu'n wyllt; ¶ chwidro, *(quære)* tyfu (myned) yn wyddeli; gwyddo.

Wild-fire, *s.* Tân gwyllt.

Wild fowl, *s.* Adar (ednain) gwylltion.

A wild goose. *See under* G.

¶ *A wild goose-chase*, [a foolish, fruitless pursuit] Erlyn (ynsyd a difudd; brwd hely heb olwg ar (heb obaith am) ddal; ymlyd diobaith.

To lead one a wild goose-chase, [engage one in a delusive pursuit; lead on with vain promises] Rhoi un ar helfa dwyllodrus (a dwylla yn y diwedd;) denu ym mlaen â gwâg addewidion.

To sing a wild note, Canu o anian ac nid o addysg; canu'n anhydon.

A wild. See a Desert place (under D.) &c.

To wilder, &c. See to Bewilder, &c.

Digitized by Google

Wilderness. See Desert.
Wilding. See Crab [fruit.]
A wilding-tree. See Crab-tree.
Wildly, *ad.* Yn wyllt, &c.
Wildness, *s.* Gwylltedd, gwylltrwydd, gwylltineb; chwidredd, &c.
Wile, *s.* Dichell, (*pl.* dichellion,) *Num.* xxv. 18. ystrangc, ystryw, &c. ¶ cynllwyn, (*pl.* cynllwynion,) *Ephes.* vi. 11.
Wilful. See Obstinate; Self-witted, &c.—Intentional, &c.—Prepense, &c.
¶ *There is nothing more wilful than a mule,* Nid cyndyn (ystyfnig) ond mûl.
Wilfully, *ad.* Yn gyndyn, yn anbydyn, yn ystyfnig, &c.—o wirfodd, *Heb.* x. 26.
Wilfulness, *s.* Cyndynrwydd, cildynrwydd, &c.
Wilily, *ad.* Yn gyfrwys, *Jos.* ix. 4. yn ystrywus, &c. ystrywgar, yn ddichellgar, &c.
Wiliness. See Craftiness, &c.
Wilk, [a shell-fish so called.] See Periwinkle.
Will, *s.* [the faculty of the soul so called; *also* the act of faculty] Ewyllys. *The will,* Yr ewyllys. *God's will* or *the will of God,* [that which God willeth] *be done,* Ewyllys Duw a wneler; *neu,* Gwneler ewyllys Duw.
Will, *or* desire, *s.* Dihewyd, ewyllys, dymuniad, puchiant, puch, &c. *The world has had its will,* I'r byd ei ddihewyd a ddaeth. *If I might have had my will,* Pe cawswn i fy nihewyd (fy ewyllys.) *You shall have your will,* Chwi a gewch eich dymuniad. ¶ *For the performing of work there are three requisites,* namely, *means, skill,* and *will,* Er gwneuthur gwaith, rhaid yw tri pheth, *sef,* modd, medr, a mynn. *He wants will,* Mae eisiau mynn arno.
Will, *or* pleasure. See Pleasure [will, &c.]
At one's will, Wrth ei fodd (ei ewyllys.) ¶ *He has wit at will,* Mae ganddo synwyr parod (ar beunau ei fysedd, *neu* ar ben pob bys.) *He hath words at will,* [at command] Mae ganddo eiriau ar flaen ei dafod (wrth law, parod.)
Free will: *and* Free-will, [*s.*] See both under F.
Good-will. See under G.
To bear good will. See under B. *and* G.
Bearing good will. See under G.
By my good will. See under G.
Of good will. O ewyllys da, *Phil.* i. 15.—*Of meer good will,* O'i wir ewyllys da.
Of one's own will, O'i ewyllys ei hun, *Lef.* i. 3. ¶ o'i wir ewyllys, *Iago* i. 18.—*Of one's own good will,* O'i ewyllys da ei hun; o'i wir ewyllys da.
With a good will, or *with good will,* Trwy ewyllys da, *Ephes.* vi. 7.
Will-worship, *s.* Ewyllys-grefydd, *Col.* ii. 23.]
Ill will. See Malevolence, &c.
To bear one ill will, or *to bear ill will to one,* Dwyn drwg-ewyllys i un, ewyllysio yn ddrwg i un, &c.
Bearing ill will. See Malevolent.
With ill will, or *with an ill will.* See Reluctantly, &c.
Against one's will. See under A.—See also Reluctantly, &c.
Much against one's will, Ym mhell yn erbyn ewyllys un, o'i anfodd yn fawr, yn anewyllysgar iawn.
To will, *v. a.* [be desirous that any thing may take place, &c.] Mynnu, *Rhuf.* ix. 18. ewyllysio, *Mat.* xxvi. 39. *Whom will ye that I release unto you?* Pa un a fynnwch i mi ei ollwng yn rhydd i chwi? *Mat.* xxvii. 17. *These things I will that thou affirm constantly,* Am y pethau hyn yr ewyllysiwn i ti fod yn daer, *Tit.* iii. 8. *When he will,* Pan fynno; *neu* pan y mynno.
¶ Will, [the sign of the *future tense.*] Ex. *I will come,* Deuaf, (myfi) a ddeuaf. ¶ *Let come on me what will,* Deued arnaf yr hyn a ddelo, *Job* xiii. 13.
¶ To will *or* enjoin. *See under* E.
A will *or* last will. *See* Testament [one's last will.]
He that makes a will. See Testator. *She that makes a will.* See Testatrix.
Incapable by Law to make a will. See Intestable.
Without [that dies without] *a will.* See Intestate.
To die without a will, Marw yn ddi-ewyllys (yn ddi-lythyr cymmyn.)
That has made, or left, a will. See Testate.
Of, or belonging to, a will. See Testamentary.
Will-with-a-whisp. See Jack-a-lanthorn, &c.
Willed, *part.* Ewyllysiedig.
Willer, *s.* Ewyllysiwr.
William, *s.* [a man's name] Gwilym.
Willing, *part.* Yn mynnu, yn ewyllysio, *Act.* xxiv. 27. gan ewyllysio, *Luc* xxiii. 20.—yn chwennych, *Marc* xv. 15.—¶ yn gweled yn dda, 2 *Cor.* v. 8.—yn hawdd gan, 1 *Tim.* vi. 18.—*Not willing,* Heb chwennych, *Mat.* i. 19. heb ewyllysio, 2 *Pedr* iii. 9.
¶ Willing, *a.* [ready, not backward, &c.] Parod, *Mat.* xxvi. 41. ewyllysgar, *Salm* cx. 3. *A willing mind,* Meddwl ewyllysgar, 1 *Cron.* xxviii. 9. ¶ parodrwydd meddwl, 2 *Cor.* viii. 12. ¶ *Nothing is too hard for a willing mind* [Prov.] Nid caled dim i'r diwyd; *neu,* Dyfal a dyrr trwy'r garreg; *neu,* Y llafur a orfydd ar bob peth.
To be willing, Bod yn ewyllysgar; mynnu, ewyllysio, *Luc* xxii. 42. ¶ cytuno, *Job* xxxix. 9.—gweled yn dda, 1 *Thes.* ii. 8. *If the woman will not be willing to follow thee,* Os y wraig ni fyn ddyfod ar dy ol di, *Gen.* xxiv. 8. *Be willing to hear every godly discourse,* Myn glywed pob traethawd ddunwiol, *Ecclus.* vi. 35. ¶ *Whether he be willing or unwilling* [will he, nill he] Na bòdd nac anfodd ganddo; *neu,* Bid mynnu bid peidio.
A willing, or *the act of willing.* See Volition.
Willingly, *ad.* Yn ewyllysgar; o (o'i) fodd.
Willingly and wittingly, O wirfodd ac o wybod.
Willingness, *s.* Ewyllysgaredd, ewyllysgarwch; parodrwydd.
Willow, *or* willow-tree, *s.* Helygen (*pl.* helyg,) pren helyg.
Willow-grove, *or* willow-plat, *s.* Llwyn helyg, helyg-lwyn.
Wily. *See* Crafty, Cunning [subtil, &c.] and full of Stratagems, *under* S.
Wimble, *s.* [a small instrument for boring, so called] Ebill (*dim.* ebillyn,) trwyddedw, &c.
To [bore with a] wimble, *v. a.* Ebillio, tyllu ag ebill, &c.
Wimple, *s.* [a sort of hood *or* veil, so called] Miswrn (*pl.* misyrnau,) *Esay* iii. 22. ¶ gyddwisg lleian.
To win, *v. a.* Ynnill, ennill, *Phil.* iii. 8.—elwa,

Digitized by Google

maelio, &c. *He that winneth souls is wise*, Y neb a ennillo eneidiau sydd ddoeth, *Diar.* ix. 30. *What they had done in the country of Spain, for the winning of the mines of the silver, and gold which is* [were] *there*, Pa bethau a wnaethent hwy yngwlâd Hispaen, i ennill y mwyn-gloddiau arian ac aur oedd yno, 1 *Mac.* vjii. 3. *He encamped against the fenced cities, and thought to win them for himself*, Efe a wersyllodd yn erbyn y dinasoedd caerog, ac a feddyliodd eu hennill hwynt iddo ei hun, 2 *Cron.* xxxii. 1. ¶ *I will win the horse, or lose the saddle* [Prov.] Naill ai gŵr, ai dim: *neu*, Naill ai ynaill y gamp, ai colli y gwystl.

To win [gain] *a battle.* See under B.

To win a person's favour or *affection*, Ynnill bôdd (ewyllys da) un; ynnill (tynnu, denu) serch un.

To win over, Ynnill (denu) drosodd.

To win the victory, Ynnill y ffuddugoliaeth (y maes.)

To win by force or *assault.* See to Expugn.

To wince or *winch.* See to Fling [kick *or* wince, &c.]

Wince, *s.* [a fling] Gwing.

A wincer or *wincing horse*, Ceffyl gwingog, gwingedydd.

A wincing, *s.* Gwingad, tindafliad.

Wind, *s.* [the stream, current, *or* sensible motion of the air] Gwynt (gwyntoedd, gwynnoedd;) gwynniar; chwa: awel: chwŷth. ¶ *It is an ill wind that bloweth no-body good* [Prov.] Drwg y gwynt ni ddygo i neb dda. *Our ancestors knew but eight winds*, Nid adwaenai ein hynafiaid namyn wyth-wynt.

The cardinal winds, Y prif-wyntoedd.

¶ *To go down the wind*, [sink in one's circumstances.] See under G.

To have the wind with one, [have a favourable] wind] Cael y (bod a'r) gwynt gyd ag ef *neu* o'i gefn; cael hwyl-wynt (gwynt hwylus;) ¶ myned rhagddo yn hwylus (yn llwyddiannus.)

To get the wind. [the advantage, &c.] *of one*, Cael (ynnill) y gwynt ar un; ¶ cael y tir uchaf (y llaw ddehau, y fantais) ar un.

A boisterous, contrary, fore, and *side, wind*, See under B. C. F. *and* S.

Wind, *or* breath, *s.* Gwynt.

To break one's wind: To break wind, &c. See under B.

To take wind, Cymmeryd gwynt: cymmeryd anadl.

¶ *To take wind*, [become known abroad.] See to run Abroad [as a report;] *and* to Get [be spread] abroad; under A. *and* G.

Out of wind. See out of Breath, under B.

To wind [blow] *a horn*, Gwyntio (canu) corn.

To wind [turn] *about*, Troi o amgylch; amdroi: amddirwyn. *Let us wind the ship about*, Trown (dygwn) y llong o amgylch. ¶ *How winds the ship?* Tu a pha barth i'r compod y cyfeiria pen y llong?

To wind [as a serpentine river, &c.] *See* to Meander; *and* to Sinuate.

To wind [twine, *or* twist] *round* or *about.* See to Twine, twist, wind, round *or* about, *v. a.*

To wind or *twine* [itself] *about.* See under T.

To wind [itself] *in*, Ymddirwyn (ymnyddu) i mewn.

To wind into bottoms, Dirwyn yn bellenn au.

To wind one's self into a person's favour, Ymddirwyn (ymnyddu) i ffafr un.

To wind one's self out of difficulties, Ymddirwyn o ddyryswch.

To wind up, Dirwyn i fynu; ¶ codi i fynu (trwy droi *neu* ddirwyn.)—*To wind up a clock*, Codi pwysau cloce; ¶ codi (cwnnu, dirwyn) cloce.—*To wind up a watch*, Dirwyn sŷg (tkl) oriawr; ¶ dirwyn oriawr.

To wind up in, Amdôi mewn.

To [have in the] wind, *v. a.* Gwyntio, arwyntio, &c. ¶ bod ar yr adrywedd.

¶ *To wind up* [conclude] *a speech*, Diwedd-gloi (cynghloi) araith.

Wind-beam, [of a house, &c.] *See* the ridge beam, &c. (*under* B.)—*See also* a draw Beam (*under* B.)

Wind-berry. *See* Bill-berry.

Wind-bound, [detained, *or* kept from sailing, by a contrary wind] Yngharchar (yn gaeth gan) y gwynt; gwynt-rwystredig.

Wind-broken. *See* Broken-winded.

Wind-colic. *See under* C.

Wind-egg, *or* addle-egg. *See under* Egg.

Winded, *a.* [as a horn] Gwyntiedig.

Broken; long; *and* short: winded. *See under* B. L. *and* S.

Winded, *part. a.* [as yarn, &c.] Dirynnedig, a ddirynnwyd, wedi ei ddirwyn.

Winder, *or* blower, of a horn. *See under* B.

¶ Winder, [for winding yarn, &c.] *See* Reel.

A winder, *s.* [a person that winds yarn, &c.] Dirynnwr, dirynnydd, dirynniedydd.

Wind-fall, *s.* [fruit of a tree, *or* any thing, blown down by the wind] Gwynt-gwymp: beth bynnag a dafler (a chwyther) i lawr gan y gwynt. *A wind-fall apple*, Afal gwynt-gwymp. *A wind-fall tree*, Pren gwynt-gwymp. *Wind-falls*, Pethau gwynt-gwymp.

¶ Windfall, [some unexpected good] Rhyw dda a ddêl i ddyn heb ei ddisgwyl; ffawd (da) digwydd *neu* annisgwyl.

Wind-flower, *s.* Blodeuyn y gwynt.

Wind-gall, *s.* [a sort of flatulent tumor on a horse's leg about the fetlock] Gwynt-chwydd, chwysigen wynt.

Wind-gun *or* air-gun, *s.* [that is to be charged with compressed air] Gwnn gwynt, awyrddryll.

Windiness, [the state of being windy *or* full of wind.] *See* Flatulence.

Winding, [participle *a.* and *s.*] Yn dirwyn, gan (dan) ddirwyn; yn (gan, dan) ymddirwyn.

Winding round or *about*, Yn (gan, dan) amdroi *neu* amddirwyn.

Winding a horn, Yn gwyntio (gan *neu* dan wyntio) corn.

Winding *or* scenting, [as a dog] Yn gwyntio, yn arwyntio; yn dilyn yr adrywedd.

Winding [in and out] *or* sinuous. *See under* S.

The winding [blowing] *of a horn*, Gwyntiad (caniad) corn.

A winding. *See* a Warping: *and* a Turning *or* winding.

A winding [turning] *about*, Tröad o amgylch; amdröad; amddirynniad.

The winding of a river, &c. Ystumiad (dolysymmiad) afon, &c.

A winding, *or* twining, round. *See under* T.

Digitized by Google

The winding of a road, &c. *See* Compass [the winding] of a way, &c.
A winding into bottoms, Dirynniad yn bellennau.
The winding of yarn into skains on a reel, Dirynniad edau yn genglau ar gengliadur.
The winding of a rope or *cable*, Torchiad rhaff.
The winding [coiling] *of a snake*, Torchiad (ymdorchiad, ymddolenniad) neidr.
The winding of vine-twigs or *tendrils one about another*, Anddirynniad (amnyddiad) blagur y gwin-wydd; ¶ ymraffiad (ymreffynniad, ymgyfrodeddiad, *vulgo* ymgyrdeddiad) y blagur.
Full of windings and turnings. *See* Anfractuose; Mazy, *and* Meandrous.—*See also* Labyrinth.
Winding blades, Cyngrod, estyll dirwyn.
Winding-sheet. *See* Shroud.
Winding-stairs. *See under* S.
Wind-lass, *or* wind-lace, *s.* [for winding up from wells, coal-pits, &c.] Dirwynllath, dirwynlath, carfan dro, ¶ dirwynai.
¶ Windlass, *s.* [a handle by which any thing is turned] Braich, dirwyn-lath; dirwyn-fraich, braich ddirwyn; braich droi, ¶ braich.
Windle. *See* Spindle: *and* Reel.
Wind-mill, *s.* Melin wynt.
Window, *s.* Ffenestr; ¶ gole.—*A little window*, Ffenestrig, ffenestr fechan.—*A loop-window*, Rhwyll-ffenestr, *vulgo* llowaded.
To window, *v. a.* [furnish with windows] Ffenestru.
Having [many] *windows*, Ffenestrog.
¶ *To throw the house out at window*, [out at the window.] *See under* H.
Wind-pipe. *See under* P.
Wind-row, *s.* [a row of hay *or* grass ready for cocking] Carfan.
Wind-shaken, *a.* Sigledig gan wynt (gan y gwynt;) gwynt-sigledig.
Wind-shock, *s.* [a crack *or* crevice in the body of a tree caused as it is supposed, by high winds,] *vulgo* wind-shake, Gwynt hollt. *Wind-shocks*, Gwynt-agau.
Wind-thrush. *See* Red-wing.
Windward, *ad.* Tu a'r gwynt; yn erbyn y gwynt. ¶ *In the windward horizon*, Ym môn y gwynt.—*A windward tide*, Llanw (rhediad y môr) yn erbyn y gwynt.
Windy, *a.* [abounding in wind, &c.] Gwyntog, gwynnog, gwyntarog; chwythlyd; ystormus.
Windy weather. See hard Blowing weather, *under* B.
¶ *Windy* [flashy] *expressions*, Geiriau chwyddedig, chwyddedig eiriau gorwagedd.
Wine, *s.* Gwin; ¶ meddwdod, 1 *Sam.* xxv. 37. ¶ *When the wine is in, the wit is out*, [Prov.] Gan y gwin y ceir y gwir; *neu*, Gan y gwin e geir y gwir; *neu*, Y gwin a ddengys y dyn.
Red wine, *s.* Gwin côch.
White-wine, *s.* Gwin gwynn.
Given to wine, Gwingar, 1 *Tim* iii. 3.
Wine-bibber, *s.* Yfwr gwin, *Mat.* xi. 19. *Wine bibbers*, ¶ Y rhai sydd yn meddwi ar win, *Diar.* xxiii. 20.
Wine-bottle, *s.* Costrel gwin (*pl.* costrelau gwin,) *Jos.* ix. 4.
Wine-cellar, *s.* Gwin-gell, seler (cell) win. *Wine cellars*, Seleran gwin, 1 *Cron.* xxvii. 27.
Wine-fat, *s.* [wine-vat] Gwin-gafn, *Mac.* xii. 1.
Wine-press, *s.* Gwin-wryf, *Num.* xviii. 27.
Wine-tavern, *s.* Gwin-dŷ, gwinfa.
¶ *Wines on the lees well-refined*, Gloyw-win paredig, *Isay* xxv. 6.
Wing, *s.* Adain, (*pl.* adeinydd, adeiniydd, adanedd, ¶ edyn,) aden, *Esay* x. 14.—asgell (*pl.* esgyll;) ffilog. ¶ *He was just upon the wing*, [he was just going to betake himself to flight] Yr oedd efe ar ffoi ymaith (ar gymmeryd y traed.) *One cannot fly without wings*, [Prov.] Nid ellir y di-adain ehedeg.
¶ *The wings of an army*, Esgyll llu, 2 *Mac.* xv. 20.—*The right wing*, Yr adain ddehau, 1 *Mac.* ix. 12.
¶ *The wings of a building*, Esgyll (adanedd, ystlysau) adeilad.
The end [extremity] *of the wing*, Blaen yr asgell *neu'r* adain.
To wing, *v. a.* [add wings to, *or* put on wings] Asgellu, rhoi (dodi) esgyll wrtho.
¶ *To wing the air.* *See* to Fly [as a bird, &c.]
Winged, *part.* [having wings] Asgellog, *Deut.* iv. 17. adeiniog, 2 *Esdr.* xi. 1. perchen aden (adenydd.) *Winged fame*, Sôn adeiniog, ¶ *Long winged*, Hir ei asgell, *Ezec.* xvii. 3. —*Two winged*, Dwy adeiniog, perchen dwy adain.
Wingless, *a.* [without wings] Di-edyn, diadain, heb adanedd, di-esgyll.
To take wings, Cymmeryd adenydd, *Salm* cxxxix. 9.—¶ ehedeg ymaith, &c. *See* to Fly, *or* fly [run] away. ¶ *Riches certainly make themselves wings; they fly away as an eagle toward heaven*, Golud yn ddïau a gymmer adenydd, ac a eheda ymaith megis eryr tu a'r wybr, *Diar.* xxiii. 5.
Wink, *s.* [a sort of shutting the eye for a hint *or* token, &c.] Amrantiad (tarawiad, ysmicciad, gogauad) llygad; amnaid (à llygad;) gwingc, *vulgo* wingc.
¶ *A wink of sleep*, Amrant-hun.
To tip one the wink. *See* to Beckon, *or* beckon to one.
To wink, *v. n.* [shut the eye, *or* play the lid, in a particular manner, so as to convey a hint, &c.] Amrantu (llygad,) taro un amrant ar y llall, llygad-gamma, ysmiccian llygad, amneidio à llygad, *Salm* xxxv. 19. gogan (lledgau) llygad, gwingcio, *vulgo* wingcio. *He winketh his eyes*, Efe a amneidia a'i lygaid, *Diar.* vi. 13. ¶ *You may wink and choose*, [Prov.] Dewis o'r ddwy fach-ddu hŵch; *i. e.* Nid gwaeth (ai ddawr) pa un a gymmerer nâ pha un a adawer.
To wink at, or *upon, one*, [give, *or* tip one the wink] Amrantu (llygad-gamma) ar un, ysmiccian llygad ar un, amneidio (à llygad ar un, &c.—¶ *What do thine eyes wink at?* Ar ba beth yr amneidia dy lygaid? *Job* xv. 12.
To wink [connive] *at*, Esgeuluso, *Act.* xvii. 30. edrych heibio i, *Ecclus.* xxx. 11.
¶ *To wink wantonly* [lasciviously] *at*, or *upon, one.* *See* to Ogle, &c.
Winked, *or* winkt, at. *See* Over-looked; *and* Connived at.
Winker, *s.* Amrantwr, amrentydd; ysmiccwr llygad; gwingciwr, *vulgo* wingciwr.
Winking [twinkling] eyes, Llygaid gwinglyd (ysmiccianllyd.)

Digitized by Google

Winking, *s.* Amrantiad, ysmicciad llygad.
A winking at, Edrychiad heibio i fai *neu'r* cyffelyb.
Winkingly, *ad.* Yn (gan, dan) ysmiccian ei lygaid.
Winner, *s.* Ynnillwr, ynnillydd, ynnilliedydd.
Winning, *part.* Yn (gan, dan) ynnill, &c. ¶ *A winning modesty*, Gwyledd hyfryd-lwys (carueidd-lwys, serchuslan, serchoglan, ynnillgar.)
A winning, *s.* Ynnilliad; ynnill.
A winning by force or *assault*. *See* Expugnation.
To winnow, *v. a.* Nithio; gwyntyllio.
Winnowed, *part. a.* Nithiedig, a nithiwyd, wedi ei nithio, &c.
Winnower, *s.* Nithiwr, (*fem.* nithwraig,) nithydd, nithiedydd.
A winnowing, *s.* Nithiad.
A winnowing-place, *s.* Nithfa, nithle; eisingrug, usion-grug.
Winnowings, *s.* Nithion: usion.
A winnowing-sheet, Nithlen.
Winter, *s.* [one of the four seasons of the year, so called] Gauaf, gauhaf.
Winter- [in Composition] Gauaf-, gauaf. *A winter-house*, Gauaf-dŷ, *Jer.* xxxvi. 22. tŷ gauaf. *A winter apple*, Afal gauaf.—*The winter solstice*, Gorsaf yr haul auaf.—*Winter-quarters*, [for soldiers] Gauafle, (*pl.* gauafleoedd;) gorsaf gauaf: ¶ gauafod (gauaffod.)
To winter, *v. n.* *or* take up one's winter-quarters, [in a place] Cauafu, *Act.* xxvii. 12. *A ship which had wintered in the isle*, Llong yr hon a auafasai yn yr ynys, *Act.* xxviii. 11.
It is winter, Y mae'n auaf; y gauaf ydyw hi. *It was winter*, Y gauaf oedd hi, *Jo.* x. 22.
To winter cattle, Gauafu anifeiliaid, *vulgo* gauafa anifeiliaid.
Winter-cherry. *See* Alkakengi.
To winter-rig *or* winter-fallow, *v. a.* [fallow land in winter] Braenaru tir yn y gauaf, gwneuthur braenar gauaf.
A wintering, *s.* Gauafiad.
Winterish, *a.* Gauaffyd.
Winterly, winter-like, wintery, *or* wintry, *s.* Gauafaidd; gauafol.
Winy, *a.* [having something of the taste and quality of wine] Gwinaidd.
A wipe *or* wiping, *s.* Sychiad; sychfa, ¶ sŷch.
¶ Wipe, *s.* [a dry rub, *or* a touch of reflection upon a person] Sych-rwb, sych-gos; ¶ gair sych (cyrch,) sych-air, cyrch-air; geiriau cyrch (sychion.)
¶ *To give one a wipe.* See ¶ to Rub one up.
¶ Wipe, [a bird so called.] *See* Lapwing.
To wipe, *v. a.* Sychu, *Eccius.* xii. 11.
To wipe clean, Sychu yn llân, glân-sychu.
¶ *To wipe* [cheat] *one of his money*, Twyllo (hudo) un am ei arian.
To wipe off or *away*, Sychu ymaith, *Jo.* x. 11.
To wipe out, [expunge] Dileu, *Neh.* xiii. 14.
Wiped out. *See* Blotted out.
Wiper, *s.* Sychwr, (*fem.* sych-wraig,) sychydd, sychfedydd.
A wiping, *s.* Sychiad.
A wiping-cloth, *s.* Lliain sychu.
Wire, *s.* [metal drawn out into slender threads] Gwifr, edef (edau) fettel, gwirs (*sing.* gwirsen) ¶ *They did beat the gold into thin plates, and cut it into wire*, Gyrrasant yr aarddalennau teneuon, ac a'i torrasant yn edafedd, *Ecs.* xxxix. 3.—*Gold-wire*, Edef aur. *Copper wire*, Edef goppr.
To wire-draw, *v. a.* [draw metal out into wire] Tynnu mettel (aur, arian, &c.) allan yn wirs neu'n edafedd; tynnu'r gwifr.
¶ To wiredraw [spin out *or* prolong.] *See to* Protract, &c.
¶ *To wire-draw one*, [draw something out of one by artful enquiries, &c.] Tynnu (dirwyn) rhyw gyfrinach megis allan o berfedd un; ¶ dirwyn perfedd un.
Wire-drawer, *s.* Gwirsennwr, gwifrwr.
Wiry, *vulgo* wiery: wire, *or* wier- [made of wire: wire-like] A wnaed o wirs neu wifr, gwifrin, ¶ gwirs, gwifr: gwifraidd, gwirsennaidd. *A wire cage*, Cawell gwirs (gwifrin.)
Wisdom, *s.* Doethineb, doethder, callineb, &c.
To wise. *See* to Know.
Wise, *a.* Doeth, call, ffel, synhwyrol, &c. ¶ *Wise men*, or *the wise*, Y doethion. *The wise men of the East*, Doethion y Dwyrain. *A wise master-builder*, Pen-saer celfydd, 1 *Cor.* iii. 10. *And* that it was *a tree to be desired to make one wise*, A'i fod yn bren dymunol i beri deall, *Gen.* iii. 6. *Your worship is exceeding wise*, Nid wyt ti, y maint sydd o lionot, onid doethineb i gyd. *I am not a bit the wiser for you*, Nid wyf fi dippyn gymmhennach (gallach) o'ch plegyd chwi. *As wise as Solomon*, [Prov.] Cyn ddoethed a Selyf ddoeth. *As wise as Waltham's calf*, Cyn ffeled (ffoled) ac Ieuan gyffylog. *A wise man of Gotham*, Hwrdd (maharen) o ddyn.
To grow wise again, Ail synhwyro, dychwelyd i'w bwyll ac i'w iawn ddyall; ¶ dyfod atto ei hun drachefn.
All-wise, Oll-ddoeth, holl-ddoeth.
¶ Wise, *or* guise. *See under* G.
In any wise, Mewn un modd, mewn neb-rhyw fodd; ym mhob modd, ym mhob rhyw fodd; er dim; beth bynnag fo. *I would have you in any wise* [by all means] *to lay the foundation, let him build that will*, Mynnwn i chwi ym mhob modd (er dim, beth bynnag fo) osod y sail, adeiladed y neb a adeilado.
In no wise. *See* in no Case (*under* C.) *and* by no Means, (*under* M.)
In such wise, Yn y cyfryw fodd.
In this wise, Yn y modd hyn, fal (fel) hyn.
Wise-acre, *s.* [a fool that is wise in his own conceit, a cunning fool, &c.] Ffol ffel (ffalst) cadafael; hurthgen; ¶ iólyn.
Wise-hearted, *a.* [wise of, *or* in, heart] Doeth o galon, *Ecs.* xxxi. 6.
Wisely, *ad.* Yn ddoeth, yn gall, yn ffel, &c. ¶ *For they shall wisely consider of his doing.* Canys doeth-ystyriant ei waith ef, *Salm* lxiv. 9. *Charm he never* [ever] *so wisely*, Er cyfarwydded fyddo'r swynwr, *Salm* lviii. 5.
Wise-man. *See* Sage, *s.*—*See also* ¶ Cunning man.
The wise man, ¶ Y doeth, y call, y gŵr doeth (call.)
Wiser, *a.* Doethach, callach, &c. *Are you ever the wiser now?* A ydych chwi ryw-beth (rhyw-yn) yn gallach yn awr?

Digitized by Google

Wish, *s.* Dymuniad, *Job* xxxiii. 6. dymuniant, dymuned, dihewyd, &c.—*According to one's wish.* Wrth ddymuniad (ewyllys) un; wrth wynn un.

To wish, *v. n.* Dymuno, 2 *Cor.* xiii. 9. ewyllysio, *Salm* xl. 14. chwennychu, &c. *I could wish that myself were*—, Mi a ddymunwn fy mod fy hun—, *Rhwf.* ix. 3. *They wished for the day*, Hwy a ddeisyfiasant ei myned hi yn ddydd, *Act.* xxvii. 29. *He wished in himself to die*, Efe a ddeisyfiodd farw o'i einioes, *Jonah* iv. 8. *I wish above all things that thou mayest prosper*, Yr ydwyf yn bennaf dim yn dymuno dy fod yn llwyddo, 3 *Jo.* ii. *I could wish that they were true*, Mynnwn pettai hynny'n wir. *More than heart could wish*, Dros feddwl calon, *Salm* lxxiii. 7.

To wish one evil, Ewyllysio (dymuno) drwg i un, *Salm* xl. 14.

To wish one joy, Llwyddo un, dymuno llawenydd i un.

To wish one well, or *wish well to one*, Dymuno yn dda i un.

To wish rather, Dymuno (deisyfu, dewis) yn hytrach *neu* o flaen peth arall.

Wished, *or* wished for, Dymunedig, a ddymuner *neu* a ddymunir, a ddymunwyd, wedi ei ddymuno.

Fit to be wished for, Addas (gwiw) i'w ddymuno.

Wisher, *s.* Dymunwr, dymunydd, dymunedydd, —*Well-wisher*, Dymunydd (a ddymuno) yn dda i un, &c.

Wishful, *a.* [full of desire] Chwantlawn, blyslawn, chwannog, blysig; hiraethog, hiraethlawn.

Wishfully, *ad.* Yn chwantlawn, yn flyslawn, yn chwannog, &c.

A wishing, *s.* Dymuniad; chwennychiad; deisyfiad.

Wisket. *See* Basket.

Whisp, *s.* [a little bundle, handful, *or* gripe, of straw, &c.] Tusw.

¶ Wisp *or* sty, [a kind of inflammation in the eye-lid, so called] Llefelyn, llefrithen.

¶ Wisp, *s.* [a sort of wreath for carrying a pail, &c. on the head] Torch.

Wist *or* known. *See under* K.

I wist, [knew *or* did know] Gwyddwn, mi (myfi) a wyddwn. *Had I wist*, Pe gwyddaswn. *Neither wist they what to answer him*, Ac ni wyddent beth a attebasant iddo, *Marc* xiv. 40.

Wistful. *See* Pensive, Thoughtful, &c.

